NYPL RESEARCH LIBRARIES
3 3433 08160276 9

1758

C-12
9706

Caledfryn.

ÇOFIANT

CALEDFRYN,

WEDI EI YSGRIFENU GANDDO EF EI HUN:

DAN OLYGIAETH

SCORPION.

YN NGHYDA NODIADAU ARNO

GAN RAI O WYR BLAENAF YR OES.

Dyn cydnerth, llawn o brydferthion,—ydoedd,
O nodau'r hen Frython;
Eon ei fryd, cadarn fron,
Ddiwyg orwych, wedd gwron.

Dyn a'i lond o ffyddlondeb,—ei galon
Giliai rhag pob geudeb;
Dyn oedd na niweidiai neb,
A dyn gonest un gwyneb.

Ond ei yrfa ddaeth i derfyn,—Och! wae!
Mae'n chwith heb Caledfryn!
Galarus fod dysglaerwyn
Angel gwlad yn nghlai y glyn!

HWFA MÔN.

BALA:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN H. EVANS,
YN SWYDDFA'R "CRONICL" A'R "DYDDIADUR ANNIBYNOL."

1877.

THE NEW YORK
PUBLIC LIBRARY
323429B
ASTOR, LENOX AND
TILDEN FOUNDATIONS
R 1945 L

AT Y DARLLENYDD.

Wele GOFIANT CALEDFRYN o'r diwedd wedi gwneud ei ymddangosiad, a phrin y tybiwn fod yn angenrheidiol gwneud un math o esgusawd drós hyny; ond credwn y bydd pawb yn barod i gydnabod fod yn rhwymedig arnom fel cenedl i dalu cymaint a hyn o warogaeth i goffadwriaeth un fu o gymaint o wasanaeth i lenyddiaeth a barddoniaeth ein gwlad, ac un a ennillodd iddo ei hun y safle fwyaf anrhydeddus yn mhlith beirniaid ei oes.

Bwriedid unwaith ddwyn y Cofiant allan yn fuan wedi ei farwolaeth, ond o herwydd rhyw resymau anhysbys i ni, gadawyd ef heb ei gyhoeddi hyd yn bresenol. Y cynllun gwreiddiol oedd cyhoeddi ei holl gyfansoddiadau, ac felly o angenrheidrwydd buasai ei bris allan o gyrhaedd y cyffredin; ac efallai mai hyny fu y prif reswm o'r oediad. Diau mai yr adeg hòno oedd yr un fwyaf manteisiol i'w werthiad; ond yn gymaint a bod ei bris yn awr yn lled isel, a'i fod yn cynnwys detholiad o'i weithiau anghyhoeddedig—mewn rhyddiaeth a barddoniaeth, ac amryw ddarnau argraffedig (y rhai a ddodwyd yn y gyfrol ar gais cyfeillion i'r awdwr), yn nghydag ysgrifau gwerthfawr ar amrywiol nodweddau ei gymeriad, gan brif-feirdd a llenorion enwog, yr ydys yn dra hyderus y rhoddir iddo y derbyniad a deilynga.

Dymunir cydnabod gyda diolchgarwch garedigrwydd y personau hyny a roddasant eu cynnorthwy parod i ddwyn y Cofiant allan mor berffaith ag y mae; ac yn neillduol yr ydym yn rhwymedig iawn i'r Parch. R. Thomas *(Ap Vychan)* am y llafur a gymerodd gyda chywiro gwallau y wasg, yn ychwanegol at yr ysgrifau a welir o'i eiddo yn nghorff y gwaith.

Bwriadem ar y cychwyn gael *steel-engraving* o'r gwrthddrych, fel y gallai yr oes a ddel gael rhyw amgyffrediad pa fath un ydoedd o ran ffurf ei wynebpryd, yn ogystal a'r darluniad a geir o hono o ran diysgogrwydd a phenderfyniad meddwl; ond methasom gyrhaedd yr amcan hwnw. Ond nid oeddym yn foddlon i'r gyfrol ymddangos gerbron y cyhoedd heb ddarlun; felly cytunasom gyda *Photographer* medrus i'w gael yn y dull hwnw, er fod hyny yn gryn ychwanegiad at y draul; a chredwn ein bod wedi llwyddo i gael un lled gywir o hono.

Yn awr cyflwynir y Cofiant i sylw y darllenydd, gyda dymuniad ar iddo fod o fudd ac adeiladaeth iddo.

Y CYHOEDDWR.

Bala, Awst 6*ed*, 1877.

CYNNWYSIAD.

PEN. I.

Tudal.

Nodiadau gan y Golygydd 7

PEN. II.

Rhag-nodiadau gan yr Awdwr .. 17

PEN. III.

Bywgraffiad 23
Ol-nodiadau 72
Tyst-ysgrif o'i ordeiniad 76
Cyhoeddiadau 77

PEN IV.

NODIADAU AR CALEDFRYN:—

Gan Ioan Arfon 79
Gan Hiraethog 87
Gan Ap Vychan 91
Gan S. R. 98

PEN V.

ENGLYNION COFFADWRIAETHOL:—

Gan Hwfa Môn 101
Gan Islwyn 105

PEN. VI.

TRAETHODAU A DARLITHIAU:—

Arddull y Pulpud 107
Cymru a'i Rhagorion 135
Anerchiad a draddodwyd yn Eisteddfod Rhyl, 1868.. 144

PEN VII.

PREGETHAU:—

Pregeth angladdol Williams o'r Wern 149
Dull y byd hwn yn myned heibio .. 168
Pethau mawrion fy Nghyfraith .. 179

PEN. VIII.

FFRAETH-EIRIAU CALEDFRYN:—

Gan HwfaMôn 189
Gan Gwalchmai 192
Gan Dewi Ogwen 198
Gan Ap Vychan 195

PEN. IX.

BARDDONIAETH.

ENGLYNION AMRYWIAETHOL:—

A anfonwyd at gyfaill 218
Anerch D. Francis, Ysw., Trebrithin 220
Anerch y *Dysgedydd*, Rhag. 7, 1821 200
Ar gyflwyniad Beibl i Mr. B. Evans, Bute Road, Caerdydd 218
Ar ol darllen englynion Iolo Morganwg yn y *Byd Cymreig* 200
Babanod Mr. a Mrs. Jones, Gwernllwyn Cottage 219
Bedd y Bardd.—Ionawr, 1869 199
Brutus.—GwrIeuanc.. 201
Caledfryn i'w wyr 219

Tudal.

Caledfryn yn 60 oed, Chwef. 6, 1861 204
Cof-golofn Goronwy Ddu—Rhagfarn 203
Cwympiad y dail.. 209
Dadmeriad 212
Eira yn Mawrth, 1860 205
Eira yn Ionawr, 1868.. 206
Y Gwanwyn 206
Eira yn Mawrth, 1867 206
E. Jones, Ysw., Birmingham 218
Elen Mary yn bum' mlwydd oed .. 219
Eliza Catherine, merch y Parch. T. Reberts (*Scorpion*), Llanrwst .. 216
Englynion Cynnadleddawl 217
Herbert Caledfryn Williams 217
I dair merch Mr. Edward Jones, Post Office, Rhuthin 216
I dy Mynyddog 200
I ddarlun Islwyn, gan Ap Caledfryn 209
I lyfr y Parch. Lewis Powell 208
I Miss Sarah Elizabeth Evans, merch y Parch. E. H. Evans, Caernarfon 218
I Mr. T. Thomas, Bronydyffryn, ar enedigaeth ei fab 219
Ivor Bowen, mebyn y Parch. J. B. Jones, B.A. 220
John Penry, maban y Parch. H. Oliver, B.A. 216
John Penry Davies Rowlands, yn dri mis oed 218
J. R.—Gohebydd, Llundain 215
Llewelyn Hughes, mab R. Hughes, Ysw., Corris 220
Llyfrgell Dewi Haran.. 209
Miss Annie Rees, mabwysiedig gan Mr. a Mrs. Williams, Rumney .. 220
Miss Sarah, merch y Parch. R. Thomas, Hanover 219
Mr. William Prothero 218
Niwl Llundain 209
Prydnawn clir yn Rhagfyr, 1866 .. 207
Siomedigaeth am yr wydd 201
"Swn Addoli," gan y Parch. D. Richards, Llanelly, Brycheiniog.. 212
Symudiad Hwfa Mon i Lundain .. 211
Taith i Lundain, Tach. 28, 1867 .. 209
Taith o Ddinbych i Bentre-llyncymer yn 1827 208
Wrth gadeirio Ap Vychan yn Eisteddfod Rhyl, 1868 200
Y Ceiliog.—Y Gog 203
Y Daran.. 199
Y *Dydd*.—I Dalhaiarn yn gwella .. 214
Y dydd hwyaf, 1867.—Gwraig 208
Y dydd byraf, 1865 210
Y dyn hunanol 219
Y George Hotel, ger Menai Bridge.. 202
Y Gymalwst (*Gout*).—Y gwlaw .. 208
Ymadawiad y Parch. S. Roberts, M.A. Llanbrynmair, Mai, 1857. 216
Ymweliad y Bardd a Mr. Williams "Carw Coch," Aberdar 220
Ymweliad a Phontygof, Hyd. 20, 1866 219
Y Nadolig, 1866 209

	Tudal.
Y Parch. W. Griffith, Caergybi, yn cyrhaedd ei 61 oed, Awst 12, 1862	215
Yr awel, Ebrill 2, 1867	207
Y tywydd, Gorphenaf 16, 1868	211
Englynion Priodasol:—	
Captain Jenner, & Miss Williams, Dyffryn ffrwd	222
D. Ll. Lloyd, Ysw., Plasmeini	221
Derfel Meirion	231
Etifedd Dyffryn ffrwd, Meh. 1, 1868	222
J. H. Jones, Ysw., Aberdyfi	222
Mr. D. Morgan, Pantdrain, Groeswen	221
Parch. J. Ll. James, Eglwys newydd	221
Priodas Islwyn	231
Englynion Marwnadol:—	
Alaw Goch.—Eben Fardd	231
Anne Jenkins	246
Baban Mr. T. Thomas, Bron dyffryn	240
Colli Plentyn	247
Elizabeth Elen, merch y Parch. D. Jones, B.A.	241
Evan Evans, Ysw., Caerffili	238
Glan Alun	230
Golyddan	232
Hannah Stephen.—Er cof am Elen	243
Iorwerth Glan Aled	238
I'r Parch. H. Oliver, B.A., a'i briod	247
John Jones, Ysw., Llandain	244
Lewis Lloyd, Yw., Rhyl	237
Mab y Parch. E. C. Jenkins, Salem	244
Merch Mr. W. Coslett, Groes Wen	242
Meurig Ebrill	233
Mr. J. Jones, Argraffydd, Llanrwst	235
Mr. W. Griffith	238
Mr. John Anwyl, Lawnt, Dinbych	239
Mr. W. Thomas, Gelli, Groes Wen	240
Mr. D. Thomas, Bethesda	241
Mr. J. Davies, Victoria St., Merthyr	242
Mr. John Evans, Caernarfon	243
Mrs. Griffiths, Llangollen	237
Mrs. Anne Thomas, Nantgarw	239
Mrs. Owen, Soar.—Mrs. J. Mathews	242
Mrs. Sarah Prothero	245
Mrs. S. Thomas, Ty'nywern	246
Plant Mr. T. Griffiths, Caernarfon	238
Plant Mr. Morris Griffiths	239
Pum' Bardd Eifionydd	235
Sion Wyn o Eifion	234
Tegai	239
Thomas Williams, Waun cledr	247
Y Parch. Cadwaladr Jones, Dolgellau	233
Y Parch. Michael Jones	234
Y Parch. Hugh Pugh, Mostyn	224
Y Parch. J. Richards, Pontypridd	237
Y Parch. Owen Owens, Rhesycae	228
Y Parch. Mr. Leigh, Eglwys ilan	238
Y Parch. Isaac Morgan Harries	229
Y Parch. John Breese	239
Y Parch. D. Jones, Ton Gwyrddlas	229
Y diweddar O. O. Roberts, Ysw.	248
Englynion Beddargraffiadol:—	
Ar fedd mam a'i phlant	253
Ar fedd merch ieuanc.—Arall	253
Ar fedd baban.—Arall	253
Bardd.—Dwy efeilles.—Gwraig	252
Bardd Ysgeifiog	252
Beddargraff	249
Captain Roberts, Caernarfon	253
Dyn ieuanc.—Y bedd	250
Gwr o Gymru a fu farw yn Amerig	250
Mab Mr. Edward Williams, Glanybad	251
Mam y Parch. D. Richards, Caerffili	250
Mr. Peter Evans, Caernarfon	250
Mr. William Edwards, Ty'nypark	251
Mr. E. Lloyd, Dolgellau.—Tegai	251
Mr. John Evans, Caernarfon	251
Mrs. Mary Griffiths	250
Mrs. Thomas, Caernarfon	251
Mrs. Thomas, Ty'nywern, a'i phlant	252
Parch. T. Pierce, Le'rpwl	252
Y Cymro Gwyn	253
Caneuon Rhyddion:—	
Anerchiad yr awdwr i'w fereh ar ei genedigaeth, Awst 29, 1865	272
Arwyddion Henaint	277
Cof-golofn Rowlands, Llangeitho	278
Erfyniad am arweiniad	274
Gweddw y milwr.—Y milwr	269
Llinellau ar farwolaeth dau blentyn Mr. a Mrs. Smith, Wallace newydd	266
Myfyrdod yr awdwr am dano ei hun	284
Pennillion a draddodwyd yn Ninbych	281
Pennillion ar y bedd	267
Pryf y bedd	268
Rhyfel	271
Teimlad yr awdwr pan yn clywed am ymadawiad ei gyfeillion	269
Tywysog Cymru yn gadeirydd yn nghyfarfod yr Ysgol Rad Gymreig Mawrth 1, 1867	276
The Desert Flower.—Cyfleithiad	266
Y Bedd	269
Y Cyfryngwr	276
Yr Enlliwr	275
Y Friallen yn Ionawr, 1868	273
Yr ail ran	279
Y Friallen gyntaf, Chwef. 20, 1867	280
Yr ail ran	281
Yr angladd	255
Yr Eos	273
Ymweliad a bedd Iesuan Gwynedd, Ebrill 8, 1868	254
Y milwr Cristionogol	268
Yr olygfa yn yr heol	262
Emynau:—	
Buddugoliaeth Crist	295
Cydnabyddiaeth pechadur	294
Daeth yr awr.—Yr ail ran	292
Effeithiau marwolaeth Crist	295
Hyder yn Nghrist	293
Marwolaeth Crist.—Y saint yn y nef	296
Rhyfeddod trefn gras	294
"Yn y byd gorthrymder a geweh"	291
Yr Eiriolwr—Iesu Grist y Cyfiawn	296
PEN. X.	
Pregeth Angladdol gan Gwalchmai	297

COFIANT CALEDFRYN.

PENNOD I.

NODIADAU GAN Y GOLYGYDD.

Pan fyddoch wedi eich neillduo gan ragluniaeth i ddwyn oddiamgylch ryw waith mawr yn eich oes, gwnewch eich meddwl i fyny i drefnu eich tŷ pan welwch y gwaith hwnw ar gael ei ddwyn i fuddugoliaeth; o herwydd i ychydig y mae y fraint wedi ei gadael i fyned i mewn eu hunain i'r etifeddiaeth ag y maent wedi treulio eu hoes i lafurio am dani i eraill. Yn ngolwg y wlad, heb fyned i mewn iddi ei hun, y bu farw Moses, wedi bod am ddeugain mlynedd yn dysgwyl trwy ffydd am gael pabellu o fewn ei therfynau: "Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll, heb dderbyn yr addewidion, eithr o bell eu gweled hwynt."

Mae trefnwr mawr ein hamgylchiadau, wedi datguddio trwy ffeithiau dirif, nad iddynt hwy eu hunain, ond i ni, y maent yn gweini yn y pethau y maent yn llafurio am danynt; ac nad i'w gwasanaethu, ond i wasanaethu, y

maent wedi cael eu danfon. A'i lyfr yn ei freichiau, yn llaith o'r wasg, y bu farw Copernicus; ac ar noswaith ailddarlleniad ysgrif y Dadgysylltiad—dymuniad mawr ei fywyd, a thros yr hon y llafuriodd ar hyd ei oes mor egniol—y bu farw CALEDFRYN!

Efallai na bu enw prif-fardd, llenor, a phregethwr erioed trwy Gymru yn fwy hysbys na'r eiddo ef; ac yr oedd yn cael ei gydnabod gan laweroedd fel safon, am gywirdeb iaith, coethder chwaeth, ac arddull traddodiad. Mae y ffaith hon yn cynnwys beirniadaeth ffafriol ynddi ei hun, ac yn gosod cryfder a dilysrwydd ei athrylith tu hwnt i ammheuaeth. Mae yn feirniadaeth deg a naturiol, a pherffaith rydd oddiwrth y cariad neu y cas y mae beirniadaeth bersonol bron bob amser yn ddarostyngedig iddynt—y mae yn dân a brawf waith pawb pa fath ydyw. Os doniau neb a fo yn ddiledryw, gwaethaf i'r byd eu lladd; os doniau neb a fo yn ffugiol, gwaethaf i'r byd eu cadw yn fyw.

Ganwyd ef yn Ninbych tua'r flwyddyn 1801. Enw ei dad oedd Thomas Williams, gwehydd wrth ei alwedigaeth, ac yn cadw masnachdy yn yr un dref. Anfonwyd ef i'r ysgol yn bedair oed, at y Parch. Thomas Jones (wedi hyny o Foelfre), a bu yno hyd yn ddeg oed. Yr hyn a dynodd ei sylw gyntaf at farddoniaeth oedd emynau Pantycelyn a Maesyplwm, yn nghyda'r llinellau a gyfarfyddwn â hwynt weithiau yn Ngeiriadur Mr. Charles. Ni chafodd gefnogaeth oddiwrth gar na chyfaill i feithrin y duedd oedd ynddo, nac i'w gefnogi wedi dechreu o hono ei meithrin ei hun. Yr oedd Robert Owen y *nailor* yn fardd naturiol, ac yn byw yn yr un dref; ac ato ef y byddai efe ac amryw wŷr ieuainc eraill yn ymgynnull yn awr ac eilwaith am hyfforddiant.

lai efe, "oedd y goreu o ddigon." ymtheg oed cyn gwneuthur dim ar rhagddo yn gyflym yn ei yrfa, a fardd, wrth fraint a defawd Ynys l Caernarfon, yn y flwyddyn 1821. on wedi hyn ar y testyn, "Ymwel- n;" ac o'r pedwar cyfansoddiad a n Dafydd Ddu, yr oedd ei eiddo ef isteddfodol gyntaf a ennillodd oedd ' Enfys," yn Eisteddfod Gwent:—

Lilys a ddyd—iawn arwydd
g i'r hollfyd,
nrhyw ennyd
i orchuddio'r byd.

ol, gan ŵr ieuanc un-ar-hugain oed, yr enfys ynddi ei hun, ond fel y nod sydd rhwng Duw â'r ddaear; Williams, William, 1801-1869 can, yn ddiammheu, o'i rhoddiad yn dig wedi hyn, ymgystadleuodd am ac er na bu yn llwyddianus yn y yn mhob un o'r awdlau ddarnau o'r yn sicrhau fod yno fardd wedi ei i eistedd yn y lle mwyaf anrhyd- eddus o fewn ei chôr. Cyhoeddodd tua'r pryd hyn gyfrol o'i waith, dan yr enw "Grawn Awen;" yr hon a ystyrid fel ysgub blaenffrwyth, nad ydyw yn annheilwng o hono wedi cyrhaedd o'i awen i'w chyflawn addfedrwydd. Nid ydym yn cael iddo ganu un darn neillduol wedi hyn hyd Eisteddfod Beaumaris, yn y flwyddyn 1832, pryd yr ennill-

odd y wobr o ugain punt, a'r tlws cadeiriol, am yr awdl orau ar ddrylliad yr agerddlong "*Rothsey Castle;*" ac hefyd dlws cydroddedig gan y Dduces o Kent a'r Dywysoges Victoria, yn bresenol Brenhines Prydain Fawr. Yr oedd prif feirdd y Dywysogaeth yn ymdrechu gydag ef y tro hwn; ond daeth allan yn orfoleddus gyda garlantau buddugoliaeth oddeutu ei arleisiau, heb fod ond un dyb am gyfiawnder y ddedfryd. Sefydlodd y fuddugoliaeth hon ei gymeriad ar unwaith fel un o'r beirdd mwyaf a galluocaf a feddai ein gwlad; a rhoddodd brawf diymwad yn mhob cyfansoddiad dilynol o'i eiddo ei fod yn meddianu yr un ysprydoliaeth, a'r un medr celfyddydol, mewn iaith a chynghanedd, ag oedd wedi ei ddyrchafu i'r orsedd ar ddydd ymweliad ei Mawrhydi ag Ynys Mon. Ac os gofyn neb am brawf, yr ydym yn ei gyfeirio at Awdl benigamp yr "Adgyfodiad."

Nis gellir tynu gwell darlun o CALEDFRYN na'r un y mae efe wedi ei dynu o hono ei hun yn ei Englynion a'i Awdlau. Os mynir gwybod pa fath lygad oedd ganddo i weled anian, a pha fath galon oedd ganddo i deimlo anian, a pha fath lewder oedd ganddo i feiddio cydfyned â hi, darllener y rhai hyn. Dyweder a fyner am danynt, gan gariad neu gan gas, dyna hwynt yn ffaith o'n blaen, yn profi eu hunain fel pig-dyrau marmor, yn orchestwaith godidog, heb angen clod, nac arswyd beirniadaeth. Y maent yn cynnwys crebwyll a theimlad o'r radd uchaf, a'r rhai hyny wedi eu gwisgo gan bencampwr yn yr iaith a'r ffugyrau mwyaf dillyn. Y mae coethder yr hualau ag sydd i lawer yn wendid, iddo ef yn nerth, ac yn addurno ei feddyliau â'r swyn mwyaf effeithiol. Y maent iddo ef, fel offeryn cerdd

yn llaw Rhïan, yr hwn a ymddarostwng i awgrym symlaf ei bys, fel y mae yn gallu

"Gwneud gwenad ei ganiad gu,
Yn odliad, fel anadlu;"

a phrofi ei hun, wrth reol Pedr Fardd, yn un o frenhinol offeiriadaeth yr awen; sef,

"Nad oes fawr, na dwys fesur,
O un baich i awen bur."

Nid yw un amser yn ymgeisio at athronyddu, nac ymguddio yn mhlith geiriau ammwysol (fel Adda yn mhlith y coed, dan deimlad o noethder a thlodi). Y mae awyr glir yn fwy dymunol ganddo ef na thywyllwch i ganu a siarad; a gwell ganddo wlad hanner y dydd na hanner y nos, a chymdeithas dinasyddion o'r un dafodiaith na chymdeithas estroniaid o iaith galed o'r fath na ddeallir. Ni chyfarfyddir byth ag ef yn ardaloedd Cimeria, nac yn nhir cysgod angau heb drefn, lle y mae y goleuni fel y tywyllwch. Os dygwydd i chwi weithiau ei golli o'r golwg, i fyny tua'r haul y mae i chwi edrych am dano, ac nid i wared tua dyfnder y ddaear. Y mae bob amser yn deall pa beth y mae yn ei gylch, mewn rhyddiaeth a chynghanedd; a thrwy hyny y mae pawb arall yn ei ddeall. Nid oes eisieu i chwi sefyll i ofyn pa beth y mae yn ceisio ei osod allan, o ran iaith na meddwl, o herwydd y mae y naill a'r llall o'r fath fel nas gellid ei gamgymeryd. Yr oedd yn credu yn ddiffuant yn yr athrawiaeth nad oes dim ond y gwir syml yn wir aruchel; a dyna y nôd oedd ganddo bob amser i gyrchu ato. Ond y mae yr athrawiaeth hon, ag oedd iddo ef yn safon aruchel-edd, yn nhyb mân feirniaid, yn gyfeiliornad; canys ni wel-

ant y mawr, ond yn yr anferth a'r afrosgo, tra bydd y symledd a chyfartaledd y cyfansoddiad mwyaf ardderchog yn ei ddarostwng i blith y pethau mwyaf cyffredin. Yr un fath a chyfaill i ni unwaith a aeth i Lynlleifiad i weled cawr oedd yn cael ei arddangos mewn ystafell gerllaw; ond wedi myned o hono i mewn, ac edrych o'i ddeutu, methai a chanfod neb yn ateb i'r desgrifiad ag yr oedd efe wedi dyfod yno i'w weled. Yr oedd dyn yn nghwr uchaf yr ystafell yn ymrodio yn ol ac yn mlaen; ond nid oedd dim byd yn hynod yn perthyn i hwnw. Ond pa le yr oedd mab ANAC? —y dyn oedd o'i ysgwydd i fyny yn uwch na'r holl bobl. Aeth at y dyn oedd yn nghwr eithaf yr ystafell, i'r dyben i ofyn iddo; ond erbyn dyfod ato, a sefyll yn ei ymyl, yr oedd hyny yn afreidiol—yr oedd y cwestiwn wedi cael ei ateb cyn iddo gael ei ofyn. Yr oedd y dyn ag oedd fynyd yn ol heb ddim anghyffredin yn nglyn a'i ddynsawd, yn awr yn sefyll o'i flaen fel cynnrychiolydd teilwng o GOLIATH; ond mor luniaidd a chydbwys oedd ei holl aelodau, fel, ar yr olwg gyntaf, yr oedd yn edrych yn hollol fel gŵr arall. Dyma yn union fel yr ymddengys CALEDFRYN yn ei awdlau. Y mae pobpeth ynddynt mor weddus, a chydbwys, a rhydd, fel nad oes ar y cyntaf un argraff neillduol o fawredd ar eich meddwl yn cael ei adael; ond er hyn oll, y mae rhan fawr o awdlau gwobrwyedig ein Heisteddfodau yn ymddangos yn eu hymyl yn amrwd ac anghelfydd.

Er cyhoeddi o CALEDFRYN gymaint o ganiadau a gweithiau eraill yn nglyn â barddoniaeth a neb yn ei oes, oddieithr Hiraethog, ychydig mewn cymhariaeth y mae wedi ei gyhoeddi ar dduwinyddiaeth—yn athrawiaethol nac ymarferol, oddieithr un bregeth ar "Draddodiadau yr Hynafiaid;"

ac un ar athrylith Williams o'r Wern; ac un arall yn Saesoneg ar "Gwell yw ei marsiandïaeth hi na marsiandïaeth o arian," yr hon a adolygwyd gan y Dr. Vaughan, os ydym yn cofio yn dda, yn y *British Quarterly Review*, ac am yr hon y dywed fod Mr. Williams wedi bod yn gynnil yn ei ddefnydd o eiriau, ond yn hael yn ei ddefnydd o feddyliau. Y mae yn mhob rhan-ymadrodd brawf o feddwl gorlawn o ddrychfeddyliau, ac un yn meddu y gallu i'w gwisgo, a'u dodi yn nghyd wrth eu gilydd, fel ag i fyned i mewn i'r galon. Ni cheir ynddi un ymdrech a gorlafur mewn dim. Y mae un frawddeg yn gwasanaethu i osod allan wirionedd yr athrawiaeth mor fyw, yr hyn, gyda'r dull meistrolgar gyda pha un y mae yn cael ei gosod allan, sydd yn cyrhaedd dylanwad llawn ac uniongyrchol. Y mae y gallu hwn sydd ynddi, a'r profion ysgrythyrol, a newydd-deb y meddyliau, yn nghyda phertrwydd ei brawddegau, yn rhoddi iddi nerth ag oedd yn gwneuthur y traddodiad o honi yn anwrthwynebol. I'r perwyl hwn y llefarai y Dr.; ac yr ydym yn dweyd yn hyf nad oedd un beirniad mwy galluog na mwy gonest yn mhlith yr Ymneillduwyr: ac yr ydym yr un mor hyf yn dweyd fod canmoliaeth y beirniad lawer uwchlaw yr hyn yr ydys yma wedi ei draethu.

Yr ydym yn tybied erbyn hyn fod hynodion CALEDFRYN fel dyn meddylgar ac ymadroddus yn eithaf eglur, ac nas gall lai na bod o enw ac anrhydedd i'w gydgenedl, yn gystal ag i'r enwad y bu yn llafurio yn eu plith. Ond yr oedd CALEDFRYN gymaint yn y pulpud ag ar bapyr—yn nghyhoeddus gerbron y lluaws, ag yn y dirgel yn ei fyfyrgell. Yr oedd anhebgorion areithydd ynddo yn cydgyfarfod. Yr oedd ei lais yn soniarus, ei feddyliau yn dryloyw, a'r

ystum yn weddus, ac yn gallu cyflwyno eneiniad ei deimlad i bob peth a lefarai. Gallech fod wrth eich bodd yn gwrandaw arno yn dweyd y peth mwyaf cyffredin, er mwyn y swyn oedd yn ei arddull. Yr oedd yn hyf a hunanfeddianol fel un hollol ymwybodol o'i nerth; a'i lais a'i eiriau iddo wedi eu hollol ddarostwng, ac yn gwrandaw ar lais y geilwad. Yr oedd yn siarad mor hyglyw, mor goeth ac awdurdodol, fel nad oedd genych mo'r help ei fod yn cael argraff arnoch, ac yn eich cario i'w ganlyn heb yn wybod i chwi eich hun. Byddai yr ymadroddion yn aml yn galed; ond ni byddem er hyny yn teimlo awydd i ddywedyd, Pwy a ddichon wrando arno? Yr oedd yn berffaith feistr arno ei hun ac ar ei fater, ac yr oedd yn gwybod hyny; ac fel meistr yr oedd yn cyfodi gerbron y gynnulleidfa fawr, ac yn cael gwrandawiad ganddi. Byddai ei ragymadrodd yn gyffredin yn fyr ac i'r pwrpas, ac yn arwain yn uniongyrchol i'r mater oedd i fod dan sylw. Byddai y dosraniad yn syml a naturiol, a'r cymhwysiad yn danllyd ac angherddol. Yr ydym yn cofio gwrandaw arno unwaith yn diweddgloi pregeth ar "Ymweliad Duw â'r ddaear yn y dydd diweddaf," pryd y teimlem eiriau y Salmydd, "fod Duw yn ofnadwy yn nghynnulleidfa y saint," yn fwy byw nag erioed. Nid oeddym ond lled ieuanc ar y pryd; ond yr ydym yn cofio yn dda am ddarlleniad cyffrous o rwymau y greadigaeth yn ymddryllio—y bydoedd yn ymguro y naill yn erbyn y llall, wedi colli adnabod ar eu gilydd—rhyferthwy wedi ymgodi "uwch dyfroedd aberoedd y byd"—a'r mellt fforchog yn cribo mwng yr ystorm, tra yr oedd yr annuwiol, wedi ei ddal â dychryn Duw, yn llewygu gan ofn. Wrth gwrs, nid ydyw ein hadgofion toredig

ni yn gosod allan ddim o'r cysondeb, a'r grym, a'r effeithiau oedd yn cydfyned â'r fath ddarluniad ofnadwy ar y pryd; ac nid ydym yn tybied y gallasai y pregethwr ei hun wneuthur hyny, yn gymaint ag mai rhyw gynhyrfiad santaidd a ymddangosai wedi dyfod drosto, am yr hwn nas gallasai roddi un cyfrif.

Ystyrid ef gan rai yn rhy gyffredin ac anwreiddiol. Ond y mae hyn i'w farnu wrth y safon a gymerir i fesur gwreiddioldeb yn ei ol. Gwreiddioldeb gan rai yw gosodiadau na bydd modd eu profi, rhesymau na bydd modd i'w deall, a chasgliadau na ŵyr neb o bà le y maent yn dyfod, nac i ba le y maent yn myned; a'r cyfan wedi eu cylymu wrth gyrn —*Am hyny—O herwydd—O ganlyniad*—ac *Yna*. Gwreiddioldeb gan eraill ydyw cymylau a thywyllwch, neu unrhyw beth trwy ba un y gellwch fod yn anweledig. Yr un fath ag y dywedodd Robert Hall am Madam D. Stail, ei bod bob amser o'r golwg: ond nid am ei bod yn ehedeg yn uchel, ond am ei bod yn ehedeg mewn niwl. Yn yr ystyr yma, bu gwlad yr Aifft y fwyaf wreiddiol yn y byd am dridiau; ac y mae gwlad arall heb fod yn mhell ag y mae gwreiddioldeb ynddi yn cartrefu. Ond os gall gwreiddioldeb drigo mewn symledd, ac mewn cymhwysiad newydd o hen gymhariaethau, yna, methwn weled ond ychydig o rym yn y cyhuddiad. Ond os wrth wreiddioldeb y meddylir amddifadrwydd o athroniaeth arddansoddol, yr ydym ar unwaith yn addef ei gywirdeb; canys fel bardd, ac nid fel athronydd, y mae ei duedd i edrych ar bob pwnc y mae wedi bod yn ymdrin ag ef.

Yr ydym yn awr yn cyflwyno yr Ol-weithiau hyn o weddillion Barddonol a Rhyddieithol CALEDFRYN i ofal a

chadwraeth gysegredig y genedl, gan hyderu y rhoddir iddynt bob derbyniad fel cynnyrchion aeddfed ac uchelryw un o'r meibion mwyaf athrylithgar a gwladgarol a fagwyd ganddi yn y canrif presenol; ac un y bydd i'w Awdlau godidog, a'i Feirniadaethau pur, fod yn addurn i'w llenyddiaeth yn yr oesau a ddel, ac yn esiamplau i'r meibion a fegir o iaith a chwaeth glassurol. Ond pa dderbyniad bynag a welir yn dda ar hyn o bryd ei roddi i'r Ol-weithiau hyn, y mae yn gwbl sicr genym am yr awdwr ei hun ei fod wedi ei dynghedu i fyw byth yn y dylanwad y mae efe eisoes wedi ei gario ar farddoniaeth ei wlad, er ei phuro oddiwrth y geiriau llanw oedd yn ei hanurddo, a'r chwaeth isel oedd yn ei darostwng.

Gyda golwg ar y Bywgraffiad, ysgrifenwyd ef gan yr awdwr ei hun hyd o fewn ychydig flynyddoedd i'w farwolaeth, yr hyn ddiffyg sydd wedi ei wneud i fyny gan Mr. Prothero o'r Groes Wen. Y mae yn weddus crybwyll fod y Cofiant wedi ei ysgrifenu gan yr awdwr ar wahanol adegau, ac ar wahanol leni, a'r rhai hyn weithiau heb eu cysylltu na'u rhif-nodi yn rheolaidd, fel y mae lle i gasglu nad yw yr hyn a gyhoeddir yn awr fel Cofiant, ond math o gofnodion, o ba rai yr amcanai yr awdwr wneuthur Cofiant trefnus ac urddasol pe nas lluddiasid ef gan angeu. Cafwyd anhawsder nid bychan dan yr amgylchiadau hyn i gysylltu gwahanol ranau y Cofiant fel ag i wneud cyfanwaith teg allan o honynt; a pha anmherffeithrwydd bynag sydd ynddo gyda golwg ar hyn, nid oes genym ond dywedyd ein bod wedi ei gyfanu yn y modd goreu ag a allem o'r defnyddiau oedd ini wedi eu gadael.

PENNOD II.

RHAG-NODIADAU GAN YR AWDWR.

Nid oes nemawr fater ag y mae yr anwybodus a'r difoes yn ymdrafferthu mwy yn ei gylch na holi yn nghylch y modd y cafodd dyn arall fyddo mewn sylw ei ddwyn i fyny. Try bob carreg yn ei gyrhaedd i gael allan y ffaith hon, fel pe byddai o ryw elw mawr iddo. Ac y mae rhai a gafodd ychydig o godiad wedi bod yn gwneud cryn ymffrost o'u tlodi, ac o dlodi rhai o'u cydnabyddiaeth fyddont wedi dyfod i sylw.

Wrth edrych yn fanwl, ychydig o wahaniaeth a welwn rhwng gwreiddyn ein beirdd a'n pregethwyr. Y maent oll wedi hanu o'r dosbarth gweithiol; oblegid gweithwyr yw pawb sydd heb fodd i fyw heb fod yn ngafael â rhyw orchwyl, pa un bynag a fyddont o dan enw amaethwyr neu o dan enw crefftwyr; ond y mae ambell grefft neu alwedigaeth yn dwyn mwy o elw i fewn na'r llall i'r neb a'i dilyno.

Ni feddwn yn Nghymru yn bregethwr neb uwch na mab i amaethwr, yr hwn sydd yr un peth â'r gweithiwr o fesur y dydd ar dyddyn ei dad, os na fedd fodd i ddal tir ei hunan, ac i beidio gweithio â'i ddwylaw; oddigerth ambell

fasnachwr, neu fab i fasnachwr. Y mae pawb oll wedi hanu o'r un gwreiddyn; ond fod ambell un wedi cael ei fagu yn dynerach ac mewn mwy o lawnder na'r llall. Nid ydyw yn un gwarth i ddyn ddyfod i fyny o deulu dinod; ac ni fyddai raid i ddynion mursenaidd byth fyned i drafferth i geisio celu eu hach na'u gwreiddyn, na lle eu genedigaeth: ond ni ddylid defnyddio amgylchiadau fel hyn er ceisio iselu dynion fyddont wedi gweithio eu ffordd drwy anhawsderau i sefyllfa o enwogrwydd.

Pa warth i Christmas Evans ei fod wedi arfer trin y bâl a'r gaib yn nyddiau ei ieuenctyd, cyn i'w enaid mawr gael ei ddadblygu? Pa warth i William Williams o'r Wern ei fod wedi bod yn cario y llif a'r fwyall ar ei ysgwydd yn y Ganllwyd a manau eraill? Pa warth i John Elias ei fod wedi bod yn lluchio'r wenol yn more ei oes, pan oedd yn fachgenyn ar aelwyd ei daid, ac yn laslanc yn nhŷ Griffith Jones o Leyn, yr hwn a ddywedai, "fod Sion wedi myned yn well na'i feistr?" Nid ydoedd Thomas Charles ond mab i amaethwr; nac Andrew Fuller ond gweithiwr ar y tyddyn gyda'i dad; a'r un peth fuasai Doctor Edward Williams, Glan Clwyd, am a wyddom ni, oni buasai fod gan ei dad fodd i'w gadw yn yr ysgol yn ddyn ieuanc, ac oni bai ei fod wedi ei fwriadu i'r offeiriadaeth. Gwyddai Ieuan Glan Geirionydd beth oedd dilyn gwedd ei dad, a chadw ysgol ddyddiol; gwyddai Tegid pa beth oedd gwau hosanau, a rhedeg yn ei esgidiau coed ar hyd glan llyn Tegid; gwyddai Gwallter Mechain beth

oedd gwneuthur a chylchu buddai; a gwyddai Dafydd Ddu beth oedd

"Dwys barhau i ganu a gwau
Tra daliai oriau'r dydd;"

ac ni wyddai Dewi Wyn, na R. ab Gwilym Ddu, ond am orchwylion gweithwyr ar y tyddyn; ac y mae yn debyg eu bod wedi gweithio yn more eu hoes.

Y mae rhywbeth yn rhyfedd yn nosbarthiad rhoddion rhagluniaeth. Anfynych iawn y mae athrylith ac arian wedi ymgyfarfod yn yr un man. Y mae dynion arianog yn gyffredin y dynion gwanaf eu galluoedd o bawb, oddigerth yn y wybodaeth am y ffordd i dyru golud. Y mae rhagluniaeth fel pe byddai yn dewis rhoddi athrylith i un, ac arian i'r llall; ac y mae yn fwy na thebyg pe buasai wedi rhoddi llawer o arian ac o esmwythfyd i lawer o'n gwŷr talentog, y buasai y cyfryw wedi cael eu dal gan ddiogi a difaterwch, fel yr ymddifadasid ni o'u cynnyrchion meddyliol. Er cael eglurhad ar hyn, ystyrier leied o waith a wnaed gan Dewi Wyn, a Robert ab Gwilym Ddu—y ddau a gafodd y byd esmwythaf, oddigerth Dafydd Ionawr, o neb o'r awdwyr Cymreig. Nid ydyw y ddwy gyfrol sydd ar glawr o'u gweithion, ond megys dim mewn cymhariaeth i waith awdwyr eraill, llai eu manteision a'u cyfleusderau nag oeddynt hwy. Y mae yn ddigon tebygol pe buasai Dewi Wyn yn gorfod dilyn yr alwedigaeth a ddysgodd, sef trin tir, a thrin anifeiliaid, â'i ddwylaw ei hun, ac heb ganddo ddim ond llafur ei ewinedd i ddibynu arno, y cawsem hel-

aethrwydd o gynnyrchion na freuddwydiasom erioed am danynt. Y mae yr un duedd mewn esmwythfyd ag sydd yn esgid menywod China, sef, attal cynnydd; ac y mae yr un duedd yn esmwythfyd yr Eglwys Wladol hefyd. Cyn myned yn offeiriad, pan yn gweithio esgidiau yn y Wyddgrug, a chyn myned yn Beriglor, y cafwyd yr olwg mwyaf gobeithiol ar Blackwell a welwyd arno byth wedi hyny.

Nid ydym ni yn gweled unrhyw anghymhwysder mewn i ddyn son am ei wreiddyn, a'r dull y cafodd ei ddwyn i fyny, os ydyw yn dewis, ar ol myned i'r weinidogaeth; ond yr ydym yn ffaelu gwybod pa les sydd yn nglyn â hyny, canys nid fel crefftwr na gweithiwr y mae efe yn ymaflyd yn ei swydd, ond fel efengylwr: ac os oes tuedd mewn bod yn gyfarwydd â dull dygiad dyn i fyny, yn enwedig os bydd wedi cael ei fagu yn dlawd, i attal iddo gael "anrhydedd yn ei wlad ei hun," onid oes tuedd mewn son byth ac yn dragywydd pa beth a fu y dyn, cyn dechreu pregethu, i'w dynu i lawr i'r un gwastadedd (*level*) â gweithiwr, a thrwy hyny i beri i'w ddylanwad leihau? Onid oes gwir yn y gair, "Familiarity breeds contempt?"

Nid ydys wrth wneuthur y sylwadau hyn yn golygu fod angen am i'r dyn ymdrechu cuddio ei wreiddyn, pan fyddo achos yn galw am ei ddwyn i'r golwg; ond yr ydys wedi hen ffieiddio yr ymyraeth di ben draw sy mewn dynion â gwreiddiau ac â tharddiadau pobl eraill, a'r gofal mawr y maent yn gymeryd i gelu eu gwreiddiau a'u perthynasau

eu hunain. Yr oedd Doctor Johnson yn dweyd am un o'i gydnabyddiaeth:—"Ni fyddwch chwi byth yn agor eich genau ond gyda'r bwriad i beri gofid; ac yr ydych yn fynych wedi rhoi poen i mi, nid o herwydd grym y peth a ddywedwch, ond wrth weled eich dyben." Felly yr un modd y mae holwyr byth a hefyd yn nghylch y modd y cawsoch eich dwyn i fyny, yn peri poen i chwi, nid am fod arnoch gywilydd arddel eich perthynasau, nac ofn son am geudod y ffos y cloddiwyd chwi o honi, ond wrth weled eu hamcan a'u dyben hwy.

Y mae yn ymffrost gan rai sydd wedi codi oddiwrth ryw grefft yn bregethwyr, son am yr hyn a fuont, sef, "Pan oeddwn i yn gweithio yn y fan a'r fan." "Yr wyf yn cofio hwn a hwn yn gweithio yn yr un fan a fi." Pa angenrheidrwydd sydd i ddyn son am ei waith gynt, pan fyddo wedi newid ei swydd, a dyfod yn ddysgawdwr? A oes tuedd yn hyny i ychwanegu at ei ddylanwad fel athraw? Oni buasai i rywrai weled ynddo ryw ragoriaethau, nad ydynt yn meddiant y cyffredin, y mae yn debyg y cawsai efe lonydd i weithio â'i ddwylaw am byth, megys y cafodd cannoedd o'i gyfoedion. Ond pan fyddo angen dangos yr hyn a wnaeth athrylith, drwy gymhorth rhagluniaeth, y mae yn hyfryd son am y graig y naddwyd dynion o honi; ond y mae son am hyn er boddhau chwaeth farbaraidd yr anwybodus, sydd am iselu dynion, drwy ymholi a dweyd pa beth a fuont, yn myned i ormod o gynnefindra *(familiarity)*. Nid oes genym hanes am neb o'r apostolion yn son am eu crefftau;

ond fe ddywed Paul, ar ol myned yn apostol, ei fod ef wedi bod yn gweithio a'i ddwylaw, fel na phwysai ar neb; a dywed yr Ysgrythyr fod yr Iuddewon yn dweyd mewn diystyrwch, mai mab y Saer oedd yr Arglwydd Iesu Grist. Bydd yn ddigon buan son pa beth a fu dyn pan ysgrifenir hanes ei fywyd.

PENNOD III.

BYWGRAFFIAD.

CYNNWYSIAD:—Ei Enedigaeth a Thymhor ei Ieuenctyd—Dechreuad ei Fywyd fel Bardd ac Awdwr—Ei Noddwyr yn Nechreuad ei Yrfa Gyhoeddus—Ei Ymadawiad â'r Trefnyddion a'i Ymuniad â'r Annibynwyr—Dechreu Pregethu a'r Daith i Fon—Ei Ordeiniad yn Llanerchymedd—Ei Symudiad i Gaernarfon—Sefyllfa yr Achos yno—Ei Ymdrechion yn erbyn Gorthrwm—Yr Erledigaeth Ditotalaidd—Y Caredigrwydd Teuluaidd—Cynnydd yn ei Deulu a'i Anesmwythder mewn Canlyniad—Ei Ymadawiad â Chaernarfon a'r Dysteb—Llundain, Llanrwst, a'r Groeswen—Cymhellion i'r Offeiriadaeth—Ei Olygiadau—Ei Siomedigaethau—A'i Ymgyrch Llenyddol—Adfyfyrdod gan Mr. Prothero, Groeswen.

GANWYD y Parch. W. C. Williams yn Ninbych, Chwefror 6, 1801. Yr oedd ei rïeni,* pan y ganed ef, mewn amgylchiadau cysurus, a masnach helaeth. Preswylient yn nhŷ Mr. Robert Parry y *glover* wedi hyny. Yr oedd ei dad yn cadw gwaith heblaw hyny. Yr oedd ganddo ddau weithiwr a phrentis yn y gelfyddyd o wau llieiniau, gwlenyn, a brethynau. Cafodd efe ei anfon i'r ysgol yn dra ieuanc; a thrwy fod ei rïeni mewn sefyllfa uwchlaw y werinos

* Yr oedd yn perthyn iddo o'r ddwy ochr, sef ochr ei dad ac ochr ei fam, saith o rydd-ddeiliaid *(freeholders)*; ugain o amaethwyr; tri o dafarnwyr; tri o fasnachwyr; pedwar o wehyddion; pedwar o gryddion; pedwar o ysgrifenwyr mewn swyddfaoedd; un garddwr; un barcer; un mwnwr; chwe' phregethwr; un clochydd; tri gweithiwr fesur y dydd; dau o goedwyr; dau oruchwyliwr; ac un llaw-weithiwr. Ni wyddai efe am nemawr berthynasau heblaw yr uchod a'u teuluoedd; ac nid oedd ond ychydig iawn o deuluoedd yn perthyn iddo nad oeddynt yn byw yn gysurus, ac yn talu eu ffordd, o'r ddwy ochr.

dlodion, magwyd ynddo syniadau yn fore fod rhywbeth yn ei aros ef amgen nag ennill ei fara beunyddiol drwy galedwaith celfyddydol. Yr oedd ei rïeni, y mae yn debyg, yn dal gobeithion o'i flaen, oedd yn tueddu at hyny; ac yn ei gadw yn yr ysgol yn barhaus.

Cafodd fagwraeth dyner a gofalus. Pan fyddai ei fam yn ymdrafferthu gyda'r fasnach, byddai mammaeth serchus yn gofalu am dano ef; ac ni adewid ef byth i drugaredd morwynion. Bu yn dyner iawn o ran ei gyfansoddiad, am flynyddau lawer. Y mae yn well i ddyn gael ei fagu mewn caledfyd, o'r dechreu, heb ganddo ddim mewn golwg ond llafur caled ar hyd ei oes, nag iddo gael ei eni a'i fagu yn nghanol digon o lawnder, ac i amgylchiadau fyned yn fwy gwasgedig drachefn cyn iddo allu ymdaro drosto ei hun yn bersonol.

Un o blant y siomedigaethau oedd efe o gychwyniad ei ddyddiau; a chafodd ei ran yn helaeth o honynt yn ystod ei yrfa. Drwy fod ei fam wedi hanu o deulu lled gyfoethog —rhai yn rhydd-ddeiliaid, a'r rhai hyny heb fod yn mhell o dref Dinbych, yr oedd cydnabyddiaeth yn cael ei chynnal rhyngddynt: ac yr oedd yn naturiol i blentyn, ar y cyfrifon hyny, "ddysgwyl pethau gwych i ddyfod," yn enwedig gan ei fod yn gweled cymaint o drafodaeth ar eiddo ag oedd yn ei gylchynu yn wastadol, ac nad oedd arno eisieu dim. Ond dyrysodd pethau yn llwyr, cyn iddo gyrhaedd y nôd yr oedd wedi ei osod iddo ef ei hun i gyrchu ato. Gallesid meddwl na chafodd neb erioed well cynnygiad am fywioliaeth nag a gafodd ei rïeni: oblegid yr oedd ganddynt arian i ddechreu eu masnach, a hòno yn talu yn rhagorol am flynyddau, a'r gwaith yn ateb yn dda dros ben yn y blyn-

yddau hyny; ond y mae rhyw ddirgelwch yn hyn sydd yn rhy anhawdd ei esbonio. Yr oeddynt naill ai yn rhy ddiniwaid, heb ddilyn y castiau twyllodrus sydd yn nglŷn â masnach, neu yn rhy lwfr yn wyneb ceisiadau rhai haerllug a ddelent i'r masnach-dy heb arian ac heb werth, ac heb fwriad i dalu ar ol cael yr eiddo. Yr oedd cannoedd o bunnau allan pan ddyrysodd y fasnach, a gwerth dros fil o bunnau o nwyddau mewn llaw. Pa sut bynag y bu, y plant a gafodd y golled a'r anfantais; costiodd cryn ymdrech i'w magu a'u dwyn i fyny. Yr oedd saith o honynt ar yr aelwyd ar yr un pryd, sef pedwar o feibion, a thair o ferched. Yr oedd ei holl ddysgwyliadau wedi cymylu erbyn hyn. Cafodd gynnygiad ar fyned yn Gyffyrydd *(Druggist)*, ond gwrthododd, a glynodd adref gyda'i dad; ond defnyddiai bob hamdden a gaffai gyda'i lyfrau, canys dyna lle yr oedd ei brif hyfrydwch. Ni feddyliodd erioed am gael ei gynnaliaeth drwy lafur celfyddydol, a pheth damweiniol hollol, ac nid bwriadol, oedd iddo wneud dim â chelfyddyd; ac o ganlyniad, ni thalodd fawr o sylw i'r gelfyddyd a ddygid yn mlaen gan ei dad, ond arosodd gydag ef i'w gynnorthwyo, gan wneuthur yr hyn a allai. Bu oddicartref dros ychydig; ond daeth yn ol, ac aeth i'r ysgol drachefn, canys yr oedd efe wedi meddwl am fyned i'r Gyllidaeth; ond llythyr a dderbyniasai oddiwrth Gwallter Mechain a dorodd y ddadl yn ei feddwl gyda golwg ar y mater yma, a throes ei feddwl at gadw ysgol yn addoldy y Trefnyddion Calfinaidd yn Ninbych! Bu ganddo unwaith tua phedwar ugain o ysgolheigion.

Yn y flwyddyn 1820, aeth i Eisteddfod Gwrecsam, nid fel ymgeisydd; ac yn 1821, aeth i Eisteddfod Caernarfon. Nid oedd efe wedi anfon dim ar un o'r testynau yno

ychwaith. Cyn i'r Eisteddfod fyned drosodd, rhoddwyd testyn allan, sef Awdl ar "Ymweliad Sior iv. ag Ynys Mon." Yr oedd y wobr yn ugain punt. Ar ol yr Eisteddfod yr oedd yr Awdlau i gael eu derbyn. Daeth pedair i law o deilyngdod cyfartal. Dafydd Ddu oedd y beirniad; ac yr oedd yr eiddo yntau yn eu plith; ond ni chafodd efe ddim o'r wobr, er mai penderfyniad y beirniad oedd ei rhanu rhwng y pedwar. Yr oedd yr arian yn rhy brin neu rywbeth; ac felhyn fe droes ei ymgais gyntaf am anrhydedd Eisteddfodawl, mewn Eisteddfod Daleithiol, yn siomedigaeth; ond ni adawodd efe i hyny ei ddigaloni mewn un modd. Yr oedd Eisteddfod i gael ei chynnal yn Aberhonddu, Medi, 1822; anfonodd Englynion ar yr "Enfys" i'r ymrysonfa yno, a derbyniodd yn wobr, am un o honynt, bedwar gini a thlws arian o werth gini. Ymosodwyd ar ei Englyn yn y *Seren Gomer*, gan un Roger Williams o Ferthyr, yr hwn a dybiai ei fod ef wedi cael cam, am na buasai Englyn o'i eiddo ef wedi ennill. Ysgrifenodd yntau amryw lythyrau hunanamddiffynol yn y *Seren* y pryd hwnw. Yr oedd efe wedi bod yn ysgrifenu cymeradwyaeth yn y *Seren Gomer* cyn hyny i Lyfr Emynau Mr. Edward Jones, Maesyplwm, dan yr enw Gwilym Caledfryn, ac o dan yr enw hwnw y cafodd efe ei dderbyn i frawdoliaeth y beirdd yn Eisteddfod Caernarfon. Bu yn brif athraw yn Ysgol Sabbathol y Trefnyddion Calfinaidd yn Ninbych am flynyddau. Bu y diweddar Barch. John Jones, Gwrecsam, a'r Parch. Roger Edwards o'r Wyddgrug, yn ei ddosbarth.

Yn y flwyddyn 1822, cyhoeddodd lyfryn dan yr enw "Cyfarwyddyd i Ddarllen ac Ysgrifenu Cymraeg," o'r hwn yr argraffwyd dwy fil o gopïau, y rhai a werthwyd rhag

blaen. Cafodd Gutyn Peris, Thomas Gwynedd, Pedr Fardd, a'r Parch. Daniel Jones, Le'rpwl, yn ymdrechgar iawn drosto yn yr adeg hon; ac yn enwedig Mr. John Rowland, Pentir; Mr. R. Evans, tad Ieuan Glan Geirionydd; a Mr. John Roberts, y cantor o Ddinbych. Canmolid y llyfr yn fawr gan y diweddar Barch. Michael Roberts, Pwllheli; a'r diweddar Barch. Gruffydd Solomon, Llanbedrog; ac eraill o bregethwyr y Trefnyddion. Yr oedd efe yn cael pob annogaeth i fyned rhagddo gan ei frodyr y Trefnyddion; a phe yr arosasai gyda hwynt, cawsai ei annog i ddechreu llefaru. Yr oedd efe yn cael mwy o annogaeth ganddynt na nemawr o'i gyfoedion i arfer ei ddoniau yn gyhoeddus; ond rhywfod nid oedd efe yn gallu cyd-dynu yn dda â rhai o'r blaenoriaid, y rhai oeddynt yn dra eiddigeddus wrtho am ei fod yn ormod mewn sylw: ond yr oedd rhai o honynt yn gyfeillion calon iddo, megys Thomas Foulkes, David Edwards, a John Roberts, y cantor. Yr oedd John Roberts wedi bod yn feithringar o hono'er pan oedd yn blentyn. Efe a ddysgodd y pennill o emyn cyntaf erioed iddo, pan oedd tua phump oed. Wele yn caulyn gopi o hono:—

"Mae pob pleserau is y rhod
Yn darfod maes o law;
A minnau'n brysio yn ddioed
I'r byd sy'r ochr draw."

Yr oedd John Roberts yn ddyn nodedig am ei ddurioldeb a'i sel santaidd; ac yn neilltuol o hoff o blant: efe a ddechreuodd gadw Ysgol Sabbathol yn Ninbych gyntaf erioed; a hyny yn ngwyneb llawer o ddigalondid a gwawd. Nid oedd efe fawr o ysgolhaig, ond yr oedd ei ymdrech yn

ddiflino, a chafodd weled yr hedyn bach a hauodd wedi myned yn bren mawr a changhenog. Yr oedd efe yn un o'r cantorion pereiddiaf a chryfaf yn Nghymru; ac er nad oedd yn gwybod fawr am reolau y gân, etto anfynych y byddai yn ffaelu taraw y mesur, a chael y bobl i'w ganlyn. Yr oedd yn wledd i enaid weled gyda pha hyfrydwch y byddai John Roberts yn derbyn y gwirionedd. Yr oedd braidd bob amser mewn hwyl nefolaidd o ran ei ysbryd. Yr oedd efe yn llym o ran y ddysgyblaeth; ac yn cario dylanwad mawr yn yr eglwys ac yn y byd. Nid oedd dim ammheuaeth yn meddwl neb gyda golwg ar dduwioldeb John Roberts. Yr oedd efe yn ngwir ystyr y gair "yn ddychryn i annuwioldeb;" byddai y dynion mwyaf didduw yn crynu ger ei fron. Y mae ei gorff yn gorwedd yn mynwent yr Eglwys Wen, a'r Englyn canlynol ar garreg ei fedd:—

Hyd lan y bedd dilynodd—yr Iesu,
A'i ras a ganmolodd;
Yna'i enaid, pan hunodd,
Aeth i fyd sydd wrth ei fodd.

Boed heddwch i'w lwch. Gallai efe dystio na hoffodd estron erioed yn fwy na'r dyn rhyfedd hwn.

Yr oedd pethau yn symud yn esmwyth rhyngddo â'r eglwys a'r blaenoriaid, oddigerth rhyw un neu ddau. Cafodd annogaeth i siarad yn y cyfeillachau, ac i ddechreu yr oedfaon cyhoeddus; bu ar daith yn 1822 yn dechreu yr oedfaon i lefarwr; a mynai rhai gael dodi ei achos i lawr fel ymgeisydd am y weinidogaeth; ond teimlai ef gryn wrthwynebiad yn ei feddwl i drefn y cyfarfod misol. Nid oedd efe yn gallu gweled y priodoldeb i ddynion dyeithr ymyraeth ag amgylchiadau yr eglwysi. Yr oedd arno eisieu i bob

eglwys drafod ei materion ei hunan; ac nid oedd ei waith yn dweyd hyn wrth ei gyfoedion, ac yn beirniadu ymddygiadau rhai o'r blaenoriaid mwyaf taiog a chyndyn, yn gymeradwy iawn. Pa fodd bynag, tua'r flwyddyn 1826, pan oedd efe ar daith yn sir Gaernarfon, yn achos y llyfr a elwir y "Grawn Awen," troes i edrych am y diweddar Barch. Arthur Jones, Bangor; yr oedd efe wedi bod yn ysgol Arthur Jones pan yn chwech neu saith oed; ac yr oedd cydnabyddiaeth rhwng ei dad â Mr. Jones er yn fore, yn Llanrwst, cyn iddo erioed ddyfod i Ddinbych. Holai Mr. Jones lawer arno ef yn nghylch ei grefydd, ac yn nghylch ei olygiadau ar y weinidogaeth, ac annogodd ef yn wresog i dori trwodd a dyfod drosodd at yr Annibynwyr, naill ai yn Ninbych, ai yn Mangor, gan ddywedyd, os deuai efe i Fangor, y cawsai efe gadw ei ysgol ef dros ychydig. Yr oedd yntau yn ffaelu gweled y priodoldeb iddo newid ei enwad mewn lle dyeithr; a phan gyrhaeddodd Dinbych, mynegodd wrth rai o'i gyfeillion ei fod ef am ymadael; ond ni chredent ef. Galwodd yn nhŷ y diweddar Barch. Moses Parry, ar nos Wener, i fynegu hyny; ond ni fynai Moses Parry iddo feddwl am y fath beth. Gofynai yn lled gellweirus iddo i ba le yr oedd efe am fyned, "Pa un ai at ein mam ni oll, ai at ein chwaer?" gan feddwl wrth y fam, Eglwys Lloegr, ac wrth y chwaer, eglwys yr Annibynwyr. Yr oedd efe wedi cael lle cryf i dybio y buasai yn well gan y brodyr iddo fyned i'r Eglwys Sefydledig na myned at yr Annibynwyr: ond pa fodd bynag, y Sabbath a ddaeth; yr oedd yntau yn y gyfeillach fel arferol nos Sabbath, a bore drannoeth aeth at un o ddiaconiaid yr eglwys Annibynol, a mynegodd ei fwriad o ddyfod i gynnyg ei hun yn aelod y

noswaith hòno; eithr ni fynai y diacon ei gredu, ond dywedai mai cellwair yr oedd. "Wel, wel," ebai yntau, "os na chredwch, chwi a gewch weled; yr wyf yn myned yn awr i dŷ y Parch. David Roberts, i'w hysbysu, ac os dewiswch chwi a gewch ddyfod gyda fi;" ac felly y bu. Aethont ill dau i dŷ Mr. Roberts, yr hwn oedd yn yr ardd ar y pryd: yr oedd yntau yn synu erbyn hyn, ac yn gofyn yn ddifrifol, paham yr oedd efe yn gadael ei hen gyfeillion; ac wedi iddo gael boddhad yn yr atebion, parodd iddo ddyfod yn mlaen i'r gyfeillach y noswaith hòno; ac wedi ei holi yn ngwydd yr eglwys, gofynwyd iddo, a oedd ganddo wrthwynebiad i'r frawdoliaeth anfon dau genadwr at y cyfeillion, y Trefnyddion, i holi a oedd ganddynt hwy rywbeth yn erbyn ei gymeriad, i'r hyn yr atebwyd nad oedd; ac wedi i'r rhai hyny ddwyn y dystiolaeth i'r eglwys Annibynol, cafodd ei le yn mysg yr aelodau. Yr oedd hyn yn y gwanwyn 1826. Tua'r Hydref yn y flwyddyn hòno, aeth ar daith i Fachynlleth, gyda Mr. Roberts, i'r cyfarfod cenadol; ac annogwyd ef i lefaru ychydig eiriau ar y genhadaeth, yr hyn a wnaeth. Taith anffodus a fu hon iddo ef; canys cafodd anwyd trwm wrth fyned dros fynydd Hiraethog, yr hwn, cyn y diwedd, a droes yn gryd *(ague)* arno; a bu yn goddef o dan yr afiechyd hwnw am rai wythnosau, os nad misoedd; ac nid ydoedd efe yn berffaith rydd oddiwrth ei effeithiau pan ddechreuodd bregethu. Gwanychwyd ef yn ddirfawr, yr hyn a'i digalonai yn dost wrth feddwl am fyned i goleg Rotherham y flwyddyn hòno. Yn y Gwanwyn 1827, cymerodd daith drwy sir Fflint, a godre sir Ddinbych, gyda ei gyfaill, y diweddar Barch. Thomas Pierce, o Le'rpwl, yr hwn oedd yn aelod gyda'r

Annibynwyr, ac yn ddiacon, pan ddaeth efe atynt gyntaf, ac a ddechreuasai bregethu yr un noswaith ag ef. Aeth ef ar daith drachefn drwy sir Fon a sir Gaernarfon, a rhan o Feirion, cyn cychwyn i Rotherham; ac ar agoriad y Coleg ddiwedd y flwyddyn, aeth yno, a chafodd bawb—yn athrawon a myfyrwyr—yn siriol dros ben; ond yr oedd effeithiau yr hen afiechyd yn ei ddilyn ef. Yr oedd anhwyldeb yn yr ymysgaroedd yn ei wneuthur yn rhy wan i allu dal dan yr astudiaeth oedd yn ofynol. Arferai bob moddion at ei wellâu, ond y cwbl yn ofer; a rhwng hyny a digalondid am nad oedd ei amgylchiadau arianol y fath ag y gallasai ateb i'r draul oedd yn y Coleg, gadawodd yn mhen tua phedwar mis; ac arosodd yn Manchester i bregethu i gynnulleidfa Gartside Street, am naw mis, tra yr ydoedd y gweinidog, y Parch. John Griffiths, yn casglu at leihau dyled yr addoldy.

Ar ei ymadawiad â Manchester, galwodd heibio y Wern; a mynegodd ei holl hanes wrth Mr. Williams, yr hwn a'i derbyniodd yn siriol, ac a'i hannogodd i gymeryd taith i Fon; ac am iddo alw heibio i Lanerchymedd—y gallasai efe wneud daioni yno, os teimlai y bobl awydd iddo aros: ac ar y daith hòno addawodd aros yno, er nad oedd y cyflog a allai yr aelodau addaw ond tri swllt a chwecheiniog yn yr wythnos! Yr oedd y gwrandawyr yn gwneud casgliad; ac yr oedd efe yn cael ychydig o arian yr eisteddleoedd, ac onide ni allasai fyw. Bu y cyfeillion yn Mon yn garedig iawn iddo, a dangosasant barch mawr tuag ato bob amser ar ol ei ymadawiad.

Neillduwyd ef i waith y weinidogaeth, Mehefin yr ail, 1829, yn addoldy Peniel, Llanerchymedd. Dechreuwyd y cyfarfod am ddeg o'r gloch gan y Parch. D. James, Rhosy-

meirch. Traddodwyd y gyn-araeth gan y Parch. Arthur Jones, Bangor; derbyniwyd cyffes ei ffydd gan y Parch. W. Griffiths, Caergybi; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan y Parch. J. Evans, Beaumaris; pregethwyd ar ddyledswydd y gweinidog gan y Parch. R. Roberts, Salem; ac ar ddyledswydd yr eglwys gan y Parch. W. Jones, Amlwch.

Bu yn llafurio yn Llanerchymedd a Maenaddfwyn yn llwyddianus, os nid i dderbyn llawer o aelodau, i godi yr achos i sylw, ac i gael gwrandawiad rhagorol yn y ddau le, ar ol y tywydd garw yr oedd wedi bod ynddo drwy ddrwgfuchedd yr hwn a'i blaenasai yn y lleoedd hyny.*

Yn y flwyddyn 1831, yr oedd efe yn golygu cyhoeddiad misol a elwid *Y Sylwedydd;* a chan mai yn Nghaernarfon yr argreffid y rhifynau diweddaf o hono, yr oedd yn arfer myned yno unwaith yn y mis i ddiwygio y wasg: a thrwy

*Dyma fel yr ysgrifenwyd am dano pan yn Maenaddfwyn:—"My dear Brother,—In reply to your letter (Rev. W. Jones, Amlwch) respecting W. Williams who now resides at Maenaddfwyn, I have to say that I esteem him as a young man of piety and of very promising talents, who is likely to be useful in the ministry, and a shining light in the firmament of the Christian church, if he will walk with God, be instant in prayer, and will be diligent in searching the Scriptures; and I expect that time will prove him to be so, and that the friends of Christ at Llanerchymedd, &c., will be more and more satisfied in him. I am happy to think that he is likely to become your neighbour; you may look upon him as a faithful friend, at least I found him so, and I hope that you will be also his friend and father.

Dorothy joins me in Christian regards to Mrs. Jones, the children, and Mr. Williams, all friends in the Isle, and yourself.

I remain, dear Brother, yours very sincerely,

Denbigh, March 26, 1829. D. Roberts."

fod eglwys yr Annibynwyr heb weinidog ar y pryd, deisyfodd y cyfeillion yno arno bregethu iddynt am un Sabbath yn y mis, a'r hyn y cydsyniodd. Cynnyddodd y gwrandawiad yn fuan, fel y tybiasant yn addas roddi galwad iddo fel gweinidog, i ddyfod i lafurio yn eu mysg, yr hon a dderbyniodd; a dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Nghaernarfon, y Sabbath cyntaf yn Ionawr, 1832. Llafuriodd yno gyda gradd mawr o lwyddiant. Yr oedd yr achos, pan ddaeth yno i aros, mewn iselder mawr—yr aelodau yn ychydig o rifedi ac yn dlodion, a'r gynnulleidfa wedi myned yn fechan: ond yn mhen ychydig o flynyddau aeth y lle yn rhy gyfyng i gynnwys y gwrandawyr; ac ail-adeiladwyd yr addoldy yn y flwyddyn 1838, yr hwn a agorwyd ar y Nadolig yr un flwyddyn. Yr oedd yr addoldy newydd yn llawnach na'r hen yn fuan. Ychwanegwyd at rifedi yr aelodau lawer o ugeiniau yn y flwyddyn ganlynol; a dysgwyliai yntau gael helaethiad yn ei gyflog, yr hwn nad oedd ar y dechreu ond deugain punt yn y flwyddyn; ac ni chododd fawr dros driugain punt yn ystod ei arosiad yno: ac ni allasai fyw, ond fel yr oedd efe yn cael cynnorthwy o leoedd eraill, drwy ei lafur ei hun gyda'i ysgrifell, a thrwy iddo gael deunaw punt yn y flwyddyn o drysorfa Doctor Williams am fyned unwaith yn y mis i bregethu i eglwysi gweiniaid. Byddai yn myned i'r Bontnewydd bob Sabbath ond un, ac i'r Waunfawr a Llanrug un Sabbath yn y mis—y bore a'r prydnawn. Yr oedd efe wedi myned yn deulu erbyn hyn. Yr oedd gan ei wraig gyntaf ddau o blant o'r gŵr cyntaf, sef, merch a mab; ac yr oedd ganddynt hwythau ferch a mab. Aeth i'r ystad briodasol Medi 8, 1832, gyda Mrs. Griffiths, hanes bywyd yr hon sydd wedi ymddangos yn y

Dysgedydd am Rhagfyr, 1855. Gwelodd gladdu ei lysfab a'i lysferch, o flaen eu mam, flynyddau, cyn symud o Gaernarfon. Yn fuan ar ol agoriad yr addoldy newydd, torodd allan yn ddiwygiad yn Nghaernarfon, ac ychwanegwyd mewn un flwyddyn dros ddau gant at yr aelodau: ond drwy anesmwythder dynion aflonydd, oedd yn ffaelu gweled eu hunain yn cael digon o le, a digon o ddyrchafiad, gorfu iddo ddiarddel haid o derfysgwyr, y rhai, drwy annogaeth rhywrai twyllodrus, oeddynt yn dra eiddigeddus wrth ei boblogrwydd a'i ddylanwad yn y dref, ae yn y sir, a adeiladasant iddynt eu hunain synagog; ond profodd pethau yn fuan nad oedd gan y dref na'r wlad oddiamgylch ddim cydymdeimlad â hwynt; a throes y blaenoriaid yn y terfysg allan yn rhai na feddent ddim hawl ar gydymdeimlad neb o'u cydnabyddiaeth. Goddefodd ef lawer o gabledd oddiwrthynt; ond ni wnaethant iddo unrhyw niwaid, er ceisio o honynt gyda'u holl egni, canys parhaodd ef yn ei gymeradwyaeth hyd yr arosodd yn Nghaernarfon. Yn y flwyddyn 1839, cafodd alwad unfrydol oddiwrth eglwys y Groes Wen, Morganwg; ond ffaelodd a gwneud ei feddwl i fyny y pryd hwnw i adael Caernarfon, ond buasai yn well iddo, yn ol pob peth a ellid barnu; ond nid fel yr edrych dyn yr edrych Duw: ac y mae yn beth rhyfedd mewn rhagluniaeth iddo ddyfod i'r *Groes Wen* drachefn yn mhen ugain mlynedd! Cafodd ef lafur caled i ddwyn pethau yn mlaen yn Nghaernarfon; canys yr oedd yno dri chenllif cryfion yn gweithio yn ei erbyn am flynyddau; sef, rhagfarn a chulni y Trefnyddion, Toriaeth, a Thitotaliaeth. Bu amser ar y Trefnyddion y dangosent bob diystyrwch a allai rhagfarn sectol ddyfeisio tuag at enwadau eraill. Yr oedd hyny i'w

briodoli yn Nghaernarfon i fesur mawr i ddylanwad dau neu dri o flaenoriaid anwybodus a chul eu meddyliau. Yr oedd yr enwad hwn wedi cael rhai o brif fasnachwyr y dref gydag ef; a llawer eraill, nad oeddynt yn aelodau proffesol, oeddynt a'u hanadl yn gryf gyda'r Corff; ond ni feddai yr Annibynwyr ond dau neu dri dan enw masnachwyr o ddim gwerth, a'r rhai hyny erioed heb gael agor eu llygaid i weled eu dyledswydd gyda golwg ar gyfranu at achosion crefyddol. Yr oedd amryw weithwyr, a theuluoedd ganddynt, yn rhoddi mwy nag ydoedd y rhai hyn at yr achos. Yr oedd un peth nodedig yn bod y dyddiau hyny na welir mo hono yn fynych yn bresenol; yr oedd amryw o'r aelodau yn dewis cael eu parchu yn ol eu sefyllfaoedd, tu allan i'r capel, ac yn ystyried eu hunain uwchlaw y bobl gyffredin; ond yr oeddynt yn eithaf boddlon i fod ar yr un tir a'u brodyr tlodion, pan yn talu ceiniog yn yr wythnos at gynnal y weinidogaeth! Dywedir mai ceiniog oedd un dyn, dan enw swyddog, yn roddi pan fyddai gartref, ac na thalai ddim am yr amser y byddai yn absenol, er y dygwyddai hyny fod ambell waith am ddau neu dri mis; canys yr oedd y dyn hwnw dan enw marsiandïwr. Nid oedd yn Mhendref, yr amser cyntaf y daeth efe yno, ddim dros hanner dwsin o deuluoedd yn meddu tai a bywioliaeth gyfaddas i ofyn i ddyn dyeithr ddyfod atynt i gymeryd tamaid o fwyd. Yr oedd yr eglwys wedi colli ei hurddas yn ngolwg y dref a'r gymydogaeth, drwy ei hymrafaelion â'r ddau weinidog a fuasai yno o'r blaen. Rhyw nifer fach o bobl barchus a ddeuai yn agos i'r capel; ond, pa fodd bynag, cyn pen ychydig, cymerodd pethau dro er gwell; megys y crybwyllwyd o'r blaen, bu raid cael

addoldy newydd, a chafodd hwnw ei lanw: ond yn lle gwneud fel yr addawsent i'w gweinidog, os ail-adeiladai efe y capel, sef codi yn ei gyflog, aeth rhai o'r aelodau i achwyn fod y baich yn rhy fawr, a rhwyment ef drwy y blynyddau wrth y triugain punt yn y flwyddyn oedd efe wedi arfer gael; ond gwnaethant i'r gweinidog nesaf ddaeth ar ei ol ef dros bedwar ugain punt yn fuan iawn! "Eraill a lafuriasant, a chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt." Oddeutu amser ail-adeiladu y capel, cafodd cynnulleidfa Pendref fyned i addoldy y Trefnyddion yn heol Penyrallt i addoli; ac o ychydig i ychydig, drwy hyny, ac i weinidog Pendref ddal i gymysgu gyda gweinidogion yr enwadau eraill, i ddadleu dros y Feibl Gymdeithas, a chymdeithasau eraill, daeth y Trefnyddion i well teimlad, yn enwedig y rhai mwyaf rhyddfrydig o honynt; ond yr oedd gwenwyn wrth wraidd calon rhai o honynt, ac y mae yn debyg iddo fyned gyda hwynt i'r bedd; canys yr oedd gweinidog Pendref wedi cyflawni pechod anfaddeuadwy, sef, "ysgrifenu yn erbyn John Elias," ac yr oedd brawd i John Elias yn flaenor yn Mhenyrallt. Parodd ysgrifeniad y llythyr dan enw "Anghydffurfiwr," yn yr hwn y cynnwysid sylwadau lled lymion ar ragrith John Elias, yn gwenieithio i'r Eglwys Wladol, ac yn ceisio diystyru ei frodyr Ymneilldduol, i haid o gacwn colynog ddyfod allan oddeutu ei ben; ond ni wnaethant unrhyw niwaid iddo ef, ond gwnaethant achos John Elias yn waeth o lawer. Ni ddaeth neb o'r frawdoliaeth ei hun allan i gynnyg amddiffyniad; ond dynion digrefydd ac annuwiol iawn, nad ydoedd yn unrhyw anrhydedd i unrhyw achos gael y fath amddiffynwyr. Ymattaliwn heb eu henwi. Er y cwbl a

ddywedid yn ei erbyn, safai efe yn uchel yn mharch llawer o'r hen bobl mwyaf dysglaer o ran eu crefydd, oedd yn mysg yr enwad yn Nghaernarfon, a manau eraill; a derbyniodd ddiolchgarwch gwresog llaweroedd am attal tipyn ar rwysg a ffolineb John Elias yn y ffordd hon, yr hyn na feiddiasai neb o honynt hwy ei wneuthur, heb fod yn agored i'w felldithion mewn Cymanfa.

Arweiniodd yr amgylchiad uchod iddo ef i gymeryd cam mwy penderfynol yn erbyn Toriaeth, a chysylltiad eglwys â gwladwriaeth, nag a gymerasai efe erioed o'r blaen. Dywedai yn eu herbyn o'r pulpud, a thrwy y wasg; ac ymdrechai dros egwyddorion rhyddfrydig yn amser etholiadau, ac ar bob adeg y cai efe gyfleusdra; a daeth drwy hyny yn wrthddrych i ymosod arno mewn gwag-ganeuon celwyddog, llyfrynach, a phapyrach wythnosol a misol, o'r De a'r Gogledd. Yr oedd yr holl offeiriaid, ben a chynffon, yn barod i'w felldithio, er y ceisiai offeiriad Llanbeblig ymrwbio ynddo, yn enwedig os byddai rhywrai gerllaw yn gweled; ond nid ydoedd dim digon o ddylanwad gan weniaeth nac erledigaeth i'w darfu ef na'i ddychrynu. Yn mlaen yr aeth drwy glod ac anghlod, drwy barch ac anmharch, heb brisio mewn dim a ddywedai neb am dano. Bu yn brwydro yn erbyn yr offrwm wrth gladdu nes tori asgwrn cefn yr arferiad Babaidd hòno, yn Nghaernarfon; ac yn erbyn i'r offeiriad, ar ddydd y claddedigaeth, ddyfod at y tŷ, lle byddai corff y trancedig, i adrodd ei weddïau. Llafuriai yn galed yn erbyn y Dreth Eglwys, a Threth yr Yd. Drwy ei offerynoliaeth ef yn benaf y cafwyd y gynnadledd fawr o weinidogion i Gaernarfon dros ddilead y dreth orthrymus hòno. Darlithiodd yn erbyn Traddod-

iadau yr Hynafiaid; yn erbyn Cribddeiliaeth a Thwyll Masnachol; a chyhoeddodd ei Ddarlithiau, yr hyn a dynodd gawod o erledigaeth ac enllib am ei ben oddiwrth y twyllwyr yn masnach yr ŷd a'r blawd. Yr oedd efe wrth wraidd pob symudiad yn y dref, gyda deisebion i'r Senedd ar bob pwnc cyhoeddus. Dadleuodd ac ysgrifenodd o du egwyddorion Cymdeithas Heddwch am dros ugain o flynyddau. Ymddangosodd llawer o'i waith yn *Seren Gomer*, *Y Drysorfa Gynnulleidfaol*, *Y Gwron*, *Seren Cymru*, a'r *Dysgedydd*. Daliai ohebiaeth gyson a'r cyhoeddiadau uchod. Bu yn golygu *Y Gwron* am dros bum' mlynedd. Golygai *Gylchgrawn Rhyddid*, yr hwn a gyfodwyd yn benaf dros ddadleu o blaid dilead Treth yr Yd am bymtheng mis. Yr oedd efe cyn hyny wedi bod yn golygu y rhanau olaf o'r *Tywysog* a'r *Seren Ogleddol;* ac arno ef y bu rhanau hanesiol y *Dysgedydd* yn gorphwys am dros ugain o flynyddau; byddai yn ysgrifenu yn agos i chwe' thu-dalen bob mis i'r cyhoeddiad hwn. Ysgrifenodd yn erbyn penboethni y titotaliaid, a thynodd genfaint o erlidwyr am ei ben; y rhai a'i pregethent, a'i bygythient, a'i hareithient, ac a'i melldithient ar benau ystolion, ac o bulpudau, gan ei osod allan fel gelyn sobrwydd: a pheth sydd i'w ryfeddu yw, na bu ei weinidogaeth ef erioed yn fwy grymus na miniog, nag yr oedd yn Nghaernarfon, a thrwy siroedd y Gogledd, yr adeg pan oedd titotaliaid gwallgof yn malu ewyn mewn cynddaredd, am na buasai efe yn plygu i'r eulun, ac yn parchu y "goleuni newydd oedd wedi disgyn o'r nef!" Daliodd ef ei ffordd drwy y cwbl: nid ydoedd efe yn gwrthwynebu titotaliaeth, i'r rhai oedd yn ei dewis; ond yr erledigaeth oedd yn nglŷn anwahanadwy â hi, a'r cabl-

eddau oedd yn dyferu dros bob math o wefusau halogedig wrth ei phleidio. Buasai ef yn marw dan ei holwynion yn gynt nag y plygasai i unrhyw orfodaeth. Nid ydoedd efe yn foddlawn i roddi ei *ryddid* i fyny i ddyn arall; nac yn foddlawn i neb ddweyd wrtho ef pa beth i'w fwyta na pha beth i'w yfed. Yr oedd efe yn ei dŷ ei hun yn caniatâu i ddyeithriaid y peth a chwennychent; ac yr oedd efe yn barnu y dylasai yntau gael yr un rhyddid yn nhŷ y titotaliaid. Ni ddywedodd efe erioed wrth ditotal ei fod ef ei hun yn yfed diod, ac y buasai raid i'r titotal yfed yr un peth ag yntau, os deuai efe i'w dŷ ef i letŷa; ond fod y titotal yn dweyd hyny, ar ol gwahodd dyn i'w dŷ, nad ydoedd gan y gŵr dyeithr un dewisiad yn y mater, na chyfle i farnu drosto ei hun. Barnai ef mai diffyg moes, a boneddigeiddrwydd, a dygiad da i fyny, oedd gwahodd dyn dyeithr i dŷ, a gwneud i hwnw gydymffurfio â phob mympwy oedd yn cael ei chynnal yn y teulu, yn groes hollol i'w ewyllys ef; yr oedd y dyn yn gaethwas tra yr arosai dan y fath gronglwyd a hòno i fympwy gŵr neu wraig y tŷ yn hollol; yr hyn a gasäi ei enaid ef. Yr oedd gwŷr Caernarfon yn rhai enwog am ymladd â'u gweinidogion; yr oeddynt fel pe buasent wedi eu gyru a'r anian hono ynddynt, "With teeth in their heads to bite mankind;" neu, fel y dywedir am ryw fath o gwn, yr oeddynt wedi cael blas ar waed: ond ffaelodd y rhai mwyaf ystryw-ddrwg o honynt ei gael ef dan eu traed. Cadwodd hwynt mewn pellder priodol, ac mewn trefn hyd y bu yno, a gallasai aros yno hyd ddiwedd ei oes pe mynasai. Dywedai llawer o'r gweinidogion na ddylasai efe adael y lle ar yr un cyfrif; ond pa beth a wnaethai, gan nad oedd yn cael modd i dalu ei ffordd

gan yr eglwys; a chan ei fod yn cael ei lwyr fwyta i fyny gan ddyeithriaid, ac heb gydnabyddiaeth mewn dull o daliad oddiwrth yr eglwys. Bu yn ei dŷ ef dros ddeugain o bregethwyr yn bwyta, mewn pymthengnos o amser; a byddai y gweinidogion a'r pregethwyr yn dyfod yn ddau a dau yn y dyddiau hyny yn fynych iawn, tri neu bedwar weithiau yr un wythnos. Dysgodd efe lawer o wersi yn ystod yr amser hwnw a allasent fod yn fuddiol iddo pe cawsai efe ail ddechreu byw. Bu yn nawdd ac yn amddiffyn i lawer bachgenyn, ac i eraill mewn oed gyda golwg ar y weinidogaeth, gan fod yn help i'w rhoddi mewn bywioliaethau parchus; ond ni chafodd ond yr anghof a'r anniolchgarwch mwyaf oer oddiwrth amryw o honynt, ïe, terfynodd ymddygiad rhai yn ymyl y fradwriaeth mwyaf ysgeler. Rhaid i bob dyn ieuanc na byddo yn y weinidogaeth, ond a feddylio am fyned yn weinidog, gael rhywrai i hongian wrthynt, ac i'w gymeradwyo i sylw yr enwad. Gwnaeth ef hyny ar air a gweithred dros amryw, drwy adael ei dŷ yn agored iddynt am flynyddau, a'u cymeryd, rhai o honynt, gydag ef i deithiau, er ennill cydnabyddiaeth â'r frawdoliaeth, a chael gorsaf yn mhlith yr enwad; ac oddiwrth ddau neu dri o'r cyfryw gymeriadau y cafodd yr anghof a'r anniolchgarwch mwyaf ffiaidd wedi iddynt ddyfod i sylw. Pe cawsai efe ail fyned dros ei yrfa, buasai, yn ddiammheuol, yn fwy gochelgar yn y dewisiad o'i gyfeillion yn y weinidogaeth nag y bu. Yr oedd ganddo gyfeillion llenyddol, nad oedd dim a wnelent â chrefydd, nac â gweinidogaeth yr efengyl, yn gyfeillion a barhasant yn gyfeillion iddo hyd angeu: "Y gŵr oedd anwyl genyf, yr hwn yr ymddiriedais iddo, ac a fwytaodd fy mara, a ddyrchafodd ei sawdl yn fy erbyn."

Nis gallai efe lai na theimlo lawer gwaith ar ol gadael ei hen gymydogaeth, a myned heibio i rai a fuasent gynt yn derbyn o'i garedigrwydd ef, wrth weled y fath wahaniaeth yn eu hymddygiadau ragor y byddai ef a'i briod yn ymddwyn at y rhai a alwent heibio iddynt hwy. Nid oedd cael pryd neu ddau o fwyd, am dro, yn ymddangos yn llawer i'r rhai a'u caffent; ond yr oedd yn chwyddo yn llawer mewn mis, a blwyddyn, a blynyddau, i'r rhai oedd yn ei roddi. Nid peth bach oedd cadw tŷ llawn agored, i bawb a ddelent heibio fel teithwyr, am bymtheng neu ddeunaw mlynedd, heb gael dim gan neb tuag at y draul. Yr oedd gadael iddo ef wario ei eiddo i arbed yr eglwys a'r gynnulleidfa y gweinyddai iddi, yn greulondeb. Rhoddes yn agos i ddwy flynedd ar bymtheg o'i amser goreu i lafurio yn Nghaernarfon, a dygodd, mewn cysylltiad ag un neu ddau eraill, ddiwygiad mawr yn y sir gyda chyfarfodydd a chasgliadau cenadol, a chasgliadau eraill i ddwyn yr achos yn mlaen.

Wrth weled ei deulu yn cynnyddu, ac heb weled unrhyw arwydd i'w gyflog gynnyddu, cododd gryn anesmwythder am symud yn ei feddwl yn Nghaernarfon yn fuan ar ol adeiladu y capel. Dyna y pryd y derbyniodd alwad o'r *Groes Wen:* ac er nad allodd fyned yno, ni osododd ei hun yn dawel i aros yn Nghaernarfon, canys nid oedd pethau yn gwella dim o ran amgylchiadau. Deallodd amryw o'i gyfeillion yn nghylch ei fwriadau, a bu rhai gweinidogion yn y Deheudir yn awyddus iawn am iddo ddyfod yno. Sonid wrtho am Fynydd Islwyn; Bereah; Bryn Mawr; Sceti; Bethesda, Merthyr; Caerdydd; Ynysgau, Merthyr; a Glyn Nedd. Ni wnaeth efe unrhyw ymdrech am gael un

o honynt; ond gwybu yn burion am ddylanwad a arferwyd yn ei erbyn gan weinidogion eiddigeddus, y rhai a ofnent i'w dylanwad hwy fyned yn llai os delai efe yn agos atynt. Pan ddelai drwy y Deheudir, ar ei dro, nid oedd neb a gaffai fwy o barch a derbyniad nag a gawsai ef. Yr oedd pob un yn awyddus am ei gael i'w gymydogaeth; ond pan ddaeth i'r *Groes Wen* i aros, edrychai mân weinidogion, ac ambell un canolig yn y gymydogaeth, gyda chryn eiddigedd arno. Prin, ar y cyntaf, y gwahoddid ef i'w cyfarfodydd: ond daeth yn dro buan ar bethau; canys mynai y bobl ei gael i bregethu, a gorfu i aml weinidog, oedd can gased ato ag oedd Haman at Mordecai, ei wahodd yn groes i'w ewyllys, i gyfarfodydd rhag ofn y bobl. Yr oedd gwahoddiadau i bregethu i gyfarfodydd mawr, ac am Sabbathau i eglwysi gweigion, yn lluosogi bob dydd. Bu ganddo ar yr un pryd saith neu wyth o wahoddiadau; a gomeddodd fyned i ugain a gawsai mewn chwe' mis, ond nid allai gydsynio a'u hanner. Yr oedd ei ymlyniad yn gymaint wrth ei gartref fel yr oedd yn faich mawr arno feddwl cychwyn i siwrnai, yn enwedig os na fyddai efe yn gydnabyddus iawn â'r bobl lle'r elai. Yr oedd yn well ganddo bregethu i'w gynnulleidfa ei hun nag i unrhyw gynnulleidfa ddyeithr; er fod hyny yn peri mwy o lafur iddo: ac nid hoff oedd gan ei gynnulleidfa ei weled ef yn myned oddicartref yn fynych. Nid oedd tuedd ynddo ef i ymyraeth ag amgylchiadau unrhyw eglwys, os na elwid arno yn daer i wneud hyny. Nid oedd arno ychwaith eisieu gwybod hanes neb, na hanes amgylchiadau neb: yr oedd efe yn berffaith foddlawn ar ei hanes ei hun; ond yr oedd efe yn adnabod rhai yn y weinidogaeth oeddynt fel swyddfa newyddiadurol am wybod

hanes pob un, a phob man. Yr oeddynt yn meddu math o adroddwyr (*reporters*) yn mhob cymydogaeth. Gwyddai y cyfryw hanes y dref lle yr oedd ef yn preswylio yn well nag y gwyddai ef ei hun o lawer. Bu efe yn derbyn newyddion am bethau oedd yn symud yn yr un dref ag ef o eneuau y cyfryw. Nid oedd ynddo unrhyw duedd i gerdded ar hyd tai yr aelodau. Ystyrid hyn yn un o'i brif ffaeleddau, gan rai; ond yr oedd efe yn barod i fyned bob amser os gelwid am ei wasanaeth, ond nid heb hyny. Yr oedd yn well ganddo ef fod yn nghwmnïaeth Mathew Henry, &c.; Adam Clarke, &c.; Watts, Poole, a Dr. Doddridge; Andrew Fuller a Charles o'r Bala; Boothroyd a Dwight; ac Ingram Cobbin; Jones, Penybont; Williams o'r Wern; Roberts, Llanbrynmair; a John Elias, Christmas Evans, a Charles, Caerfyrddin; Williams, Pantycelyn, a Rowlands, Llangeitho; a beirdd hen a diweddar, nac yn nghwmnïaeth ymyrwyr â materion rhai eraill. Etto yr oedd ganddo ei gyfeillion neillduol yn mhob man lle bu; y rhai a fuont yn gyfeillion iddo hyd y diwedd. Y rhai y gwnaeth efe fwyaf drostynt a droes faweiddiaf tuag ato. Gwelodd amryw wedi dyfod i sylw, na ddaethent byth i'r golwg, heb ei help ef neu help rhywun, ar y cychwyn, yn ei anghofio yn lân. Meddyliodd ynddo ei hun lawer gwaith, am beidio gwneud dim yn rhagor dros neb; ond nid allai beidio pan fyddai hyny ar ei law.

Wedi llwyr ddiflasu yn hau o hyd "bethau ysprydol," ac heb fedi nemawr ddim o'r "pethau cnawdol," mewn cyfnewidwriaeth, daeth i'r penderfyniad o'r diwedd i adael Caernarfon, er nad oedd y fath syniad wedi croesi ei feddwl erioed, ond pan y derbyniodd alwad o'r *Groes Wen*. Yr oedd y peth dros ychydig fel breuddwyd—ni chredai efe yn

ei wirionedd; ond o dipyn i dipyn, daeth yn gryfach, gryfach, er maint o afael oedd ganddo yn y dref a'r gymydogaeth, ac yn yr eglwys a'r gynnulleidfa, a phenodwyd yr amser. Daeth dydd yr arwerthiant cyhoeddus, yr hwn a effeithiai yn fawr ar y teimlad; ond, rhaid oedd myned drwy yr holl drafferth i gyd, er mor anhawdd. Yr oedd ei gyfeillion wedi meddwl am roddi Tysteb iddo, yr hyn a wnaed; rhydd yr hanes canlynol, yr hwn a gymerwyd o'r *Carnarvon & Denbigh Herald*, ddangosiad o'r modd y dygwyd pethau yn mlaen. Dywed Golygydd y papyr yn y rhifyn am Mehefin 3, 1848:—

"Y mae yn dda genym weled, oddiwrth hysbysiad yn ein rhifyn presenol, fod pwyllgor wedi ei sefydlu i'r dyben o sicrhau i Mr. William Williams, yr hwn sydd mor adnabyddus gyffredinol wrth ei enw barddonol CALEDFRYN, arwydd sylweddol o'r parch hwnw (heb son am ddim arall) y mae ei athrylith fel ysgrifenydd barddoniaeth Gymreig wedi ei sicrhau iddo yn mhob meddwl sydd yn gyfarwydd â barddoniaeth Cymru. Y mae llawer a allent ystyried Mr. Caledfryn Williams yn meddu hawliau dyfnach ar ddiolchgarwch cyhoeddus fel rhagredegydd yn llwybr Rhyddfarchnadaeth, fel Gwlad-ddysgydd Rhyddfrydig, a Gweinidog defnyddiol; ond dichon fod y pwyllgor wedi penodi ar y llwybr goreu i osod allan ei hawl i barch cyhoeddus, sef, ar yr addefiad cyffredinol o'i enwogrwydd fel tywysog yn mysg meibion y gân. Dichon y gall rhywrai fod yn wrthwynebus iddo ar y cyfrifon eraill a enwyd: ond nid all neb wadu ei deilyngdod fel diwylliwr llenyddiaeth ei wlad. Prydyddiaeth, neu ryddiaith sydd yn meddu holl dân a bywyd barddoniaeth, sydd wedi argraffu ar dafodieithoedd

Groeg a Rhufain ddelw o anfarwoldeb; ac os ydyw iaith Cymru i barhau, drwy y bywyd a roddir ynddi gan athrylith enaidroddedig y bardd y bydd iddi wneud hyn. Gall gilio yn raddol o arferiad, fel y byddo i gydnabyddiaeth â'r Saesoneg gynnyddu; ond pe byddai iddi ddyfod yn iaith farw, fel y rhai hyny o enwogrwydd classurol, byddai fel y rhai hyny, byw yn y gân, os byddai y gân hòno yn dwyn delw anfarwol yr awen. Y mae y *Rothsay Castle* yn dangos hyn yn enwog. Yr ydym wedi ei glywed, gan farnwyr da, ei bod yn un o'r cyfansoddiadau penaf yn y gelfyddyd ddarluniadol. Os ydyw ei chymeriad felly, nid all ei hawdwr, yn ddiammheu, gael ei anrhydeddu yn ormod. Y mae pob un sydd yn caru iaith ei fryniau brodorol, yn ddyledus iawn iddo, oblegid y mae efe wedi gwneuthur llawer i wirioneddoli mewn ffaith y dymùniad hoff hwnw, 'Oes y byd i'r iaith Gymreig,' a adroddir ganddynt hwy yn eu cylchwyliau. Da y dywedodd y bardd:—

> 'Empires have vanished from the face of earth,
> Tongues have expired with those who gave them birth,
> Without the glory such a strain, could give
> As even in ruins bids a language live.'"

Ymdrechwyd yn deilwng i gael y Dysteb yn mhlith aelodau yr eglwys yn Mhendref, a chan lawer nad oeddynt yn proffesu crefydd, a galwyd cyfarfod cyhoeddus yn addoldy Pendref, am yr hwn y dywed yr un papyr:—

"Mewn canlyniad i Mr. Williams gael galwad i fugeilio eglwys Annibynol yn y Brif-ddinas, y buasai yn annoeth iddo beidio cydsynio â hi, cychwynodd dwy ffrwd o danysgrifiadau, ychydig wythnosau yn ol, redeg, i'r dyben o'i

anrhegu ef â Thysteb o serch a pharch ar ei ymadawiad—un oddiwrth ei gynnulleidfa, a'r llall oddiwrth ei gyd-drefwyr, y rhai sydd yn ei barchu fel bardd uchel-dalentog. Yn y cyfarfod i'w anrhegu cymerwyd y gadair gan John Hughes, Yswain, yr hwn a ddywedai fod yn ddrwg ganddo ef na buasai rhywun mwy cymhwys nag ef yn gafael yn y swydd oedd ganddo; y byddai iddo ef ymdrechu ei oreu, pa fodd bynag, i roddi cyfleusdra i ddatgan pob peth a ystyrid yn perthyn i'r cyfarfod. Yr oeddynt oll yn hysbys fod y cyfarfod wedi ei alw i'r dyben o ddangos parch a serch trigolion y gymydogaeth hon yn neillduol, a'r Dywysogaeth yn gyffredinol, i'r Parch. W. Williams, diweddar weinidog yr addoldy lle yr oeddynt wedi ymgynnull; ac er cyflwyniad i'r gŵr boneddig hwnw arwydd sylweddol o'u golygiad serchus. Galwai efe yn awr ar y Parch. M. Lewis, Bangor, i gynnyg y penderfyniad cyntaf; yr hwn a amlygai eu gofid am fod Mr. Williams yn gadael Cymru. Dywedai y llefarwr ei fod ef er pan adnabu Mr. Williams gyntaf wedi ei gael yn dad ac yn gyfaill. Nad allai efe byth anghofio y cynghorion caredig oedd efe wedi eu derbyn ganddo; gobeithiai efe na fyddai i'r effeithiau byth gael eu dileu o'i feddwl. Ystyriai efe ymadawiad Mr. Williams yn golled fawr, nid yn unig i dref Caernarfon, ond i'r sir, a'r Dywysogaeth yn gyffredinol. Etto ei fod yn destyn llawenydd nad ydoedd efe yn eu gadael mewn gwarth, ond yn serch ei eglwys, ei gynnulleidfa, a'i gyd-wladwyr. Gobeithid na fyddai i undeb Mr. Williams â'i wlad gael ei dori drwy ei symudiad—y byddai iddo eu ffafro yn barhaus â'i gyfansoddiadau rhagorol mewn barddoniaeth a rhyddiaith, ac âg ymweliadau personol. Nid

oedd unrhyw ammheuaeth yn ei feddwl ef na fyddai i'r gwŷr. oedd i'w ddilyn ef osod allan y llinellau gwahanol oedd yn nodweddiad dirgel a chyhoeddus Mr. Williams; na fyddai iddo ef, gan hyny, ond cyfeirio at un o honynt. Meddyliai ef am eofnder Mr. Williams wrth amddiffyn yr egwyddorion hyny a ystyriai efe yn iawn. Ni ofynai efe byth a oeddynt yn debyg o foddhau; ei holiad ef oedd, a oeddynt yn iawn; ac os caffai efe eu bod hwynt felly, safai drostynt er gwaethaf pob rhwystr. Ystyriai efe hyny yn llinell bwysig iawn yn nghymeriad dyn cyhoeddus, yn enwedig gweinidog i Iesu Grist. Fod ar y wlad eisieu y fath ddynion yn y cyfnod presenol.

Y Parch. Hugh Hughes (Tegai), wrth gefnogi y cynnygiad, a ddywedai, Fod pob un oedd yn bresenol dan ddylanwad un teimlad, sef, ymadawiad Mr. Williams. Fod trigolion y gymydogaeth wedi ymddwyn yn briodol wrth gydnabod teilyngdod a thalent y gŵr parchedig. Nid oes dim dadl na bu, ac nad oes, yn Nghaernarfon, wŷr o enwogrwydd, cymaint a neb a ellid eu cael yn Nghymru; ond nad ydyw yn ormod dweyd, fod enw CALEDFRYN wedi gwneud mwy, drwy ei berthynas â llenoriaeth, i anfarwoli enw Caernarfon, nag unrhyw ddyn a sathrodd ei daear erioed. Y mae ein cyfaill teilwng wedi symud mewn mwy o gylchoedd o ddefnyddioldeb nag un Cymro sydd yn awr yn fyw. Yn mha le y mae bardd mwy talentog, llefarwr mwy hyawdl, neu ysgrifenydd mwy grymus a mwy prydferth yn yr iaith Gymreig? Heblaw hyny, cawn ynddo ef yr athronydd Cristionogol, y Duwinydd, a'r Bardd Cristionogol. Y mae ei ysgrifell ef wedi bod yn cael ei defnyddio ar destynau amrywiaethol dirifedi, wrth drin pa rai y mae efe bob

amser gartref ac yn hapus. Y mae yr aberth y mae Mr. Williams wedi ei wneud dros ei egwyddorion, wedi bod yn fawr dros ben; pe buasai ef am werthu ei dalent i'r uchaf ei geiniog, neu am gynnyg ei hun i ryw brynwr, buasai raid i'r swm a fuasent yn ei gynnyg fod yn fawr; ond ni wnaeth Mr. Williams hyny: ni fydd iddo ef werthu ei gydwybod na'i egwyddorion, na'r talentau oedd efe wedi eu derbyn.

Cynnygiwyd yr ail benderfyniad gan y Parch. William Ambrose, sef, Fod y gwasanaeth enwog oedd y gŵr parchedig wedi ei roddi i'w wlad yn ei gymeriad gweinidogaethol, yn galw am ein cydnabyddiaeth mwyaf gwresog; a'n bod yn gobeithio y bydd efe yn llawn mor fendithiol yn y cylch y mae efe yn ymyl ei feddianu. Dywedai y gŵr parchedig:— Y mae cymeriad Mr. Williams fel llenyddwr wedi cael cyfeirio ato yn barod, a bydd iddo ffurfio penderfyniad gwahanol. Ond y mae yr un yr wyf fi yn awr am ei gynnyg yn cyfeirio at sefyllfa llawer mwy pwysig oedd efe yn ei llanw, sef y weinidogaeth. Ni fydd yn anghydweddol â chymeriad y cyfarfod hwn, os sylwn ar gyflwr ein henwad ein hunain yn y sir hon; oblegid heb hyn nid ellir gwneud cyfiawnder â'r testyn. Y mae ein henwad ni yn fwy anadnabyddus yn sir Gaernarfon, ac wedi bod yn llai llwyddianus nag ydyw wedi bod mewn unrhyw ddosbarth arall o'r Dywysogaeth,—ein cynnulleidfaoedd yn fach ac ar wasgar; a chyda phur ychydig o eithriadau, yn analluog i gynnal gweinidogaeth barhaus; o ganlyniad cafodd ein hegwyddorion gam, ac ymlusgodd dynion annheilwng i'r weinidogaeth, mewn rhai parthau o'r wlad. Dyma oedd sefyllfa neillduol pethau, tua dwy flynedd ar bymtheg yn ol, pan ymsefydlodd

Mr. Williams yn Nghaernarfon: ond, gyda'r holl egni cymeriadol sydd yn perthyn iddo ef yn neillduol, gosododd ei wyneb yn erbyn pob annhrefn, a llwyddodd, drwy lawer o anmharch, i wneuthur ein hegwyddorion neillduol ni yn ddealladwy, i gael eu cydnabod, ac i'n hynodi ni allan fel enwad. Y mae efe wedi ysgrifenu yn dda fel esboniwr yr egwyddorion hyny; ac er ei sefydliad ef yn y wlad hon, y mae yr Anghydffurfwyr Cynnulleidfaol yn lluosocach bedair gwaith nag oeddynt. Nid ellir cael tystiolaeth well dros gymeriad Mr. Williams fel bugail nag ydyw y gynnulleidfa luosog a pharchus sydd yn ymgynnull yn yr adeilad hon. Nid all neb sydd yn cofio y capel bychan, a'r gynnulleidfa deneu yn Mhendref, pan ymsefydlodd Mr. Williams yma, lai na chydnabod y fendith ddwyfol y cyfeiria ein penderfyniad ati sy fel yn gorphwys ar ei lafur. Nid allwn gelu y gwrthwynebiad a brofodd oddiwrth ddynion bychain, o dalentau bychain, a llai o egwyddor. Pe buasai ein brawd yn meddu llai o dalent, llai o boblogrwydd, a llai o ddylanwad, ni fuasai iddo gyfarfod â dim o eiddigedd hurt y corachod disylw yma. Ni ddylai dynion sydd yn ffaelu a gwthio eu hunain i sylw cyhoeddus genfigenu wrth y rhai sydd yn gallu gwneud hyny. Ond nid oes angen i mi fynegu mor fuddugoliaethus yr aeth ein brawd drwy yr ystormydd a gyfododd eiddigedd; glynodd ef wrth ei egwyddorion mor ddiysgog a'r Wyddfa ei hun, ac wele y wobr! Ni oddefodd Mr. Williams erioed i'w lafur dirfawr fel llenyddwr wneuthur unrhyw rwystr i'w weinidogaeth. Tra y gallai Caernarfon fostio ei bod wedi meddu bardd, teimlodd ei thrigolion fod ganddynt "broffwyd yn eu mysg." Tra yr oedd ei enwogrwydd fel bardd, beirniad, ac areithydd,

yn adseinio yn mhob congl o'r Dywysogaeth, yr oedd efe yn weinidog llafurus yn barhaus: —

> 'Athrylith, athronddysg, a dysg yr awenau
> Gydblethant eu llawryf o gylch dy arleisiau,
> Tithau yn ddifost dderbyniaist eu cedau,
> I'w hongian yn offrwm ar drostan y groes.'

Y mae efe yn ein gadael yn bresenol: y mae yn boenus dweyd ffarwel; y mae ei gydweinidogion yn y sir yn teimlo eu colled am addurn dysgleiriaf ein cymanfaoedd cyhoeddus; y mae ein cynnulleidfaoedd, y rhai a adfywiwyd mor fynych drwy ei bregethau nerthol, a'i gynghorion iachusol, yn galaru o herwydd eu colled; y mae eglwys a chynnulleidfa Pendref wedi tystio eu serch tuag ato, ac yn teimlo y golled, ond bydd iddynt deimlo mwy etto ar ol ei ymadawiad. Y mae y penderfyniad yn cyfeirio at gylch ei lafur yn yr amser dyfodol; ond ni allasai un cylch fod yn gymhwysach i Mr. Williams; ac ni allesid cael gŵr mwy addas i feddianu y cylch pwysig hwnw. Y mae miloedd o blant Cymru yn wasgaredig drwy y Brif-ddinas, llawer o ba rai sydd wedi encilio o dŷ Dduw. Yr ydym yn hyderu y bydd i ddysgleirdeb hyawdledd ein brawd dynu llawer o honynt yn nghyd; y bydd ei bregethiad grymus a gonest o fendith dragwyddol iddynt. Ffarwel, anwyl frawd. Bydd i'n gweddïau eich dilyn; bydded i'r hwn a'ch arweiniodd hyd yma, ac sydd wedi eich llwyddo mor ragorol, barhau i fendithio eich llafur. Y mae dwylaw ein Brenhines hoff wedi bod yn rhoddi llawryf enwogrwydd ar eich pen, ond yr ydym yn hyderu y bydd i chwi dderbyn, o law uwch, wobr ardderchocach yn y dydd diweddaf, yn dywedyd, 'Da was da a ffyddlawn.'

Cyfodai W. P. Smith, Ysw., a chynnygiai yn benderfyniad—Fod y gwasanaeth a wnaeth Mr. Williams i achos llenoriaeth, yn hòni parch a serch y Dywysogaeth yn gyffredinol, a gobeithiai y byddai i'w ymdrechion helaeth dros lenoriaeth barhau. Cyfeiriai Mr. Smith at yr amryw gyfleusderau yr oedd ei sefyllfa ef fel Golygydd wedi roddi iddo i werthfawrogi talentau llenorol CALEDFRYN.

Wedi iddo ef wneud rhai sylwadau ar ei hawliau llenyddol i barch a chymeradwyaeth, daeth y Parch. Samuel Roberts, M.A., Llanbrynmair, yn mlaen i gefnogi y cynnygiad, ac a ddywedodd—Fod ein cyfaill serchus wedi cymeryd rhan yn y nifer fwyaf o'r symudiadau a gymerodd le er lledaenu gwybodaeth yn Nghymru yn nghorff y deunaw mlynedd diweddaf; ac ni chafodd ei lafur ei gyfyngu at unrhyw un dosbarth o wasanaeth. Y mae efe wedi sefyll ac ymegnïo yn wrol fel cyfaill diysgog a chyson i ryddid gwladol a chrefyddol. Y mae ei egluriadau ar egwyddorion rhyddfarchnadaeth wedi bod yn llawn ac yn oleu, ei amddiffyniad i ryddid hollol trafnidiaeth wedi bod yn ddifrifol ac yn ddi-ildio, a'i ddynoethiad a'i gollfarniad o dwyll masnachol a gorfaeliant wedi bod o wasanaeth mawr. Y mae ei ddadleuon hefyd dros lawn ryddid cydwybod, dros hawl anaralladwy pob un i ddilyn ei argyhoeddiadau crefyddol, wedi bod yn llym ac yn rymus. Y mae ei gyhoedd-fygythiad yn erbyn pob trefniant eglwysig sydd yn ymddifadu dynion o'u hawliau gwladol, o achos eu golygiadau crefyddol, wedi bod yn gryf, ond nid yn rhy gryf, i'r fath drefniaint, pa le bynag y maent yn bodoli, y rhai ydynt yn attal gweithrediad y sefydliadau mwyaf pwysig—addysgiadol a thrafnidiol,

elusenol a chrefyddol, llywodraethol a barnol; ac y maent wedi dinystrio yn anadferadwy lawer ymerodraeth, a allasai oni buasai y pethau hyn, flodeuo mewn heddwch a llwyddiant. Y mae trawsfeddiant a chynllwynion gormes ysprydol agos wedi trais-orchuddio mewn dinystr brif lywodraethau Ewrop, ac y maent yn peri anfoddlonrwydd a pherygl mewn rhai parthau o'r ymerodraeth Brydeinig. Y mae yspryd drwg goruchafiaeth eglwysig bob amser, ac yn mhob man, yr un; ac y mae mor iselwael ac mor gas, fel nad allai gwladgarwch tanbaid ein cyfaill fod yn rhy gryf yn ei erbyn, ac nad allai digllonedd ei awen gynheu yn rhy ffyrnig yn erbyn ei chamweithredoedd o ragrith a gormes. Y mae ein cyfaill wedi bod yn hir yn wrthwynebwr i rwysg gwastraffus, byddiniaeth halog, a gogoniant creulawn y trefniant rhyfelawg. Y mae ei brofion anatebadwy yn nghylch ei anghyfreithlondeb, a'i ddarluniadau llosgawl o'i erchyllderau calon-rwygiedig, wedi gwneud llawer i helpu yn mlaen agos y cyfnewidiad cyffredinol sydd yn dyfod dros y meddwl cyhoeddus, gyda golwg ar ryfel. Y mae efe hefyd wedi cynnysgaeddu dosbarth mawr o ddarllenwyr, a hyny am lawer o flynyddoedd, drwy gyfrwng un o'n misolion, â chrynodeb misol, wedi ei barotoi yn ofalus, o wybodaeth wlad-ddysgawl a thrafnidiol. Ac heblaw llafurio fel hyn yn achos goleuni a heddwch, a sefyll yn eofn a di-ildio dros wirionedd a rhyddid, y mae ein cyfaill wedi gosod dysgyblion yr awen o dan rwymau dwfn a pharhaus iddo, am ei ymdrechion gwerthfawr drwy y wasg yn gystal ag o gadair y beirniad, i'w dysgu yn rheolau barddoniaeth, ac am ddangos iddynt, ar yr un pryd, y ffordd i ddringo uchelderau iachus mynydd y gân. Fel canlyniad naturiol ac

angenrheidiol i'r holl bethau hyn, y mae ein cyfaill, gyda lluaws o arian-dlysau am ei fwnwgl, wedi cael ei godi lawer gwaith i'r orsedd farddol, i farnu cyfansoddiadau ymgeiswyr am anrhydedd: a thra yr oedd cymylau weithiau yn amgylchu gorseddau rhai dyfarnwyr, y mae efe wedi gallu cynnal ei lys 'yn llygad haul,' a deil ei benderfyniadau yr adolygiadau llawnaf 'yn ngwyneb goleuni.' Ac y mae yn dda neillduol genyf sylwi, na ddarfu yr ymdrechion llafurus hyn oeri ei angherddoldeb yn ei alwedigaeth uchaf oll, na gwanychu ei alluoedd gyda dyledswyddau cysegredig ei swydd bwysig fel gweinidog Cristionogol. Naddo: ni thorodd ei ymdrechion llenyddol gymmundeb ei feddwl gyda'r anweledig. Y mae ei hyfrydwch o grwydr-wibio ar hyd maes llydan a ffrwythlawn ysbrydoliaeth wedi parhau yn ddigyfnewidiad. Y mae ei gydnabyddiaeth â Moses a Dafydd, ac Esaiah ac awenyddion santaidd eraill y Beibl, wedi dyfod yn eithaf cynnefin. Nid ydyw ei ddesgrifiadau o chwyddiadau cenllifoedd y diluw—o fwg pruddaidd Sodom—o ryfeddodau Jehofah yn maes Zoan, ac yn aneddau tir Ham—o'r golofn a'r cwmwl a arweiniodd ei lwythau etholedig drwy ddyfroedd brawychus y môr—o'r bwrdd a arlwywyd i'w bobl yn yr anialwch—o'r taranau a ymrolient o amgylch Sinai—a Shecinah y drugareddfa, wedi colli dim o'u bywiogrwydd a'u nerth. Nid ydyw ei ddarluniadau o'r ffydd a'r duwioldeb a fuddugoliaethasant ar fynydd Moriah, ac yn ngwlad Uz, a thu hwnt i ryd Jabboc, ac wrth furiau Jericho, ac ar uchelderau Carmel, ac a gauodd safnau llewod, a ddiffoddodd angherdd y tân, ac a yrodd fyddinoedd yr estroniaid i gilio, wedi colli dim o'u dyddordeb na'u dylanwad. Nid ydyw ei gyfeiriadau taraw-

iadol at Rachel yn wylo am ei phlant—at y weddw o Nain —at fedd Lazarus—at fynydd y Gweddnewidiad—at y Swper diweddaf—ac at olygfeydd Gethsemane a Chalfaria, ac oddeutu bedd newydd Joseph a mynydd yr Esgyniad; a'i gyfeiriad at y nefoedd yn myned heibio gyda thwrf—y defnyddiau gan wir wres yn toddi—deffroad y meirw—penderfyniadau y dydd diweddaf—a gwobrwyon tragwyddoldeb, wedi colli dim o'u grym gwefreiddiol ac anwrthwynebadwy. Y mae yn weddus i'n cyfaill hoff gael ei anrhydeddu a'i wobrwyo am ei wasanaeth amrywiaethol a'i ymdrechion diflino er lles ei gydwladwyr. Y mae ei lafur llenyddol wedi derbyn rhan deg o wobrwyad yn nghymeradwyaeth y cyhoedd, wrth frawdle beirniadaeth, ac hyd yn nod oddiwrth frenhinoldeb; a dylai gael ei gadw mewn cof fod ei anrhydedd barddonol wedi ei roddi iddo ef gan feirniaid o wŷr Eglwysig, a rhai eraill, na feddent ddim yn ffafriol iddo. Ond, a chaniatâu fod ei ymdrechion llenyddol wedi cael eu gwobrwyo, rhaid imi gael mynegu un peth—ac nid all y sylw fod o glod i'n hoes ac i'n gwlad—y buasai sefyllfa ein cyfaill fel dinasydd y foment hon yn uwch pe buasai ei amddiffyniad ef o ryddid a gwirionedd yn llai diysgog, yn llai talentog, ac yn llai effeithiol. Y mae yn bur ofidus fod galluoedd dyn yn attalfa ar ffordd ei ddyrchafiad mewn graddau o anrhydedd dinasol. Ond felly y mae! Felly y mae yn Lloegr, ac yn nhymhor jubili y bedwaredd ganrif ar bymtheg! ac felly y parha i fod tra byddo un Eglwys yn cael ei chefnogi a'i chynnorthwyo gan y llywodraeth i astudio ac i ddefnyddio pob dichell a allo i fathru egni a thalent, athrylith ac awen pob Anghydffurfiwr cydwybodol dan draed. Gyda golwg ar ei alwedigaeth grefyddol, y mae

Mr. Williams wedi ei barchu yn fawr mewn cariad 'er mwyn ei waith,' yma, ac mewn manau eraill. Yr wyf fi wedi bod yn gydnabyddus ag ef er pan oeddym yn fechgyn; a phrofais ef bob amser yn gyfaill didwyll—mor onest am nodi allan fai yn ei gyfaill ag oedd efe i annog yr hyn a ystyriai efe yn ganmoladwy. Ac y mae yn llawen genyf fod y cyfarfod hwn wedi cael ei alw gan ei gynnulleidfa a'i gyd-drefwyr, fel un ffordd i ddangos eu parch iddo ar yr achlysur dyddorawl o'i symudiad i Lundain. Bydd i'ch gweddïau ei ddilyn ef; a gwyddom y bydd iddo tra byddo byw gofio Caernarfon yn serchus; ac yr ydym yn hyderu y bydd iddo yntau, yn ei gylch newydd o weithrediad, gyflwyno ei ymdrechion goreu at lesiant penaf Cymru."

Cyflwynwyd y Dysteb iddo yn nghanol cymeradwyaeth y dorf. Yn fuan ar ol hyn, cychwynodd i Lundain; ond ni bu yno ond prin ddwy flynedd. Gwelodd yn fuan nad oedd fawr obaith cael achos yn Heol Aldersgate drwy y Cymry. Clywodd yr eglwysi Cynnulleidfaol yn Llanrwst, Trefriw, a Nantyrhiw, ei fod ef yn symudol, ac anfonasant wahoddiad taer iddo ddyfod yn weinidog iddynt, â'r hyn y cydsyniodd. Nid allent addaw iddo ond cyflog bychan, heb gymeryd y tair eglwys gyda'u gilydd; ond gwelodd ef yn fuan fod yn rhaid iddo roddi Trefriw i fyny, oblegid pellder y ffordd, a chan nad oeddynt yn foddlawn i gymeryd yr oedfa am ddau o'r gloch y Sabbath yn lle chwech. Yr oedd ar y dref eisieu yr oedfa y nos, a Threfriw eisieu yr oedfa y nos. Bod heb oedfa y nos yn y cychwyniad cyntaf allan yw un achos nad oes gwell llewyrch wedi bod ar yr eglwys yn Llanrwst. Nid ydoedd Llanrwst yn lle priodol iawn iddo ef yn mhob ystyriaeth; ond gweithiodd ei ffordd yn

burion yno i gael gwell gwrandawiad nag a fuasai yno er's blynyddau. Yr oedd yr achos wedi myned yn dra isel yno er's cryn amser, o herwydd anfoesoldeb rhai lled gyhoeddus gyda'r gwaith.

Y mae yn beth i'w ryfeddu na ddygwyddodd i'w ran ef erioed gael eglwys flodeuog dan ei llwyddiant; ond yr oedd yr achos wedi cael ei faeddu yn Llanerchymedd, yn Nghaernarfon, ac nid oedd yn llewyrchus yn Llundain, ac yr oedd o dan y dwr yn Llanrwst. Nid oedd ganddo ond bwrw ei fara ar wyneb y dyfroedd yma, ac ni wnaeth yr eglwys hon mwy nag eglwys Llundain yr hyn a addawent iddo.

Yn mhen tua dwy flynedd ar ol claddu ei wraig, daeth awydd arno am fyned i'r ystad briodasol eilwaith. Ffurfiodd gyfeillach â gweddw tua 48 mlwydd oed yn Mangor; a phriododd â hi. Nid hir y bu hi heb ddangos arwyddion fod afiechyd wedi ymaflyd ynddi, yr hwn a droes yn y diwedd yn wendid ac yn angeu iddi. Pan nad oedd yn gwbl iach aeth gydag ef i'r Groes Wen, o'r hwn le yr oedd efe wedi cael galwad unfrydol. Yr oedd efe ar ol ei ymadawiad o Lanrwst, hyd ei ddyfodiad i'r Groes Wen, yn tori bara yn eglwys Beulah, ger Bangor. Yr oedd efe wedi cael galwad o'r Groes Wen o'r blaen, megys y crybwyllwyd. Cafodd yr achos yma yn dra isel,—llawer iawn o'r hen bobl wedi marw, a'r rhai oedd yn aelodau yn lled oedranus, heb nemawr ddyn na dynes ieuanc yn eu plith; ac yn ol pob golwg yr oedd yr achos yn debyg o fyned ar ei waeth yn fuan. Nid oedd yma ond tua 104 o aelodau rhwng y Groes Wen, Nant Garw, a Chwm yr Aber. Pa fodd bynag, wedi dyfod i'w plith, nid ydoedd dim i'w wneuthur ond ymroi at arfer moddion oedd a thuedd

ynddynt at gael adfywiad. Yn fuan cynnyddodd y gynnulleidfa; daeth llawer o feibion a merched yr hen bobl oedd wedi eu claddu i fynychu y lle: ac yn mhen ychydig fisoedd daeth rhai gwrthgilwyr yn ol; ac yn mlaen yr aeth yr achos, nes y derbyniwyd cyn pen dwy flynedd a hanner, dros ddau gant o aelodau, drwy y rhai a ddaethant yn aelodau parod o leoedd eraill. Daeth grym yr ardaloedd i wneuthur arddeliad o Fab Duw, ac nid ydoedd ond ychydig iawn wedi eu gadael yn ngweddill. Yr oedd y diwygiad hwn yn un grymus, nerthol, a dylanwadol dros ben. Cyfnewidiwyd wyneb yr ardal ar unwaith. Daeth rhai o'r cymeriadau gwaethaf a mwyaf halogedig at grefydd, ac aduewyddwyd sel yr hen bobl. Helaethwyd, neu yn hytrach ail-adeiladwyd addoldy y Nant Garw, yr hwn a lanwyd can llawned â'r hen rhag blaen; ac ni chafwyd ond ychydig iawn o ofid oddiwrth y dychweledigion ieuainc.

Y mae un peth nodedig i'w sylwi yn y fan hon. Tuag ugain mlynedd cyn hyn yr oedd arddeliad mawr wedi bod ar ei weinidogaeth yn Nghaernarfon; drwy yr hwn yr ychwanegwyd at yr eglwys yno dros ddau gant mewn un flwyddyn, heblaw ugeiniau eraill a dderbyniodd. Y mae y gwynt yn chwythu lle y myno. Ni fu ei weinidogaeth ef erioed heb gael sylw, oddicartref yn gystal a chartref; a bu yn llwyddianus iawn mewn amryw gynnulleidfaoedd yn sir Gaernarfon, a manau eraill, o dro i dro: dywedai un o flaenoriaid Bethesda, tua'r flwyddyn 1840, fod mwy wedi eu galw at grefydd yno, drwy ei weinidogaeth ef, nag a alwyd drwy lafur unrhyw ŵr dyeithr erioed.

Nid ydyw pethau fel hyn i gael eu pasio yn ddisylw. Yr oedd gan yr Apostol Paul gryn olwg ar y rhai a ddych-

welasid drwy ei weinidogaeth ef; ond y mae yn debyg na wybu efe, yr ochr hyn i'r bedd, mwy nag eraill ar ei ol, pa nifer a alwyd drwyddo ef i'r ffydd: ac mai yn y diwedd y bydd y gwrthddrychau achubedig yn dyfod i'r golwg. Clywodd efe amryw yn tystio mai trwyddo ef y cawsant eu dychwelyd at grefydd, a diau y bydd hyn yn goron ei orfoledd yn y dydd hwnw.

Wrth weled ei ferch wedi ei adael drwy briodi, a'i fab ar ei adael i ddilyn ei gelfyddyd fel arlunydd, meddyliai mai doeth fuasai iddo newid ei sefyllfa am y trydydd tro, yr hyn hefyd a wnaeth yn Hydref, 1863. Priododd Miss Annie Hughes, o'r Ogof, Machynlleth, gynt, ond yn ddiweddar o Lundain, yr hon a gafodd efe yn ymgeledd gymhwys yn mhob ystyr o'r gair. Gall ddywedyd iddo weled aml a blin gystuddiau yn ystod ei daith, ond fod goleuni wedi tywynu ar ei babell yn hwyr ei ddydd. Cafodd le wrth ei fodd i weinidogaethu, a gwraig wrth ei fodd i'w gynnorthwyo ac i ofalu am dano yn ei hen ddyddiau.

Bu agos iddo yn more ei oes a chael ei ogwyddo i fyned yn offeiriad. Yr oedd hyny cyn iddo feddwl yn ddifrifol erioed am natur teyrnas y Gwaredwr. Cafodd lyfrau gan yr Eglwyswyr i'w hastudio i'r dyben hwnw; ond ni wnaeth efe fawr â hwynt. Bu Periglor o Eglwys Loegr yn gofyn iddo a chwennychai efe gael urdd esgobol ar ol Eisteddfod Beaumaris; ond atebodd i'r gwrthwyneb. Gwnaeth rhai offeiriaid ddefnydd mawr o hyn, drwy ddweyd mai wedi ffaelu a myned yn offeiriad yr oedd; ond nid oedd hyny yn wirionedd. Dywedai y rhai mwyaf rhagfarnllyd yn mhlith y Methodistiaid mai ffaelu cael myned yn bregethwr gyda eu henwad hwy a barai iddo fyned yn Annibynwr; nid

ydoedd hyny yn wirionedd ychwaith. Dywedai un fenyw, mewn atebiad i un o'r Methodistiaid, "Yr ydym ni yn ddiolchgar iawn i chwi am ei attal; ac os gwelwch rywun cyffelyb iddo etto am gyfodi yn eich mysg, attaliwch hwnw hefyd."

Dyoddefodd lawer o faldordd o dro i dro; ond nid oedd yn cael dim effaith arno er niwaid. Gweithiodd ei ffordd yn mlaen drwy fyrdd o rwystrau yn mhob cylch lle yr oedd yn symud yneddo, ac ni throes yn ol oddiwrth ddim a ystyriai efe yn ddyledswydd arno ei gyrhaeddyd. Ni orfu arno alw ei eiriau yn ol, yn ddirgel na chyhoeddus erioed, er maint a fu a wnelai efe â'r wasg am dros ddeugain mlynedd. Ystyriai yn fanwl bob peth a chwennychai efe ei wneud yn gyhoeddus, cyn gosod pin ar bapyr; ac yr oedd yn ofalus iawn rhag pasio barn fyrbwyll ar gymeriad neb. Nid oedd dim gasach ganddo nag enllib a difrïaeth; yn enwedig, difrïaeth dan rith amddiffyn y gwirionedd. Barnai efe nad oedd ar y gwirionedd eisieu help neb i'w amddiffyn, os nad allai wneud hyny heb fyned i dymher ddrwg, ac heb arfer tafod drwg. Nid oedd efe erioed wedi ei argyhoeddi fod gan y naill ddyn hawl i ddweyd wrth ddyn arall pa beth i'w gredu, nac i gollfarnu dyn arall am ei gredo. Y cwbl a all dyn wneud, heb droseddu rheolau moesau da a boneddigeiddrwydd yw, mynegu ei gredo ei hun, heb geisio ei wasgu ar neb arall. Mad ydyw gwaith dyn yn ceisio gwasgu ei gredo ar arall ond Pabyddiaeth noeth, can noethed â dim a gynnygiwyd o Rufain gan addolwyr Mair a Phedr.

Y mae yn wir y gallasai efe, fel llawer eraill, fyned drwy y byd yn esmwythach, pe caniatasai ei gydwybod iddo ddweyd yr un ffordd â phob dyn, a pheidio gwrthwynebu

neb; neu pe buasai yn tori iddo ei hun lwybr i rodio mewn cyfrwysdra, a thrin gair Duw yn dwyllodrus; ond yr oedd yn well ganddo ef anturio y môr mawr gyda'i lestr na llechu oddeutu y glànau, neu chwilio am y ffordd mwyaf didrafferth i fyned drwy y byd: canys yr oedd efe yn ceisio meddwl yn ddifrifol mai nid yn y byd yma yn unig yr ydym i fyw; ond fod byd ar ol hwn, ac yr oedd efe am gael ymateb cydwybod dda gerbron Duw a dynion. Colledodd ei hun o gannoedd, os nid miloedd o bunnau, drwy ei fod yn rhy onest i redeg gyda'r lluaws, nac i gymeryd ei arwain gan y lluaws. Gwelodd mai y rhai a ddywedent yr un ffordd â phawb a gawsant fwyaf o elw, ond ffieiddiai ef yr egwyddor hon.

Gyda golwg ar astudio, yr oedd efe yn meddwl drosto ei hun; ond nid oedd yn gwrthod cynnorthwy o un man; ond defnyddiai bob awdwr a atebai ei ddyben ef: ond nid yn y crynswth; cymerai efe yr hyn a atebai ei ddyben ef o gynllun pregeth, neu y cynllun i gyd, neu o esboniad, neu o feirniadaeth; canys yr oedd efe yn gweled prynu llyfrau i fod fel ceryg yn y fyfyrgell, yn waith cwbl ofer; ac nid adnabu efe nemawr yn Nghymru, nac yn wir yn Lloegr, oedd heb ddefnyddio gwaith awdwyr. Os caffai efe gynllun pregeth yn ateb ar destyn yn weled na dim a allasai efe wneuthur ei hun, yr oedd yn weled yn ffolineb iddo ymdrafferthu, yn enwedig gan gyda'i bobl; ond yr oedd yn eithaf gwreiddiol yn ei sylwadau a'i gyfeiriad gartref ac oddicartref: hyhy ydyw, yr oedd yn ei ddull ei hun yn berffaith. Ni chlybuwyd neb yn gwaeddi allan, wrth wrando arno ef, "*stolen goods*," fel y gwnelid gyda llaweroedd. Yr oedd efe yn ei ystyried yn radd o bytder

mewn pregethwr fyned a phregeth dyn arall, yn y crynswth, i'w phregethu yn ngŵydd brodyr a wyddai yn mha le yr oedd efe wedi tyfu. Y mae ugeiniau wedi gwneuthur hyny; ond dyna sydd yn lledchwith, i dri neu bedwar o frodyr ddyfod o restr heibio i fan gyda'r un bregeth, fel y dygwyddodd yn un o addoldai y Bedyddwyr, yn sir Fynwy, yn 1859, gyda phregeth o'r *Homilist*.

Nid oedd efe yn fanwl gyda ei gynllun; ond yr oedd yn egnïol am gael enaid y testyn allan; ac ni chafodd foddhad erioed i'w feddwl, os na chaffai le i obeithio fod y bregeth wedi bod o ryw les ysbrydol.

Nid ydoedd byth yn gweithredu fel swyddog gwladol gyda golwg ar droseddau; ni ddygai achos neb yn mlaen heb iddo erfyn arno, neu heb i ryw frawd ei ddwyn gerbron. Ni hoffai wneuthur llawer o seremoni wrth dderbyn na diarddel aelodau. Yr oedd yn adgoffa yr aduod, "gan dy ystyried dy hun."

Nid oedd yn hoffi ymosod ar enwadau eraill o'r pulpud, na dadleu, ond mewn hunan-amddiffyniad. Nid ydoedd yn hoffi bedydd trochi, oblegid y barbareidd-dra sydd yn nglŷn â gweinyddiad y peth; a barnai, fel y daw dynion i fwy o wybodaeth, ae i feddu gwell chwaeth, y gadawant yr arferiad barbaraidd. Yr oedd yn hoffi bedyddio babanod, oblegid y gwyddai nad oedd dim twyll ynddynt. Nid ydoedd efe yn gweled dim mwy o afresymoldeb yn eu bedyddio hwy, heb ofyn eu barn, neu heb iddynt hwy gael barnu drostynt eu hunain, nag oedd yn enwaedu babanod dan yr Hen Oruchwyliaeth heb ofyn eu barn.

Yr oedd efe, gyda golwg ar ei farn grefyddol, yr hyn a elwir Calfiniad cymhedrol; ac yn Anghydffurfiwr o'r

gwraidd. Nid ydoedd dim yn ymddangos iddo ef yn beth mwy lledchwith na bod y naill ddyn marwol a ffaeledig yn cymeryd arno lunio credo i ddyn marwol a ffaeledig arall. Nid allai edrych ar hòniadau y rhai a gollfarnent ddynion i farwolaeth, am na buasent yn llyncu eu Shiboleth hwy, ond fel math o haerllugrwydd a digywilydd-dra oedd yn tarddu o anwybodaeth a diffyg dygiad i fyny mewn cymdeithas o ddynion haelfrydig, oedd yn foddlawn i ganiatâu i eraill yr un rhyddid ag a hònent iddynt eu hunain. Dirmygai yr anffaeledigion, a theimlai can lleied oddiwrth eu geiriau taioglym ag a deimlai oddiwrth ymadroddion addolwyr Ffynnon Elian, neu ddysgyblion Gwrach y Rhibyn. Yr oeddynt yn ei olwg ef yn yr un dosbarth; etto, nid ydoedd heb barchu dynion a Christionogion teilwng o wahanol farn iddo ef: a dywedai nad oedd ganddo ef un help ei fod ef yn ffaelu gweled â'u llygaid hwy; ei fod ef yn foddlon i fyned i'r farn gyda'r credo oedd ganddo, gan bwyso ei enaid yn hollol ar aberth y Meichiau mawr; a'i fod heb erioed ei syflyd oddiwrth y gwirionedd, mai trwy ras yr ydych yn gadwedig.

Yr oedd efe yn caru dysgeidiaeth fuddiol i bregethwyr fel peth hanfodol angenrheidiol; ond barnai fod gormod o amser dynion ieuainc, wedi myned i dipyn o oed, yn cael ei dreulio i geisio cyrhaedd pethau nad allent fod o un buddioldeb iddynt byth. Fod llawer yn hòni'u hunain yn ysgolheigion classurol ag oeddynt erioed heb ddeall iaith eu mam! Ei fod yn ddyledswydd ar bob un oedd am lafurio yn mhlith y Cymry, ddeall iaith y wlad, yn gystal ag y mae Rabbïod Iuddewig yn deall yr iaith Hebraeg. Fod llawer wedi cymeryd tair neu bedair blynedd o fod mewn coleg fel

mantell i guddio eu hanwybodaeth; na feddai llawer o honynt ond enw o fod yn ysgolheigion, er ennill eu bara beunyddiol. Fod cannoedd wedi ymwthio i'r weinidogaeth, na feddent ddim mwy o gymhwyster corff na meddwl at y fath swydd bwysig, nag a feddai mebyn pum' mlwydd i afael mewn llywodraeth teyrnas. Gobeithiai, fel y delai y byd yn oleuach, y delai gweinidogion, eglwysi, a cholegau i wybod yn well pa fath ddysgeidiaeth oedd yn angenrheidiol anhebgorol i bregethwyr. Nid oedd neb a ymhyfrydai fwy nag ef yn y meddwl fod gan yr enwad parchus a dylanwadol y perthynai ef iddo, ddynion o ysgolheigion a allesid eu dodi yn ymyl prif ddysgedigion y byd; ond meddyliai ef, ar yr un pryd, fod un Doctor Pye Smith, neu un Doctor Adam Clarke, yn ddigon mewn un enwad i fyned i chwilio i groniclau yr ieithoedd dysgedig am fŵn—mai gweithwyr y mŵn oedd fwyaf angenrheidiol yn mysg gwerinos. Nid dymunol ganddo oedd gweled rhai o'i frodyr yn ceisio myned yn fawr gyda'r Saeson, am y gwyddai gyda pha fath eiddigedd a dirmyg yr edrychid gan y Saeson ar y cyfryw. Yr oedd ambell un yn ddigon diniwaid i feddwl, os gallai ennill Sais i wenu arno, ei fod wedi cael mwy nag ystad o fil o bunnau yn y flwyddyn; ond ni welodd efe nemawr Gymro erioed yn dyfod i sylw mawr gyda'r Saeson, os na arosai yn Nghymru i gasglu at y Gymdeithas Genadol, neu rhyw gymdeithas arall. Y mae y Cymry wedi bod yn barchus iawn mewn ffugyrau yn y blwydd-lyfr; ond ni ddangoswyd fawr fwy na hyny o barch tuag atynt, os na fyddai rhywun od yn eu plith, wedi dyfod i fyny yn lled dda drwy hunan-lafur. Nad ydoedd ef yn cofio gweled hanes un brawd teilwng o Gymro,

a arosodd yn Nghymru, wedi cael ei osod mewn cyfarfod cyhoeddus yn y rhestr flaenaf yn mhlith y Saeson; ond mai math o gymynwyr coed, a gwehynwyr dwfr, yr ystyrid y Cymry gan y Saeson. Cafodd ef ddigon am byth ar y Saeson pan aeth efe i Lundain i gasglu at addoldy Caernarfon. Yr oedd taiogrwydd, trahausder, a baweidd-dra amryw o honynt yn annyoddefol. Dywedai un, "Y mae pobl yn meddwl os egyr dyn ei wefusau fod yn rhaid iddo agor ei boced hefyd." Un arall a ddywedai, "Y mae gan ddynion hawl i adeiladu y nifer a fynont o addoldai, ac i dalu am danynt megys yr ewyllysiont." Yr atebiad yn fynych fyddai "oddicartref," neu "rhy brysur." "Yr wyf wedi gwneud fy meddwl i fyny i beidio rhoddi dim y flwyddyn hon." "Daethoch o Gymru, a rhaid i chwi fyned yn ol i Gymru." Pan ddywedai fod ei achos yn un teilwng, "Ydyw, mi warantaf, y maent felly i gyd, os coeliwn chwi." "Paham yr ydych yn dyfod ataf fi i geisio rhodd?" "Pa fodd y cawsoch afael arnaf?" "Ni fedd dynion ddim hawl i adeiladu addoldai heb arian i dalu am danynt." Ysgydwai rhai eu penau, heb yngan gair. Ni oddefai eraill iddo fyned i'w presenoldeb. Galwodd chwe' gwaith mewn un tŷ—pum' waith heb weled y gŵr oedd arno eisieu—a'r tro diweddaf, pan alwodd, dymunodd y gŵr arno alw rhyw dro wedi hyny, a chafodd bum' swllt am ei boen. Galwodd gydag un arall, yr hwn a ddymunodd arno alw rhyw dro arall, yr hyn a wnaeth saith gwaith; ond ni welodd ef byth. Costiodd iddo drafaelu pymtheng milldir i gael pymtheg swllt. Dangosai rhai y drws iddo can gynted ag y delai i'w presenoldeb. Ni ofynai rhai iddo gymaint ag eistedd i lawr, ar ol iddo gerdded chwe' milldir. Safent yn y porth,

ac yr oedd yn rhaid iddo yntau wneuthur yr un peth. Ni chodai rhai eu penau oddiar y papyr, os cawsai genad i fyned i'w gwydd. Cadwai rhai ef am amser hir i ofyn holiadau gwag a dibwrpas, ac ni roddent ddim iddo wedi y cwbl. Dywedai un, "Dim ond hyn a hyn wedi ei gasglu Pe buaswn i wedi adeiladu tŷ, heb fod genyf fwy na'r swm hwn, buasai fy achretwyr *(creditors)*, yn meddwl yn ammheus iawn o honof." "Yr wyf wedi penderfynu na roddaf ddim tuag at un achos, ond sydd yn y gymydogaeth." "Nid ydwyf yn eich adnabod, Syr," meddai un. "Y mae y Cymry yn adeiladu gormod o gapeli," meddai y llall. "Os gall dynion fforddio i gael mwy nag un capel, yn yr un gymydogaeth, gallant fforddio talu am dano heb ddyfod i Loegr i gasglu." "Ni ddylai Cristionogion byth fyned i ddyled," meddai un. Dywedai un arall, ar ol deall ei neges, "Ymaith a chwi, Syr, ni wrandawaf arnoch;" a lluaws o atebion cyffelyb: a barnai ef bob amser mai gwell oedd i bob un wneuthur cymaint ag a allasai o ddaioni yn ei wlad ei hun, ac yn mhlith ei genedl ei hun; oni theimlai efe awydd i fyned i blith y Paganiaid.

Nid oedd neb a garai grefydd syml y Testament Newydd yn fwy nag ef, na neb a ffieiddiai ystumiau aunaturiol ar y wyneb neu ar y corff yn fwy nag ef. Yr oedd arno ef eisieu i bob dyn wisgo y gwyneb a gafodd gan Dduw, ac nid gwisgo gwyneb benthyg, nad ydoedd yn perthyn dim iddo ef na neb arall.

Byddai yn ddifyrwch mawr ganddo glywed creaduriaid bychain, a geisient ddringo i'r orsedd i farnu enwogion oedd wedi sefydlu eu cymeriadau cyn eu geni hwynt, er mwyn dyrchafu eu hunain, yn dweyd pwy oedd y mwyaf. Cafodd

gymhorth i chwerthin lawer gwaith ar draul y gwŷr hyn; oblegid yr oedd efe yn ymwybodol o'r ffaith mai yr oes ddyfodol sydd i benderfynu tynged pob un. Y mae gormod o ysbwrial, tra byddo dyn byw, yn ei amgylchu, iddo gael cyfiawnder. Nid ydyw barn yn myned wrth linyn, na chyfiawnder wrth bwys, bob amser, tra byddo dyn byw. Y mae rhyw amgylchiadau teuluol, neu berthynasol, yn effeithio yn rymus tra byddo awdwr byw. Dywedai athronydd yn ddiweddar, fod braidd yn rhy anhawdd cael lle digon clir i osod gwresfesurydd, fel y gwybydder i berffeithrwydd pa beth yw ansawdd gwres; oblegid fod gan isder tir, muriau tai, a choedydd, a hyd yn nod glaswellt, eu dylanwad ar yr awyr; felly yr un modd y mae gyda chymeriadau cyhoeddus, rhaid iddynt farw, ac i un oes, o leiaf, gael ei threulio ymaith, cyn y gellir gwybod eu gwir werth.

Yr oedd efe yn gwahaniaethu oddiwrth lawer yn ei olygiadau ar Ragluniaeth; a mynai rhagfarnwyr cenfigenllyd gael gan y wlad gredu nad oedd efe yn barnu fod Rhagluniaeth: ond yr un peth fuasai iddynt ddywedyd nad oedd efe yn credu fod Duw. Rhaid fod y rhai a farnent mor galed am dano a hyn yn hollol ddyeithr iddo, ac i'w syniadau; oblegid yr oedd yn bwnc y pregethodd efe gymaint arno, os nad mwy, nag un gweinidog yn ei oes, megys y gŵyr y rhai a eisteddent dan ei weinidogaeth yn y manau lle y bu yn aros: ond yr oedd efe yn arfer dweyd fod dynion yn tynu mwy o ofid am eu penau eu hunain, ac ar eu hiliogaeth, nag oedd Rhagluniaeth yn arfer roddi arnynt: ac fod y rhan fwyaf o drueni y byd i'w briodoli i waith dynion yn tori deddfau pendant natur. Na fendithiai Rhagluniaeth neb byth ond can belled ag y cadwent tu fewn i derfynau ei

deddfau. Nad oedd gan Ragluniaeth y nef ddim llaw mewn anfon tlodi, clefydau, newyn, na heintiau bob amser; fod dynion, drwy eu drygioni eu hunain, yn tynu llawer o'r pethau hyn am eu penau eu hunain. Mai rhoddi cyfleusdra i ddynion fyw, os dewisant, y mae Rhagluniaeth; nad oes un rheswm dros i ddyn, na fedd ddim mwy na digon o gyflog i'w gynnal ef ei hun yn gysurus, ac iddo wneuthur ei oreu, ddweyd mai Rhagluniaeth fydd wodi ei dynu ef i dlodi, os prioda wraig, ac os caiff blant, ac os bydd y rhai hyny mewn eisieu beunyddiol ymborth. Nad oes un rheswm i afradlon feio Rhagluniaeth, os ä'n dlawd; nac i blant rhïeni a fuont yn euog o bechodau yn eu hieuenctyd, nad allwn eu henwi, os byddant yn medi o ffrwyth y pechodau hyny o genhedlaeth i genhedlaeth, hyd nes y cladder yr olaf o honynt. Fod deddfau Rhagluniaeth a gras yn ddigon amlwg yn y Gyfrol Ddwyfol: "Dangosodd ef it', ddyn, pa beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd genyt."

Dywedai yn fynych na feddem un esiampl, yn y Testament Newydd, am neb yn gweddïo am i'r Arglwydd gyfnewid gweithrediadau yr elfenau, pan fyddai hyny yn ymddangos yn anghysurus ini. Mai Brenin cyffredinol yr holl ddaear yw yr Arglwydd; mai yn ol ei gynghor ei hun, ac nid yn ol ein barn ni, y mae efe yn llywodraethu pob peth: ac nad oes gan ddyn yr un farn i'w rhoddi ar ddim y mae efe yn gweddïo yn ei gylch; fod yr Arglwydd wedi dangos iddo am ba beth i'w ofyn, yn y cynllun o weddi a roddes, ac yn yr esiamplau o weddïau a adawyd yn y Testament Newydd. Mai twylloffeiriadol sydd wrth wraidd y syniad arall. Nid oedd dim a gynhyrfai fwy arno na chlywed dynion yn ceisio

dysgu Duw, neu yn beio Rhagluniaeth Duw. Mai ymostwng yn dawel oedd ein dyledswydd ni, mewn pethau na feddem un llaw yn eu symudiad ymaith, os byddent yn peri poen ini; a dywedyd, "Gwneler dy ewyllys, megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd." Yr oedd coleddu meddyliau uchel am Dduw a'i lywodraeth, ac am iselder dyn a'i annheilyngdod, fel gwythïen yn rhedeg drwy ei holl weinidogaeth ar hyd ei oes. Nid allai ei enaid oddef ystranciau twyllodrus mewn pregethwyr, na chware ar goelyddiaeth y werinos.

Crybwyllodd mai un o blaŵt y siomedigaethau oedd efe o'r dechreuad; ac y mae yny yn amlwg, canys fe gollodd ei ran o'r wobr ugain punt am ei Awdl ar ymweliad Sior iv. Benthyciodd arian Traethawd a ennillodd i fasnachwr anghenus, a chostiodd iddo gymeryd y swm yn fân ddognau, ac mewn hen nwyddau oedd wedi sefyll. Golygodd y *Sylwedydd*, cyhoeddiad misol, heb gael dim ond y golled oddiwrtho. Golygodd y *Seren Ogleddol*, heb daliad erioed; a chyn hyny, *Tywysog Cymru*. Golygodd *Gylchgrawn Rhyddid* am ddim. Golygodd yr *Amaethydd*, heb gael un rhan o bedair o'r tâl a ddylasai gael. Golygodd y *Gwron* am bedair blynedd, a chollodd drwy hyny dros saith bunt a deugain. Ni dderbyniodd ond pum' punt yn lle deg am feirniadu yn Eisteddfod Porth Madog; a chollodd ddeg punt am na fuasai y cyfansoddiadau yn dyfod allan. Aeth yn feichiau dros un am ddeg punt ar hugain; dros un arall am ddeuddeg punt, a gorfu dalu. Ni dderbyniodd ddim am feirniadu yn Llangollen; ond costiodd iddo dalu am gludo sypynau o'i logell ei hun. Yr oedd dyn yn Nghaernarfon yn ei ddyled o ddeg punt a deugain: addawai dalu

yn mhen dwy flynedd; ond yr oedd ei amgylchiadau wedi chwalu, ac yntau wedi marw, cyn i'r ddwy flynedd ddyfod i ben. Ni chafodd deimlo ffyrling o'r ugain punt ennillodd yn Beaumaris; ond rhoddes y swm i dalu dyled y capel. Ni chafodd ffyrling erioed am ddadleu achos y Gymdeithas Genadol, gartref nac oddicartref; nac am barotoi yr adroddiad lleol bob blwyddyn, tra bu yn Nghaernarfon. Cerddodd i gyfarfodydd drwy bob tywydd, heb gael unrhyw gydnabyddiaeth am flynyddau; a chadwodd geffyl, am flynyddau, at wasanaeth eraill, heb gael digon o dâl erioed am bedolau. Cyflwynodd holl arian ei briod, yr hyn oedd yn gannoedd lawer, at wasanaeth crefydd; ac ni chafodd neb erioed i gydymdeimlo âg ef, ond ystyriai amryw "yn fraint iddo gael gwneuthur hyny!" Gallasai ymhelaethu yn y cyfeiriad hwn, ond ymattalia; gyda dweyd iddo wneud yr oll gyda'r amcan o ogoneddu yr Hwn yr oedd yn ceisio ei wasanaethu, a llesoli ei gydgenedl.

Soniasom eisoes am yr Eisteddfodau cyntaf y bu efe ynddynt, ac am y Llyfryn cyntaf a wnaeth. Derbyniodd yn yr un flwyddyn ag Eisteddfod Aberhonddu, pryd y cafodd wobr am yr Englyn ar yr Enfys, wobr o Gorwen, am yr Englynion ar "Ansicrwydd bywyd, a sicrwydd marwolaeth."

Yn 1824, derbyniodd wobr yn Eisteddfod y Trallwm am Englynion ar "Warth y Cymro a gywilyddio arddel ei iaith."

Yn Eisteddfod Dinbych, yn yr un flwyddyn, derbyniodd arian-diws, o werth pum' gini, am Awdl ar "Ddyfodiad R. W. Vaughan, Ysw., i'w oed;" rhan o wobr am Awdl ar y "Jubili berthynol i George iii.;" a gwobr am Draethawd ar y "Lles a ddeillia i'r Amaethwr a drinio ei dir yn dda."

Yn 1826, argraffodd gyfrol o gyfansoddiadau barddonol, a gwerthwyd tua 2,000 o gopïau o'r gwaith.

Yn 1831, ysgrifenodd Draethawd ar y "Manteision neu yr anfanteision o ddiwyllio yr Iaith Gymreig," am yr hwn y derbyniodd wobr o dri gini oddiwrth Gymrodorion Llundain. Yn yr un flwyddyn, cyfansoddodd ei Awdl ar "Ddrylliad y Rothsay Castle," am yr hon y derbyniodd wobr o ugain punt, arian-dlws o werth pum' punt, ac arian-dlws ychwanegol, cyflwynedig gan y Dywysoges Victoria, y pryd hwnw, a'i mam, Duces Kent.

Yn 1838, derbyniodd y wobr a thlws am yr Awdl fuddugol yn y Feni ar "Farwolaeth Gomer a'i Fab."

Yn Eisteddfod Rhuddlan, yn 1850, derbyniodd y wobr a'r tlws am Awdl "Farwnadol Gwallter Mechain."

Cyhoeddwyd y llyfrau canlynol ganddo:—Arweiniad i'r Grammadeg, yn 1822; Grawn Awen, yn 1826; Ail argraffiad o'r Arweiniad, yn 1830; Pregeth ar Draddodiadau yr Hynafiaid, yn 1836; Y Drych Barddonol, yn 1839; Pregeth ar farwolaeth y Parch. W. Williams o'r Wern, yn 1840. Cyhoeddodd waith R. Ab Gwilym Ddu, yn 1841; Traethawd ar Anmibyniaeth, yn 1842. Cyhoeddodd waith John Thomas, Pentre'r Foelas, yn 1845; Grammadeg, yn 1851; Darlith ar Gribddeiliaeth, yn 1847. Cyhoeddodd gyfrol o'i Farddoniaeth, yn 1857. Cyhoeddodd Emyn-lyfr, yn 1860. Darlithiodd ar Ryfel a Heddwch, ar Gymru, ar Addysg, ac ar Ragluniaeth, mewn gwahanol barthau o Gymru. Darlithiodd yn Llundain, Le'rpwl, a Manchester ar rai o'r testynau uchod.

Ysgrifenodd amryw adolygiadau ar lyfrau yn yr *Herald Seisnig*, megys Llythyrau y Parch. John Elias (yn yr hwn

y rhoddes ddarlun o hono fel dyn, Cristion, a phregethwr); gwaith Dewi Wyn; ac yn y *Principality* ar waith rhai o'u beirdd; a bu mewn dadleuon yno amryw droion yn nghylch y Cymry, ac yn nghylch y Feibl Gymdeithas, ac amryw bethau eraill.

Yn y flwyddyn 1861, rhoddes gyfieithiad o'r Bedd, gan Blair, mewn Pryddest ddiodl, yn nwylaw Golygwyr y *Beirniad;* ond cafodd gam cywilyddus gan yr argraffydd, yr hwn a ymddangosodd yn y cyhoeddiad hwnw am Ionawr, 1861.

Ar archiad y Parch. Lewis Edwards, M.A., Bala, ysgrifenodd erthyglau yn y *Traethodydd* ar "Athrylith y Beirdd." Bu mewn amryw ddadleuon yn y *Carnarvon & Denbigh Herald.*

Yn 1861, ysgrifenodd ar "Arddull y Pulpud" ar annogaeth gweinidogion Undeb Dwyreiniol Morganwg; a chyhoeddodd un bregeth yn Saesonaeg pan ydoedd yn Llundain. Yr oedd cyfieithu o'r Saesonaeg i'r Gymraeg yn naturiol iddo. Ysgrifenai mor rwydd o'r Saesonaeg i'r Gymraeg ag yr ysgrifenai Gymraeg; oddigerth pan gyfarfyddai â gair go anarferol, pryd y troai i'r Geirlyfr. Bu llawer barn arno o eneuau a thrwy y wasg; ond derbyniwyd ei gyfansoddiadau yn dra ffafriol, oddigerth gan ambell genfigenwr, yr oedd efe yn ei waith yn beirniadu wedi bod yn sathru ar ei sodlau. Gohebodd lawer yn ei ddydd â rhai o brif lenorion y genedl. Yr oedd ganddo yn ei feddiant lythyrau oddiwrth Gutyn Peris, Ieuan Glan Geirionydd, Tegid, Daniel Ddu, Golygydd Seren Gomer, Samuel, Brynmair, a Gwallter Mechain; heblaw y cannoedd o lythyrau a dderbyniodd o dro i dro oddiwrth ei frodyr yn y weinidog-

aeth. Yr oedd efe yn derbyn o ddau i dri chant o lythyrau bob blwyddyn, ac yn ysgrifenu oddeutu yr un nifer; ac yr oedd yr wythnosolion a'r misolion a dderbyniai bob blwyddyn o ddau i dri chant o rifedi.

Bu y wasg yn mynegu ei barn arno fel awdwr a bardd lawer gwaith; ac yn ddiweddar, daeth beirniadaeth allan gyda golwg arno fel llefarwr. Ar ol iddo bregethu mewn agoriad addoldy yn Aberdar, diwedd y flwyddyn 1860, dywedai un, wrth ysgrifenu i un o'r papyrau, ar ol dweyd banes y neb a bregethai gydag ef:—"Ar ei ol dacw ddyn llawn mor oedranus yr olwg arno, hollol ddirodres, ond a chryn lawer o'r *hero* yn ei ymddangosiad, yn codi i fyny; ac yr wyf yn meddwl na chlywais bregethwr erioed yn siarad, o ran ei farn, mor annibynol; o ran ei ffugyrau, mor aruchel; o ran cyfansoddiad ei bregeth, mor dlws a threfnus; o ran ei iaith, mor goeth a phur, mor ddidrafferth iddo ei hunan, ac mor ddylanwadol ar y gynnulleidfa. Nid oes angen i mi ddweyd mai CALEDFRYN oedd y dyn hwn."

Parotodd gyfrol fechan o'i bregethau ar ddymuniad amryw o'i frodyr yn y weinidogaeth, a hyny, meddent hwy, i'r dyben o gadw ei arddull yn fyw wedi iddo ef farw.

OL-NODIADAU.

BYDD y tymhor y bu y Parch. W. C. Williams yn gweinidogaethu yn y Groes Wen yn adeg i lawer o'r rhai a gawsant yr hyfrydwch a'r adeiladaeth o'i wrando i gyfeirio ati gyda'r teimladau goreu a'r adgofion parchusaf. Gwnaeth ddaioni mawr yma fel gwladgarwr, llenor, bardd, a gwas da i Iesu

Grist. Llanwodd amrywiol linellau ei gymeriad yn y modd mwyaf boddhaol ac anrhydeddus, nes ennill sylw ac ymddiried pob gradd, fel y dywedai boneddwr o ddaliadau eglwysig, mai "CALEDFRYN oedd gwir offeiriad y plwyf."

Bu yn llwyddianus i gael *Post* dyddiol i'r lle, yr hyn a symudodd anghyfleusdra pwysig. Llafuriodd i godi Ysgol Frytanaidd yma, a gwnaeth hon ei gwaith yn llwyddianus, nes daeth y *School Board* i gymeryd y gwaith o'i llaw. Gorchwyl buddiol arall oedd prynu y tir dan y capel, a'r fynwent, yn feddiant rhydd i'r eglwys. Heblaw pethau allanol, dyrchafodd yr eglwys mewn nerth, lluosowgrwydd, a gweithgarwch crefyddol. Newidiodd ei nodwedd i raddau mawr mewn cyfranu at ofynion crefydd: lled brin y cyfrifid ei rhoddion cyn dyfodiad MR. WILLIAMS yma; er nad ydym yn meddwl fod y bobl yn fwy cybyddlyd nag ydynt yn bresenol, ond eu bod wedi aros yn swm eu rhoddion yn rhy agos i'r rhai fu o'u blaen yn rhoi prinder, heb chwyddo eu rhoddion, fel yr oedd yr amser yn gwellhâu; oblegid yn 1797, pan urddwyd y Parch. G. Hughes yma, swllt y dydd oedd hur, neu gyflog *labrwr* wrth ffwrnes Caerffili. I weithiwr yn codi teulu, y pryd hwnw, yr oedd swllt yn gryn aberth. Diau fod y bobl yn hwyrfrydig i ymadael â'r hen ffugyrau, ac i dori rhai uwch, pan oedd amgylchiadau yn rhoi ac yn gofyn am hyny. Argyhoeddodd y gweinidog y gwyrni yn llym a llwyddianus; ni adawodd gŵr o'r maes heb ei fraenaru, a hauodd had da ynddo, yr hwn trwy wrtaith dyladwy, sydd yn dal hyd heddyw mewn ffrwythlondeb cynnyddol.

Efe oedd y darllenydd mwyaf naturiol a glywsom. Yr oedd goleuni a swyn yn y mynegiant. Dygai ranau helaeth

o'r Ysgrythyrau i'w bregethau, a darllenai hwy nes y teimlid fod bywyd ac ysprydolrwydd ynddynt. Mor llithrig ac mor ber-acenol y rhedai Salmau yr Archddiacon dros ei wefusau!

Yn amser adfywiad un boreu Sabbath, pan oedd dau a deugain yn cael eu derbyn, safent yn rhestr hanner-gylch o flaen yr areithle. Cerddai Mr. Williams yn mlaen ac yn ol, ddwy neu dair gwaith heibio iddynt, gan ddal yn ei law un o Feiblau yr Ysgol Sul. Galwai sylw y dysgyblion ieuainc at y Gyfrol Santaidd. Dywedai, "Llyfr rhyfedd yw y Beibl—ysgrifenwyd ef mewn gwahanol oesau, gan ddynion na wyddent y naill am y llall—dynion gwahanol yn eu harferion, eu dysg, a'u gradd—o'r brenhinol broffwyd hyd y casglydd ffigys: deuai un rhan o hono allan yn awr a rhan arall yn mhen tua chan' mlynedd ar ol hyny, fel y bu ysbaid oddeutu un cant ar bymtheg o flynyddoedd yn dod allan yn llawn; ac wedi casglu y cwbl yn nghyd, mae yr holl ranau yn cyfateb i'w gilydd, fel yr ymffurfiant yn un Gair Santaidd i egluro i'r byd y cynllun dwyfol i gadw pechaduriaid trwy aberth Crist. Dyma ein deddf-lyfr ni: at hwn y byddwn yn appelio, ac nid at senedd na chynghorfa; derbyniwch hwn yn rheol eich ffydd a'ch ymarweddiad," &c. Bu y gwasanaeth y boreu Sabbath hwnw yn un o'r rhai mwyaf dedwydd a gorfoleddus a brofasom erioed.

Buom oddicartref unwaith yn ei wrando yn pregethu ar agoriad capel. Yn y gynnulleidfa luosog, gyferbyn â ni, yr oedd masnachwr parchus—dyn ieuanc gwrol, yn edrych yn hytrach yn ddifater. Daliasom sylw arno, am y gwyddem fod ychydig ragfarn ganddo at y pregethwr. Dechreuodd y llefarwr yn naturiol, heb gyffro nac arwydd o ymgais. Gellid tybied ei fod yn ddibris a diofal, ac nad oes ganddo

ddim neilliduol i'w fynegu nac i bryderu yn ei gylch. Anaml y gwelwyd y fath gyfuniad o bethau manteisiol i bregethwr,—mewn gwedd, symudiadau, llais, parabl, acen, goslefau, ac iaith. Derbynia celfyddyd ei bri gofynol; ond y mae naturioldeb yn ei chysgodi hi, fel y mae y dail gwyrddion yn cysgodi y blodau teg, nes gwneud prydferthwch yn brydferthach. Fel y mae golygfa ar ol golygfa yn ymddangos, y mae y dyrfa yn bywhau, a'r llefarwr yn gwresogi; er hyny, hamddenol iawn y symuda o'r naill linell i'r llall, fel y mae y bobl yn cael amser i dawelu.

Y mae llen ar ol llen yn cael ei symud, ffurfafenau ar ol ffurfafenau yn cael eu harddangos mewn mawredd a gogoniant cynnyddol, â'r pregethwr yn llawn nwyf-awenawl ysprydoledig yn ymlonyddu mewn mwynhâd; fel arwr wedi cyrhaedd ei nôd, â gwedd orphwysol gesyd ei luman ar binacl y cysegr. Gan fy mod wedi clywed y bregeth o'r blaen, tybiwn y gallwn sefyll yn dalgryf i'w gwrando, a gwnaethum fy ngoreu at hyny, ond yr oedd y dylanwad yn ddymchweliadol. Tra yr oeddwn yn ceisio dwyn llinellau fy wyneb i'w lle, gwelwn y masnachwr gyferbyn mewn ymdrech i adferu ei wynebpryd. Ymddangosai fel un wedi ei faeddu. Tywalltodd CALEDFRYN gawodydd o hyawdledd arno, a llwyr orchfygodd ef.

Gan ein bod yn byw yn ymyl MR. WILLIAMS, cawsom gyfle i fwynhau ei gyfeillach hyd ei ddyddiau olaf. Yn ei gystudd, yr oedd yn hollol wybyddus ei fod yn treulio. Deuai i'r shop i bwyso ei hun yn awr ac eilwaith, i gael gwybod pa mor gyflym y gwisgai y cyfansoddiad ymaith. Clywsom ei bregeth y bore Sabbath, Mawrth 21, 1869. Buom yn ymddyddan âg ef yn ei dŷ nos Lun a nos Fawrth.

Mai.

DYDD.	LLE.	AWR.	LLE.	AWR.	LLE.	AWR.
8,					Sant Sior am	7
9,	Moelfre am	12			Colwyn am	7
10,					Llanrwst am	7
11,	Trefriw am	10	Salem am	2	Henryd am	7
12,	Horeb am	10			Caegwigin am	7
13,	Caegwigin am	10	Bethesda am	2	Bangor am	6
14,					Beaumaris am	7
15,	Pentraeth am	12			Penmynydd am	7
16,	Rhosymeirch am	12			Llangefni am	7
17,	Bodffordd am	12			Llanerchymedd am	7
18,	Moelfre am	12			Amlwch am	7
19,	Cemmaes am	12			Llanfechell am	7
20,	Llandeusant am	10	Bodedeyrn am	2	Cleifiog am	6
21,					Caergybi am	7
22,					Salem am	7
23,	Llancadwaladr	12			Capel Mawr am	7
24,	Groeslon am	12			Cana am	7
25,	Bethel am	12			Caernarfon am	7
26,	Bontnewydd am	12			Saron am	7
27,	Pisgah am	12			Talysarn am	7
28,	Talysarn am	10	Nazareth am	2	Llanaelhaiarn am	7
29,	Nefyn am	12			Ceidio am	7
30,	Tydweiliog am	12			Hebron am	7
31,	Aberdaron am	12			Nebo am	7

Medi.

1,	Llaneinion am	12			Capel newydd am	7
2,	Llaniestyn am	12			Pwllheli am	7
3,	Chwilog am	12			Capel Helyg am	7
4,	Capel Helyg am	10	Rhoslan am	2	Tabor am	7
5,	Porthmadog am	12			Maentwrog am	7
6,	Penystryd am	12			Jerusalem am	7
7,					Ganllwyd am	7
8,	Llanelltyd am	12			Dolgellau am	7

W. WILLIAMS.

Y mae yn debyg i'r daith derfynu yn Nolgellau, ac iddo gymeryd y cerbyd oedd yn rhedeg yr adeg hòno i gyfeiriad y Brif-ddinas, a dychwelyd i'w gartref.

PENNOD IV.

NODIADAU AR CALEDFRYN.

GAN IOAN ARFON.

Chwith ydyw meddwl fod cynifer o'r enwogion oeddynt yn glod i'r Areithfa, yn addurn i lwyfan yr Eisteddfod, ac yn golofnau y Wasg Gymreig ddeg neu bymtheng mlynedd yn ol, erbyn hyn wedi myned ymaith, ac yn cael eu cynnwys yn unig yn y gair *diweddar!* Ni chawn olwg arnynt mwyach ond yn eu darluniau, eu gwaith, neu ynte yr adgof o'r hyn a welsom ac a glywsom. Yn mysg y ser hyn, ydynt weithian tuhwnt i'r gorwel, nid y lleiaf ei ddysgleirdeb a'i hynodrwydd ydoedd Caledfryn. Daeth ef i fri yn foreu; a thrwy dalent naturiol o'r radd uwchaf, a gweithgarwch difiino, gwnaeth argraff ddofn ar ei oes, ac at-dynodd sylw ac edmygedd ei gyd-genedl am lawn hanner canrif. Gwelais ef am y tro cyntaf oddeutu deugain mlynedd yn ol, a myfi etto ond bachgenyn bychan. Pregethai ar y pryd mewn cyfarfod yn y Waenfawr. Yr oedd yn edrych yn dra ieuanc, ac felly yr ydoedd mewn gwirionedd—dim ond oddeutu 35 oed; a chan fod ei wynebpryd mor lyfn ac mor lân, digon tebyg fod yr olwg arno yn llawer ieuengach na hyny. Yr oeddwn yn rhy ieuanc i gymeryd nemawr sylw o'i bregeth, ond yr wyf yn cofio yn dda ei fod yn llefaru ar ol rhyw frawd llawer hynach, pwy bynag ydoedd, yr hyn a ystyrid yn lled hynod. Yr wyf yn cofio hefyd fod llawer o ddysgwyl am dano yn flaenorol, a son mawr am dano ar ol y cyfarfod. Oddeutu tair blynedd cyn hyny yr ennillasai gadair Eisteddfod Beaumaris, am ei Awdl anfarwol ar *Ddrylliad y Rothsay Castle;* felly rhaid fod ei glod a'i enwogrwydd yn uchel ar y pryd. Bum wedi hyny rai blynyddau heb ei weled na'i glywed. O'r diwedd, modd bynag, ymgymerodd â gweinyddu yn y Waenfawr unwaith neu ddwy yn flsol, a chadwodd ei ymrwymiad dros amryw flynyddau gyda ffyddlondeb trylwyr, gan nad

allai eithafedd gwres nac oerni ei luddias i ddringo'r gelltydd o Gaernarfon yno. Dyna'r pryd y cyfansoddodd yr Englyn canlynol i'w ffon:—

"Ar yr allt help mawr a rydd—i gyrhaedd
I goryn y mynydd;
Milwaith haws dringo moelydd
Y Waenfawr gyda hon fydd."

I leoedd bychain a thlodion fel Llanrug a'r Waen, yr oedd cael gweinidogaeth gŵr o'i safle a'i ddawn ef yn anmhrisiadwy, a diau fod ei hol yn amlwg yno hyd y dydd hwn. Er nad oedd rhai pobl o enwadau eraill yn ei hoffi, am ei fod yn rhy lym, meddent hwy, etto nid allent beidio dyfod i'w wrandaw, a byddai hen gapel Moriah yn orlawn bob tro y deuai yno. Nid oedd hyn yn syndod o gwbl, gan fod ei ddull o draddodi mor naturiol, newydd, bywiog, a tharawiadol. Yr oedd ei ddwylaw, yn nghyda phob ysgogiad o'i eiddo, yn cynnorthwyo y genau i lefaru; a byddai pob ymadrodd yn ymsaethu i'r glust ac i'r galon yn unionsyth. Nid allai aros rhagymadrodd maith, ac anfynych yr arferai ond ychydig eiriau o eglurhad ar gysylltiadau y testyn. Ond os deuai gau-syniadau neu ddrwg-arferion yn ei ffordd, nis gallai ochel y demtasiwn i droi atynt ac ymosod arnynt gyda'i holl lymder. Byddai fel tân ysol yn goddeithio y cwbl ar ei gyfer. Yn y rhan gyntaf o'i bregeth, *siarad* y byddai a'i wrandawyr, a hyny yn y dull mwyaf naturiol; yna ymgodai i dipyn o hwyl, gan chwareu ar y nodau mwynaf a berthyn i'r llais dynol; ond bob amser diweddai mewn rhaiadr o hyawdledd cynhyrfus. Nid esgyn i'r uchelder na disgyn i'r dyfnder y byddai ef, yn ol arfer rhai a ystyrir yn "bregethwyr mawr," ond yn hytrach disgyn at y bobl y byddai ef, gan drafod ei bwnc yn eglur ac ymarferol. Ni arferai byth bron air Saesoneg, nac hyd yn nod fastarddair—dim ond Cymraeg pur a choeth; ac yr oedd ei frawddegau byrion, trefnus, ac addurnol yn treiglo dros ei wefusau mor rwydd a naturiol a dwfr i bant. Credaf ddarfod i mi dderbyn mwy o addysg ac o fudd dan ei weinidogaeth ef na than weinidogaeth neb arall a wrandewais erioed; ac efallai mai dyna un rheswm dros fy mod yn barnu hyd yr awr hon nad oedd un Cymro yn ei oes wedi ei gynnysgaeddu â *dawn naturiol at lefaru* mor uchel â CHALEDFRYN. Cefais ambell gyfleusdra i'w wrandaw yn ei flynyddoedd

diweddaf, ond ni fynai barn addfetach ysgogi oddiwrth ei hen dybiaeth. Y bregeth ddiweddaf a glywais ganddo ydoedd, ar "*ddull y byd hwn yn myned heibio;*" yn niwedd yr hon yr adroddai ei bennillion byth-gofus "*Arwyddion Henaint.*" Ychydig iawn o'r arwyddion a ganfyddid yn y llefarwr ar y pryd, a bychan feddyliem fod ei oes a'i wasanaeth gwerthfawr mor agos i derfynu!

Yr oedd CALEDFRYN agos mor enwog a hysbys fel darlithydd ag ydoedd fel pregethwr. Nis gwn pa un ai efe ai ynte Hiraethog ddaeth i'r llwyfan gyntaf yn y cymeriad hwn, ond yr wyf yn sicr ddarfod i'r naill a'r llall wneud lles dirfawr i'w cyd-wladwyr drwy eu darlithoedd dyddorol a phoblogaidd. Testynau gwladgarol a chymdeithasol ddewisai CALEDFRYN bron bob amser; a diau fod adsain ei ddarlithiau ar "Heddwch yn lle Rhyfel"—"Masnach Rydd"—"Addysg"—"Barddoniaeth"—"Cymru, Cymro, a Chymraeg"—"Yr Enwogion Cymreig," &c., &c., heb gilio etto o glustiau llawer tref a chymydogaeth: ond dilys yw, mai ei ddarlithiau ar "*Gribddeiliaeth a Thwyll Masnachol,*" a dynodd fwyaf o sylw, ac a greodd fwyaf o gyffro. Yr wyf yn cofio yn dda i mi yn y flwyddyn 1847, ddyfod i lawr i Gaernarfon o bwrpas i wrandaw un o'r rhai hyn. A thyna lle yr oedd y capel yn orlawn: yr hen batriarch o'r Waunfawr yn y gadair, a'r darlithydd yn ei hwyliau goreu, ac wrth fodd ei galon yn ymosod ar gribddail a thwyll. Fel yr elai rhagddo, ac y deuai ei ddynoethiad yn fwy annyoddefol, gwelid ambell un yn cyfodi ac yn ymwthio allan. Wrth sylwi ar hyn, y darlithydd a ddywedai, "Wel, gyfeillion, nid yw yn syndod os oes rhai cribddeilwyr yn teimlo y lle hwn yn myned yn rhy boeth iddynt. Ond fy ngorchwyl i heno ydyw dal y drych o'ch blaenau; ac os oes rhywrai yn gweled eu hunain neu eu cyfeillion yn y drych, nid oes genyf fi mo'r help." Yr oedd yr effaith drwy y ddarlith hon yn drydanol, ac yn neillduol felly ar ei diwedd, pan y darllenid cadwen o bennillion tuchanol i wahanol fathau o dwyllwyr cribddeiliog. Coleddai llawer elyniaeth angherddol at ein harwr ar y pryd; ac oni bai fod ei eondra yn anghymharol, buasai yr erledigaeth yn ddigon i'w lethu. Ond er pobpeth, cafodd y darlithiau ddylanwad amlwg ar Gaernarfon a'r amgylchoedd; canys cyn hyny yr oedd y dref hon mor hynod am ei chribddeiliaeth ag ydyw

er's chwarter canrif bellach am ei masnach deg a'i phrisiau isel.

Y mae ei hanes fel bardd yn cyrhaedd dros gyfnod mor faith, a'i helyntion mor lluosog, fel mai anfuddiol i mi fyddai ceisio eu holrhain, gan y bydd hyny yn ddiammheu yn cael ei wneud ganddo ef ei hun a'r Golygydd.

Yn annibynol ar lwyddiant neu aflwyddiant Eisteddfodol, credaf y cytuna y genedl yn gyffredinol i restru CALEDFRYN yn y rheng flaenaf o awenyddion ei oes. Dichon y ceid un neu ddau allent ehedeg yn uwch, neu dreiddio yn ddyfnach nag ef; ond nid oedd neb allai ddilyn natur yn well, na chadw urddas yr awen yn fwy dihalog. Ei brif deithi oeddynt naturioldeb, ystwythder, tynerwch, coethder, tlysni, eglurder, yn nghyda chywirdeb mewn iaith a ffugyrau, na cheir ei gyffelyb mewn barddoniaeth ddiweddar. Er ei fod ef y mwyaf ymlyngar o holl brif-feirdd ei oes wrth y mesurau cynghaneddol, etto, ni cheid ef byth yn euog o aberthu synwyr a Grammadeg ar allor cynghanedd. Gwyddai mai peth i'r *glust*, ac nid i'r llygad, ydoedd cynghanedd; ac ni byddai un amser yn ymgyrhaedd at wag-orchest, neu ffug-gywreinrwydd. Y gynghanedd oreu, yn ei gyfrif ef, ydoedd y fwyaf rhwydd, naturiol, a seinber; ac ni fu neb yn fwy gofalus rhag beichio ei waith gyda

"Dwl a dyrys dlawd eiriau—ag arnynt
Glogyrnawg gymalau."

Dichon nad ellir nodi cywirach enghraifft o awenyddiaeth CALEDFRYN, na'r dyfyniad canlynol o'i Awdl ar yr "Adgyfodiad:"—

"I wared dyn o'i anwiredd,—a'i ddwyn
O ddinystr y dyfnfedd,
Iesu cu, Tywysog Hedd,
Roes gymmod dros ei gamwedd.

Anhyfryd boenau afrif
Yr ardd, un angel ni rif;
Ei ing Ef, ni anghofir,
Na'i ddwys gyni, na'i weddi wir;
Pan oedd y Gwr, Prynwr prid,
Yn ufudd yn ei ofid,
Ar ei wyneb eirianwawr,
A'i ddwy lin ar y gwyrdd lawr;

A dagrau brwd, o gur bron,
Yn ei liwgar olygon,
A'i waed yn treiglo wed'yn
Ar y gwellt, drwy'r barug gwyn.

Anian oedd yn llonyddu,—ednod aent
Dan y dail i lechu;
Y môr mawr a'i rochfawr ru,
Gan orfod heb gynhyrfu.

Awelon yn noswyliaw,—heolydd
Caersalem yn ddystaw,
Gwyr y llys, er hyn, gerllaw,
A'r bradwr hy' heb wridaw."

Heblaw bod yn awenydd uchelryw, cydnabyddid CALEDFRYN hefyd yn athraw barddol o fri ac enwogrwydd. Gwnaeth wasanaeth dirfawr, yn neillduol i feirdd ieuainc, drwy gyhoeddi ei "*Ddrych Barddonol*" a'i "*Rammadeg;*" a phriodol iawn y gellid ei ystyried yn dad y tô presenol o feirdd. Cyn cyhoeddiad y "*Drych*," yr oedd yr awen Gymreig yn dirywio yn brysur. Swn, ac nid sylwedd, oedd y cwbl gan laweroedd. Defnyddid cynifer o eiriau dyeithr a diystyr, a chynifer o ansoddeiriau diangenrhaid, nes bod llawer cyfansoddiad a llawer llyfr yn gruglwyth cwbl annealladwy; a thra phriodol y dywedai ein hawdwr,

"Nid yw pob peth a blethir
O'r un waed â'r awen wir."

Ond cafwyd yn y "*Drych*" eglurhad ar natur barddoniaeth, a chyfarwyddyd yn yr holl gelfyddyd; a buan y llwyddodd ei wersi syml ac eglur i ddwyn oddiamgylch ddiwygiad amlwg. Y mae yn dda genyf fi, fel un o'r lluaws fu'n eistedd wrth ei draed, gael y cyfleusdra hwn i dalu gwarogaeth i'm hen athraw hybarch.

Yr oedd CALEDFRYN yn Eisteddfodwr mawr. Credaf y bu yn bresenol mewn mwy o'n prif Eisteddfodau, ac yn gweinyddu yn amlach ar y llwyfan cenedlaethol, nag odid neb arall yn ei oes. Yr oedd ei wladgarwch brwdfrydig, ei ddoniau ysblenydd, yn nghyda'i enwogrwydd cyffredinol fel bardd a beirniad, yn ei gymhwyso yn nodedig at hyny. Yr oedd yn feirniad craff a manwl, etto, llym a diddorbynwyneb. Meddai ddigon o graffter ac annibyniaeth i ffurfio barn, a

digon o eondra i'w thraddodi yn ddifloesgni, digied a ddigio. Bu llawer o dro i dro yn teimlo i'r byw, ac yn gwingo yn erbyn ei symbylau, ond parhaodd hyder y genedl yn ei gywirdeb a'i onestrwydd yn ddisigl. Wrth ei gymharu ef ag Eben Fardd fel beirniad, sylwai y diweddar Ieuan Gwynedd fel hyn:—"Gwna Eben bob ymdrech i ddarganfod a dangos y perl; ond cyfyd CALEDFRYN ei fflamdorch, a dengys y cyfandir o laid yn mha un y cafwyd gafael arno. Eben a grea fwyaf o gyfeillion, a CHALEDFRYN a grea fwyaf o gaseion. Y mae'r naill mor wasanaethgar a'r llall." Yr oedd ef mor ddidroi oddiwrth ei farn ag ydoedd oddiwrth egwyddor; a dichon y gellir crybwyll ddarfod i'w ymlyniad wrth rai o'i opiniynau boreuol ei hudo ambell waith i gondemnio yr hyn a ystyrid gan eraill yn oddefol, os nad yn rhagoriaeth. Pa fodd bynag, yn ei farwolaeth ef, diffoddodd y ffwrnes fu mor wasanaethgar i buro a glanhau yr aur a'r arian a gloddid allan o drysorfeydd yr awen Gymreig. Yr oedd yn ddarllenwr campus, ac yn draddodwr beirniadaeth heb ei ail. Wrth dreiglo dros ei wefusau ef, elai y gwael yn waelach, a'r rhagorol yn rhagorach. Nid yn fuan yr anghofiwn ef ar esgynlawr Eisteddfod Madog, pan y traddodai ei feirniadaeth ar yr Awdlau ar *Heddwch;* a'r fath effaith a roddai i'r dyfyniadau o'r un fuddugol. Y mae adsain rhai o honynt yn fy nghlustiau y mynyd hwn, megys,

"Teigrod nid oeddynt eerach,
Yn null eu byw, na lloi bach."

A phwy o'r rhai oeddynt bresenol yn Eisteddfod Aberystwyth, a anghofia ei ddull a'i oslef watwarus yn adrodd y llinell hòno am y llew,

"Fel cath 'fewn pumllath i Paul?"

Gallai anadlu gwawd a diflasdod ar bobpeth o'r fath. Yn yr Eisteddfod hon eisteddai wrth ochr Rhydderch o Fon—yr Ysgrifenydd, tra yr oedd Kilsby Jones yn traddodi araeth. Yn anffodus, aeth Kilsby yn rhy gwmpasog a gwasgarog cyn dod at ei bwnc, a dechreuodd boneddwr ymyrgar a eisteddai gerllaw guro a llefain—"*time, time.*" Wedi ysbaid byr o heddwch a dystawrwydd, gwnaeth y boneddwr anesmwyth yr un peth drachefn; ac ar hyny trodd CALEDFRYN ei lygaid mawr bolwyn ato, a gofynodd, "Rhydderch, pwy a osododd y dyn hwn yn

time-keeper yr Eisteddfod?" Prin y rhaid dweyd ein bod wedi cael tawelwch ar ol hyn.

Llawer araeth ddoniol a gawsom ganddo yn ein prif Eisteddfodau, o bryd i bryd; a byddai pob araeth o'i eiddo yn berwi o wladgarwch, ac yn sicr o gael argraff ar y gynnulleidfa. Yn Eisteddfod Caernarfon yn 1862, ei bwnc ydoedd, "Yr enwogion Cymreig, a'r dylanwad a gawsant ar y genedl." Ac O! mor effeithiol ydoedd ei gyfeiriad ato ei hun ar ei diwedd, pan y dywedai ei fod y diwrnod hwnw yn union yn yr un sefyllfa a'r un teimlad â Dafydd Ddu yn Eisteddfod Caernarfon ddeugain mlynedd yn flaenorol, ac yr adroddai rai o linellau yr hen brif-fardd enwog, megys,

"Minnau'n hen mewn anhunedd,
Yma'n byw yn min y bedd;
Gwyro mae fy moel goryn
At lawr allt, dan y gwallt gwyn;
Daw eraill feirdd awdurol
Yn fuan, fuan, ar f'ol."

Ac yn Eisteddfod Rhyl, y flwyddyn ddilynol, traddodai araeth hyawdl ar yr "Iaith Gymraeg a'i Barddoniaeth;" ar ddiwedd yr hon yr adroddai amryw bennillion campus, o ba rai nid allaf gofio ond yr olaf, sef,

"Bydd ei geiriau a'i dylanwad
Yn gwefreiddio llawer oes,
Wedi 'n cerfio ar y creigiau
Mae'r ymadrodd—'Gwaed y Groes;'
Pan fo'r awel yn dystewi
Yn ochenaid ola'r byd,
Dod o'r beddrod y pryd hwnw
Y bydd Cymro 'n Gymro i gyd."

Yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin y gwelais ef ddiweddaf. Er ei fod yn edrych yn bur dda ar y pryd, etto, nid allwn lai na sylwi fod "*arwyddion henaint*" arno, a bod ei gyfansoddiad cadarn yn dechreu ymollwng. Yno, am y tro olaf, cefais gryn lawer o'i gyfeillach. Yr oedd yn gyfaill pur, ac yn gwmniwr doniol a dirodres. Nid hawdd oedd dynesu ato ar y cyntaf, o herwydd ei edrychiad annibynol ac urddasol; ond wedi dyfod i'w adnabyddiaeth, nid hir y byddis heb deimlo yn rhydd a dedwydd. Nid oedd rhagrith yn perthyn iddo; a gwae y sawl

a ragrithiai neu a rodresai yn ei wyddfod. Dyn hollol ar ei ben ei hun ydoedd yn mhob ystyr, ac ofer dysgwyl byth ail-argraffiad o CALEDFRYN. Meddai ddigon o wroldeb i edrych yn wyneb angeu ei hunan; canys tra yn gwybod fod y gelyn diweddaf gerllaw, daliodd i ysgrifenu hyd hanner dydd; yna sychodd ei ysgrifell, ac aeth i'w wely i farw dri o'r gloch y prydnawn! Cyfododd yn foreu, gweithiodd yn galed, ac aeth i orphwys yn gymharol gynnar; a gwnaeth y genedl goffadwriaeth am dano deilwng o'i dalent ddysglaer, ei fuchedd ddihalog, a'i fywyd llafurus a gwerthfawr.

Ffarwel, CALEDFRYN, oedd ddyn gwir ddoniol,
O ymadroddiad llym a hydreiddiol;
Barwn ydoedd o urddas beirniadol;
Byw o dlysineb ei odlau swynol;
Brwd ddiwygiwr—gwr gwladgarol—a'i dân
Yn cynneu allan nes llosgi'n hollol

GAN HIRAETHOG.

Da oedd genyf gael ar ddeall fod *Cofiant* Caledfryn, yn nghyda phigion o'i Bregethau, &c., yn awr yn y wasg. Yr oedd yn ddyledus i'r wasg Gymreig dalu y gyfryw deyrnged i enw a choffadwriaeth un a'i gwasanaethasai mor hir, mor ffyddlawn, galluog, ac effeithiol ag oedd efe fel ieithydd, bardd, beirniad, a llenor; a dylai y genedl a wasanaethodd efe yn y cymeriadau hyny, ac fel pregethwr enwog, a gweinidog defnyddiol, roddi derbyniad croesawgar i'w *Gofiant*, drwy bwrcasu y llyfr wrth y miloedd. Yr oedd Caledfryn yn air teuluaidd drwy Gymru er's blynyddau lawer, a rhesymol ydyw dysgwyl y bydd ei *Gofiant* yn fuan yn *llyfr* teuluaidd drwy y Dywysogaeth.

Pan oedd blodeu gwanwyn ieuenctyd ei awenyddiaeth ef yn dechreu ymagor, yr oedd blodeu gauaf henaint awen "Ewythr y Beirdd," ys dywedai Dewi Wyn, sef Dafydd Ddu o Eryri, a'r un modd Dafydd Ionawr, yn gwywo ac yn cwympo. Y pryd hwnw yr oedd Bardd Nantglyn, Gwallter Mechain, Pedr Fardd, R. ab Gwilym Ddu, Dewi Wyn, Gutyn Peris, Dr. O. Puw, ac eraill, rai o honynt yn "henafgwyr yn mysg gwŷr," a'r lleill dros hanner eu dyddiau. Yn gyfoedion iddo yr oedd Ioan Tegid, J. Blackwell, Ieuan Glan Geirionydd, G. Cawrdaf, Ioan Powys, ac Eben Fardd, a T. Pierce. Yr oedd y rhai hyn oll—o hen "Ewythr y Beirdd" ar ben y rhestr, hyd yr olaf a enwyd, yn ser dysglaer, bron bob un o'r maintioli mwyaf, yn ffurfiafen awen Cymru, yn eu tymhor. O'r rhai a enwir yn y ddau ddosbarth uchod o feirdd y ganrif hon, y rhai a etholwyd yn benaf i eistedd ar y fainc ynadol, yn uchel lys yr awen, i weini barn a rhaith ar feirdd a barddoniaeth Cymru, oeddynt Gwallter Mechain, Ieuan Glan Geirionydd, Eben Fardd, a Gwilym Caledfryn; ac yr oedd gan feirdd a llenorion yn gyffredinol lwyr ymddiried yn ngallu, gonestrwydd, ac uniondeb y naill a'r llall o honynt yn ngweinyddiad eu swydd. Teg yw cydnabod mai Gwallter Mechain oedd y *Lord Chief Justice*, yr hwn oedd gydnabyddus â deddfau a chyfrinion barddoniaeth Groeg a Rhufain, a Lloegr, ac yn enwedig â barddoniaeth Gymreig, hen a diweddar.

Ystyrid ef yn oracl, a'i raith yn ddeddf safadwy. Yr oedd Geirionydd yn graffus a gofalus, ac ymddiriedid i'w degwch a'i onestrwydd yn gyffredinol. Yr oedd Eben Fardd, yntau, yn alluog, cydwybodol, tyner, etto penderfynol, na allesid byth ei lwgrwobrwyo i wyro barn. CALEDFRYN oedd y llym-fanylaf o honynt: nid oedd i droseddwr yn erbyn deddfau mesur, cynghanedd, iaith, Grammadeg, a chwaeth ddim trugaredd i'w dysgwyl ganddo ef. Crynai yr ymgeiswyr, druain, a fyddent yn bresenol yn y lle, pan gyfodai efe i gyhoeddi ei ddedfryd ar eu cyfansoddiadau. Ei amcan bob amser yn ei sylwadau miniog, fyddai symbylu beirdd a llenorion ieuainc i fynu gwybod a deall Grammadeg yr iaith, a deddfau mesur a chynghanedd, a meithrin chwaeth dda cyn cynnyg ymgystadlu am wobrau mewn Eisteddfod; a diau iddo wneud gwasanaeth da i'n llenorion a'n llenyddiaeth drwy hyny.

Gwallter Mechain oedd yr olaf o feirdd y cyfnod cyntaf a nodwyd a fu farw, a CHALEDFRYN oedd yr olaf o'r ail: goroesodd ef bob un o'i gyfoedion hyny, dros flynyddau rai; ac yn awr, yntau hefyd a fu farw, ac nid heb golled fawr, a chwithdod trwm ar ei ol.

Tua'r flwyddyn 1824, y daethum i i gydnabyddiaeth bersonol gyntaf ag ef. Yr oedd efe lawn ddwy flynedd hŷn na mi. Yr oedd newydd ddechreu pregethu yr amser hwnw, yn bedair ar hugain oed. Daethai i gryn sŷlw fel bardd a llenor ieuanc tra addawol beth amser cyn hyny. Bob tro y byddai genyf achos i fyned i Ddinbych, gofalwn am gael awr neu ddwy o gyfeillach ag ef cyn gadael y dref, er mwyn difyrwch cymdeithasol, a chael addysg ac hyfforddiant ganddo yn neddfau a barnedigaethau yr iaith, a'r pedwar mesur ar hugain cerdd-dafod.

Dygwyddodd i mi fyned i Ddinbych ar yr 17eg o Awst, 1825. Yr oedd y newydd am farwolaeth Ebenezer Morris wedi cyrhaedd y dref y dydd hwnw, ac yn cyffroi galar dwys yn mynwesau llawer yno. Yr oedd CALEDFRYN ieuanc i bregethu yn nghapel Lôn Swan yr hwyr hwnw. Arosais innau i'w wrando; a hôno oedd y waith gyntaf i mi ei glywed yn pregethu. Ei destyn oedd, "Edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru." Gwnaeth gyfeiriad cyffrous at y llefarwr mawr y daethai y newydd am ei farwolaeth i Ddinbych y diwrnod hwnw, a'r golled fawr a gawsai Cymru drwy yr amgylchiad hwnw. Yr oedd efe yn edmygydd mawr o E. Morris.

Tymhor hynod yn hanes beirdd a barddoniaeth, a gweinidogaeth efengylaidd Cymru yr un modd, oedd y deugain mlynedd cyntaf o'r ganrif hon. Ni fagasai y Dywysogaeth erioed well ac amgen beirdd nac oedd y rhai y cofnodwyd eu henwau yn flaenorol; ac ni fagasai hi, nac un wlad arall, er dyddiau'r apostolion, do o bregethwyr mwy, os mor nerthol ac effeithiol, na lluaws a ellid enwi o'r rhai oedd ar faes ei gweinidogaeth hi y tymhor hwnw. Yr oedd CALEDFRYN ieuane y pryd hwnw yn wron-addolwr *(hero-worshipper)* gwresog y gwroniaid o feirdd a phregethwyr, ac yn benderfynol o ddyfod yn wron ei hunan yn y ddau gyferiad ryw ddydd; ac ni orphwysodd hyd nes iddo gyrhaedd yr uchel-nod hwnw.

Wedi iddo symud o Ddinbych, ac ymsefydlu yn Llanerchymedd fel gweinidog yr eglwysi yn Peniel a Maenaddfwyn, collais y cyfleusdra i fwynhau ei gyfeillach, ond ar achlysuron, a hyny yn bur anfynych.

Yn y flwyddyn 1831, yn mhen tridiau neu bedwar wedi fy symudiad i Fostyn, yr oedd cymanfa Mon y flwyddyn hòno i gael ei chynnal yn Llanerchymedd. Anfonodd yr Hybarch D. Jones (y cyntaf) o Dreffynnon ataf i'm cymhell i fyned yno, gan ei fod ef yn cael ei attal o herwydd rhyw amgylchiadau i fyned fel y bwriadai; a rhoddodd genadwri i mi dros gymanfa siroedd Fflint a Dinbych at y brodyr yn nghymanfa Mon. Nid oedd neb mwy na'u gilydd yn cael eu gwahodd i gymanfa yn y dyddiau hyny, dim ond hysbysiad o amser y cynnulliad, a drws agored i bob un a ewyllysiai fyned iddo o siroedd eraill, a phob croesaw i bob un a ddelai; ïe, a phob un i ddwyn baich ei draul ei hun yn ol ac yn mlaen. Pregethid mewn manau cyfleus ar y ffordd wrth fyned a dychwelyd; a chai y pregethwr ei fwyd a'i lety yn rhad felly tra fyddai ar ei daith, ac yn fynychaf, nid bob amser, rhoddid swllt iddo am ei bregeth. Fodd bynag, aethum i Lanerchymedd i'r gymanfa hòno, ar gais Mr. Jones; yn wir, aethwn i eithafoedd y ddaear ar archiad y gŵr rhagorol hwnw, pe yn fy ngallu. Pregethais y noson gyntaf yn Nwygyfylchi, a nos dranoeth yn Llangefni, ac oddiyno i Lanerchymedd. Cychwyn bore dydd Llun, a dychwelyd adref erbyn y Sabbath, yr ail i mi yn Mostyn.

Gan nad oeddwn wedi fy ordeinio, nac onid o ddwy i dair blwydd oed fel pregethwr, ac yn hollol anadnabyddus ond i ychydig iawn o'r

gweinidogion, nid oeddwn wedi dychymygu unwaith y gofynasid i mi bregethu yn y gymanfa; a mawr oedd fy syndod a'm dychryn pan glywais CALEDFRYN, ar ddiwedd y gynnadledd, prydnawn y dydd cyntaf, yn fy enwi yn un i bregethu am ddeg bore dranoeth. Aethum ato ar ol y cyfarfod i ddymuno arno i'm hesgusodi, a'm rhoddi i ddechreu un o'r oedfaon—na allwn feddwl sefyll i fyny i bregethu ar y maes mewn cymanfa, ac ar y fath amser; ond nid oedd wiw siarad—felly yr oedd raid iddi fod. Yr oedd rhai o'r hen frodyr yn bur anfoddlawn: yr oedd yn groes i bob trefn a defod, meddynt, i ddodi pregethwr ieuanc, anadnabyddus, ac heb ei ordeinio, i bregethu mewn cymanfa, a hyny ar awr y brif oedfa, pan fyddai llaweroedd o'r gwahanol enwadau yn nghyd. Ofnent y byddai'r enwad yn cael ei ddarostwng yn ngolwg y wlad o'r plegid, &c.; a mynent iddo newid ei gynllun am yr oedfa hòno. "Na wnaf," atebai; "ein cymanfa ni yn Llanerchymedd ydyw, a myfi sydd i drefnu y modd y mae i gael ei dwyn yn mlaen." Ac felly, dan ofni a chrynu, bu raid i mi ufuddhau; ac aeth yr oedfa hòno, o brawf tanllyd i mi y pryd hwnw, heibio yn well na'r ofnau. Yr oedd yr olwg oedd ar y ddau frawd hybarch—y Parch. W. Griffith o Gaergybi, a'r Parch J. Griffith, Buckley, yn gwrando, yn galondid mawr i mi fyned trwyddi; a theimlai CALEDFRYN yn bur foddhaol.

Treuliodd CALEDFRYN fywyd llafurus, gweithgar, a defnyddiol iawn; a theimlir parch arosol i'w enw a'i goffadwriaeth yn mhob lle y bu yn gweinidogaethu,—yn Llanerchymedd; yn Nghaernarfon, lle y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes weinidogaethol; wedi hyny yn Llundain a Llanrwst; ac yn olaf yn y Groes Wen, lle y treuliodd flynyddau olaf ei oes mewn hedd a thawelwch, yn mynwes eglwys gariadlawn, a hithau yn ei fynwes yntau; ac yn mynwes ei mynwent enwog hi y gorphwys ei lwch mewn heddwch, i gyd-huno hyd fore yr "alwad i'r ymweliad mawr" â llwch ei ragflaenoriaid—Hughes enwog, a Rees ffyddlawn, ac hefyd yr hyglod Ieuan Gwynedd, a lluoedd o saint a gladdwyd o'i flaen ac ar ei ol ef. Cadwed y nawdd ddwyfol y capel hwnw a'r fynwent hòno rhag annhraith a difrod hyd nes y delo y dydd na byddo angen am gapel na mynwent mwy.

GAN AP VYCHAN.

Yr oedd y diweddar Barchedig W. C. Williams o'r Groes Wen, yn gweinidogaethu yn ein plith yr un pryd ag amryw o gewri yr areithfa yn Nghymru. Tywysogion y genedl oeddynt yn eu dydd; ond yr oedd amryw o honynt wedi meirw cyn iddo ef orphen ei yrfa, a chael ei gasglu at ei bobl. Gellir dywedyd gyda golwg arnynt, yn ngeiriau yr Ysgrythyr Lân, "Pa fodd y cwympodd y cedyrn!" Y cedyrn o ran eu galluoedd; y cedyrn mewn gwybodaeth; y cedyrn mewn egwyddorion iach a disigl; y cedyrn o ran eu dylanwad mawr ar y genedl yn gyffredinol: ond hwy a gwympasant yn y misoedd diweddaf hyn, dan ddwylaw angeu, fel pena buasai unrhyw hynodrwydd yn perthyn iddynt: "Diau mai cwbl wagedd yw pob dyn pan fo ar y goreu."

Nid y lleiaf yn mysg y tywysogion a'r gwŷr mawr a syrthiasant yn ein plith, oedd y Parch. W. C. Williams. Mewn amryw o bethau pwysig yr oedd efe, trwy gydsyniad cyffredinol ei gydwladwyr, uwchlaw iddynt yn mhell, tra yr oeddynt hwythau yn uwch nag yntau mewn pethau pwysig eraill, efallai. Ni welwyd dyn etto, yn ein byd ni, a ragorai ar bawb, yn mhob peth, ond y dyn Crist Iesu. Rhaid i eraill ymfoddloni ar ragori mewn ychydig o bethau, ac heb gyrhaeddyd perffeithrwydd mewn dim.

Cydnabyddir yn gyffredinol fod Caledfryn yn sefyll yn uchel iawn fel bardd, llenor, a beirniad. Bydd ei enw ef yn air teuluaidd ar aelwydydd oesoedd o Gymry sydd i boblogi Gwyllt Walia yn y dyfodol. Ni fydd enwau Dafydd ap Gwilym, Dafydd ap Edmwnd, Tudur Aled, William Lleyn, a Goronwy Owain, yn fwy hysbys i feirdd a llenorion yr oesoedd a ddeuant, nag a fydd enwau Dafydd Ionawr, Gwallter Mechain, Dewi Wyn, Robert ap Gwilym Ddu, Eben Fardd, Ieuan Glan Geirionydd, a Chaledfryn. Yn mysg eraill o'i gydwladwyr, cerfiodd Caledfryn ei enw yn annileadwy yn nghalon y genedl; ac yno y bydd, er gwaethaf pobpeth, tra byddo Cymro yn llefaru iaith ei dadau, a llenyddiaeth Gymreig yn bodoli. Am ddechreuad ei yrfa lenyddol, caiff ef ei hun ddywedyd, yn ei ddull cyffredin

o lefaru am dano ei hunan, yn y trydydd person unigol:—"Y farddoniaeth gyntaf a dynodd ei sylw oedd Watts' Divine Songs; Emynau Williams, Pantycelyn; Emynau Edward Jones, Maes-y-plwm; a Salmau Edmwnd Prys. Byddai yn hoff iawn o ddarllen y llinellau barddonol o ddifyniad Mr. Charles, yn y Geiriadur hefyd. Yr oedd efe tuag unarbymtheg oed cyn anturio gwneud dim ar lun pennill. Pan y torodd allan gyntaf, ni chafodd ddim cefnogaeth gan nemawr, ond yn hytrach teflid pob rhwystr ar ei ffordd gan rai a dybient eu hunain yn feirdd; ac, yn enwedig, gan amryw o bobl y capel: canys ystyrid prydyddu pob peth, agos, ond emynau, yn bechod y pryd hwnw, gan laweroedd."

Yr ydym yn ddiolchgar i Caledfryn am y paragraph canlynol:—Nid ydyw yr awdwr wedi anghofio yr hyfforddiadau a gafodd yn nghychwyniad ei yrfa, gan Mr. R. Owen, Dinbych. Gohebodd lawer, ar ol hyny, â Gutyn Peris, a chyfeillachodd âg Ieuan Glan Geirionydd, Erfyl, Caerlleon, a Mr. John Jones, Argraffydd, Llanrwst; i'r rhai y mae yn ddyledus am lawer o awgrymiadau buddiol. Daeth yr awdwr i gydnabyddiaeth â Gutyn Peris drwy offerynoliaeth Mr. Evan Richardson, Conwy." Dyna gydnabyddiaeth o rwymedigaeth i eraill deilwng o lenor a gwr boneddig.

Addefir gan bawb, ond rhywrai hynod o anwybodus a rhagfarnllyd, ei fod ef yn gyfansoddwr rhagorol ar y mesurau caethion. Mae ei waith yn oleu, llithrig, a naturiol; ac yn bur agos i fod yn berffaith o ran deddfau y cynghaneddion. Nid ydym yn gweled ei fod mor lwyddianus pan yn cyfansoddi ar y mesurau rhyddion ag ydyw yn ei gyfansoddiadau ar y mesurau Cymreig. Gellir dywedyd yr un peth am lawer o'n prif-feirdd.

Yn raddol ac yn arafaidd y cyrhaeddodd CALEDFRYN ei safle uchel fel bardd. Daeth Dewi Wyn allan yn ei nerth yn "Molawd Ynys Prydain," pryd nad oedd ond 21ain mlwydd oed. Cyfansoddodd Eben Fardd ei Awdl ardderchog ar "Ddinystr Jerusalem" cyn ei fod yn 22ain mlwydd oed; ond cynnyddu yn raddol, fel derwen, a wnaeth CALEDFRYN. Cyfansoddiadau go weinion sydd yn y llyfr a gyhoeddodd dan yr enw "Grawn Awen," yn 1826. Yn ei "Rothsay Castle," pan oedd yn 31ain mlwydd o'i oedran, y gwelwyd ef gyntaf yn ei gyflawn

nerth, ac ucheledd ei athrylith. Wedi unwaith gymeryd ei sedd yn mysg prif-feirdd ei genedl, eisteddodd arni yn gadarn fel tywysog hyd derfyn ei oes. Mae ei Awdl ar yr "Adgyfodiad," er fod y pwnc hwnw yn un y traethir arno yn fynych yn yr areithfa, yn gyfansoddiad penigamp. Nid oedd y deunaw mlynedd a lithrasant ymaith wedi cyfansoddiad yr Awdl ar "Ddrylliad y Rothsay Castle," wedi ysbeilio y bardd o'i dân a'i athrylith yn y mesur lleiaf. Parhaodd i lenwi yr eisteddle a ennillasai yn Eisteddfod Beaumaris hyd derfyn ei yrfa. Gwanhaodd ei gorff yn raddol; ond yr oedd ei feddwl mor rymus a miniog ag erioed, pan oedd yr hyn oedd farwol o hono yn gwywo yn araf i'r bedd.

Gwyr yr holl wlad fod CALEDFRYN wedi astudio yr iaith Gymraeg yn fanwl a thrwyadl, ac yn gyfansoddwr campus mewn rhyddiaeth, fel yr ydoedd mewn barddoniaeth. Gwyddai pa fodd i wneud defnydd priodol o bob math o droellymadroddion, a pha bryd i'w gadael yn llonydd. Ysgrifenodd lawer yn ei ddydd, yn ddoniol hefyd, i bapyrau newyddion, a chyhoeddiadau cyfnodol eraill. Y mae Englynion o'i waith ef yn un o rifynau cyntaf y *Dysgedydd;* a llythyrau o'r eiddo, mewn amddiffyniad i'w Englyn i'r "Enfys," yn *Seren Gomer* am 1823. Felly, deehreuodd ohebu yn gynnar, a pharhaodd i wneud hyny hyd hwyrddydd ei fywyd.

Gwyddis yn dda hefyd ei fod ef fel beirniad ar farddoniaeth yn y mesurau caethion, yn un o brif ddynion y genedl, os nad y penaf oll, wedi dydd Gwallter Mechain. Addefir, hyd yn nod gan y rhai fuont dan ergydion trymaf ei yrdd ef, ei fod yn deall cyfreithiau ymerodraeth yr awen yn drwyadl. Yr oedd yn graff, manwl, a phenderfynol yn ei farn, ac yn dra chydwybodol yn ei ddedfrydau. Wrth ddywedyd hyn, nid ydym yn golygu ei fod ef yn fwy cydwybodol na lluaws o'n beirniaid llenyddol; ac nid oes genym y cydymdeimlad lleiaf â'r bobl sydd yn barod i gyhuddo beirniaid o annhegwch yn wastadol. Mesur a phwyso eraill wrthynt eu hunain y mae y cydwybodolion hyn. Hwy eu hunain sydd yn dyfod i'r golwg trwy y cyfan o'u hawgrymiadau am bobl eraill. Yr ydym ni wedi bod dan yr ordd gan CALEDFRYN fwy nag unwaith; ond nid yw ein syniad uchel am dano, fel beirniad craff a deallus, fymryn llai oblegid hyny. Y prif beth fyddai yn ein

hanfoddloni yn ei feirniadaethau ef ydoedd, y llymder a'r toster diangenrhaid, yn ein bryd ni, oedd weithiau yn rhedeg drwyddynt. Gwnaethai ei sylwadau beirniadol fwy o wir les, pe buasai *mwyneiddra* doethineb yn amlycach ynddynt. Yr oedd Gwallter Mechain, Ieuan Glan Geirionydd, ac Eben Fardd, yn *fwynach* nag ef fel beirniaid, ac felly yr oedd ganddynt well mantais i ddysgu yr anghyfarwydd nag oedd gan CALEDFRYN. Y mae yn llawer hawddach cyhoeddi dedfryd y gyfraith o orsedd barn, na chyflawni y gyfraith fel ymgeisydd am y gamp. Gallesid profi hyny drwy gyfansoddiadau y beirniad enwog hwn ei hunan, pe buasai achos am hyny. Dylai beirniaid gofio yn wastadol, nad yw bod yn fwyn a boneddigaidd yn eu nodiadau, rwystr yn y byd iddynt fod yn fanwl, gonest, a chydwybodol yn eu dedfrydau. Barnem hefyd, ei fod yn gosod gormod o bwys yn ei feirniadaethau ar bethau bychain, megys gosod dwy *g* i ateb un, a'r cyffelyb; ond y mae ganddo yntau ei

"Ar y *g*wellt trwy'r baru*g* *g*wyn,"

ac enghreifftiau eraill i ddangos mai dyn oedd CALEDFRYN fel ninnau. Er y pethau hyn, a phethau eraill allesid grybwyll, o ran gwybodaeth, craffder, purdeb chwaeth, a diysgogrwydd penderfyniad, nid oedd GWILYM CALEDFRYN yn *ail* i un beirniad yn ei oes. Odid nad ä blynyddoedd lawer heibio cyn y caiff yr orsedd farnol ynGhymru wr o gymhwysderau cyfartal i'r eiddo ef i eistedd arni; ac ä llawer yn ychwaneg o flwyddi ymaith cyn y ceir beirniad yn *rhagori* arno ef i'w haddurno.

Fel Gweinidog, yr oedd MR. WILLIAMS yn ddiwyd, llafurus, ymdrechgar, a manwl iawn. Yr oedd yn onest a didderbynwyneb. Cydymdeimlai â'r trallodus, a chydlawenhai â'r dedwydd a'r llwyddianus. Llanwai ei holl gylchoedd personol, teuluaidd, a chyhoeddus, yn anrhydeddus a difwlch. Coleddai farn uchel iawn am bobl ei ofal. Yr ydym yn cofio am ei farn uchel am ei gynnulleidfa yn Nghaernarfon; a golygai nad oedd braidd eglwys yn y byd a ragorai ar un y Groes Wen. Ai i eithafion yn hyn; ac yr oedd y naill eithafion yn gofyn am eithafion cyferbyniol. Pan siomid ef mewn dynion, neu pan gredai efe ei fod yn cael ei siomi ynddynt, syrthient yn is yn ei olwg, ond odid, na'u gwir deilyngdod. Yr oedd diffyg bychan yn ei farn mewn

materion felly; ac yr oedd yn rhy fyrbwyll, ambell dro, pan yn gosod ei farn mewn gweithrediad.

Fel Pregethwr, safai yn uchel iawn; ac yr oedd yn wir deilwng o gael ei restru yn mysg pregethwyr blaenaf yr oes, mewn llawer ystyr. Pregethodd lawer iawn, a daliodd yn ei barch a'i boblogrwydd hyd y diwedd. Deuai dynion i wrando arno ef na ddeuent i wrando odid neb arall. Yr oedd yn hyn yn tebygu i'r diweddar Williams o'r Wern. Nid yr un peth a barai iddynt ddyfod i wrando arno ef ag a barai iddynt ddyfod i wrando ar y tywysog o'r Wern chwaith; ond yr oedd gan CALEDFRYN allu i'w tynu i'r addoldy, er hyny. Yr oedd yr olwg arno yn yr areithfa yn dywysogaidd. Dangosai ei dalcen uchel, ei lygaid craffus, ei safiad annibynol a hunan-feddianol, a'i dremiad deallus a meistrolaidd ar y gynnulleidfa, i bob gwrandawr a allai feddwl, fod dyn o bwys yn myned i anerch y dorf. Yr oedd ei lais yn hyglyw a soniarus. Yr oedd yn beraidd a swynol iawn tra y parhai i lefaru yn y cywair oedd yn naturiol iddo. Pan godai ef i gywair uwch, yn y rhan olaf o'i bregeth, yr oedd yn myned yn fwy cras; ond er hyny yr oedd yn y cyffredin yn cryfhau yn ei ddylanwad ar fwyafrif y gynnulleidfa. Yr oedd yn pregethu o ddifrif, ac yn aml a'i holl egni. Yr ydym yn cofio ei glywed ddeugain mlynedd yn ol. Siarad yn bwyllog a meistrolgar iawn yr oedd y pryd hwnw. Daeth cyfnewidiad drosto o ran ei ddull yn nghanol ei oes: barna rhai mai cyfnewidiad er gwaeth ydoedd; ond y mae un peth yn dra sicr, mai wedi y cyfnewidiad hwnw y daeth ei nerth anorchfygol ef fel pregethwr i gael ei deimlo yn y wlad yn gyffredinol. Mae hyn yn awgrymu mai cyfnewidiad er gwell ydoedd, ac ystyried pob peth a ddylid ddwyn dan ystyriaeth mewn mater o'r fath.

Yr oedd ei iaith bob amser yn rammadegol a phur, heb unrhyw eiriau dyeithr, y rhai a arferir gan goeg-lenyddion mor fynych; ac heb unrhyw eiriau isel a gwaelion yn perthyn iddi. Yr oedd yn y canol rhwng pob eithafion. Efe, yn ddiau, oedd y perffeithiaf, yn y pwnc yma, o'n holl lefarwyr cyhoeddus. Yr oedd yn gynllun rhagorol i bawb i'w efelychu yn ei ieithwedd. Dilynai yr hen arferiad o ddywedyd "peth arall," wrth newid ei faterion. Parhaodd i wneud felly hyd y diwedd. Gallai na fu odid ddau bregethwr pellach oddiwrth eu gilydd

na John Evans o Lanuwchllyn, neu, fel y gelwid ef yn gyffredin, Sion Ifan, a CHALEDFRYN; ond yn yr arfer o ddywedyd "peth arall," wrth newid eu materion, yr oeddynt yn gwbl yr un fath a'u gilydd. Ni phregethai MR. WILLIAMS yn hir iawn, nac yn fyr iawn chwaith. Yr oedd yn y canol yn hyny hefyd. Ni adroddai chwedlau wrth bregethu. Yr oedd yn ystyried peth felly yn darostwng urddas y weinidogaeth. Pethau ymarferol crefydd oeddynt faterion ei bregethau yn y cyffredin. Pregethai ar holl ddyledswyddau dynion, fel creaduriaid cyfrifol i Dduw ac i'w cyd-ddynion, yn broffeswyr crefydd ac yn bobl ddibroffes. Argymhellai bob rhinwedd. Condemniai bechodau yr oes yn ddiarbed; a chyhoeddai drueni dyn yn ei holl erchylledd; ac iachawdwriaeth yr efengyl, gwaed y groes yn ei rinwedd, a chadernid a diogelwch yr holl drefn i gadw pechaduriaid, gyda llawer iawn o nerth a melusder. Yr oedd wedi profi blas y pethau "yn nghylch Iesu o Nazareth" ei hunan, ac felly gallai yn brofiadol eu hargymhell ar eraill. Ei brif nerth, efallai, oedd mewn dau beth gwrthgyferbyniol—gwirioneddau melusaf yr efengyl, ac addewidion Duw i ddynion trwy Iesu Grist, a gwawdiaeth lem a ysai bob peth o'i blaen. Efe, o bawb yn ei oes, a wawdiai ofergoeledd ac arferion llygredig y wlad, yn fwyaf effeithiol. Yr oedd ei eiriau yn disgyn ar y pethau hyn fel olew berwedig—fel brwmstan llosgedig. Nid oedd dim a safai o flaen ei wawdiaeth ef. Gyrai ddynion naill ai i adael eu hynfydrwydd, neu i lynu wrtho dan regu y pregethwr.

Y mae sylwadau miniog lawer o'i eiddo yn nghof gwrandawyr y lleoedd y bu yn llafurio mwyaf ynddynt, a thrwy yr holl wlad yn wir. Dywedodd fwy o bethau a gofir nag odid neb wedi marwolaeth Mr. Williams o'r Wern. Triniodd gybyddion a chribddeilwyr, llymeitwyr a meddwon, chwedleuwyr a chenfigenwyr, fel y dylasent gael eu trin. Areithiodd lawer yn erbyn rhyfel; dywedodd yn gryf yn erbyn dienyddio troseddwyr; gwawdiodd sefydliadau gwladol o grefydd—y Degwm, y Dreth Eglwys, gorthrymder o bob math, yn wladol a chrefyddol, mewn addysg yn gystal ag mewn masnach. Rhyddid i bawb, o fewn terfynau deddfau rhesymol a chyfiawn, oedd arwyddair CALEDFRYN ar hyd ei oes.

Yr oedd yn credu arfaeth Duw, etholedigaeth gras, cyfiawnhad drwy

ffydd, dylanwad yr Ysbryd Glan, parhad mewn gras, a phynciau cyffelyb, am y gwelai hwynt yn eglur yn y Beibl; a chyhoeddai hwynt yn ddi-gêl, a gwawdiai "y gred grin" wrthwynebol. O'r ochr arall, daliai ddyledswydd dyn, ei allu, ei gyfrifoldeb, a'i weithgarwch yn ei iachawdwriaeth, mewn modd eglur a diammheuol. Ni cheisiai efe gysoni y pethau hyn. Yr oedd yn tueddu i wawdio pob cynnyg tuag at hyny: eu dal i gyd, a gadael llonydd i'r gwaith o'u cysoni â'u gilydd, oedd yr iawn ffordd, yn ol ei farn ef. Nid ydym yn meddwl ei fod ef wedi astudio na llywodraeth foesol, na gweinyddiadau gras, na chyfammod Eden, na chyfammod prynedigaeth pechaduriaid, nac odid o bwnc duwinyddol na philosophaidd, yn eu manylion. Yr oedd ei feddwl ef yn rhedeg mewn cyfeiriad gwahanol. Gallai fod gwŷr grymus yr oes a aeth heibio, bron i gyd, wedi cael eu siomi ynddo yn hyn. Gwyddom fod y diweddar Williams o'r Wern wedi cael ei siomi ynddo, am na buasai yn ymroddi mwy i astudio egwyddorion. Gallai eu bod hwythau wedi ymdroi ar y mwyaf, yn ol barn CALEDFRYN, gyda phethau pell a dyfnion; ac na welai ef fod y cynnyrch a ddeilliai oddiwrth hyny yn llesâu cymaint ar y wlad ag a ddysgwylid, ac am hyny iddo gymeryd gwirioneddau sylfaenol yn ganiataol, fel *starting points*, a throi nerth ei feddwl at yr ymarferol a'r dealladwy. Ni phregethodd neb yn ei oes y pethau hyny yn fwy cyflawn nag efe; a bu yn dra llwyddianus hefyd yn ei ymdrechiadau. Gwrthwynebodd ddirwestiaeth, fel y deallir y gair gan lwyrymattalwyr. Credai ef nad oes modd diwygio dyn heb newid ei galon; ond y mae yr wrthddadl yn myned yn rhy bell, ac yn milwrio yn erbyn pob ymarferiad â moddion yn mhob achos, yn gystal ag yn achos meddwdod. Yr olwg a gai efe ar bethau y tro cyntaf, yn gyffredin, fyddai yr olwg a gymerai arnynt, ond odid, yn barhaus.

Ar ol sylwi ar y gwahanol nodweddion amlycaf yn nghymeriad ein diweddar gyfaill, nis gallwn derfynu hyn o nodiadau heb grybwyll am ei garedigrwydd teuluaidd. Y mae yn ammheus genym a fu gweinidog erioed yn fwy croesawgar i ddyeithriaid nag ydoedd efe. Byddai ei lety clyd a'i fwrdd llawn yn wastad yn agored i bawb a alwai heibio. Priodol y gellir dweyd am dano yn ngeiriau Job: "Ni letyodd dyeithr-ddyn yn yr heol: agorais fy nrysau i'r fforddolion."

GAN S. R.

Yr oeddwn wedi ysgrifenu a chyhoeddi yr "Adgofion" byrion canlynol am y bardd a'r beirniad enwog, y duwinydd goleu, yr areithydd grymus, y gweinidog ffyddlawn, a'r cyfaill cynhes dirodres Caledfryn, cyn deall fod Swyddfa y *Cronicl* wedi ymgymeryd â'r gofal o gyhoeddi *Cofiant* am dano:—

"Cefais lawer o gymdeithas fy hen gyfaill Caledfryn, yn ystod y pum' mlynedd a deugain diweddat. Yr wyf yn ei gofio yn fachgenyn glân a siriol, cyn iddo ddechreu pregethu; ac yn cofio hefyd ei daith gyntaf oddicartref gyda'r hen efengylwr melus Roberts o Ddinbych; a gwnaeth ei bennill, a'i bennod, a'i weddi gynnwysfawr, a'i araeth fer felus, argraff ddwys ar gynnulleidfa luosog yn Llanbrynmair. Yr oeddym ein dau yn cyd-farchogaeth dranoeth i Gyfarfod Cenadol yn Machynlleth, lle y dywedodd ychydig eiriau effeithiol o ryddiaeth a barddoniaeth, o blaid yr achos Cenadol, nes toddi teimladau y tadau a'r mamau oeddynt o'i ddeutu. Yr wyf yn cofio myned, dros ddeugain mlynedd yn ol, drwy ranau o Fon, ar ran cynnulleidfa wan Gymraeg yn Manchester. Rhoddodd dair wythnos o'i amser i godi fy ysbryd ac i gynnal fy mreichiau ar y neges hôno. Yr oedd ei gyfeillach a'i feirniadaeth yn fuddiol i mi; oblegid gwyddwn eu bod yn rhydd a gonest. Buom yn cyd-resymu llawer o blaid rhyddid masnach cyn ffurfiad yr '*Anti Corn Law League*,' ac hefyd am ryddhad crefydd cyn cychwyniad y '*Liberation Society*.' Yr oedd ei sel yn gyson ac yn wresog iawn o blaid achos rhyddid gwladol a chrefyddol. Rhesymodd lawer hefyd yn gryf o blaid egwyddorion pwysfawr Cymdeithasau Heddwch. Yr argraff ar fy meddwl bob amser wrth ei gyfarfod mewn *cynnadledd* oedd, ei fod yn bryderus am i bob peth gael ei wneud yn y modd goreu. Yr oedd weithiau yn o benderfynol, ond yr oeddid yn cydnabod ei fod yn ddiragrith. Pan y byddai yn teimlo yn ddwys, byddai ei eiriau yn gryfion. Cawsom ein beirniadu, a hyd yn nod ein beio ganddo ambell dro yn o lym yn ein gwyneb, ond nis gwyddom iddo gynnyg gair felly erioed yn ein cefn. Yr oedd mor ddi-absen ag

ydoedd o ddiweniaeth. Y mae genyf adgof melus am ei gyfeillach mewn cymanfa yn Manchester, ac am dridiau o'i gyfeillach yn y Groes Wen, ryw flwyddyn cyn ei farwolaeth; am ei eiriau brawdol yno, fel cadeirydd ar noson Darlith; ac am ein cymdeithas ddedwydd y Sabbath dilynol. Daeth hefyd yr holl ffordd i Le'rpwl i lywyddu yn adeg y 'Dystеb.' Meddyliais wrth siglo llaw yno na chawn ei weled mwy, ond cawsom gyfarfod *unwaith* ar ol hyny mewn cymanfa yn Llanbrynmair; a gobeithio y cawn adnewyddu y gyfeillach mewn cymanfa mwy a phurach, lle y ceir cyfle dedwydd, mewn hwyl nefol, i adolygu taith yr anial,

'Ac edrych ar stormydd ac ofnau,
Ac angau dychrynllyd, a'r bedd;
A ninnau'n ddiangol o'u cyrhaedd,
Yn nofio mewn cariad a hedd.'

Y mae cyfansoddiadau Caledfryn—ei gyfansoddiadau barddonol a rhyddieithol, yn nodedig o goeth ac addysgiadol. Mae'n golled i'n cenedl na cheid argraffiad cryno a hardd o honynt, yn un neu ddwy gyfrol, oblegid effeithient yn rhagorol er coethi chwaeth a chyfoethogi meddyliau ein llenorion a'n darllenwyr ieuainc. Buasai S. R. wedi gwneud rhyw gynnygiad at hyny er's dros ddwy flynedd, oni buasai fod ei iechyd wedi bod yn wan a sigledig; a bod gofalon nad allai droi o'r neilldu yn gofyn ei holl amser. Gobeithio yr ymrydd rhyw lenor yn ddioed i wasanaethu ei oes drwy gyhoeddi 'Gweithiau Caledfryn.'

Yr ydym yr un farn am dano â'r *Adolygydd* a ysgrifenodd—'Ond er ei holl ragoriaethau fel pregethwr ac areithydd, ac fel bardd a beirniad, ac ysgrifenydd, yr ydym yn ofni na dderbyniodd y parch a haeddai yn ei *fywyd*, am ei fod yn perthyn i'r dosbarth hwnw a osodir yn y byd gan ragluniaeth i arloesi llwybrau eu holynwyr. Er mai y dosbarth hwnw ydyw cymwynaswyr goreu dynolryw, etto, dibrisir hwy yn eu bywyd; ond wedi eu marw, adeiledir a gwyngalchir eu beddau. Y maent yn rhy arw, yn rhy lym, ac yn rhy bob peth sydd onest i'w hoes eu hunain; etto, hwy sydd yn gwneud oesoedd dyfodol yn oleuedig; hwy sydd yn llafurio, ond eraill sydd yn myned i mewn i'w llafur.'"

323429

Yr wyf yn awr am *ail* amlygu fy hyder y bydd i'n beirdd a'n llenorion ieuainc fynu cyfle i astudio y Detholion a geir yn y *Cofiant* yma, o gyfansoddiadau bardd, a beirniad, a duwinydd mor enwog, oblegid bydd hyny yn sicr o ddylanwadu er budd iddynt,—er coethi eu chwaeth, ac awchlymu eu galluoedd, a gloywi eu doniau, ac er cyfoethogi eu myfyrdodau; a bydd i hyny drymhau eu dylanwad a helaethu eu defnyddioldeb.

Yr wyf hefyd am *ail*-gydnabod nad allaf anghofio ei ffyddlondeb brawdol, yn amddiffyn cymeriad ei hen gyfaill, pan yr oedd rhai yn tybied y byddai yn enw ac yn ennill iddynt ei enllibio fel "pleidiwr caeth-wasanaeth," pan yr oedd yn ymdaith draw yn y Gorllewin pell. Darllenodd CALEDFRYN, yn ddiduedd a chyda gofal, yr hyn a ysgrifenasid yn nghylch hyny, a'i argyhoeddiad llwyr, a'i gyffes ddifloesgni oedd, Fod ei hen gyfaill wedi bod drwy ei holl fywyd yn llawnach a ffyddlonach cyfaill i achos rhyddid gwladol a chrefyddol na'r brodyr selog a duwiolfrydig oeddynt wedi gosod eu bryd ar ei gamliwio a'i ddiraddio a'i ddisgyblu a'i ddiarddel o holl gylchoedd eu dylanwad.

Gallaf ychwanegu yma un sylw arall ar nodweddiad CALEDFRYN. Ni chefais brawf ei fod erioed wedi *plotio* i godi "câr neu gyfaill" i gadair bardd na beirniad, nac i lywyddiaeth pwyllgor neu gynnadledd, nac i fainc flaen llwyfan unrhyw gymdeithas, neu brif areithle unrhyw gymanfa, er gallu drwy hyny gadw i lawr o'r golwg, neu wthio o'r neilldu ryw frawd o yspryd boneddigeiddiach, ac o gymhwysderau llawer uwch a llawnach. Yr oedd yn ormod o ddyn, ac yn ormod o Gristion at *plots*, neu gynllwynion isel a bradwrus felly. Yr oedd yn eu ffieiddio, ac yn eu condemnio yn y dull llymaf a llwyraf. Nid wyf yn gwybod fod neb wedi cael prawf o annhegwch ynddo, neu wedi gwneud *case* yn ei erbyn o dderbyn-wyneb yn ei swyddogaeth fel beirniad. Yr oedd gonestrwydd gwyneb-agored yn un o nodweddau amlycaf ei gymeriad; a phe buasai mwy o'r un yspryd ag ef yn blaenori yn ein Heisteddfodau a'n cynnadleddau, buasent heddyw yn llawer uwch eu bri, ac yn llawer helaethach eu defnyddioldeb.

PENNOD V.

ENGLYNION COFFADWRIAETHOL.

GAN HWFA MÔN.

Ochain talent am ei phlentyn,—anwyl,
Ei hunig Galedfryn;
Trwy ei serch, troa i syn
Ymwylo, tra haul melyn.

Y gwr athrylithfawr garem,—yn frwd,
A cher ei fron plygem;
Ei naturiol, dreiddiol, drem,
A'i agwedd oll edmygem.

O'i wên deg, haf bendigaid—a araul
Ddysgleiriai o'i lygaid;
Ond o'i ddu ŵg, golwg gaid
A drywanai drwy enaid!

Dyn cydnerth, llawn o brydferthion,—ydoedd,
O nodau'r hen Frython;
Eon ei fryd, cadarn fron,
Ddiwyg orwych, wedd gwron.

Un iach ei gyfrinachoedd,—a'i olwg
Yn heulo'i holl gylchoedd;
Gwr od groesawgar ydoedd,
O fewn ei dŷ fwyned oedd!

Huliai ef, wrth ei gynefin—ei ford,
I iawn feirdd yn ddibrin;
Nid bord crintach, crebach crin,
Braenol, ond bord y brenin.

Dyn a'i lond o ffyddlondeb,—ei galon
Giliai rhag pob geudeb;
Dyn oedd na niweidiai neb,
A dyn gonest un gwyneb.

Annibynol, iawn, benaeth:—hylithrol
Athraw i Lenoriaeth;
Ei danllyd ddawn, ffrydlawn, ffraeth,
Burodd enaid barddoniaeth.

Ac i orwyllt feirdd, gwr hallt fu:—ond gwr
Di guro i'w dysgu;
Llawer coegyn, dordyn dû,
A boenodd wrth ei banu.

A chaed aml un yn gwaedu,—o gellwair
A'i gyllell ysgythru:
Ei gleddyf hyd ei gladdu,
Yn ei law fawr yn loyw fu.

Heb ryfyg efe a brofai—y gwir,
A gwaith pawb a bwysai;
Ei fantol, fanol, ddi fai,
A'i glorian a ddysglaeriai.

Ni fynai ysgafn fanus:—y twyllwaith,
Wyntylliai yn fedrus;
Mynai'r pwyslawn rawn, a'r ûs
Ysai yn fflam Parnasus.

Ac ar wen fainc gwirionedd,—yn ei oes,
Teyrnasai mewn mawredd;
Ni chaed Ynad, sad, ar sedd,
O'i onestach yn eistedd.

Abl, a chroewfyw barablwr,—ydoedd,
A nodedig ieithwr;
Ben y gamp, na bu un gwr
O'i goethach fel pregethwr.

Closwych frawddegau clysion,—a luniai,
Yn lanwaith, a chyson;
Gweithiai ei gref bregeth gron,
A'i barod eiriau byrion.

I ben Horeb, âi yn araf,—sangai
Ei orsingoedd garwaf;
Tremiai trwy leni trymaf
Ei ddu niwl hyd orsedd Naf.

Troediai fynydd y trydan,—a'i holl dawch,
Yn llaw Duw ei hunan;
Hyd Horeb taflai daran
I'r dorf, a Sinai ar dân!

Deuai yn dywydd duwawr,—o'i ogylch
Mygai yr holl nenawr;
Yn ei odfa arswydfawr,
Ehedai mellt y Duw mawr.

Ond oerai mellt, symudai'r mŵg—i gyd,
Deuai gwawr i'r amlwg:
Nefoedd wen, uwchben, heb ŵg,
Ac heulwen yn y golwg.

Ei Geidwad, ar bren yn gwaedu,—wed'yn
Gyfodai i fynu;
Ac ar goedd, torfoedd, bob tu,
A floeddient orfoleddu!

Yn y gwres, ail floeddiai yn grêch:—O! dorf,
Mae Duw'n galw arnoch;
Drwy Iesu, mae'r ddeddf drosoch,
Cewch noddfa'n Golgotha gôch!

Ail oleuwawr! Haleluwia—yn awr
Ai 'n uwch drwy y dyrfa;
Fywiol hwyl! rhoi nefawl hâ
O wynfyd drwy'r Gymanfa!

Y gwyn ysbrydol Genad,—hyd einioes,
Daenodd fawl ei Geidwad;
A mawr lwydd, tramwyai'r wlad,
Yn Gerub fflam o gariad.

Ond ei yrfa ddaeth i derfyn:—Och! wae!
Mae'n chwith heb CALEDFRYN!
Galarus fod dysglaerwyn
Angel gwlad yn nghlai y glyn!

GAN ISLWYN.

Dwys adgof ynof enyn—yn dyner
Ond enwi CALEDFRYN;
Trwy y gwlaw a niwl tew'r glyn
Mae delw 'r bardd i'm dilyn.

I'm dilyn mae ei hudolus—wyneb,
A'r wên oedd mor serchus;
A'i fyw eiriau llafarus,—hyawdledd
Ei ryfedd bêr wefus.

O! fyrdd-ddoniog Fardd Anian!—dy ganllaw,
Dy gynllun, dy gyfan,
Ydoedd natur loywbur lân,—cyweiries
Dy awen eres, dy dannau arian.

Nis ceir fath ansoddeiriaeth—i Gomer,
Na gemmau mor odiaeth,
Fath lawnder na choethder chwaeth,
Neu bur ddawn mewn barddoniaeth.

At yr awen *hon* tra hi'n huno,—daeth
Dy "*Rothsay*" gref heibio;
A'i tharan dwrf uthr iawn, do,
Wnai i ddiffrwyth ddawn ddeffro.

D'wed i fi, dad fy awen,—ai'th reol
A'th athrawes addien
Oedd y nant, neu gerdd y nen—
Nos loyw, neu ëos lawen?

Swn y gwlaw yn syn glywaf—hanner nos,
Neu ar nant clustfeiniaf;
Neu ar ser, neu aeg rhos haf,
A hen gyfaill lon gofiaf.

Mor fyr, O! frawd, mor farwol—yw einioes!
Fel enyd diflanol!
Fath frys wnaeth Emrys o'th ol,—ac Emlyn,
A Robert wed'yn er eu bri tadol!

Ninnau ddeuwn yn ddiau,—cawn orwedd
Cyn hir gyda chwithau:
A godidog, O! dadau,
Yn y nef eich ail fwynhau!

PENNOD VI.

TRAETHODAU A DARLITHIAU.

ARDDULL Y PULPUD.*

"The pulpit has been the seat of wisdom, and the sink of nonsense."

Llefaru â'r tafod yw un o'r ffyrdd sy gan ddyn i amlygu ei feddwl. Gellir llefaru yn y tywyllwch; ond nid yw o un dyben adrodd geiriau heb wasanaeth y glust. Gellir trosglwyddo meddyliau drwy arwyddion heb iaith lafaradwy; megys drwy arwyddluniau; drwy ystumiau y corff, y llygaid, y wynebpryd, a'r dwylaw; ond llefaru â'r tafod sydd yn fwyaf manteisiol wrth rai fyddo yn nghyrhaedd y llais. Gellir anfon meddyliau drwy ysgrifen, neu drydan, at rai fyddo yn mhell: ond nid ellir llefaru i ateb unrhyw ddyben ond wrth y rhai fyddont yn y golyg. Rhodd neilduol yw y gallu i lefaru yn briodol nad yw yn meddiant ond ychydig mewn cymhariaeth, yn enwedig i lefaru yn gyhoeddus. Gall dyn ddeall iaith nad all ei llefaru yn ddealladwy i eraill. Trosglwyddai yw iaith. Dyn yn meddwl, a thrwy gyfrwng geiriau, a pheirianau ymadrodd, a llais, yn gwneuthur y meddwl hwnw yn hysbys i eraill; ac er gwneud hyny yn briodol, rhaid gwybod ystyr geiriau, y ffordd i dori geiriau, a'r modd i ddodi geiriau wrth eu gilydd yn drefnus. Yn newisiad geiriau, gosodiad geiriau wrth eu gilydd,

* Ysgrifenwyd y papyr uchod ar ddymuniad y brodyr yn y weinidogaeth yn Nghyfarfod Trimisol Watford, Awst 6 a'r 7, 1861; ac fe'i darllenwyd yn Nghyfarfod Trimisol Llantrisant, Tachwedd 20 a'r 21, 1861. Ar gais y brodyr yno y mae yn cael ymddangos drwy y wasg. Nid ydyw yr enghreifftiau beius a nodwyd i'w cyfyngu i unrhyw un sect yn Nghymru. Y mae Ymneilldnwyr ac Eglwyswyr wedi bod yn ddiffygiol. Cymerwyd rhyddid i gyfnewid ychydig ar ddull gosodiad allan rai pethau yn y traethawd, ac i ychwanegu rhai pethau ato ar ol y cyfarfod a grybwyllwyd.—W. C. Williams, *Gross Wen.*

ac yn y llefariad priodol o honynt, y mae llawer o ddirgelwch cryfder yr areithiwr effeithiol ac argraffiadol yn gynnwysedig. Pe gwnelid y dewisiad goreu o eiriau, ac heb eu gosod wrth eu gilydd yn briodol, ni wnaent unrhyw argraff; a phe dodid y geiriau mwyaf priodol wrth eu gilydd, ac heb allu i'w llefaru yn berseiniol, byddai yr effaith yn llai nag y gallai fod. Y mae grym a pherseiniad y llais yn dodi grym yn yr ymadrodd; oblegid hyn y mae llawer o lefarwyr yn dibynu yn hollol ar lais, heb ganddynt ddim i'w drosglwyddo ond swn; tra ar y llaw arall y mae yr areithiwr sychgras, gan nad pa mor dda fyddo ei fater, na pha mor briodol fyddo ei iaith, yn ffaelu cael cymaint o effaith ar ei wrandawyr. Y mae ergyd o ddryll, gyda phylor yn unig, yn gwneud trwst, ac yn peri cyffroad; eithr nid yw byth yn lladd. Gwell ydyw gweled dyn ieuanc yn cychwyn allan, yn ei yrfa weinidogaethol, yn ddiffygiol mewn llais, nag yn ddiffygiol mewn mater ac iaith; canys bydd ganddo ef rywbeth i syrthio yn ol arno, os na ddaw ei lais yn hyfrydwch iddo; ond ni fedd y llall ddim ond gwynt i bwyso arno; a phan gyll ei lais fe gyll bob peth. Y mae dyn llawn heb lais fel dyn a chloriau ar ffenestri ei fasnachdy; a'r dyn sy yn meddu y llais, ac sydd yn dibynu yn hollol ar ei lais, fel masnachwr bach sydd yn gosod ei holl nwyddau yn y ffenestr. Y mae cael meddwl cryf, iaith briodol, a llais grymus, gyda'u gilydd, yn fanteisiol iawn, yn enwedig i bregethwr yr efengyl. Swydd bwysig yw pregethu yr efengyl. Yr oedd y Gwaredwr yn bregethwr: "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl," oedd un o'r gorchymynion diweddaf a roddes efe i'w weision ychydig cyn gadael y ddaear, Marc xvi. 15. Fe ddywed Paul—"Am hyny ffydd sydd drwy glywed, a chlywed drwy air Duw," Rhuf. x. 17. Yr oedd yr apostol yn gosod pwys mawr ar y swydd o bregethu yr efengyl, pan y dywedai—"Ni anfonodd Crist fi i fedyddio, ond i efengylu," 1 Cor. i. 17. Pregethu oedd y peth cyntaf a wnaeth Pedr yn nhŷ Cornelius. Y mae Paul yn dweyd yn un o'i epistolau, "Cyfrifer yr henuriaid (pregethwyr) sydd yn llywodraethu yn dda, yn deilwng o barch dauddyblyg, yn enwedig y rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth," 1 Tim. v. 17. Os ydyw pregethu, gan hyny, yn beth o gymaint o bwys, oni ddylai y modd i wneuthur hyny yn y ffordd fwyaf effeithiol gael lle

dwys ar feddwl pob ymgeisydd am y weinidogaeth? Dywed Doctor Williams mai dyben pregethu "yw dysgu, boddhau, ac effeithio." A chan fod a wnelo pregethu â'r glust, oni ddylid gofalu na fyddo i ddim gael ei ollwng i'r glust a fyddo yn dramgwydd iddi? Can belled ag y mae a wnelo dyn â'r swydd, dylai ofalu am fod ei ran ef o'r gwaith yn cael ei wneuthur yn ddidramgwydd i'r gwrandawr: os digia dynion wrth y gwirionedd, nid oes gan y pregethwr ddim help; ond os tramgwyddant wrth ei feddyliau anmrwd ef, ei iaith drwsgl ef, a'i ddull aflerw ac ansyberw ef o osod y gwirionedd allan, arno ef yn hollol y bydd y bai. Y mae yn wir mai gwin fyddai gwin pe cynnygid ef mewn ffiol bren a chylchau haiarn arni; ond ni allasai brenin Persia ei dderbyn mewn llestr felly o law Nehemiah heb dramgwyddo. Wrth ystyried cyflwr pechaduriaid o dan y cwymp, ac mor hawdd yw ganddynt gymeryd tramgwydd, dylai pob ffordd, ag a fyddo yn gynnorthwyol i ateb y dyben pwysig o achub eneidiau, gael ei defnyddio gan y pregethwr. Pa beth a dalasai i Paul ymddangos yn Athen yn y dull garw, anniwylliedig, ac iselfoes, y mae llawer yn Nghymru yn enog o hono wrth sefyll o flaen torf o wrandawyr parchus? Dylai llefarwr ddeall yr iaith y mae efe yn bwriadu llefaru ynddi yn rheolaidd, a meddu digon o eiriau priodol ar bob achlysur i amlygu ei feddyliau.

Gwisg* yw iaith ac arddull; a gwyddom bawb gymaint o ddylanwad a fedd y wisg ar y llygaid ac ar y meddwl. Y mae gan bob dosbarth o ddynion wisgoedd priodol at eu gwahanol orchwylion: megys y llafurwr, y crefftwr, yr amaethwr, y morwr, y milwr, y masnachwr, y dadleuwr, y barnwr; ïe, y mae gan ysgubwr y mygdyllau wisg briodol, sy mor briodol iddo ef ag yw gwisg yr Arglwydd Ganghellydd iddo yntau; ond meddylier am fynyd i'r fath annhrefn yr arweinid pethau, pe gwisgid y llafurwr ar y tir yn unweddwisg y milwr; neu y crefftwr yn ngwisg y dadleuwr yn y llys; neu y masnachwr, yn nghanol ei

* "Style is the dress of thoughts; and let them be ever so just, if your style is homely, coarse, and vulgar, they will appear to as much disadvantage, and be as ill-received, as your person, though ever so well proportioned, would, if dressed in rags, dirt, and tatters. It is not every understanding that can judge of matter; but every ear can, and does judge more or less of style."

nwyddau teg, yn ngwisg ysgubwr mygdyllau. Mor chwithig yr edrychai ffugwallt yr Arglwydd Ganghellydd ar gopa y morwr! ond y mae pob un yn ei wisg ei hun yn briodol. Y mae meddyliau yn cael eu gwisgo mor chwithig a hyn yn fynych yn y pulpud; rhai gwych mewn gwisgoedd salw, drylliog, anmhriodol, a gwael; a rhai gwael mewn gwisgoedd gorwychion ac anmhriodol i'r eithaf. Y mae dodi gwisgoedd drudfawr am feddyliau gweigion, salw, i guddio eu tylodi, yn taro y synhwyrol gyda chymaint o ffieiddiad ag fyddai dodi gwisgoedd carpiog am dywysog. Dylai y llefarwr adnabod ei feddyliau ei hun, a pha fodd i wisgo ei hlant ei hun, yn well na neb arall; neu ni ddylai ymaflyd yn y swydd o lefaru uwchben dynion. Nid all yr hwn sydd heb feddwl byth fod yn ddoeth. Ac y mae yn ddywediad gan un o'r doethion nad ydyw y dynion goreu byth yn boddhau eu hunain; ac nad ydyw y dynion gwaethaf yn boddhau neb ond hwy eu hunain. Y mae dynion yn gwneud i fyny eu meddyliau—a lleiaf y byddo y meddwl cyntaf oll y gwneir ef i fyny—ac wedi hyny y maent yn chwilio am resymau; yr un modd y mae llawer un yn ei ddewisiad o iaith. Nid ydyw yn cymeryd y gofal a'r drafferth a weddai iddo wrth wisgo ei feddyliau; ond y mae rhywbeth agosaf ato yn gorfod gwneud y tro. Dywedir am y bardd mai darlunydd ydyw.

> "Poets are limners of another kind,
> To copy out ideas in the mind;
> Words are the paint by which their thoughts are shown,
> And Nature sits the object to be drawn."

Yr un peth yw llefarwr mewn rhyddiaeth. Gosod delweddau y mae efe o hyd gerbron llygaid meddyliau y tobl. Geiriau yw y paent, ac y mae gofal yn angenrheidiol rhag i'r lliwiau fod yn anmhriodol i'r gwrthddrych a osodir allan; neu yn rhy gryfion, neu yn rhy weiniaid. Gan mai drwy ddelweddau yr ydys yn gosod allan ein meddyliau, rhaid i ni ofalu am beidio creu anghenfilod. Yn ein sefyllfa bresenol, y mae yn rhaid i ni wrth ddelweddau; oblegid nid allwn ganfod dim ond *defnydd;* nid allwn ganfod gwirionedd a rheswm megys y mae ysbrydion yn gallu eu gweled. Yn y ffordd hon y llefara pob cenedl; ond y mae geiriau yn newid eu hystyr; iaith yn cael ei chymysgu; ac y mae dynion mewn gwahanol barthau o'r ddaear yn ffaelu deall eu

gilydd; ond y mae gwaith natur, oddiwrth ba un y cymerwyd y delweddau sydd yn rhedeg drwy y meddwl, yr un yn dragywydd. Er enghraff, pe cymerem y gair *Duw*, yr ydym yn cael sain nad ydyw yn rhoddi i ni unrhyw feddyldrych; ond pan y dywedir, "Haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw," yna y mae pethau dealladwy yn cael eu hychwanegu at y gair; ac yr ydym yn deall fod yr hwn a elwir Duw yn fod mawreddog, anfesuradwy, yn anhawdd dynesu ato o ran ei ogoniant; crewr goleuni i'r deall, ffynnon goleuni i'r enaid; ein diogelwch rhag pob dychryn, ein hamddiffynfa rhag pob perygl.* Heb ddeall y mater yma y mae y rhai sydd yn gwastraffu geiriau i geisio gosod allan y Bod Goruchaf. Y mae dyn yn llwyddo yn lled ryfedd yn mhob peth hyd nes yr ä i geisio gosod allan Dduw yn annibynol ar ei weithredoedd. Nid ydyw pob gair a arferir am Dduw heb fod mewn cysylltiad â'r hyn a wnaeth ond ofer. Nid all iaith ddyrchafu dim sydd uwch na hi ei hun; mwy nag y gall dyn gyfodi peth sy'n uwch nag ef ei hun. Gall y bardd, neu y llefarwr mewn iaith rydd, ddarlunio tegwch ac ardderchawgrwydd natur, blodau y gwanwyn, a'r cynhauaf, cyfnewidiad olynol llanw y môr, a symudiadau y bodau wybrenol, a moli y Creawdwr am ei waith; ond nid *Duw* y mae efe yn ei ddarlunio, ond gweithredoedd Duw.† Pan elo dynion tu allan i gylch natur, yn eu dychymygion, y maent yn dyrysu; pa un bynag ai fel beirdd, ai fel llefarwyr mewn iaith rydd, y ceisiont osod allan eu meddyliau. Y mae llawer yn cael eu harwain fel hyn drwy gamsynied yn nghylch ffugyrau. Gan fod ffugyrau go gryfion yn cael eu harfer yn yr ysgrythyr, y maent yn tybio y gallant hwythau roddi aden i'w dychymyg, a dyfeisio pethau cryfach ac uwch; a thrwy hyny y maent yn colli y ffordd. Y mae yn wir fod mwy o hyn mewn barddoniaeth nag mewn iaith rydd yn y pulpud; ond y mae gormod yn y pulpud o'r fath wastraff afresymol.

Tyb sydd wedi ennill cryn dir gyda'r anwybodus yw y gall efe roddi mawredd, gydag iaith neu arddull, ar yr hyn sydd yn fawr eisoes; ond ni ddygwyddodd i ni weled y gorchwyl wedi ei gyflawni hyd yma.

* W. Jones (1799). † Dr. Johnson.

Nid ydyw hanesion y Beibl wedi ennill dim erioed, ond yn hytrach wedi cael colled fawr, wrth eu tynu drwy dawddlestr y creadur o ddyn anysbrydoledig. Gwell genym weled dynion yn gadael yr ysgrythyr yn llonydd, na cheisio ei gwella â'u dychymygion gweigion a gwylltion eu hunain. Y mae geiriau wedi cael eu dodi yn ngenau y Gwaredwr na chymerasai angylion lawer am gymryg eu dodi! Y mae mawredd yr ysgrythyr yn fawredd dwyfol. Nid oes dim erioed a wnaeth dyn wedi dyfod yn agos ato. Ymffrostiai anffyddiwr wrth drafaelu yn ddiweddar gyda Christion, yn arucheledd Homer, gan ddyfynu y llinell—

"Jove frowned and darkened half the sky."

Ond buan y rhoddes y Cristion daw arno drwy ddyfynu—"Ac mi a welais orseddfainc wen fawr, a'r hwn oedd yn eistedd arni, oddiwrth wyneb yr hwn y ffodd y ddaear a'r nefoedd;" a gorfu i'r anffyddiwr addef y rhagoriaeth.

Teimlwyd gan amryw awydd i lefaru oddiar rai o destynau aruchel yr ysgrythyr, megys "Y dylif," "Rhoddiad y ddeddf ar Sinai," "Y drydedd awr," neu ddyfodiad y Cyfryngwr i farn; ond teimlid anhawsder mawr i ddyfod i fynu â'r testyn gwreiddiol, er y dywedid pethau o duedd dda. Y mae yn wir y gellir amddiffyn athrawiaethau crefydd drwy ymresymu; ond nid ellir ychwanegu at fawredd yr ysgrythyr drwy unrhyw eiriau na dulliau a arferir gan ddynion. Y mae mawredd yn symledd pethau yr efengyl; a thu fewn i gylch y pethau syml y dylem ni ymgadw. Nid ellir dyrchafu Hollalluawgrwydd,* na helaethu Annherfynoldeb, na gwella Perffeithrwydd, gydag unrhyw iaith nac ymadrodd; ac mewn cysylltiad â'r pethau hyn, yr ymadroddion symlaf a mwyaf dirodres yw y mwyaf aruchel. Y mae pob athrylith yn colli ei dysgleirdeb a'i nerth wrth geisio addurno pethau godidog, ïe, mwy godidog o lawer na hi ei hun.

Dywed un awdwr mai mater sydd wedi tynu cryn sylw o dro i dro yw gwreiddiolder y pulpud. Pa beth yw? Nid mynegiad o rywbeth newydd, fel y gallai ymdeithiwr ei fynegu yn nghylch rhyw ddarganfyddiadau na welodd neb erioed eu cyffelyb. Gellir dweyd, gyda golwg

* Johnson.

ar y pulpud, megys y dywedwyd gyda golwg ar wyddoniaeth, "Nid oes dim newydd dan yr haul." Y mae y gydwybod, tyst dros Dduw yn y galon, wedi ei marweiddio drwy bechod, neu wedi ei serio drwy ymarferiad; ond pan gaffo ei deffro mewn gwirionedd, y mae hi yr un peth, yn bresenol, ag ydoedd pan ddododd y nod ar Cain. Y gwreiddiolder sydd yn angenrheidiol i bregethwr yw, medrusrwydd i'w chynhyrfu hi, a gwreiddiolder *gallu* ydyw hyny yn hytrach na gwreiddiolder gwybodaeth neu syniadau. Gwyddom mai hwnw yw y bardd penaf, sef, yr hwn a all roi golwg newydd ar ffeithiau cyffredin bywyd nes cyffroi y natur ddynol. Nid allwch fynegu pa fodd y gwneir hyny; ond y mae ei fedr ef i wneuthur y peth yn ei nodi allan fel bardd. Y mae testynau y pregethwr mor hen â greddfau y natur ddynol, ac â chymeriad Duw, ac â phechod, ac â chyfiawnder, ac â pharch, ac â dyledswydd, trugaredd, a gwirionedd. Os bydd efe yn meddianu dawn y pregethwr, efe a gyffyrdda â hwynt mewn goleuni newydd, a rhydd am danynt swyn neu fywiogrwydd i orchfygu y gwrandawyr. Pa fodd y gwneir hyn, y mae yn rhy anhawdd dweyd; ond gwyddom na wneir y peth drwy sylwadau penchwiban newydd eu dychymygu yn lle sylwedd gwirionedd ysgrythyrol.

Y mae llawer o nerth y pulpud yn gynnwysedig mewn amrywiaeth. Y mae amrywiaeth yn cael effaith gyffelyb i newydd-deb ar y meddwl dynol. Y mae gweinidogaeth sefydlog, na feddo hyn, dan ormod o anfantais i lwyddo yn hir. Ni phery dylanwad y pregethwr fyddo wedi goddef i'w feddwl redeg yn ormodol yr un ffordd, pa un bynag ai at bethau mawr y byddo yn ymgyrhaedd ai at bethau bach. Daw y bobl yn fuan i wybod ei lwybr, ac yn gyfarwydd a'i ymadroddiad; ac felly collir y swyn a deimlid ar y cyntaf oddiwrth ei weinidogaeth. Y mae golygfaoedd natur, y darlun ar y pared, y gwyneb dynol, na fyddwn wedi bod yn edrych arno yn ddiweddar, yn effeithio o'r newydd arnom, pan edrychom arno yr ail neu y drydedd waith, ac yn creu ynom ryw deimladau cyffrous; ac felly y gwna gwirionedd y Beibl. Nid ydyw pob rhan o hono mor fawr nes dyrysu hyd yn nod y galluoedd mwyaf cyffredin; ond nid oes un meddwl a ddichon byth ei ddihysbyddu. Y mae yn cynnwys pob math o arddull, o'r arddull syml hyd at yr arddull broffwydol, ysprydoledig aruchelaf. Y mae ei fardd-

oniaeth yn peri hyfrydwch i'r dychymyg; y mae ei phrydferthwch dihefelydd yn cipio y galon, pa un bynag ai ar y bugail ieuanc, wrth ddilyn y defaid cyfebron, ar hyd meusydd Bethlehem; ai ar Iachawdwr y byd yn traethu am ei ofal am adar y to, a'r brain, ac am wynder y lili, y byddir yn gwrando. Nid ydyw syniadau y Beibl byth yn henciddio. Y maent fel y manna yn newydd bob bore.

Dwy graig i'w gochel gan y llefarwr cyhoeddus yw chwyddiaith ar un llaw, ac iaith isel salw, ar y llaw arall. Dylid llefaru yn ddigon eglur fel y gallo pob un o'r gwrandawyr ddeall yr hyn a leferir; a dylid gochel myned i waered at y bobl gyffredin yn eu hiaith eu hunain.* Nid ymddarostwng i'r pridd tew a'r clai tomlyd at y gwrandawyr yw dyledswydd y llefarwr, ond codi y bobl o'r pridd, a gosod eu traed ar y graig. Wrth fyned yn rhy gyffredin y mae urddas y pulpud yn colli. Nid dyfais ddifudd yn ein llysoedd barn yw i'r ynad fod wedi ei wisgo megys ag y mae, fel yr ymddangoso yn hynafol, yn bwysig, ac yn urddasol wrth weinyddu barn. Collai y brawdlys ei holl urddasoldeb oni bai y neilldnedd sydd yno gyda phob peth. Pe gelwid ar y barnwr oddiwrth gyrn yr aradr, neu oddiwrth y masnachfwrdd, neu o waelod y pwll glo, neu o ganol ffair yr ychain, i eistedd ar y fainc; a phe gelwid y rheithwyr oddiwrth eu crefftau a'u gorchwylion gwahanol yn llewys eu crysau, i eistedd ar y rhaith; a phe gadewid i bob un yn y llys i faldordd yn ei ffordd werinaidd ei hun, heb un awdurdod i'w gadw mewn terfynau, byddai yr holl ofn, yr holl barch, a'r holl urddas a ystyrir yn briodol i lys barn wedi colli yn llwyr; ac ni chai y gweithrediadau hanner yr effaith y maent yn gael ar y gwrandawyr a'r edrychwyr. Felly yn yr un modd, y mae arfer iaith isel a arferir yn mhob trafodiaeth, ac yn mhob amgylchiad cyffredin, ar yr aelwyd, yn y felin, yn ngweithdy y gof a'r saer, ac yn y twnelau tanddaearol, yn y pulpud gyda phethau mawrion, santaidd a chysegredig, yn eu hiselu hyd yn nod yn ngolwg y werinos eu hunain, ac yn cenhedlu hyfder anweddaidd a difoes mewn llefarwyr. Pe buasai urddas y pulpud

* "Vulgarism in language is a certain characteristic of bad company, and a bad education. Proverbial expressions, and trite sayings are the flowers of the rhetoric of a vulgar man."

wedi ei gadw i fyny o ran ei iaith a'i arddull, a phethau eraill, yn fwy yn Nghymru, buasai yn anhawsgan yr anghymhwys ddodi ei droed ar ei lawr; ond y mae y dyddiau diweddaf hyn wedi myned yn rhy gyffredin. Mae son yn bod am beidio caniatâu i ddyn freintiau bardd os nad all ddeall grammadeg, deall rheolau barddoniaeth, a deall pa beth yw natur barddoniaeth, gan roddi atebion boddhaol mewn arholiad cyhoeddus; oni ddylai fod gan yr eglwysi ryw safon i brofi eu dynion ieuainc cyn eu gollwng allan yn athrawon i ddysgu y byd? Pa reswm sy mewn gollwng dyn ieuanc anwybodus am iaith, am athrawiaeth, ac am brofiad, yn ddysgawdwr i'r bobloedd? Y mae rhai o esgobion yr Eglwys Sefydledig wedi mynegu na fydd iddynt hwy ordeinio dynion ieuainc heb gael prawf digonol o honynt fel darllenwyr pwysleisiol a myfyrwyr yn mhethau yr efengyl. Paham y dylai ein drysau ninnau fel Ymneillduwyr fod yn fwy agored i dderbyn ymgeisyddion am y weinidogaeth nag ydyw drws yr Eglwys Wladol yn debyg o fod? Gan fod cael sylfaen dda yn hanfodol i adeiladaeth dda, felly y mae deall grammadeg iaith yn hanfodol angenrheidiol cyn y gellir cyrhaedd dillynder, effeithiolder, a grym yr areithiwr llwyddianus. Dylai pob math o gangheniaith gael ei gochel hyd y byddo modd, fel na wydder yn rhy rwydd brodor o ba dalaeth fyddo y llefarwr; ac nid oes fodd cyrhaedd hyn heb ddeall grammadeg yr iaith. Y mae llawer o ganghenieithoedd yn Lloegr, fel y mae yn anhawdd iawn deall y siaradwyr a'r llefarwyr; a buasai anhawsder am byth i gyrhaedd unffurfiaeth yn mhlith y Saeson, oni buasai fod ganddynt hwy eu safon i fyned wrthi, sef iaith y llys, iaith y brawdlys, ac iaith y senedd. Os bydd llefarwr heb adael ei gangheniaith a'i farbariaeth, y mae yn ymddangos i'r doeth a'r deallus yn arw ac anniwylledig. Nid oes angen iddo, wrth ochel iselder iaith, redeg i'r eithafion arall, o arfer geiriau celfyddydol, caledion, ucheldyrfog, a chwyddedig; ond defnyddio geiriau eglur ac agos at ddealltwriaeth ei wrandawyr. Byddai yr archesgob Tillotson yn arfer darllen ei bregethau i hen wraig o'i gydnabyddiaeth cyn eu traddodi. Soniasom am iaith y llys, y brawdlys, a'r senedd; ond dylid cofio fod y dadleuydd yn y brawdlys, a'r aelod seneddol, yn llefaru yn nghlywedigaeth rhai tebyg iddynt eu hunain o ran dysgeidiaeth, gwybodaeth, a moes; ac y gallant hwy

wneud defnydd o iaith mwy uchelddysg nag a ganiateir i'r pulpud; ond y mae a wnelo gweinidogion yr efengyl â phob math o bersonau, pob math o gyflyrau, ac â phob math o amgyffredion, yr hyn sydd yn gofyn gofal neilldnol i osod y gwirionedd allan yn y ffordd symlaf a mwyaf dealladwy ac effeithiol. Pan y gofynid gan gyfaill i bregethwr profiadol, a oedd efe yn ei ystyried yn beth o bwys bod yn ofalus am gael cywirdeb grammadegol wrth lefaru, yntau a atebodd, gan ddywedyd, "Ydyw, ar bob cyfrif. Y mae yn llawer gwell i chwi wneuthur i'r beirniad droi yn Gristion nag i'r Cristion droi yn feirniad." Y mae llawer un wedi cael ei ystyried yn llefarwr enwog gan y bobl gyffredin, heb ganddo ddim mewn gwirionedd i'w gymeradwyo i sylw, ond tywyllwch syniadau, a thywyllwch geiriau! Mewn ymguddio fel Adda yn mhlith prenau yr ardd y mae cuddiad ei gryfder. Y mae rhai o'r cyfryw wedi bod yn euog o dywyllu gwirioneddau egluraf y Beibl, yn debyg i'r athraw a gymerai y geiriau—"Y neb sy ganddo glustiau i wrando, gwrandawed," yn destyn, ac a geisiai eu hegluro yn y ffordd ganlynol:—"Y neb sydd yn agored i ymchwaread llefarol, na fydded iddo gau pyrth ei dabwrdd!" Bu amser ar Gymru na ystyrid neb yn bregethwr mawr, gan un dosbarth o wrandawyr yn neilldnol, os na feddai restr o eiriau hirion, celfyddydol i'w traddodi, a rhei'ny yn clecian yn ein clustiau nes yr oedd llawer o'r gwrandawyr ar gael eu tafiu i hurtwch. Clywid y geiriau hyn a'u cyffelyb agos yn mhob pregeth, gan rai llefarwyr a ystyrid yn enwog:—"Equity," "sovereignty," "llywydd moesol," "pen Arglwydd grasol," "cyfansoddiad," "cyfansoddiad cyfryngol," "ewyllys lywyddol," "aberth iawnol," "llywydd bodolaeth," "peirianau y dylanwadau dwyfol," "graddau o anfeidroldeb," "sefyllfa prawf," "perthynas," "amcan lywyddol," "pechod yn ddiffyg," "pechod yn beth," "tocynau ffydd," "peirianau y gwaed," "gwiwdeb mewnol," a lluoedd o'r fath. Daeth i'r bwrdd ar ol hyny y ddyfais o gyfansoddi geiriau taglyd, hirion, na wel neb ond eu dyfeiswyr na phryd na thegwch ynddynt; megys "cythreuledigion," "tragwyddoldebau," "gogoniantau," "gwelliantau," "trefniantau;" ac y mae yn llawn bryd dodi teyrnged ar chwyddedigion o'r fath, ac ymgais am gael geiriau mwy destlus. Dywed un wrth son am Mr. Jay fel llefarwr ac ysgrifenydd, fod yn hawdd iawn

camgymeryd tywyllwch am ddyfnder, ac ymchwydd am nerth; ond y mae yn llawer mwy anhawdd cyrhaedd yr arddull dedwydd hwnw o lefaru ac ysgrifenu sydd yn ymddangos yn gryf heb ynddo unrhyw ymddangosiad o ymgais; yn gynefin heb fod yn iselwael; ac yn argraffiadol heb ynddo ddim arwydd o ddirwasgiad,—

"Though deep, yet clear, though gentle,
Yet not dull;
Strong without rage"———

Y mae llythyrau Junius yn cael eu hystyried yr ysgrifeniad anhawsaf yn yr iaith Seisnig, ac etto gallai twysged fawr o'i wahanranau ymddangos i'r hwn sydd yn ddyeithr i ddirgelwch y gelfyddyd o ysgrifenu, fel pethau wedi disgyn i'w lleoedd o honynt eu hunain. Y mae mewn rhai darnau o ryddiaeth Cowper symledd a gwreiddiolder hollol wahanol. Gwell genym ddiofalwch na chwydd. Byddai yn well genym weled awdwr neu bregethwr yn ei wisg artrefol yn y bore nag mewn sidanau ac addurniadau coeg a guddiant wir ffurf ei gorff. Y mae dynion yn dechreu dyfod i weled mai nid gwendid yw symledd, ac nad ydyw i ddyn gael ei orchuddio âg addurniadau o'i ben i'w draed, yn un arwydd o gryfder. Y mae yn haws o lawer cael iaith a ffugyrau chwyddawg nag ydyw cael meddylddrychau o'r iawn ryw. Gallai y blodeuog a'r dychymygol gael cryn rediad dros dipyn yn mhlith yr anwybodusion hawdd eu hudo; sef, yr un dosbarth ag fydd yn cael hyfrydwch mawr wrth edrych ar wisgoedd brithion campwyr a neidwyr mewn ffair; ond ni pharhant yn hir. Gall yr afluniaidd, yr annaturiol, ie, yr anghenfilaidd, o ran ei arddull, basio dros ychydig; ond bydd i symledd natur, heb unrhyw addurn arall ond y prydferthwch sydd yn perthyn iddi hi ei hun, orfyw y cwbl; a bydd byw yn gysurus pan fyddo'r holl chwydd-ewynawg a'r gorwagedd blodeuog sydd yn tynu sylw yr anwybodus wedi darfod o'r tir. Nid yw y werin yn gyffredin yn ddigon o lysieuwyr i allu gwahaniaethu rhwng blodau a blodau, a rhwng blodau naturiol a blodau celfyddydol (*artificial*); ond y maent yn awyddus yn derbyn rhywbeth a gynnygir i'w sylw allan o'r ffordd gyffredin.

Y mae cannoedd o bethau wedi eu traddodi yn Nghymru, ac wedi eu hargraffu, y buasai yn gymhwysach eu bwrw i'r wadd ac i'r

ystlumod, na'u bwrw ar gof a chadw i lygru chwaeth y genedl. Y mae rhai wedi myned mor ryfygus, drwy gael eu cefnogi gan arian ffoliaid, a meddwl y dylai hyd yn nod ysgubion lloriau eu llyfrgelloedd hwy gael gweled goleuni y dydd, a'u gosod ar estyll y myfyriwr. O'r ddau, gwell genym ni y dyn dwl sydd yn dibynu yn gwbl ar ei lais, yr hwn nad all dynu sylw, na chadw sylw cynnulleidfa am fynyd hyd nes y dechreuo floeddio ac ysgrechian, na'r dyn sydd yn llygru chwaeth yr oes âg ysbwrial diwerth, y byddai yn ddigon o gesb am drosedd go fawr i un orfod eu darllen ragor nag unwaith. Nid annhebyg yw ymgais at ormod o flodau ac addurniadau mewn pregeth i waith un Broadwood yn gwneud blwch peroriaethol (*musical box*) i deyrn tramor, yr hwn a fynai gael y blwch o'r defnyddiau goreu; ond yn anffodus, yr oedd y clawr wedi ei wneuthur mor ardderchog, ac mor llawn o addurniadau, fel yr oedd y beroriaeth wedi ei handwyo. Dylid ystyried nad oes eisieu lliain main a phorphor i wisgo y gwirionedd; oblegid y mae gwirionedd fel prydferthwch, yr hwn sydd yn fwyaf addurnedig pan fyddo heb ei addurno. "Nid all dyn fyw ar flodau," ebai Robert Hall. Y mae ambell flodeuyn yma ac acw yn brydferth; ond y mae gwisg o flodau neu o dlysau yn gwneud dyn yn rhy debyg i ffol pen ffair.

Dywed Robinson fod hanes y pulpud yn un rhyfedd a dyddorol. Y mae wedi llefaru pob math o ieithoedd, ac yn mhob arddull. Y mae wedi cyfranogi o holl arferion yr ysgolion, y chwareudai, a llysoedd pob gwlad, lle y mae efe wedi cael ei adeiladu. Y mae efe wedi bod yn eisteddle doethineb, ac yn garthle (*sink*) ffoledd. Y mae wedi cael ei lanw â'r dynion gwaethaf, ac â'r dynion goreu. Y mae blodau a geiriau mawr yn gymeradwy iawn gan ddynion bach, ac amgyffredion gweinion; a'r rhai hyny yn fwyaf cyffredin sydd yn eu harfer: ond os arferir hwy gan ddyn galluog weithiau o ddamwain, fe wneir hyny er cuddio truenusrwydd a gwendid ei feddyliau. Y mae mwy o wisgoedd o liwiau cryfion, ac o frithder tanlliw (*tawdries*), yn mhlith y dosbeirth iselaf nag a welir yn mhlith ein gwir bendefigion.

Eisteddle synwyr naturiol cryf a gweddeidd-der ddylai y pulpud fod. Ni ddylid ar un llaw, athronyddu gormod ynddo, nac ar y llaw arall, ymddarostwng at iaith ac at feddyliau isel a llygredig. Nid oes ar yr

hyf, na wybu pa beth oedd gwrido erioed, arswyd dweyd pethau yn y lle cysegredig hwn, a genhedlant y meddyliau mwyaf halogedig yn y gwrandawyr. Y mae llefarwyr o'r dosbarth hwn yn hoff iawn o gartrefu o ran eu meddyliau yn nghymydogaeth y cenedlu a'r geni, fel pe byddent hwy wedi cael eu trwyddedu i fod yn fath o *accoucheurs* ysprydol i fynegu y dirgelion oll! Rhyfedd yr adeiladaeth a'r cysur a dynant iddynt eu hunain wrth ymdrin â phynciau o'r fath, a'r gwrid a dynant o fochau pob menyw weddaidd a gwyl sydd wedi dysgu cywilyddio! Iaith un brawd yn yr efengyl, ar ol gwrando ar gampwr yn y pethau anmhrydferth a nodwyd oedd, "Gwarchod pawb rhag y fath lol anllad!" Y mae y ffieidd-dra sydd yn cael ei genhedlu yn meddwl pob gwrandawr syml wrth ymdrin â'r fath halogedigaeth yn rhy fawr, fel nad allwn ail adrodd llawer o'r pethau geirwon, anweddaidd, barbaraidd, ac annuwiol sydd wedi cael eu traddodi o bulpudau Cymru. Yr ydym yn gobeithio y bydd rhodio ar ymylon y pethau hyn, heb eu henwi, yn ddigon o awgrymiad i'r rhai sydd yn euog, fel na byddo raid i ni ymhalogi â geiriau, ac â meddylddrychau, na arferir mo honynt tu allan i bot-dai, a phuteindai, oddigerth gan ambell eithriad yn y weinidogaeth sydd wedi ffaelu ennill hynodrwydd drwy unrhyw ffordd arall.

Rhyfeddid pe ceid allan y gwirionedd, leied sydd o'r holl filoedd sydd yn pregethu yr efengyl yn y deyrnas hon, yn gallu tynu sylw eu gwrandawyr heb naill ai myned i gorsydd gwaharddedig, at bethau anghydweddol â natur yr efengyl, neu at bethau y mae yn drosedd ar reolau iaith a rheolau cymdeithas weddaidd ymdrin â hwynt yn y cyhoedd. Dichon fod eu geiriau yn disgyn ar glustiau y gwrandawyr, ond ychydig iawn o argraff sydd yn cael ei adael; ac yn y rhan fwyaf o leoedd, y mae diwedd y bregeth yn waredigaeth fawr. Ni chofir na thestyn na sylw ambell un pe'r elai i'r un man unwaith bob tri mis. Gallai Doctor Chalmers nid yn unig ddal, ond cynhyrfu meddyliau y bobl am awr; a thra y byddai Robert Hall yn pregethu, gwelwyd fwy nag unwaith y bobl o un i un yn cyfodi ar eu traed, nes y byddent cyn diwedd y bregeth yn sefyll oll. Gallai John Elias, Christmas Evans, a Williams o'r Wern wneud hyn yn Nghymru; ac y mae genym yn bresenol rai a allant wneuthur yr un peth yn gystal a hwythau, ond

eithriadau yw y rhai hyn; y rheol gyffredin yw nad all pregethwr gael sylw y bobl. Un o brif ddybenion pregethwr yw gwneud argraff ar y meddwl: dwyn pethau gerbron y gwrandawyr mor eglur fel na byddo modd iddynt beidio a deall. Nid aeth nemawr un erioed o wrando ein Hiachawdwr na'i apostolion heb fod yn eu deall; ond ychydig sydd genym ni o bregethwyr a allant anturio siarad synwyr cyffredin yn iaith ac ysbryd y Beibl, heb alw am gynnorthwy pethau eraill gwaharddedig, a rhai o'r rhai hyny yn hollol wrthwynebol o ran eu natur a'u tuedd i wneuthur un llesâd i gorff nac enaid neb o'r gwrandawyr. Yr ydym yn caru gweled dyn yn fywiog yn y pulpud, ac yn arfer pob ffordd gyfreithlawn yn ei gyrhaedd i gael sylw, ac i wneuthur llesâd i eneidiau pechaduriaid; ond yr ydym yn ffaelu a chymmodi ein meddyliau yn lân â thywalltiad allan bob math o ffwlbri ar draws eu gilydd —drwg a da, cam neu union, heb ddim ynddynt o werth i'w dal i fyny, ond nerth yr agerdd a gynnyrchir gan rym corff a llais cryf, dwfn, a allai barhau am dridiau a theirnos i fwrlymu geiriau llygredig, cymysglyd, ystrim ystram strellach, nes y byddo clustiau pob dyn synhwyrol o chwaeth yn merwino. Y mae rhai cymhariaethau a throellymadroddion arswydus wedi cael eu harfer gan bregethwyr yn Nghymru; ïe, gan rai sydd yn tybio eu hunain ar y blaen, na fynem ar un cyfrif iddynt gael eu cyfieithu i unrhyw iaith dan y nefoedd. Nodwn rai o honynt er gocheliad i'r ieuanc a'r dibrofiad sy mewn perygl o gymeryd dywediadau rhai a ystyrir uwchlaw y cyffredin fel enghraffau i'w dilyn. Yr ydym yn ffaelu a deall yn mha le yr oedd adroddwyr y pethau canlynol wedi gadael eu synhwyrau tra yr adroddent hwynt.

Meddai un:—"Gwelais, fy mhobl I, lun ceffyl gwych yn Llundain; a mwyaf a edrychwn arno, tebycaf i gyd i geffyl byw oedd o. Yr oeddwn yn meddwl am yr Arglwydd Iesu wrth edrych arno: mwyaf a edrychwn arno yntau, mwyaf i gyd o'i ragoriaethau a ddaw i'r golwg." A glywyd y fath wrthunbeth erioed wrth geisio darlunio'r Gwaredwr? "Braich o gnawd! nid ydyw braich o gnawd werth dim; ni ddeil ddim pwysau: nid oes dim asgwrn mewn braich o gnawd," meddai un arall poblogawl iawn yn mhlith anwybodusion.

Yr oedd llefarwr poblogawl wedi dweyd unwaith mewn cymanfa fod yr Arglwydd Iesu wedi gwasgu angeu ar y groes nes yr oedd wedi

myned yn *skeleton*. Dygwyddai i epa o bregethwr glywed am y meddylddrych; ac aeth yntau i wneud defnydd o'r gymhariaeth, a gwaeddai nerth ei ben, "Y mae Iesu, y mhobl I, wedi gwasgu angeu ar y groes nes y mae wedi myned fel *skellet!*"—llestr i ferwi ymborth yw *skellet!* "Y mae Duw yn gweithio yn galetach na neb o wŷr y ffwrneisiau tân; ie, yn galetach na neb ar y ddaear; ac y mae efe yn troi i orphwys yn moliant Israel," meddai duwinydd arall. "Y mae dynion ar y ddaear, mhobl I, fel defaid bach sir Gaernarfon, a'r angylion fel defaid mawr sir Fon, ar fryniau tragwyddoldeb." Rhaid fod peth fel hyn yn ardderchog yn ngolwg y llefarwr. Meddyliodd mai arucheledd ydoedd. "Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfanau. Y mae mewn man cyfleus, digon o *rymau* ynddo, post office yn ymyl, digon o fara iach wedi tyfu yn nghymydogaeth Calfaria." Dywedid hyn mewn hwyl fawr.

Soniai un yn ddiweddar am y "Bod Dwyfol yn dadblygu ei hun i'r byd yn ol fel yr oedd amgylchiadau." Pa beth oedd y dyn yn feddwl? Os oedd "dadblygu" yn bod, y mae yn rhaid fod plygu wedi cymeryd lle rywdro, ac os felly, fod y Goruchaf yn gyfnewidiol!

Wele yn canlyn ymadrodd cyfoethog:—"Y mae dynion yn y gloddfa, nghyfeillion I, yn tyllu twll, a phan ffaela fyned allan, y maent yn rhoddi twll arall yn ei ymyl, ac wedi rhoi tân ar hwnw, aiff y ddwy ergyd allan gyda'u gilydd, nes y byddo y graig yn yfflon. Y mae yma ddynion wedi bod yn tyllu addewidion Duw â'u gweddiau, ac heb gael atebiad; a buont drachefn yn gweddio yn mhen blynyddau, ac y mae yr hen weddiau yn tanio gyda'r newydd nes y mae creigiau addewidion Duw yn myned yn chwilfriw!" Am ddiffyg synwyr, hyfder, ac anweddeidd-der y fath ffiloreg, gadawn i'r synhwyrol farnu. "Y mae pawb wedi eu geni o rywun; trwy dair ffordd y dygwyd dynion i'r byd. Y mae rhai wedi eu geni o wraig, eraill o butain, ond yr Iesu o forwyn!" Oni ddylasid cau safn halogedig y dyn a allai adrodd ffolineb fel hyn? Y mae yn rhaid i ni ymattal heb grybwyll dim yn rhagor o ysbwrial o'r fath yma, a throi at bethau nad ydynt yn gwbl can waethed am lygru y meddwl. Pe buasai fodd myned at wraidd y drwg heb grybwyll un enghraff, buasai yn dda genym; ond yr oedd hyny yn analluadwy. Y mae son am "dynu perlau o'r graig," "angor yn y graig," "swn morthwylion yn y goedwig," a "llewod Siberia!" yn

ddiniweidrwydd ei hunan wrth lawer o bethau a arferir eu dweyd, er gwrthuned ydynt. Y mae y pethau uchod yn dangos mwy o anwybodaeth nag o ddiffyg chwaetn; fel y creadur dwl oedd yn son mewn hwyl fawr am fyned i waelod y môr mewn "*dining bell*," yn lle *diving bell;* ac am arwain Crist o'r *culprit;* a'r llall oedd yn son am gyfranu at "*gyfraniadau*" y saint, yn lle cyfreidiau. Byddwn yn tosturio wrth wrando ar rai a dybiant eu hunain yn bregethwyr mawr, ïe, yn fwy na neb yn y byd! ag ydynt yn ddigon dwl i waeddi, "Yn dwmblo y dodrefn elo hi," "yn achub elo hi," pan fyddont heb ddim arall i'w ddweyd, ac etto fyddont yn ceisio gwneud hwyl, ac yn twyllo eu hunain i feddwl eu bod mewn hwyl, a'u bod "yn ddyfroedd nofiadwy," pan na fydd neb ond hwynthwy eu hunain yn gweled dyferyn o ddwfr yn unlle—dim ond anialwch gwag erchyll yn mhob man; ond byddwn yn teimlo ein hunain yn ddigllawn wrth ddynion am drafod ffieidd-dra mewn lle mor gysegredig a'r pulpud. Ni fyddai clywed dyn yn son am long yn symud ar y tir glas, fel yr oedd un yn ddiweddar, ond cymhorth i chwerthin; ond y mae tuedd niweidiol mewn geiriau a meddyliau halog. Nid oes dim aflendid yn nglyn â mynegu "am long yr hen gyfammod yn cychwyn o Salem *fry*, ac yn *disgyn* yn Eden draw," fel yr oedd un gwr poblogaidd yn son yn ddiweddar, er cymhorth mawr i chwerthin i blant glân y môr; ond y mae son am "gadachau Bethlehem," "crefydd y stabl," "enaid yn llipryn," a chanoedd o bethau cyffelyb, yr esgusodir ni am beidio eu henwi, yn annyoddefol i bob dyn o chwaeth cymedrol, er nad yw y llall yn dangos gwybodaeth eang iawn. Ceisio cael effaith y bydd y cyfryw a arferant ddulliau o'r fath i drafod pethau yr efengyl; ond y mae yr effeithiau a ellir ddysgwyl yn wahanol iawn i'r hyn oedd effeithiau y bregeth ar y mynydd, neu effeithiau araeth Paul yn Athen. Os nad all dyn ddal sylw ei wrandawyr heb fyned i diroedd gwaharddedig i chwilio am hwyl, gwell fyddai iddo ddal ei dafod. Nid pell oddiwrth y gwŷr hyn yw adroddwyr chwedlau ac ystorïon wrth bregethu.* Peth newydd yw

* "Tell stories very seldom, and absolutely never but where they are very apt and very short. Omit every circumstance that is not material, and beware of digressions. To have frequent recourse to narrative betrays great want of imagination."

hyn yn Nghymru, a ymlusgodd i'r pulpudau yn amser marweidd-dra. Yr oedd un gwrandawr, wrth glywed un o adroddwyr ystorïon wrth bregethu, yn dweyd fod digon o fân-hanesion a chwedlau i'w cael yn y cyhoeddiadau misol—nad oedd arno ef eisieu eu clywed yn y pulpud. Adrodd chwedlau oedd arferiad yr hen bobl hirnos gauaf cyn dyfodiad yr efengyl gyda nerth i blith y Cymry; ac y mae yr arferiad yn cael ei harferu, fel y mae gwaetha'r modd, yn y pulpud y dyddiau hyn. Wedi i lefarwr fyned unwaith i yspryd y chwedlau, ni fydd pall ar ei adroddiad o honynt; ond myn gael rhai i ateb ei ddybenion dros orfod dyfeisio rhai newyddion! Y mae ein clustiau ni wedi bod yn gwrando chwedlau a mân-hanesion na ddarllenasom rai cyffelyb iddynt erioed mewn unrhyw lyfrau a gynnwysant bethau o'r fath, ac na chlywsom son am eu bathau yn Gymraeg nac yn Saesonaeg. Clywsom ambell bregeth yn chwedlau o'r dechreu i'r diwedd, heb ddim mwy o gysylltiad rhwng y pethau a ddywedid â'r gwirionedd, na phe buasai y traddodwr yn ceisio profi athrawiaeth y cyflawnhad oddiwrth yr adnod—"Dyma eu rhifedi hwynt,—deg ar hugain o gawgiau aur, mil o gawgiau arian, naw ar hugain o gyllill." Nid chwedlau a gynnygid i gynnulleidfaoedd ddeugain mlynedd yn ol. Nid oedd prinder dawn dyfeisio y pryd hwnw, pe buasid yn chwenych; ond nid oedd gan yr hen bobl flas ar bethau ynfyd. Yr oedd hyd yn nod Christmas Evans, wrth ollwng aden i'w ddychymyg nerthol, agos yn rhy ddychymygol gan saint y dyddiau hyny; ond elid heibio iddo ef yn lled ddystaw, ar gyfrif rhagoriaethau eraill oedd ynddo. Ond pa fodd y dysgwylir i neb fyned heibio i ddyn y mae chwedlau, ystorïon, a mân-hanesion yn gwneuthur i fyny gyfangorff (pe byddai yn gorff hefyd) ei bregeth oll? Y mae adrodd chwedlau yn ddiddiwedd yn brawf o dlodi athrylith, neu o ddiogi a difaterwch. Pwy erioed a glywodd un o'r rhai a ystyrid yn ddynion mawr yn yr oes o'r blaen, yn adroddwr chwedlau neu fân-hanesion? A oedd John Elias yn arfer gwneuthur hyny; neu Charles, Caerfyrddin; neu Ebenezer Morris; neu Ebenezer Richards; neu Thomas Richards; neu Dr. Lewis; neu Dr. Phillips; neu Hughes, Groes Wen; neu Jones, Penybont; neu Williams o'r Wern; neu Morgan, Machynlleth; neu Breese, Le'rpwl; neu Joseph Harris; neu John Herring; neu Christmas Evans?

Nid ydym wrth enwi y gwŷr uchod yn meddwl hôni na chlywid byth hanesyn o'u genau, yn awr a phryd arall; ond beiddiwn ddweyd mai nid hyny oedd eu bwyd a'u diod ar bob achlysur, ac yn mhob man. Nid ydym yn beio pob hanesyn a adroddir, nac yn meddwl eu bwrw hwy allan oll, megys y bwriwyd y prynwyr a'r gwerthwyr allan o'r deml; ond dadleu yr ydym dros gynnildeb yn eu hadroddiad—na ddylent byth gael mwy o le yn y bregeth nag y mae yr halen yn gael gyda'r bwyd; os dylent gael gymaint a hyny. Byddai yn siom arswydus i'r newynog gael dryll o halen yn lle dryll o gig, i foddloni creſiadau y cylla ar ol dychwelyd o ben y Wyddfa, er cystal yr archwaethai efe gyfran briodol o halen gyda'i ymborth. Gyda'r ymborth, ac nid yn ei le, y mae yr halen wedi cael ei fwriadu; ac felly gyda sylwadau mewn pregeth, ac nid yn lle sylwadau, y dylid arfer mân-hanesion yn y pulpud, a hyny er mwyn egluro rhywbeth fyddo yn cael ei drin. Cyfarfodydd adrodd chwedlau ar brydnawniau Suliau oedd cyfarfodydd ein hynafiaid, megys y crybwyllwyd; ac un o'r pethau cyntaf wnaeth yr efengyl oedd ymlid ymaith y pethau gweigion hyn, a rhoddi gwirionedd sylweddol yn eu lle. Y mae yr apostol wedi rhagddweyd am y chwedlau fel y canlyn:—"Ac oddiwrth y gwirionedd y troant ymaith eu clustiau, ac at chwedlau y troant," 2 Tim. iv. 4. Dywed Dr. Phillips fel hyn gyda golwg ar yr adnod:—"Gan fod eu clustiau wedi myned yn glwyfus, bydd y gwirionedd hwn yn rhy lym a hallt i'w ddyoddef; am hyny troant ymaith eu clustiau i wrando ar chwedlau gweigion—pethau a foddlono'r cnawd, ac na flino'r gydwybod."

Nid camgymeriad bychan ychwaith yw defnyddio amser maith, a gwneud tôn hirllaes wrth adrodd chwedlau dibwys; fel y gwr boneddig oedd yn adrodd wrth Doctor Johnson fod y dadleuwyr wedi cael eu brathu yn dost gan chwain yn yr Amwythig amser y brawdlys. Cymerodd y gwr amser i'w hysbysu fod sypynau mawrion o wlan yn cael eu cadw yn llysdy y dref; ac o herwydd hyny, fod chwain yn aneirif yn llechu yno; fod llety y dadleuwyr yn agos i'r llysdy; ac fod y creaduriaid bychain hyny, a elwid chwain, yn symud o fan i fan gyda chyflymder mawr. Ejisteddodd Johnson mewn tipyn o anesmwythder hyd nes y gorphenodd y gwr boneddig ei chwedl, ac yna torodd allan dan gellwair, a dywedodd—"Y mae yn drueni, Syr, na welsoch chwi lew;

oblegid gan i chwanen gymeryd i chwi gymaint o amser, buasai llew yn parhau i chwi am flwyddyn!"

Y mae rhai o wŷr y chwedlau yn euog o rwygo iaith a ffugyrau yn arswydus. Yr oedd un o'r frawddoliaeth, wrth bregethu ar y testyn—"Y mae i ni chwaer fechan, ac nid oes fronau iddi," yn lle dweyd—

"Aed efengyl
Ar adenydd dwyfol wynt,"

yn gwaeddi mewn hwyl—

"Aed y bronau
Ar adenydd dwyfol wynt."

Galwai un y Cyfryngwr yn "Iar anwyl," wrth son am yr iar yn casglu ei chywion dan ei hadenydd! Och, ryfyg gwarthus! Pennillion gwlithog dros ben gan wŷr y chwedlau yw—

"Fe welwyd craig mewn dalfa
Yn nhyrfa'r gwaew ffyn;
Fe welwyd craig yn hongian
Ar ben Calfaria fryn;
Rhoed craig mewn craig i orwedd
Hyd fore'r trydydd dydd;
Er gwaetha'r maen a'r gwylwyr,
Fe ddaeth y graig yn rhydd."

Y mae y droell ymadrodd "craig" yn gyfeiliornus o'r dechreu i'r diwedd; canys nid fel "craig" y croeshoeliwyd y Gwaredwr, ond fel dyn! Nid ydyw y pennill canlynol yn gywir:—

"Yn ngwydd yr haul fe hoeliwyd
Yr haul ar ben y bryn;

canys nid fel haul yr hoeliwyd y Gwaredwr, ond fel dyn!

Eto—

"Fe dyf yr hedyn mwstard
Yn bren canghenog mawr,
A'i wreiddyn yn y nefoedd,
A'i frigau ar y llawr."

A glywyd erioed ffwlbri mwy direswm? Pren yn tyfu â'i wreiddyn i fyny!

Fe gafwyd hwyl fawr yn ddiau wrth adrodd pennillion o'r fath yn mhlith yr anwybodus. Y mae yr iaith yn cael cam cywilyddus gan rai

athrawon. Y mae amryw sydd yn meddwl ennill eu bara tra byddont byw wrth lefaru yn addoldai y Cymry, fel pe byddai yr iaith Gymraeg islaw eu sylw. Ni wnaethant yr ymgais lleiaf erioed i geisio seinio ei geiriau yn briodol. Y maent yn tynu y geiriau o'u hystum naturiol yn hollol. Nid ydynt yn seinio ei llythyrenau na'i geiriau fel y dylent. Bydd ganddynt "ened" am enaid, "ene" am yna, "teida" am tadau, "cyllith" am cyllill, "teimladwy" am teimladol; "y geiriau rhai'n" am y geiriau hyn; ond ni feddyliai un dyn a gafodd ddiwrnod o ysgol erioed, ac a sylwodd, am ddweyd, "y geiriau rhai hyn," er fod hyny yr un peth a'r "geiriau rhai'n." Y mae y "muriau rhai'n" yr un mor feius.

Arferir hefyd "anhawsdere" am anhawsderau; "dylanwade" am dylanwadau; "gagendor" am agendor;" "blasus fwyd" am flasusfwyd, a lluoedd o rai cyffelyb. "Llunier i gall hanner gair." Ond y mae cyfeiliorni wrth seinio llythyrenau yn fwy maddeuadwy na chyfeiliorni gyda golwg ar ystyr geiriau, neu gyda meddyliau. Yr oedd pregethwr yn ddiweddar yn son am "gwhwfanu" y mur yn lle ei gyfanu. Yr oedd un arall yn anog y bobl "i anfon eu penau i'r nefoedd gael i Iesu Grist eu mesur er gwneuthur coronau iddynt." Clywsom am ddynion yn anfon *mesur* eu penau: ond ni chlywsom erioed am neb "yn anfon eu penau" heb fyned eu hunain gyda'u penau! Y mae camseinio llythyrenau yn fwy maddeuadwy na hyn; ond ni ddylid goddef hyny i fyned heibio yn ddigerydd.

Gan fod y pulpud wedi cyrhaedd y fath safle yn Nghymru, dylai pob peth ynddo fod yn weddaidd ac mewn trefn. Dylid darllen yr iaith yn gywir, ac nid gwneud ymadroddion cyfeiliornus; a dylid bod yn ofalus wrth ddyfynu geiriau yr ysgrythyr, am wneud hyny yn gywir. Nid oes prin un o ddeg yn adrodd y geiriau, "Yr hwn a ddel ataf fi," yn gywir; ond cyfnewidir hwy wrth fympwy yr adroddwr, a dywedir—"*Pwy bynag* a ddel." Yr oedd un yn ddiweddar, wrth bregethu am Dafydd a'r cawr, fel pe buasai wedi digio wrth y gair "cod" yn yr hanes; yr oedd yn rhaid iddo ef gael ei droi yn "gwd" yn barhaus—"Gofala am fod genyt ddigon o geryg yn dy gwd." Paham "cwd?" Onid yw y gair "cod" yn arferedig gan ein cyfieithwyr? megys, "Fy nghamwedd a selied mewn cod." "Casglu cyflog

i god dyllog." "Am fod Judas a'r god ganddo?" Rhaid i ambell un gael ychwanegu "unig" at y gair enaid yn, "Pa lesâd i ddyn os ennill efe yr holl fyd?" ond nid ydyw hyny yn ychwanegu un cufydd at faintioli y peth. Y mae yr adnod yn well fel y mae yn wreiddiol. Dywedai un arall "*pring*" am prin, "swmbwl yn y *cnwd*," am swmbwl yn y cnawd, "*ol*" am oll, "y *ddau iar*" am ddaear. Y mae enghraffau o'r fath yma yn rhy luosog i'w henwi. Byddwn yn cael llai o ofid wrth glywed llefarwyr yn adrodd pennillion er cyrhaedd hwyl, er mor wrthwynebus yw hyny, pan yrir y peth i eithafion, megys y mae arfer rhai, nag wrth wrando arnynt yn darnio ac yn rhwygo yr iaith a ffugyrau yn ddidrugaredd. Y mae rhyw ddull coegaidd o ddwyn geiriau Seisnig i bregethau a thraethodau wedi cymeryd lle yn ddiweddar, na wyddai ein tadau ddim am dano; a gwneir hyny, nid yn unig gan rai a wyddant Gymraeg a Saesonaeg, ond gan rai na fuont erioed am ddiwrnod yn yr ysgol, ac na wyddant ddim am Saesonaeg ond drwy hanes. Y mae hyn yn annyoddefol.

Yn mhlith y geiriau anmhriodol a arferir gan bregethwyr, gellir nodi y rhestr a ganlyn:—"Watchman, watchio, stirio, treio, siawns, strike, crowdio, stem, dwfr heb ball, crop, spring tide, traen, colliery, sport, chains, farm yard, style, system, lansio, pob soul, canters, findio, libel, abusio, party, sound, contrivance, respectable, safe, right safe, ambassador, mask, fancy, witness, form, excitement, reaction, cautious, principle, actio, certain, interest, fort, y fusness, attack, box, pressio, imitatio, distress, bankrupt, text, taste, waste, volunteers, property, listio, canons, setlo, express train, interferio, trust, drones, fit, index, trusty, staunch, all right, set, good fellow, handlo, qualifio, cipher, pack, inspectio, mold, affectation, froth, illuminatio, trainio, stretchio, leicio, roundio, meindio, hidio, swagro, monopolizio, misfortune, concern, out of sight, pleasing, strapio, counter, Reform Bill, flood yard, wds, (goods), lift, bill, class, glass, generals, dukes, lords, good manners, tune, dros dy dune, factry, servio yn right, stop, brandio, orthodox, burstio, charge, declaration, cases, impression, echo, stampio, lectrifio, electricity dwyfol, scheme, plan Duw, front, group, stage, man of war, yn troi yn backet, enthusiasm, melancholy, rebels, initials, infidels, scil, treial, comins, counsellor, mainspring,

air, climate, witchio, misio, parti sel, y very thing, suposo, chatro, physical force, brogaod, commando, delo, explaino."

Nid geiriau dychymygol ydyw y rhestr uchod, ond naill ai rhai a glywyd neu a ddarllenwyd mewn pregethau. Pa beth a feddyliai y Saeson o weinidog iddynt hwy a ddygai y fath genfaint o eiriau llygredig, ac o eiriau amrosgo o ieithoedd estronol i'r pulpud? Y mae llawer o'r geiriau a nodwyd wedi cael eu harfer mewn hanner gorchest gan rai, er dangos i'r werinos y fath ddynion medrus oeddynt hwy yn gallu carlamu o'r naill iaith i'r llall heb unrhyw anhawsder; ac y mae eraill wedi eu harfer o ddiffyg ystyriaeth, heb feddwl fod unrhyw duedd niweidiol ynddynt. Y mae yn haws genym oddef yr hwn sydd yn eu harfer yn ddifeddwl, na goddef y bocsachwr coegynaidd nad ydyw yn awyddus am foddhau neb yn y peth hwn ond efe ei hun. Y mae pob dyn o chwaeth yn rhwym o ystyried hyn yn sarhad mawr ar yr iaith Gymreig; gan fod genym y fath gyflawnder o eiriau prydferth yn ein meddiant. Os na ddiwygir, byddai yn well claddu yr iaith na'i chlwyfo yn barhaus yn nhai ei chyfeillion. Y mae arfer ambell air neu frawddeg Seisnig. er mwyn eglurdeb, yn ddigon goddefol; ond y mae rhagor rhwng hyny a'u harfer gyda'r fath haerllugrwydd ag yr arfera rhai hwynt. Os nad ydys yn dewis arfer geiriau dyfnddysg, paham na chadwer tu fewn i derfynau iaith yr ysgrythyr? Er nad ydyw pob gair a arferodd ein cyfieithwyr yn Gymraeg pur, etto, y mae yn haws goddef yr iaith hôno fil o weithiau na'r geiriau a gynnygir i ni yn fynych. Gyda phur ychydig o eithriadau, gellir darllen yr ysgrythyr, o Genesis i Datguddiad, heb dynu gwrid o fochau y fenyw dyneraf, ac heb glwyfo clustiau y beirniad mwyaf coeth; ond y mae gwrando peth nad ydyw na Chymraeg na Saesonaeg, a gwrando geiriau Seisnig pan y mae genym eiriau Cymreig, llawn cystal, os nid gwell, i'w cael, yn ddigon o gosbedigaeth am drosedd go fawr. Dylai yr eglwysi sefyll allan na dderbynion neb yn weinidogion na fyddont wedi eu trwyddedu yn ysgolheigion digonol yn iaith eu mammau i wneud pob gorchwyl perthynol i'w swydd. Y mae achwyn mawr mai ychydig o ddynion teilwng sydd yn cyfodi i waith y weinidogaeth; ac fod ugeiniau yn bwyta bara seguryd, dan enw gweinidogion, a ddylasent fod yn dilyn rhyw orchwylion nad

oes a wnelo meddwl na llafur â hwynt; ac os parheir i ddwyn pethau yn mlaen megys yr ydys yn bresenol, llenwir ein pulpudau yn yr oes nesaf â dynion hollol anghymhwys i ymaflyd yn ngwaith y weinidogaeth; bydd y Gymraeg wedi ei llurgunio a'i thrybaeddu fel na fydd ei chyfeillion anwylaf yn gallu ei hadnabod.

Dylai iaith y pulpud fod yn bur, yn syml, yn briodol, ac yn gyflawn. Y mae yr iaith Gymreig, medd un, yn odidog, yn bur, yn gyflawn hynod o amywiaeth geiriau ac ymadroddion; yn bersain ac yn addurnedig; yn neilldnol o addas i ymadroddi am bethau ysprydol yn fawredig, yn ddealladwy, ac yn effeithiol. Y mae yn syml heb fod yn isel; yn hyf heb fod yn ddigywilydd; yn addurnol heb gymendod; yn gydseiniol heb fod yn orwag; yn ardderchog heb chwyddiaeth; tyner heb fod yn fursenaidd; yn gryf heb erwinder. Defnyddioldeb pob iaith ydyw trosglwyddo meddyliau y naill i'r llall; hôno gan hyny yw yr iaith oreu, sydd yn cyflwyno meddyliau dynion i'w gilydd yn fwyaf cywir, goleu, ac effeithiol, yn gyfaddas i achos y traethwr a'r gwrandawr; a hwnw yw'r ieithwr goreu, sydd yn medru ymadroddi neu ysgrifenu felly.

Gan ein bod yn cymeryd y Beibl fel safon athrawiaeth, ai ni fyddai yn briodol i ni ei gymeryd fel safon iaith ac arddull hyd nes y cyfarfyddom â'i well? Pa fodd na chaem, gan ddynion sydd yn hòni eu bod yn deall yr ieithoedd clasurol, fel y gelwir hwynt, rywbeth o ran coethder, yn y Gymraeg, a ddelai yn agos at yr ieithoedd hyny? Pe llefarasai ein Hiachawdwr a'i apostolion, yn yr un dull aflerw ag y llefara rhai pregethwyr Cymreig, ni fuasai dysgedigion yr oesau yn ystyried y Testament Groeg, o ran ei arddull, yn werth eu hefrydiaeth; ac y mae yn rhyfedd fod gwŷr sydd yn efrydu yr ieithoedd gwreiddiol, ac ydynt yn alluog i nodi allan eu dillynder a'u nerth, yn tybio y gwna rhyw ddull isel, llygredig y tro i fynegu y meddyliau coethedig a geir yn yr ieithoedd hyny yn Gymraeg. Os ydyw dynion ieuainc a elont i'r athrofa yn meddwl treulio eu hoes yn Lloegr, bydd yn rhaid iddynt arfer pob egni er gwneuthur eu hunain yn hyddysg yn yr iaith Seisnig; a ydyw yn ormod, gan hyny, i ninnau ddysgwyl i'r dynion ieuainc a fwriadant dreulio eu hoes yn Nghymru, fod yn hyddysg yn y Gymraeg? A oes rhyw reswm a ellir ei roddi dros fod

gweinidog yn fwy anwybodus yn y Gymraeg, nag y myn y Saeson gael eu gweinidogion hwy yn Saesonaeg? Pa synwyr sydd mewn i ddyn ieuanc o'r athrofa geisio gosod ei hun allan fel athraw Cymreig, mewn cynnulleidfa Gymreig, lle y mae o ddeg i ugain o wŷr lleyg yn gwybod yr iaith Gymraeg yn llawer iawn gwell nag ef? Nid all y rhai hyny ddysgwyl cael fawr o fudd oddiwrth ei weinidogaeth; canys bydd gwallau ei iaith a'i arddull fel cwmwl a niwl rhyngddynt a chanfod rhagoroldeb a dyfnderoedd ei feddyliau! Dylai athrawon ein colegau dalu sylw neillduol i hyn yn y dyddiau presenol. Bu amser ar Gymru, pan oedd achos crefydd yn isel, a'r cynnulleidfaoedd yn weiniaid, yn wasgaredig, ac yn dylodion, y gwnaethai rhywbeth y tro. Yr oeddynt yn rhwym o gymeryd pethau yn eu haflerwch, megys yr oeddynt gyda golwg ar y mater yma; ond y mae yr amser hwnw drosodd yn bresenol. Oes llenyddiaeth a beirniadaeth yw yr oes hon; daw mor boeth ar lefarwyr musgrell, yn fuan, os na ddiwygiant, fel nad allant fyw yn mhresenoldeb y dynion ieuainc sydd yn cyfodi; neu fe gilia y dynion ieuainc i rywle i ymofyn pethau mwy cydunol â'u chwaeth. Nid ydys wrth son am burdeb iaith yn golygu na ddylid arfer geiriau megys *oxygen*, *nitrogen*, *hydrogen*, *carbon*, *telegraph*, a llawer o eiriau cyffelyb, perthynol i wyddoniaeth a chelf; byddai yn llawn cystal genym glywed eu harfer a phe ceisid gwneuthur cyfieithiad o honynt; ond yn erbyn dulliau sydd yn sawyro o anwybodaeth, neu goegysgolheigiaeth, yr ydys yn llefaru; mewn gair, yn erbyn pob peth sydd yn tueddu drwy iaith, neu drwy ymadrodd, i ddarostwng urddas y pulpud.

Y mae un peth da wedi cymeryd lle yn y blynyddau diweddaf hyn, ragor oedd yn bod flynyddau yn ol; sef, nad ydyw ein myfyrwyr mor goegysgolheigaidd yn y pulpud ag y gwelwyd rhai. Son am yr iaith Roeg a'r iaith Hebraeg ydys yn gofio gan wŷr lled benagored er's talm; ond ni byddem yn cael ein blino byth y pryd hwnw gan *wir* ysgolheigion; ond byddai rhai o'r lleill yn cario y Testament Groeg yn eu llogellau, ac yn ei osod ar y bwrdd yn y parlawr, er mwyn tynu sylw ymwelwyr; ond yr oedd yn hawdd i'r rhan fwyaf ddeall fod mwy o Roeg yn llogell llawer o'r tylwyth hyn nag yn eu penau, er cymaint oeddynt yn son am ystyr geiriau yn ol yr iaith Roeg uwchben cynnull-

eidfaoedd gwledig.* Yr oedd yn beth lledchwith clywed dyn yn bostio ei Roeg, heb allu llefaru yn iaith ei fam gydag un math o briodoldeb. Y mae yn dda genym weled coegysgolheigiaeth yn darfod; ond hoffem weled mwy o ymdrech yn ein myfyrwyr colegawl i ddeall y Gymraeg yn well. Nid mewn astudio Hebraeg, Groeg, na Lladin, y mae y niwaid, ond yn ngadawiad y Gymraeg heibio. Hoffem ni weled ein myfyrwyr yn gymaint ysgolheigion a Dr. Smith, a'r diweddar Dr. A. Clarke, ond carem eu cael yn Gymreigwyr trwyadl hefyd. Y mae yn dda genym weled yn ein colegau ddynion ieuainc o dalentau mor addewidiol, a gobeithio na chawn ein siomi drwy i'r rhai hyny gael eu gollwng allan heb ddeall yr iaith y maent yn meddwl ei llefaru ar hyd eu hoes.

Nid ydym yn tybied ein bod wedi nodi diffygion yn y papyr hwn ond a ellir eu gochel. Y mae diffygion eraill a ellir eu henwi, y rhai ydynt i raddau yn fwy o ddiffygion naturiol mewn rhai nag o ddiffygion wedi eu cyrhaedd; megys swnio yn y ffroenau yn lle yn y genau; y wich fel porchell; y rhwnc a'r crygni yn y gwddf; y swn undonol o ddechreu y bregeth i'r diwedd; y sain cân gyda phob peth dymunol ac annymunol, addewidion a bygythion; y dweyd araf a dystaw na fydd y rhai agosaf i'r pulpud yn gallu clywed; a'r wawchfloedd gref, sydyn, ar ganol neu ddiwedd y frawddeg, fydd yn peri arswyd a dychryn i'r rhai pellaf yn yr addoldy. Er fod diffyg yn mheirianau llafar rhai fel nad allant draddodi fel y dymunant, yr ydys yn barnu fod mwy o'r diffygion a enwyd wedi eu meithrin gan y dynion eu hunain; ond yr ydys yn ffaelu a gwybod paham y dygir yr holl wrthun-bethau hyn i'r pulpud yn anad un man yn y byd. Pe byddid yn ymddyddan â gwr ar ei aelwyd, neu yn ei fasnachdy, ni chlywid dyn byth yn ceisio siarad drwy ei drwyn; nac yn gwneuthur gwich fel porchell; nac un rhwnc yn ei wddf; na swn undonol; na sain cân gyda phob peth; ond siaradai yn ei ddull naturiol ei hun; os na fyddai diffyg yn ei

* "Never display your learning but on particular occasions. Reserve it for learned men; and let even these rather extort it from you, than appear forward to display it. Hence you will be deemed modest, and reputed to possess more knowledge than you really have. Never seem wiser or more learned than your company."

enau, neu mewn rhyw ran oddeutu y bibell wynt (*larynx*). Edrycher ar y rhai mwyaf gwledig ac annysgedig yn prynu neu yn gwerthu buwch neu geffyl; neu sylwer ar y masnachwr tu draw i'w gyfrifwrdd, mor ddeheuig y maent hwy; ac mor briodol y mae eu lleisiau —eu disgyniadau a'u hesgyniadau—wrth ymdrin â'u gwahanol achosion. Pa beth a feddyliai meistr tir, pe gwelai un o'i ddeiliaid yn dyfod ger ei fron, yn un o'r dulliau annaturiol a nodwyd, i ddadleu am gael gostyngiad yn y rhent; neu i erfyn am gael rhyw gymwynas; byddai yn enbyd iawn iddo ganu'r gloch ac erfyn ar John y gwas edrych ar ei ol. Y mae genym, ysywaeth, ugeiniau o ddynion yn dringo y pulpudau na feddyliasant erioed pa fodd i ymddwyn yn weddus ynddynt, ac yn ddidramgwydd. Y mae mor wrthwynebus i deimlad pob gwrandawr o chwaeth glywed dyn yn canu yn ddiddiwedd, gyda phob peth, ac heb fod ganddo i ddweyd dim mewn llais cân a moliant, ag a fyddai ei glywed yn rhincian dannedd. Y mae yn groes i natur ini feddwl y gall dyn bara o hyd mewn tymher canu; ac fod ei deimlad o hyd yn cydfyned â'i lais gorfoleddus. Cynghorem ni y rhai sydd dros ganu, a dim ond canu, yn y pulpud, i brynu organ ar unwaith.

Y mae aros dan swn undonol, cwynfanllyd, yn enwedig os bydd y llais yn gras ac yn gryf, yn ddigon i godi cur yn mhen dyn. Y mae y rhwnc yn ngwddf y pregethwr, â'r llais cryf gwneud, a arferir gan ambell un, yn hollol annaturiol, ac yn ddigon a pheri i ni feddwl fod y dyn yn ymdagu. Methasom a chael allan erioed pa beth all fod yn cynhyrfu dynion gweddaidd, yn mhob peth arall, i wichian fel perchyll, i ddynwared crygu, ac i wneuthur swn trwynyddol. Paham na egyr dyn ei geg yn naturiol yn y pulpud fel y gwna yn mhob man arall, a chyda phob gorchwyl arall, yn lle gwneud ei hun yn wrthddrych dirmyg pob dyn o wybodaeth a chwaeth? Nid ydym wrth son am y pethau hyn am roddi ar ddeall i'r darllenydd ein bod yn wrthwynebol i dôn, neu sain briodol i'r mater fyddo gan y pregethwr mewn llaw; oblegid llefarai yr Iuddewon gyda thôn neilldnol yn y synagog; a sonia yr Apostol Paul am wybod "grym y llais," fel na byddai yn farbariad i'r hwn fyddai yn llefaru; hyny yw, yr oedd ef am ddeall yr amrywiaeth perthynol i eiriau a seiniau, fel y gallai gael mwynhad i'w

feddwl ac i'w deimlad, yr hyn nid ellir ei gael drwy undoniad, neu unrhyw ddull anmhriodol ac annaturiol o osod y geiriau, neu y llais, allan. "Hefyd pethau dienaid wrth roddi sain, pa un bynag ai pibell ai telyn, oni roddant wahaniaeth yn y sain, pa wedd y gwybyddir y peth a genir ar y bibell neu ar y delyn?" 1 Cor. xiv. 7. Dywed Dr. A. Clarke ar yr adnod:—"Os ydyw y rhai hyn i roddi allan sain yn unig heb drefn, heb gyd-darawiad, er y gallai pob sain beroriaethol fod yn y seiniau, nid allai un dyn ddeall fod tôn yn y fath seiniau, na mwynhau hyfrydwch oddiwrth y fath anghyd-darawiadau." Ond yr ydym am i'r sain a'r dôn fod yn briodol i'r mater a'r teimlad. Y mae perygl wrth geisio gochel mursendod a rhodres gyda llais a thôn anmhriodol, ar un llaw, i bregethwr redeg i eithafion arall, a bod yn rhy debyg i arwerthwr *(auctioneer)* mewn ffair uwchben cynnulleidfa yn hollol amddifad o deimlad.

Buasai yn hawdd dweyd gair ar yr hir feithder diflas a diadeiladaeth sydd wedi ymlusgo i'r pulpudau yn ddiweddar, ond gan mai ag arddull ieithyddol, brawddegol, a lleisiol y pulpud y mae a wnelom ni yn benaf, gellir gadael hyny hyd ryw adeg ddyfodol.

Y mae aflerwch y canu mawl wedi ei ymlid ymaith i raddau pell iawn, drwy ymdrech ein gwŷr ieuainc a'n gwyryfon hefyd; ac nid croesaw mawr a roddir i weddïwr ansyberw, yn y dyddiau hyn, fyddo yn traflyncu ac yn llindagu ei eiriau; yn ysgrechian, ac yn dulio y byrddau a'r meinciau fyddo yn agos ato; paham, gan hyny, na chaem y pulpud yn lân? Y pulpud i'w y prif beth yn ngolwg y bobl, yn enwedig yn Nghymru, a'i ddylanwad ef ydyw y dylanwad sydd yn gwneuthur ei ol ar y byd; a thrwy bregethiad yr efengyl y mae yr Ysbryd Glan am wneuthur trefn ar feibion dynion; gan hyny, bydded i ni oll fel cenedl gyduno o'i blaid, i'w amddiffyn; ac na dderbyniwn neb i dŷ, ac na ddywedwn Duw yn rhwydd wrth undyn, fyddo yn enog o'i iselu ac o ddwyn gwarth arno.

Y mae dull dyeithr iawn i'r pulpud Cymreig wedi dyfod i arferiad yn ddiweddar, sef, darllen pregethau yn lle eu traddodi; ond nid ydyw wedi ennill llawer o dir etto; ac nid ydyw yn debyg o ennill tir, gyda'r Cymry, tra y parhao y tân Cymreig yn ein plith.

Maddeuer ini, wrth ddiweddu, am roddi y dyfyniad canlynol o

Preaching and Preachers, "Ar yr achosion sy'n attal lles y weinidogaeth," gan Doctor Murray:—

"Yr ydym yn cael un o'r achosion hyn yn y ffordd y dygir addysg y weinidogaeth yn mlaen yn mhlith ein prif enwadau. Y mae yn llai gweinidogaethol nag ydyw o ysgolheigiol—yn fwy addas i wneud ysgolheigion na phregethwyr! Gwaith mawr y weinidogaeth yw pregethu yr efengyl—egluro a gwasgu adref egwyddorion yr efengyl o flaen cynnulleidfaoedd cymysg, ac i ddarbwyllo dynion i'w derbyn o'u calonau. O ganlyniad, mwyaf poblogawl fyddo y pregethwr, os bydd pethau eraill yn gyfartal, mwyaf oll fydd ei lwyddiant. Nid oedd Whitfield yn dduwinydd dysgedig, ond gyda golwg ar ddefnyddioldeb efe oedd dyn ei amser. Ai nid ydyw hyfforddi ein pregethwyr yn cael rhy fach o sylw yn ein hysgolion duwinyddol? Ai nid ysgolheigiaeth yn unig yn yr ysgolion hyn yw y peth cyntaf, yr ail, a'r trydydd, ac areithyddiaeth ddarbwylliadol yn cael ei gadael i dyfu o honi ei hun? A ydyw hyn yn iawn, yn enwedig mewn gwlad fel ein gwlad ni, lle y mae, efallai, y meddwl cyhoeddus yn cael ei ddylanwadu gan anerchiadau cyhoeddus, a lle y mae mor anhawdd cael sylw cyhoeddus, drwy ystyriaethau o bethau crefyddol, oblegid yr amlder o destynau sydd yn ei feddianu? Gan nad pa mor ddysgedig a duwiol fyddo dyn, os na fydd efe ond traethodwr, bydd i'r pregethwr ymddangosiadus, a'r poblogawl, gludo y bobl ymaith oddiarno. Gallai dyn fod yn Porson mewn dysgeidiaeth, yn Locke mewn athroniaeth feddyliol, yn Galvin mewn deall duwinyddol, ond, os na fydd ganddo areithyddiaeth ddarbwylliadol—os nad all efe ysgrifenu yn dda, ac adrodd y peth a ysgrifeno yn argraffiadol, bydd ei ddefnyddioldeb fel pregethwr yn bur derfynol. Pa nifer sydd o weinidogion allant ddarllen yr Hen Destament a'r Newydd yn yr ieithoedd gwreiddiol gyda rhwyddineb—a allant fesur gwers neu bennill yn Virgil neu Homer gyda'r hawsder mwyaf—ac etto nad allant ddarllen pennod o'r Beibl, nac emyn yn gyhoeddus gan ddwyn y meddwl allan? Y mae Spurgeon wedi ennill cymeradwyaeth cyfled á'r byd, yn unig drwy areithyddiaeth dyniadol; ac etto gwelsom weinidog oedd wedi anghofio mwy nag a ddysgodd Spurgeon erioed, a gallu dadglymiadol yr hwn fel duwinydd a gydnabyddir yn gyffredinol, yn dodi cynnulleidfa i gysgu gyda'r bregeth mwyaf dwfn ac efengylaidd. Y mae ein hysgolion duwinyddol o fendith fawr i'r eglwysi, ond y mae addysg pregethwyr yn cael ei hesgeuluso yn druenus ynddynt. Y mae yn wir fod yn rhaid i ddyn gael ei eni yn areithiwr, megys yn fardd, neu yn arlunydd, gan nad all unrhyw addysg roddi y ddawn iddo y mae Duw wedi ei hattal; etto gall addysg wneuthur llawer er rhoddi pwys, chwaeth, ac argraff mewn gwasanaeth cyhoeddus. Y mae nifer y bobl yn amlhau sydd yn chwenych gweled y dyn o chwaeth yn y pulpud; ac os na foddheir eu chwaeth, ymgadwant o dy Dduw. Y mae llawer o weinidogion na feddant ond ychydig o ddylanwad, a hyny o ddiffyg dull da ac argraffiadol. Yr oedd John Foster yn un o ddynion penaf yr oes: bydd ei draethodau fyw byth; ond ni feddai ond gallu bach yn y pulpud. Yr oedd yn cael ei fawrygu fel ysgrifenydd, ond gochelid ef fel pregethwr. Dylai fod cynllun o bregethwr yn perthyn i'n holl ysgolion duwinyddol, a gynhyrfai yn ei fyfyrwyr ddymuniad am fod yn bregethwyr, can gryfed ag ydyw yr hyn sydd yn eu cynhyrfu i fod yn ysgolheigion dwfn."

CYMRU A'I RHAGORION.

[*Ymddengys nad yw y Ddarlith hon wedi ei hysgrifenu yn llawn fel y traddodwyd hi, ond cyhoeddir hi fel y mae am ei bod yn cynnwys cryn wybodaeth am ein gwlad a'n cenedl.*]

Dywedir fod Cymru o Fon i Chepstow yn 145 milldir; ac o Birkenhead i Forganwg yn 140 milldir; ac o geg Dyffryn Clwyd i Forganwg yn 140 milldir. Y mae yn cynnwys 12 sir, yn nghyda rhanau o siroedd Gloucester, Worcester, Amwythig, a Chaerlleon.

Y rhanau mwyaf neillduol yn y cyfeiriad yma yw y mynyddau. Y mae tri chrib neu drum mawr, yn gyfansoddedig o graig hen, yn rhedeg yn agos o'r de-orllewin i'r gogledd-orllewin. Y mwyaf gogleddol o'r trumiau hyn yw y Wyddfa neu yr Eryri, ac y mae yn gorchuddio sir Gaernarfon oll yn bur agos. Y Wyddfa yw y pigyn uchaf, ac y mae yn codi 3571 o droedfeddi uwchlaw y môr. Y mae yn cael ei hamgylchu gan bigynau agos mor uchel a hithau: y mae Carnedd Llywelyn yn 3469; Carnedd Dafydd yn 3426; ac y mae amryw eraill dros ddwy fil o droedfeddi o uchder.

Nid ydyw Mynydd Hiraethog yn y man uchaf ond 1100; ac nid yw y rhestr uwch Dyffryn Clwyd ar derfynau Fflint a Dinbych ond 1840 o droedfeddi.

Nid ydyw Cadair Idris ond 2914 troedfedd. Y mae Aran Fawddwy yn uwch na hi, yr hon sydd yn 2955 uwchlaw y môr.

O Aran Fawddwy i'r De ar hyd terfynau Ceredigion a sir Drefaldwyn y mae trum Pumlimon yn rhedeg, yr hwn a ystyrir fel rhan o gadwyn y Berwyn. Y mae ganddo ddau bigynau yn 2391 o droedfeddi a'r llall yn 2463.

Nid ydyw trum y mynydd sydd yn cychwyn o Dyddewi, ac sy'n rhedeg drwy sir Benfro a Chaerfyrddin i derfynau sir Drefaldwyn, ond tua 1762 uwchlaw y môr. Ac nid ydyw mynyddau Tregaron ond tua 1747 mewn uchder.

Y mae yn sir Faesyfed un yn 2163, ac y mae yn sir Amwythig rai yn 1800 o droedfeddi.

Y mae ar derfyn sir Gaerfyrddin un yn 2598 o droedfeddi, ac y mae yn sir Frycheiniog un yn 2862.

Nid ydyw y trumau uchaf yn sir Fynwy dros 1000, ond y mae Mynydd Maen yn 1568 o droedfeddi. Ac nid ydyw yr uchaf yn Morganwg dros 1860 o droedfeddi o uchder.

Y mae afonydd Cymru yn rhai nodedig.

Yr Hafren sydd yn mynu y lle cyntaf. Y mae hon yn cychwyn o ochr ddwyreiniol Pumlimon, ac y mae yn 190 milldir o hyd.

Yr Wy yw y nesaf i'r Hafren. Y mae hon yn cychwyn yn agos i'r un fan a'r Hafren. Y mae tua 120 milldir o hyd.

Y mae yr Wysg yn afon brydferth, ond y mae yn cael y môr yn nghynt na'r lleill.

Y mae genym ein Teifi, Towy, Eirion, Ystwyth, Rheidiol, Dyfi, Llyfni, Mawddach, Seiont, Conwy, Clwyd, Elwy, Alwen, Aled, heblaw lluoedd eraill.

Y mae genym ein cestyll hen a diweddar hefyd yn lluosog, megys castell Caerdydd, Caerffili, Chepstow, Chirk, Coity, Beaumaris, Caernarfon, Conwy, Harlech, Hawarden, Fflint, Dinbych, Narberth, Powys, Dyserth, Dinas Bran; a rhai o honynt yn helaeth ac ardderchog, fel y dywedai Doctor Johnson wrth Boswell, fod un o gestyll Cymru yn ddigon i lyncu holl gestyll Ysgotland yn eu crynswm.

Ceir yn Nghymru bontydd a cholofnau, dyffrynoedd a rhaiadrau, gerddi a pherllanau, a lluaws o bethau eraill naturiol a chelfyddydol nad allwn eu henwi.

Y mae yn cynnwys yr aruchel a'r tlws. Nid ydyw ychwaith yn ol ei maintioli yn wlad dlawd. Yr oedd masnach haiarn a glo Morganwg mewn un flwyddyn yn ddiweddar yn £13,503,745.* Y mae eu hanifeiliaid o bob math yn fil ac yn fyrdd.

Y mae cyfleusderau Cymru—y môr, y camlasau, a'r rheilffyrdd yn lluosog.

Addoldai y Cymru. Dyma yr adeiladau uchaf eu crib yn mhob tref a phentref.

Rhagoroldeb y genedl: fel pobl weithgar—fel pobl lonydd a gonest

* Dylid cofio fod hyn er's amryw flynyddau yn ol.

fel pobl athrylithgar; cyhoeddiadau—awdwyr—pregethwyr—beirdd—peroriaethwyr. Dros 1500 o bregethwyr o Gymru yn Lloegr.

Y llwybr o Gonwy i Gaerdydd—yn y Gyffin, sef mewn lle a elwir Plas Person, yno y ganwyd Dr. R. Davies, un o gyfieithwyr y Beibl; Trefriw, Ieuan Glan Geirionydd; ac yn y gogledd y ganwyd William Salsbri, Syr John Wyn, Barwn Richards, Dr. Morgan, J. Jones, Talysarn, Edmwnd Prys, Ellis Wyn, Williams o'r Wern, Dafydd Ionawr, Dr. Owen, Ieuan Gwynedd, Robin Ddu o Feirion. Tu draw i hyny y ganwyd enwogion y ganrif ddiweddaf—Rowland Harries, Charles, Iolo Morganwg, Christmas Evans, Joseph Harries, Evans, New Inn, Ebenezer Morris, y ddau Richards. A phe byddem yn edrych i'r dwyrain am tua deuddeng milldir dros Fynydd Hiraethog, caem le genedigaeth Henry a William Rees; a phe yr edrychem i'r gorllewin am tua deugain milldir, caem weled yr ardal lle ganwyd yr enwog John Elias, Dewi Wyn, a Robert ab Gwilym Ddu.

Gwybodaeth gymhariaethol yn mhlith y Cymry â'r dosbarth gweithiol yn Lloegr. Cymharu dosbarth â dosbarth. Rhywbeth heblaw deall Saesoneg yn angenrheidiol i ffurfio moesau cenedl.

Purdeb gwasg Cymru—purdeb pulpudau Cymru—purdeb Sabbathau—gwagder carcharau—barnwyr heb ddim i'w wneuthur—carcharorion yn Lloegr yn un mewn 850, yn Nghymru yn un mewn 3000—y barnwyr yn camgymeryd i bwy i ddiolch—ffyddlondeb y Cymry i'r llywodraeth—eu dewrder yn yr amser gynt, yn yr amserau diweddar—dau ar bymtheg o arwyddwyr y "Declaration of Independence" yn yr Amerig yn Gymry—pump o'r llywyddion yn Gymry—pedwar ar ddeg o filwriaid (*generals*) Cymreig yn yr ymdrech rhwng Lloegr ac Amerig.

Yr oedd Milton, Cromwell, Wellington, Syr W. Jones, Inigo Jones, Dr. Owen, a Mathew Henry o haniad Cymreig. Cymro oedd Dr. Abraham Rees, a Chymro oedd Syr Isaac Newton, medd y Proffessor Owen. Y mae Dr. Vaughan o haniadd Cymreig. Cymro glân gloyw oedd Dr. Jenkin; Cymro oedd Richard Wilson y *landscape painter;* Cymro oedd Pennant a Syr John Wyn; Cymro o Ferthyr yw un o baentwyr penaf Rhufain—Penry Williams; Cymro o ymyl Conwy yw un o gerfwyr penaf Rhufain—John Gibson; Cymro yw y seryddwr penaf sydd yn fyw—y Proffessor Adams.

Crefyddolder y Cymry. Nid oes dim modd casglu cynifer yn nghyd gydag unpeth ag a ellir gyda chrefydd.

Diffygion y Cymry:—Diffyg addysg—diffyg gwybodaeth naturiol—teml natur—y deilfforch—y turnpike—diffyg annibyniaeth barn—barn sectol—llyfrau sectol—pwff.

Diffyg annibyniaeth gwladol—Cymru Ymneillduol yn cael ei chynnrychioli gan Eglwyswyr a Thoriaid.

Dyledswydd rhieni i roddi addysg i'w plant—plant fel anifeiliaid wrth natur—gorchwyl y fam—mantais y fam: John Henry—y plentyn a'r crochan.

Diffyg antur—tuedd y Saeson i ddarostwng y Cymro—gormod o yspryd holi yn y Cymry—y Cymry fel cenedl orchfygedig.

Rhagoroldeb iaith y Cymry—helaethrwydd—nerth—ystwythder—yr iaith fel y wlad yn esmwyth, llefn, ac yn arw.

Dichell y Saeson—fod eisieu rhywbeth mwy na dysgu iaith y Saeson i wneud cenedl yn rhinweddol.

Y buddioldeb o ddysgu dwy iaith—anghymhwysder y Sais i roi barn.

Enghreifftiau o'i barddoniaeth. Y mae amryw o Salmau Archddiacon Prys yn ardderchog, ac y mae rhy fach o ganu arnynt o lawer.

SALM LXXII.

Duw, dod i'r brenin farn o'r Nef,
Dod i'w fab ef gyflawndeb;
Yna y rhydd rhwng pobl iawn frawd,
Ac i'r dyn tlawd uniondeb.

Hedd a chyflawnder, ar ol hyn,
Geir yn mhob bryn a mynydd,
Y gwan a'r llesg achub a wna,
Fe ddryllia y gorthrymydd.

SALM XC.

Duw, buost i'n yn Arglwydd da,
Ac yn breswylfa i drigo:
O bryd i bryd, felly yr aeth
Pob rhyw genhedlaeth heibio.

Er cyn rhoi sail un mynydd mawr,
Cyn llunio llawr cwmpasfyd;
Duw o dragwyddol wyt cyn neb,
Hyd dragwyddoldeb hefyd.

SALM CIV.

Fy enaid, mola'r Arglwydd byw,
O! f' Arglwydd Dduw y mawredd;
Mawr wyt, gogoniant a gai di,
Ymwisgi ag anrhydedd.

Megys ei ddillad y gwisg fo
Am dano y goleuad:
Rhydd yn ei gylch yr wybr ar dân,
Yn llydan fel llen wastad.

Cref y rhoes sail y ddaear gron,
Fel na syfl hon oddiyne;
Yr hon a bery fel y rhoes
O oes i oes heb sigio.

Tydi Dduw a ddilledaist hop,
A'r eigion yn fantellau:
Ac oni bai dy ddeheu law
Ai 'r deifr uwchlaw y bryniau.

Gosodaist derfyn lle'r arhont,
Ac fel nad elont drosto:
Ac na ddelont hwy fyth dros lawr
Y ddaear fawr i'w chuddio

Yfant yno asynod maes,
'Nifeiliaid mynglaes gwyllion;
Heb ymado a llawr y nant
Hyd onid yfant ddigon.

Ac adar awyr dont gerllaw
I leisiaw rhwng y coedydd;
Yn canu 'i fawl o bren i bren,
Cethlyddiaeth lawen ufudd.

Dwfr ar fynyddoedd lle ni ddaw,
Fe wlych â gwlaw oddiarno;
A'r gwastad dir efe a'i gwlych,
Bob grwn a rhych i ffrwytho.

SALM CXIV.

Pan ddaeth Israel o'r Aifft faith,
A thy Iago o estron iaith,
Judah oedd ei santeiddrwydd Ef;
Israel oedd benaethiaeth Ior,
Gwelodd hyn a chiliodd y môr,
A throes i'w hol Iorddonen gref:

Neidiai'r mynyddau megys hyrdd,
A'r bryniau fel wyn llament ffyrdd,
Cawsant wastad megys llawr dol;
Ciliaist fôr, dywed paham?
Tithau'r Lorddonen lathraidd lam,
Pa'm dadredaist dithau'n d'ol?

Y mae genym yr hyn elwir caneuon caeth, megys—

Y fellten hoywaf wylltdaith,
Ni wyr dyn derfyn dy daith;
Ac ar dy ol gwir yw y daw
Crochlef a llif y crychwlaw,
Y daran o'i du orawr
Mal berwawg, derfysgawg fôr:
Wybrendwrf, braw drwy'r bryndir,
A dychryn drwy'r dyffryn dir:
Gan genllysg derfysg dirfawr,
Gan wlaw a mellt, gan li mawr,
Gan ofn dwr, gan nef yn dân,
Nid ellir myned allan.

Neu—

Nos dywell yn dystewi,—caddug
Yn cuddio Eryri;
Yr haul yn ngwely'r heli,
A'r lloer yn arianu'r lli.

Neu—

Mewn ystyr brodyr o un bru ydym,
Ar y cyntaf yn Addaf un oeddym;
Ni i gyd oll un gwaed ym—yn ddiddadl,
Un cnawd ac anadl ac un Duw genym.

Fy nwr hallt yn ddafnau rhed,
Uthr weled f'ewythr William;
Mammau hen neiniau anwyl
I'r drysau mewn eisieu'n wyl;
O! 'r hen wr! mor druan yw!
Fy hen daid, fy nhad ydyw:
Troednoeth a phen-noeth a'i ffon,
A'i gydau dan fargodion.

Nid oes yn nau dy y senedd—ei well,
Ow! O! mae'n beth rhyfedd,
Na wnaed hwn yn ynad hedd
Neu frenin o fawr rinwedd;

Ond yn lle hyn adyn noeth
Dan ben llwydni byw'n llednoeth;
Syndod rhyw Alexander
Mawr fel hyn, Ow! mor afler!

Gwel lwydfoch ar ol adfyd—ac arwydd
Mai curio mae'r ysbryd;
Gwanychu dygn gnoi ieshyd,
A dwyn gwedd y dyn i gyd

Neu—

Y gwir ei lawn agoryd—a ddylid,
A'i ddilyn bob enyd,
Yn mhob masnach bach o'r byd,
Uchel fodd a chelfyddyd.

Yn ddilid dylid hyd elawr—dilyn
Y dihalawg Flaenawr,
Rhag bod am drafod rhyfawr
Yn ol yn y fantol fawr.

Gwelir rhwng y gwir a'r gau—fawr ragor,
Fe rwygir mynwentau;
Daw'r cyrff o'r iseldir cau
Rif eres ar ryw forau.

Gerbron yr union Arweinydd—Ior anwyl
A'r Ynad tragywydd,
Mil fyrddiwn ar fyrdd fydd
Fal manod ar fol mynydd.

Dau deulu'r byd ddidolir—gelynion
Y gloew Naf a gosbir,
Ei blant a garant y gwir,
Gwerth ei waed—nis gwrthodir.

Neu—

Acw hongiant ar helyg gangau—o'i mewn
Eu mwynion delynau,
Tôn y gwynt arnynt yn gwau—lleinw finion
Euphrades union a phrid seiniau.

Ar y wal draw e welir
Ger gwân y canwyllbren hir,
Ryw ddigorff ddelw anelwig,
Deneu gul, heb gnawd heb gig;
O! mor drwm ar y mur draw
A llesgaidd y mae'n llusgaw!

Ac â bys fel ffiamawg hin
Llysg eiriau a llws* gerwin: *rhaniad
O! a'r newid wnai'r neuadd!
Sigla dirgryna pob gradd;
Llewyga gwawl y llugyrn
Deryw eu chwai belydr chwyrn;
Oll ond rhyw wyrdd-der teryll
Llewyrn yw'n lleneru'n hyll,
I ddangos gweddau ingawl
Ac erchyll rhwng gwyll a gwawl;
Aeth fferdod drwy'n haelodau
Fel caethion mewn cyffion cau.

Neu—

Er mawr lesiant o'r amryw lysiau,
Dyn diwybod sy'n dwyn ei dybiau
I Dduw osod rhai yn ddieisiau—
Barnu'n afiesol radol reidiau;
Aml ddail fel y mel ddiliau—ddibrisdr
Y rhai ni wyddir eu rhinweddau;
O'i flaen ef ni fu lonydd
Y graig rwym mwy na'r gareg rydd.

Neu—

Byw yr wyf yn bur ryfedd—bob orig,
Byw heb aur na mawredd,
Byw'n unig heb un anedd,
Byw'n y byd uwch ben y bedd.

Yr Ion pan ddelo'r enyd—ar ddiwedd
O'r ddaear a'u cyfyd,
Bydd dorau beddau y byd
Ar un gair yn agoryd.

Oer len ei farwol anedd,—o'i ogylch
A egyr ar ddiwedd,
Daw'r atrifawl dorf ryfedd,
Feirwon byd i farn o'u bedd.

Y mae Emynau bardd Pantycelyn ac Ann Griffiths yn hysbys i bob Cymro, fel na raid ini eu cofnodi.

Y mae genym ni Ganiadau o natur arall a llawer o arabedd a chellweir-gnoad ynddynt, megys gwaith Glan y Gors, sef "Hanes Sesiwn yn Nghymru," "Dic Sion Dafydd," &c. Yr oedd yr Hybarch Gwallter Mechain yn arfer dweyd mai ffordd effeithiol iawn i gael drwg arferion

i lawr yw gwawd; megys y mae oferedd swyngyfaredd wedi cael ei wawdio yn Eisteddfod y Trallwm yn 1824:—

Gweddillion byw gweinion baganiaeth
Yn llygru'r dywysogaeth y sydd,
I'w phuro hi'n lan o'i heulunod—
Gobeithio mai dyfod mae'r dydd:
Mae rhai yn rhoi coel ar y ceiliog,
Mai drwg yn ddiysgog a ddaw,
Os clywir e'n canu gam amser,
Fe'u llenwir o brudd-der a braw.

Ond credu fod pen y creadur
A'i big tua llwybyr y Llan,
Fe daerir yn hir ac yn arw
Mai rhywrai fydd meirw'n y man;
Ac felly 'r un modd yr oen, meddir,
Am hwnw fe dd'wedir yn dda,
Os gwelir ei ben cyn ei gynffon
Arwyddion yn union wna.

Y CATHOD A'R MWNCI.

Dwy gath ddadleuent unwaith
Wrth ranu cosyn Caer,
Appelient at y mwnci
Am gael ei farn fel maer;
Am glorian galwai yntau
Gael gwneud y ddau 'r un faint—
Y mwyaf a gymerai
I'w ysgafnhau â'i ddaint.

Ar ol cymeryd tamaid,
Y llall oedd fwa 'n awr;
'Nol cym'ryd darn o hwnw,
Ai 'r cyntaf yn rhy fawr:
Ac felly 'r oedd yn naddu,
Ac un yn fwya' o hyd,
Nes ydoedd yn bur debyg
O lyncu 'r caws i gyd.

Hai! ho! medd un o'r cathod,
Rhowch ini 'r caws yn ol,
Gael ini brofi rhywfaint—
Nid awn ni byth mor ffol:

Na, na, atebai'r mwnci,
Rhaid i chwi roddi darn
I minnau am fy nhrafferth
Yn eistedd er rhoi barn.

Pawb sydd am fyn'd i gyfraith
Meddylied am y caws—
Wrth fyn'd at fwyn gyfreithiwr,
Ni fyddwch rouyn haws:
Fe gymer yr holl gosyn
Wrth wneuthur chware teg—
Ni cheir na chaws na bara
O'i winedd nac o'i geg.

ANERCHIAD A DRADDODWYD YN EISTEDDFOD RHYL, 1863.

Mae pob dyn wedi ei eni i ryw ddyben. Mae llawer yn myned drwy y byd heb i ond rhan fach o'r wlad y byddont yn byw ynddi wybod eu geni. Y mae rhai felly am nad ydynt wedi troi eu meddyliau ond at amgylchiadau cyffredin bywyd—

"Rhai i'r môr, a rhai i'r mynydd."

Eraill oedd yn feddianol ar gynneddfau o'r radd uchaf, ond heb erioed gael eu deffro na'u rhoddi ar waith er eu dwyn i sylw. Y mae athrylith weithiau yn lleda mewn lle annhebyg iawn—

"Mae llawer blodeuyn a enir,
I wrido o olwg y byd,
Gwastraffa ei holl berarogledd
Yn awyr yr anial i gyd."

Y mae rhai yn rhy dlodion i allu dyfod i'r golwg; y mae eraill yn rhy ddifater. Nid ydyw cenedl y Cymry, yn ol ei maint, wedi bod yn ol i'r cenhedloedd penaf. Buwyd yn Eisteddfod Caernarfon yn ceisio dangos y fath nifer o enwogion mewn gwahanol ganghenau dysgeidiaeth a gwyddoniaeth, ac athrylith, oedd wedi codi yn ystod ychydig ugein-

iau o flynyddoedd ar y llinell o Gonwy i Ddeheudir Cymru, heb gilio yn mhell iawn oddiwrth y pwynt unionsyth i'r parth gorllewinol o Ddeheudir Cymru, ond nid yno y cyfodwyd yr holl enwogion. Y mae sir Ddinbych a Fflint wedi bod yn gyfoethog mewn talent er's oesau. Y mae rhai ser o faintioli mawr wedi bod yn llewyrchu yn y wlad hon. Heb dalu sylw neillduol i olyniaeth na threfn, enwn rai o honynt, fel y dygwyddasant ddyfod i'n sylw. Un o sir Ddinbych oedd Dr. John Davies, awdwr y Geirlyfr; Dr. Davies, Fallwyd; Dr. John Evans; Owen Jones (Owen Myfyr); Dr. John Evans; Inigo Jones, Llanrwst; Humphrey Llwyd, Dinbych; Syr Hugh Middleton; Hugh Morris, y Prydydd; John Humphreys Parry; Dr. Richard Parry, Rhuthyn; Henry Perri, awdwr Egluryn Ffraethineb; Dr. David Powell; Parch. Peter Roberts, Rhiwabon; Dr. William Roberts; William Salisbury, Cae Du; Dr. Daniel Williams; Dr. Edward Williams, Glan Clwyd; Thomas Jones, a fu yn Ninbych yn hir; Phillip Yorke, o Erddig; Dr. Gabriel Goodman; Thomas Jones (Bardd Cloff); William Middleton; Dr. David Powell; Dafydd Samwell; William Wyn, awdwr Cywydd y Farn. Bu un Edward Jones, bardd enwog, yn Bodfari; ac ar ei ol, y Parch. E. Hughes (Dryw). Yn Maes y Plwm y bu Edward Jones yn preswylio. Bu Thomas Gwynedd yn trigo yn Ninbych. Yn Mhenffordd Wen, bu un John Thomas, awdwr Anerchiad at Ieuenctyd Cymru, yn preswylio. Ganwyd Dr. John Lloyd yn Ninbych. Yn y Segrwyd y ganwyd Dr. David Dolben, a fu yn archesgob York. Yn Ninbych y ganwyd Mr. John Parry (Bardd Alaw). Nid un pell o Ddinbych oedd Thomas Edwards o'r Nant. Gerllaw Dinbych, yr oedd Robert Davies. Nid oedd trigle Iolo Goch, Arglwydd Llechryd, yn mhell o Ddinbych. Codwyd yn nhref Dinbych, rhwng offeiriaid a phregethwyr, dros ddeg ar hugain o ddynion cyhoeddus. Y mae yn wir fod llawer o'r enwogion a nodwyd yn hanu o deuluoedd cyfoethog; ond gallwn fod yn sicr fod y rhan fwyaf o lawer o'r beirdd a'r pregethwyr wedi dyfod i fyny yn ngwyneb anhawsderau mawr, ac wedi bod yn addurn i'w gwlad ac i'w cenedl. [Clywch]. Y mae rhai yn barod i ofyn, I ba beth y mae prydyddiaeth da? Y mae yn hawdd ateb yn ngeiriau Willmott. Y mae barddoniaeth yn hunan wobrwyydd. Dyddanwr mewn bywyd, esmwythäwr mewn cystudd; y mae yn

coroni tlodi; yn siglo aflechyd i gysgu; y mae yn lluosogi ac yn coethi hyfrydwch; y mae yn gwneud unigedd yn anwyl; y mae yn addurno y cyffredin, ac yn disgleirio y serchus. [Uchel gymeradwyaeth]. Dyma iaith naturiol llenoriaeth. Y mae gwir farddoniaeth yn gyfeilles am oes. Y mae yn ein dilyn i bob gwlad. Dywedir y byddai Pitt, y gwlad-ddysgwr enwog, yn diano o dwrf pleidiau ymrysongar gartref ac oddicartref i unigedd awdwr a hoffai. Gadawai elfenau gwlad-ddysg i ymladd o'r tu allan, a bolltiai byrth darfelydd ar gynddaredd yr ystorm. Cafodd un ymwelydd ef yn darllen Milton yn uchel, gyda phwyslais cryf, a thros ei ben yn gymaint yn Mharadwys, fel yr oedd wedi anghofio presenoldeb pawb ond Adda ac Efa. Nid oes angen gofyn pa faint o hyfrydwch a gafodd ein tadau wrth ganu emynau a phyncio yn eu calonau fawl eu Duw. Trwy farddoniaeth y mae cyrhaedd coethder mewn cyfansoddiad a disgleirdeb mewn traddodiad. Prydyddiaeth yw y peth nesaf i galon pob cenedl yn ei sefyllfa wreiddiol neu gyntefig. Mewn gwisg farddonol y mae y rhan fwyaf o'r Ysgrythyr yn yr Hen Destament wedi ei lefaru. Os mynwch ddileu barddoniaeth o'r byd, rhaid i chwi ddiarddel Moses, Job, Dafydd, Solomon, Isaiah, Jeremiah, a'r holl broffwydi, ie, yr Apostol Paul ei hun. Pwy a glybu iaith mwy barddonol nag sydd yn y darluniad a rydd y Gwaredwr o ddinystr Jerusalem a dinystr y byd? Onid ydych yn gweled y fflammau yn disgleirio, y mwg yn ymdorchi, yn narluniad Pedr o ddydd y farn? Onid ydyw trwst yr oddaith yn clecian ac yn tyrfu yn eich clustiau, pan y mae efe yn darlunio y defnyddiau gan wir wres yn toddi? Canu oedd prif ran gwasanaeth y deml yn Jerusalem; ar ol canu emyn yr aeth y Gwaredwr dros afon Cedron i Ardd Gethsemane. Ac onid canu y byddir yn y nef? Y mae llawer o ddirmygu wedi bod ar ein hiaith gan y rhai nad ydynt yn ei deall, ond y mae yn fyw, ac yn fwy tebyg o fyw nag y bu erioed; oblegid y mae mwy o'i dysgu yn rheolaidd yn bresenol nag erioed. Y mae mwy o ysgrifenu ynddi nag a fu erioed, ac y mae mwy o argraffu ynddi nag a fu erioed, [Uchel gymeradwyaeth.] Y mae rhai yn ofni y bydd dyfodiad y march tanllyd i'n gwlad yn foddion i'w dychrynu; ond ni fyddai waeth son am ddychrynu Moel Fama neu y Wyddfa gan gyfarthiad ci y bugail. [Chwerthin mawr.] A gaiff y

Gymraeg farw? Na chaiff, medd y wasg. A gaiff y Gymraeg farw? Na chaiff, medd dau can' mil a hanner o ysgolheigion yr Ysgol Sabbathol. A gaiff y Gymraeg farw? Na chaiff, medd dwy fil a saith cant a hanner o bulpudau Cymreig. A gaiff y Gymraeg farw? Na chaiff, medd dwy fil a phedwar cant o bregethwyr Cymreig. A gaiff y Gymraeg farw? Na chaiff, medd Eisteddfod Rhyl ac Abertawe. [Clywch, clywch.] Y mae mwy o Saesneg yn Nghymru nag a fu erioed, ond a oes llai o Gymraeg? Nid ydym yn tybied. Nid ydym ni yn gweled ond yr un dosbarth yn gwrthwynebu y Gymraeg ag oedd yn ei gwrthwynebu hanner can' mlynedd yn ol; sef y rhai nad ydynt yn ei deall, a'r rhai nad ydynt yn chwenych ei dysgu, a'r rhai nad ydyw ei dysgu yn dwyn unrhyw elw masnachol iddynt. Y mae corff y bobl yn Gymry; a thrwy fod y boblogaeth yn fwy nag y bu erioed o'r blaen, y mae ganddi fwy o bleidwyr. Y diffyg penaf yn mhlith ein cenedl ni yw diffyg addysg. Ar y fam y mae hyn yn dibynu fwyaf yn y dechreu. Y mae bôd gwerthfawr yn cael ei ymddiried dan ofal y fam. Nid peth i chwareu gydag ef, fel y mae plentyn yn chwareu gyda thegan ceiniog, yw enaid. Peth i'w agor a'i ddodrefnu; peth i'w eangu a'i lanw. Ni ddylai plant gael eu gollwng heb addysg. Y mae yn hawdd iawn gwybod pa le y mae addysg wedi ei roddi. Gellir gwybod yn y tŷ, yn y capel, ac yn y gerbydres. Peth diflas yw gweled plentyn tair neu bedair oed am deyrnasu. Nid oes unrhyw ammheuaeth nad oes digon o dalent yn Nghymru, ond ei dwyn hi allan. Gan na feddwn ni yn Nghymru fanteision Ysgotland, nid oes gan y Cymro ond gafael yn y peth nesaf ato, a cheisio rhagori. Y mae llawer iawn o'n hamaethwyr ar ol yn hyn. Lle byddo pump neu chwech o feibion ar dyddyn, onid mwy rhesymol fyddai i'r tad roddi addysg iddynt oll na'u dwyn i fyny yn esgus o amaethwyr, ac heb un tyddyn ar eu cyfer? Gallai rhai fod yn farsiandwyr, eraill yn fasnachwyr, ac eraill yn arolygwyr, ar ol cael addysg, a rhoddai hyny le i blant y gweithiwr ddyfod yn mlaen. Y mae yn hyfryd i mi weled mwy o egni o blaid addysg nag a fu. Y mae mwy o ysgolion. Mae rhai o honom yn cofio amser nad oedd un ysgol fel yr Ysgol Genedlaethol a'r Ysgol Brydeinig i'w chael. Yr oedd rhieni yn gorfod talu mawr arian am addysg o'u prinder. Ond y mae pethau yn llawer gwell yn bresenol. Y mae yn

rhaid fod y Goruchaf wedi golygu i ddyn gael addysg, gan ei fod ef yn cael ei gadw cyhyd ar aelwyd ei rieni, heb fod yn alluog i ymdaraw drosto ei hun. Y mae pob anifail direswm yn dyfod i amddiffyn ei hun o flaen dyn, ac y mae yn ddiau fod cannoedd o blant yn cael cam arswydus drwy ormod o fabïaeth yn more'u hoes. Mae yn anhawdd iawn argyhoeddi mammau diddysg, a mwyaf diddysg ac anwybodus fyddo mam, mwyaf anhawdd i'w pherswadio ydyw i roddi addysg, ac i ymddwyn yn deilwng at ei phlentyn. Nid oes un gwenwyn gwaeth i blentyn na gadael iddo gael ei ffordd. Ni wyr y plentyn pa beth sydd yn oreu ar ei les—y rhieni ddylent farnu drosto nes y delo i oedran a synwyr. Y maent hwy yn gyfrifol am dano nes y byddo yn alluog i farnu drosto ei hun. Nid ydym ni yn gweled unrhyw arwydd dadfeiliad ar y Gymraeg. Mae mor loyw, mor heini, ac mor effeithiol ag erioed:—

Os gall rhywun yma heddyw
  Rifo 'r glaswellt, rifo 'r dail,
Os gall chwythiad plentyn dwyflwydd
  Yru 'r Wyddfa odd'ar ei sail;
Os gall dwylaw mab y Foty
  Ddal y gwynt, a'i roi mewn rhwyd,
Gellir dysgwyl i'r iaith drengu
  Cyn y trenga Dyffryn Clwyd.

Tra bo calon Cymro 'n effro
  Ac yn curo dan ei fron,
Tra bo 'i dafod ef yn symud,
  Byth ni pheidia seinio hon;
Tra bo hymnau Pant y Celyn,
  Ac Ann Griffith yn y wlad,
Tra bo Beibl yn ei mynwes
  Gellir dysgwyl ei pharhad.

Bydd ei geiriau a'i dylanwad
  Yn gwefreiddio llawer oes—
Wedi 'n cerfio ar y creigiau
  Mae'r ymadrodd—"Gwaed y groes;"
Pan fo 'r awel yn dystewi
  Yn ochenaid ola 'r byd,
Dod o'r beddrod y pryd hwnw
  Y bydd Cymro 'n Gymro i gyd.

PENNOD VII.

PREGETHAU.

PREGETH ANGLADDOL Y DIWEDDAR BARCHEDIG WILLIAM WILLIAMS O'R WERN.

"*Oni wyddoch chwi i dywysog ac i wr mawr syrthio heddyw yn Israel?*"—2 Sam. iii. 38.

Y mae yr amgylchiad galarus o ymadawiad y diweddar Barch. William Williams, o'r Wern, â'r fuchedd hon, yn amgylchiad chwerw, yn galw ym ystyriaeth ddwys, a chydnabyddiaeth ostyngedig oddiwrthym o allu ac awdurdod Duw ein Creawdwr. Y mae ei lywodraeth i'w gweled yn amlwg yn hyn; sef, ei fod ef yn gwneuthur a fyno â llu y nef, ac â thrigolion y ddaear. Mai efe sydd yn teyrnasu, ac nad ydyw yn gyfrifol i neb am ei weithredoedd. Pe cawsem ni fyned i ddethol, ac i benderfynu pwy a gawsai wynebu angeu du, y mae yn debygol yr aethem at lawer o'i flaen ef; ond fel arall y gwelodd yr Arglwydd yn dda, sef, symud oddiwrthym y gwas ffyddlawn hwn i Grist, yn nghanol ei ddefnyddioldeb. Y mae cannoedd a miloedd, yn awr, yn fyw, na fuont o un lles i'r byd erioed; ond yn hytrach treuliasant eu hoes i'w niweidio; a'r defnyddiol yn cael ei symud i dŷ ei hir gartref yn gynnar. Anaml y mae yr un pregethwr ymdrechgar a llafurus iawn yn cyrhaedd oedran hen; y mae yn wir fod rhai eithriadau, ond yn gyffredin y mae y rhai llafurus yn marw oddeutu y tringain mlwydd oed, rhai yn myned dros hyny, ac amryw dan hyny. Dengys hyn yr angenrheidrwydd mawr o fod yn effro, oblegid nad ydyw yr amser ond byr. Bydd y cwbl wedi myned heibio yn uniongyrchol ar bawb o honom; cawn orphwys yn y bedd, lle nad oes na gwaith, na dychymyg, na gwybodaeth. Y mae symudiad pob Cristion i'r byd

arall yn achos o dristwch a llawenydd i bob dyn duwiol; tristwch am golli un oedd yn gwneuthur lles yn ei oes, a llawenydd wrth ei weled yn ennill y fuddugoliaeth, ac yn cael marw yn fwy na chonciwerwr drwy yr hwn a'i carodd: ac ni fu yr eglwys nemawr waith erioed a chanddi fwy o achos tristâu a llawenhau nag yn yr amgylchiad presenol hwn: tristwch wrth feddwl colli un o wylwyr ffyddlonaf Seion; a llawenydd wrth weled y tywysog hwn yn cael yr oruchafiaeth ar ei holl elynion; cael ei weled ef yn gwirioneddoli *(realise)* y pethau y bu ef yn son am danynt ar hyd ei oes. Soniodd lawer am ffydd Abraham, am amynedd Job, ac am ddyoddefiadau y Cristion yn yr amser presenol hwn: a chafwyd cyfleusdra i'w weled yntau mewn amgylchiadau ag yr oedd galwad uchel am i'w holl rasau fod mewn gweithrediad; nid son am ffydd heb ei meddu yr oedd; ac nid canmol amynedd heb wybod drwy brofiad beth oedd y bu. Yr oedd yr holl gystuddiau a'r trallodau â'r rhai yr ymwelwyd âg ef, a'i deulu, er's rhai blynyddau, bellach, yn galw am weithrediad grymus y grasau hyn; rhoddes brawf mai plentyn dan law ei dad ydoedd.

Nid dyn cyffredin oedd y Parch. W. Williams, o'r Wern; ond un o'r dynion hyny a gyfodir, gan Ragluniaeth, megys bob rhyw gan' mlynedd. Yr oedd amryw ragoriaethau wedi cyd-gyfarfod ynddo fel dyn, fel Cristion, ac fel pregethwr: gellir dywedyd gyda phriodoldeb yn wyneb ei farwolaeth ef: "Oni wyddoch chwi i dywysog ac i wr mawr syrthio heddyw yn Israel?"

Gellir ar amryw ystyriaethau olygu gwrthddrych ein cofiant presenol yn wr mawr.

1. *Yr oedd yn wr mawr o ran ei alluoedd naturiol.* Yr oedd o synwyr cryf; yr oedd yn wr craff; gwelai i egwyddyr pob peth a gynnygid i'w sylw ar unwaith. Nid oedd neb mwy cymhwys fel dyn nag ef, i'w osod ar y fainc pan fyddai ryw faterion pwysig i gael eu trafod. Y mae llawer dyn da heb feddu y cymhwysderau hyn i raddau anghyffredin. Y mae llawer dyn duwiol na waeth i chwi ddodi y baban ar y fainc nag yntau. Y mae llawer a ystyrir yn ddynion o alluoedd cryfion na feddant ar gymhwysderau cyffelyb iddo ef yn hyn. Wrth y llyw yr oedd ei le; yr oedd Rhagluniaeth wedi ei ddarparu i hyny: llywodraethai ef heb i neb wybod ei fod ef yn cymeryd arno y

fath waith. Yr oedd ei gynghor a'i gyfarwyddyd o werth mawr. Nid oedd gwell dyddiwr nag ef yn yr oes. Teimlir colled fawr am dano yn ein cymanfaoedd a'n cyfarfodydd o bob natur, oblegid ni adawodd ei gyffelyb ar ei ol.

2. *Yr oedd yn fawr o ran ei wybodaeth.* Nid oedd un ganghen o wybodaeth fuddiol nad oedd ganddo ef ryw gyfran o honi. Gwnai bob awdwr a ddarllenai yn eiddo iddo ei hun. Yr oedd pob peth wrth law ganddo yn feunyddiol. Yr oedd efe fel crefftwr cywrain a'i offerynau *(tools)* yn ei gyrhaedd. Y mae llawer gweithiwr da, ond bydd yn hir iawn yn cael hyd i'w bethau. Wrth ymdrin â phob mater hefyd, gwyddai efe yn mha le i'w adael. Y mae llawer un wedi cael gafael mewn meddylddrych ardderchog yn ei faeddu, ac yn ei anurddo gymaint fel y bydd yn boen genych wrando arno. Nid dywedyd pob peth a wyddai y byddai efe; ond detholai y pethau mwyaf pwysig a nodedig yn mhob gwrthddrych; dangosai y rhai hyny i'w wrandawyr, a gadawai ddigon o le i'r meddwl weithredu. Byddai ei ergyd bob amser ar y gydwybod: ni foddlonai ar oglais tymherau dynion, a gadael y gydwybod yn anargyhoeddedig ac yn dywyll. Y mae llawer o bregethwyr na feddant un ymgais uwch na chyffwrdd â'r dymher: os gwelant ambell ddeigryn yn treiglo dros ruddiau rhai o'r gwrandawyr, byddant wedi cyrhaedd eu nôd uchaf; ond nid felly ein cyfaill: achub y dyn o afael y perygl oedd ei amcan ef. Nid oedd neb yn ei oes wedi astudio mwy ar y natur ddynol, a thwyll y galon, nag efe: byddai yn arfer dweyd, "Y mae natur yn sicr o darawo natur." Yn ei bregethau dilynai y pechadur i'w holl lochesau, cyfarfyddai â'i holl esgusion, dynoethai ei holl aunoddfaoedd, daliai ef ar bob tir, a gorfyddai fyned yn fud. Byddai cynnulleidfaoedd yn plygu, fel coedwig o flaen gwynt nerthol, yn wyneb dylanwad ei resymiadau anwrthwynebol.

Yr oedd yn athronydd gwych; galwai gynnorthwy holl anian at ei wasanaeth, ac yr oedd pob peth fel yn ufuddhau iddo; nid oedd dim mewn natur na chelfyddyd nad allai efe gael rhyw help oddiwrthynt wrth ymdrin â chyfiwr pechadur. Anaml y sylwai ar unrhyw wrthddrych heb dynu rhyw addysg oddiwrtho. Yr oedd ei lygaid yn agored yn mhob man ac yn mhob amgylchiad. Wrth rodio yn y maes, wrth deithio ar y môr, wrth gerdded heolydd dinasoedd, ac wrth gyfeill-

achu yn yr ystafell, sylwedydd ydoedd ef; yr oedd yn cymeryd rhywbeth i fewn yn wastadol; yr oedd natur a chelfyddyd yn gweini fel llawforwynion iddo yn mha le bynag y byddai. Un gadwyn fawr oedd ei oes, nid ellir dweyd fod nemawr oriau segur wedi myned dros ei ben erioed; yr oedd efe yn wastad mewn gwaith; casglu gwybodaeth oedd ei brif ymdrech, a hyny yn enwedig yn llyfr Duw. Yr oedd efe fel meistr y gynnulleidfa yma; plymio i ddyfnderoedd hwn oedd y dyben wrth sylwi ar bob peth arall; yr oedd ei holl wybodaeth mewn pethau eraill yn is-wasanaethgar i hyn. Ni adawodd egwyddor heb ei chyffwrdd, na changhen o athrawiaeth heb ei thrafod; ni chymerai bethau mawrion y Beibl yn ganiatâol, ond mynai farnu drosto ei hun; chwiliodd y prif awdwyr adnabyddus; tramwyai faesydd helaeth prif ddiwinyddion yr oesau; a chloddiai fwn pur o honynt i'w wrandawyr; a deuai allan mor newydd oddiwrtho a phe na buasai neb erioed wedi meddwl na dweyd felly o'r blaen. Nid ydoedd byth yn ymddangos yn yr areithfa fel pe buasai y Dr. Owen, Mathew Henry, Robert Hall, Charnock, Edwards o'r Americ, y Doctor Williams, a John Howe, yn un llwyth mawr afrosgo ar ei gefn, ac yntau yn cael ei lethu dan y baich, ond ymddangosai yn nghanol y rhai hyn, yn ymadroddwr ffraethlym, a hwythau fel cedyrn Dafydd yn ei gefnogi.

3. *Yr oedd yn fawr o ran ei ddawn.* Yr oedd ei dafod fel pin ysgrifenydd buan. Y mae amryw a dawn rhwydd ganddynt i lefaru, ond ni fydd dim o werth ganddynt yn yr hyn a lefarir. Clywir llawer, a ystyrir yn ddawnus gan y werin, yn llefaru, efallai, am hanner awr neu awr heb ddywedyd dim i dynu sylw y gwrandawyr gymaint ag unwaith, hyd nes y delont i'r hwyl, fel y dywedir; hyny ydyw, nes y byddo eu gwaed yn dechreu poethi, a'u lleisiau wedi ystwytho fel y gallont roi ambell fonllef; ac yn ddioed wedi y dechreuont fonllefain, bydd y rhai a garant swn yn fwy na sylwedd, yn dechreu siglo a chynhyrfu; ac ond odid na welir dagrau yn treiglo o lygaid rhai. Y ffordd sy gan eraill yw curo pob twmpath i geisio codi yr ysgyfarnog, a phan fethant ni fydd ganddynt ond rhoddi y gwaith i fyny: bydd eraill yn sicr o waeddi bob amser, a gwneuthur rhyw hwyl ymddangosiadol pa un bynag fydd y bobl mewn hwyl neu beidio. Llafurio yn galed ac

ymdrechu y bydd eraill, nes y bydd y gynnulleidfa yn teimlo mwy o resyndod drostynt hwy, wrth eu gweled yn y fath boen, nag a deimlant oddiwrth ddim a ddywedant; bydd y rhai hyn yn debyg i'r meirch yn un o gerbydau Llundain, yn tynu nes y byddont yn chwys dyferol, eu crwyn yn archolli, a'r anadl bron diffygio yn yr yndrech; ond yn hollol i'r gwrthwyneb i hyn yr oedd Mr. Williams; tynai ef sylw y gynnulleidfa gyda ei fod yn dechreu llefaru; ac ni fyddai neb na theimlai dan ei athrawiaeth ef—yr athronydd yn gystal a'r hen wraig ddwl. Byddai yr olwg arno hefyd mor gysurus nes y byddai yn hyfrydwch i'r gynnulleidfa edrych arno yn trin ei faterion mor naturiol, ac mor hwylus. Yr oedd cymaint o ragor rhyngddo ef, o ran ei ddawn, â llawer a ystyrir yn boblogaidd, ag sy rhwng y cerbyd ager ar ffordd Birmingham, â char llusg ar un o fynyddoedd Eryri.

Y mae rhai pregethwyr poblogaidd a'u holl ragoroldeb yn eu dull o draddodi yn unig; pan ddarfyddont draddodi, derfydd yr hyfrydwch. Y maent fel pe byddai rhyw swyn yn ysgogiad y llaw, ac yn null y wynebpryd; difyrir y gynnulleidfa dan yr athrawiaeth, ond pan eir i geisio galw i gof pa beth a ddywedwyd, bydd y cwbl wedi myned i golli. Gallai y dyn feddwl ei fod ef yn dal y rhan fwyaf tra yn yr oedfa, ond wrth fyned i adolygu, diflana fel niwl; a phe yr elid i ddarllen pregethau a draddodir dan ddylanwadau fel hyn, ni cheid un math o adeiladaeth ynddynt: nid oes ar y papyr ond y gelain noeth—y mae y bywyd wedi myned i gerdded; ond nid felly Mr. Williams; y pethau a draddodai ef oeddynt yn argraffu ar y meddwl, fel nad oedd dim modd eu dileu. Nid ydys yn ammheu pe byddai fodd casglu ei gynnulleidfaoedd ef i'r un lle, na cheid holl bethau rhagorol Mr. Williams yn nghyd rhwng pawb: nid oedd neb gwrandawr na ddaliai ar ryw ranau o'i bregethau; a'r achos o hyny oedd, am ei fod yn ymdrin mwy â'g egwyddorion pethau, ac yn trin y rhai hyny yn oleuach na neb yn ei oes. Nid oedd dim gorfodaeth (*force*) yn ei ddull ef o draddodi. Y ffordd sydd gan lawer i ddwyn y bobl i deimlo yw eu gorchfygu drwy rym llais, a nerth llifeiriant geiriau; ond gweithio yn raddol y byddai ef, ac yn syml—pob peth yn naturiol, nes y byddai dylanwad ei fater, drwy ei hyawdledd rhagorol ef, yn disgyn fel gwlith, a'r dagrau tryloywon yn llithro dros bob grudd. Ni flinai efe byth y gynnulleidfa â

hirfeithder a sychder diflas; ystyriai hwnw yn ergyd rhy ddrud—y costid dal y gwrandawyr am awr, neu awr a hanner i ddysgwyl am dano. Byddai efe yn ngafael â'r bobl yn ddiatreg; ac yn dywedyd i bwrpas wrthynt. Ni chaent amser i edrych o'u deutu, nac i feddwl mai wrth rywrai eraill y byddai efe yn llefaru; ond byddai pob un drosto ei hun yn sylwi fel am ei fywyd ar yr hyn a lefarid. Y mae llawer pregethwr y cewch dri chwarter awr o amser y bregeth gandde i brynu a gwerthu, planu ac adeiladu, ac i deithio môr a thir; ond nid felly Mr. Williams.

Yr oedd eglurder ei ddawn yn nodedig hefyd. Ni fyddai byth yn ymwisgo mewn cymylau, nac yn dwyn ei wrandawyr i niwl a thywyllwch. Ni ddywedid wrth ddyfod o'i wrando ef, Y mae efe yn bregethwr dwfn iawn; ond canmolid ef gan bawb am ei eglurder. Yn ymyl ei wrandawyr yr ydoedd efe o hyd: pregethu ar yr Iawn, ac ar gyfiawnhad pechadur fel y gallai yr hen wraig ei ddeall yr ydoedd. Os soniai rywbeth am allu a doethineb Duw fel crewr y byd, nid pensyfrdanu dynion drwy ddweyd wrthynt am faint Jupiter, Mercury, a Sadwrn yr ydoedd; a'u byddaru drwy son am eu troadau a'u pellder oddiwrth eu gilydd, &c.; ond yr ydoedd fel math o *delescope*—tynai y pethau hyn i ymyl y dyn gael iddo gyfleusdra i farnu drosto ei hun, a rhyfeddu doethineb a gallu Duw yn y cwbl. Nid oes dim haws na dallu y werin anwybodus os arferir geiriau swnfawr, ac os sonir digon am bethau uwchlaw eu hamgyffred, fel nad allant ffurfio un math o farn am danynt; ond eu goleuo yr ydoedd ef: gwneud athronydd o'r bugail ar lethr Cadair Idris, a duwinydd o'r cloddiwr yn ngodreu y Wyddfa. Pregethu etholedigaeth nes yr oedd pawb yn ei chofleidio; a rhwymedigaeth foesol pechadur nes y gorfyddai waeddi allan, "Och fi, darfu am danaf."

Yr oedd ei gymhariaethau hefyd yn naturiol ac yn agos, llewyrchent ar feddwl y gwrandawyr mewn amrantiad; ac os dygai ffraethair (*wit*) i fewn i dafiu goleuni ar rywbeth, nid fel ffwl y ffair (*merry-Andrew*) y gwnai hyny i gynhyrfu uchel chwerthiniad ynfyd a llygredig; ei ddywediad bob amser am ffraethair oedd, y dylasid ei arfer fel halen gyda bwyd. Y mae ambell un yn boblogaidd yn mysg y werin anwybodus ar y cyfrif ei fod yn ddigrif, ac yn dweyd hen storïon, i beri chwerthin; ond ffieiddir y cyfryw gan y duwiol a'r dysgedig.

Nid lle i gellwair yw y pulpud; sobrwydd a difrifoldeb oedd yn nglyn â phob peth o eiddo ein cyfaill ymadawedig. Arferai eiriau lled arw weithiau, yr hyn a fuasai yn anfaddeuadwy mewn eraill, ond yr oedd ynddo ef gynifer o bethau rhagorol i orbwyso hyny, fel yr oeddynt yn gweddu iddo; ond ni fyddai efe byth yn isel (*low*), nac yn ddifoes (*vulgar*). Y mae amryw yn yr areithfa gyda phob enwadau mor isel ac mor ddifoes fel y gallai y gwrandawyr dybio eu bod hwy wedi preswylio yn nghymdeithas eurychod ac ysgubwyr mygdyllau ar hyd eu hoes: bydd y rhan fwyaf tyner o'r cynnulleidfaoedd yn gwrido wrth eu gwrando, a phob dyn o chwaeth (*taste*) yn eu ffieiddio; ond gwelid y gwr bonheddig a'r dyn o chwaeth ynddo ef yn nghanol yr iaith mwyaf bratiog a arferai. Byddai ei feddylddrychau yn gywir ac yn darawiadol. Y mae llawer o ddynion o ddoniau hyawdl a'u doniau yn drech na'u barn; cymerant eu cipio ganddynt i siglenydd a chorsydd nes y byddant wedi glynu yno, ac yn methu gwybod y ffordd i droi yn ol; ond nid felly Mr. Williams. Nid oedd neb cywirach o ran ei farn nag ef; yr oedd yn fwy felly, ysgatfydd, nag odid bregethwr poblogaidd yn ei oes. Gochelai ormod o wylltineb dychymygol ar un ochr; a phendantrwydd a sicrwydd anffaeledig o'r ochr arall. Ymdrechai hwylio ei gerddediad ar hyd canol llwybr barn. Yr oedd ganddo ddawn ehediadol rhagorol hefyd: yr oedd yn gynefin iawn gallesid tybio â phreswylwyr y fro anfarwol. Dywediad un gwr am dano oedd wedi ei glywed yn pregethu am y "wlad well," ei fod ef wedi son cymaint am Abraham, Isaac, a Jacob, &c., nes yr oedd ef yn meddwl ei hun wedi dyfod yn eithaf cydnabyddus â hwynt. Yr oedd ei ddarluniadau bob amser yn naturiol ac yn nerthol. Yr oedd yn fath o Raphael Cymreig ac yn Filton ei oes. Ni anghofir byth, mae yn ddiammheuol, ei bregeth ragorol ar fawredd Duw, gan y cannoedd a'r miloedd a'i clywsant. Yr oedd hôno y darluniad mwyaf arddunol (*sublime*) o ddim a glywyd yn yr iaith. Y mae ei bregeth ar y "wlad well" hefyd yn meddyliau miloedd. Tybiodd llawer wrth ei wrando yn traddodi hôno, yn nghymanfa Llanerchymedd, eu bod hwy wedi eu cipio i dalaeth uwchlaw y ddaear hon; yr oeddynt yn debyg o ran eu dymuniad i Pedr ar fynydd y gweddnewidiad, pan y dywedai, "Gwnawn yma dair pabell." Ei bregeth ar barodrwydd Duw i faddeu oedd yn

ddigon effeithiol i doddi y gareg; ac ugeiniau eraill a allesid eu crybwyll. Nid ydyw Cymru etto wedi dangos rhagorach dyn yn mhob peth na Mr. Williams. Dichon y gellid cael rhesymydd cadarnach nag ef mewn un; duwinydd mwy dyfndreiddiol ac arddansoddawl (*metaphysical*) nag ef yn y llall; gwell dychymygwr nag ef yn y trydydd; a threfnusach areithiwr nag ef yn y pedwerydd; ond gallai na fyddai ond un o'r rhagoriaethau hyn wedi dyfod i ran yr un person; ond yr oedd ef wedi cyrhaedd cymaint o wybodaeth a medrusrwydd yn yr holl bethau a grybwyllwyd ag a'i gwnaeth yn bregethwr goleu, effeithiol, defnyddiol a llwyddianus. Yr oedd y pethau hyn, i raddau anghyffredin hefyd ynddo. Pan eir i dynu y llinell rhwng y naill a'r llall, y mae gormod o duedd ynom i benodi ar ryw un cymhwysder mewn pregethwr, ac i'w gyhoeddi yn flaenaf o bawb ar y cyfrif hwnw yn unig; ond mwy teg fyddai chwilio hyd, a lled, uchder, a dyfnder y cyfryw, ac edrych pa faint ydyw o fesur sylweddol. Gall dyn fod yn rhesymwr cryf, heb ddim yn neillduol ynddo i dynu sylw y cyffredin. Nid cynnulleidfaoedd o ymresymwyr dysgedig sy genym yn Nghymru. Gall arall fod yn un arddansoddol, a byddai yn briodol iddo, efallai, arfer ei fedrusrwydd yn hyn, pe caffai gynnulleidfaoedd o alluoedd Edwards o'r America, John Howe, R. Hall, a Dr. Wardlaw i'w wrando. Dichon un arall fod yn gryf ac yn fywiog o ran ei ddychymyg, ond os na fydd ganddo rywbeth heblaw hyny, ni phorthir dim llawer ar ei gynnulleidfa â gwybodaeth ac â deall. Nid all dynion fyw ar flodau, ebai R. Hall. Gall dyn fod yn areithiwr trefnus, celfyddgar, a manwl, yr hyn sy ganmoladwy; ond, efallai, pe byddai y pethau a ddywedid wedi eu dodi ar bapyr, y byddent mor annhrefnus a'r tryblith (*chaos*) ei hun. Y mae tra-mynychiad o'r un peth yn cael ei ddweyd gan areithwyr o'r fath yma, sef, dynion nad ydynt wedi ymgeisio at ddim ond trefnusrwydd ymddangosiadol yn eu hareithiau. Ychydig o feddylddrychau a geir ganddynt, a'r ychydig hyny yn rhai cyffredin a gwael yn aml, ond fel y byddont hwy yn eu gweithio i fyny â'u dawn, eu hamneidiau, ac âg ystum y corff.

Nid ydoedd Mr. Williams wedi mabwysiadu unrhyw ffurf gaeth i'w dilyn wrth draddodi o ran dull; nid oedd unrhyw ragfwriad (*design*) i'w weled yn ei ddullwedd (*style*); nid oedd ganddo arwyddion ffordd

(*landmarks*) yn amlwg i'r gynnulleidfa, na chanllawiau i gerdded rhyngddynt, ond yr oedd pob peth yn naturiol: yr oedd fel llong yn nghanol y môr a f'ai yn cymeryd ei hysgogi gan y gwynt a'r llanw. Pan elai i ddweyd am bechod a'i ddrygedd, yr oedd rhyw awdurdod anarferol yn cydfyned â'i eiriau—yr oedd oll yn gyffro santaidd. Ond ei destyn hoff oedd, dyoddefiadau y Cyfryngwr. Dyna lle y byddai gartref. Calfaria oedd y man y dymunai sefyll arno, i gyhoeddi gwaredigaeth i fyd o golledigion; ond os äi i Sinai, yr oedd y mynydd yn mygu, taranau yn rhuo, mellt yn llewyrchu, ac yntau oddiar ei gopa fel mab y daran yn cyhoeddi y melldithion uwchben yr anwir, nes y byddai y pechaduriaid caletaf yn crynu; ond pan äi i gopa y bryn lle yr hoeliwyd ysgrifenlaw yr ordinhadau, i son am bigau y goron ddrain, llymder yr hoelion, y tywyllwch, y daeargryn, dolefiadau y Cyfryngwr, "a'r gwaed a lifodd ar y groes," byddai pawb wedi cydymollwng mewn ffrydiau o ddagrau. Rhoddai efe foddlonrwydd cyffredinol i bawb; yr oedd ganddo rywbeth i bob math a chyflwr. Caffai yr athronydd a'r diddysg wledda ar yr un bwrdd ganddo ef, oblegid yr oedd ganddo y fath gyflawnder o amrywiaeth.

4. *Un mawr ydoedd mewn haelfrydedd* (*liberality*). Nid oedd byth am orfodogi neb i fod o'r un farn ag ef mewn athrawiaeth na dim arall. Casâi y golygiadau cul a rhagfarnllyd a goleddir gan lawer o broffeswyr o wahanol enwadau am eu gilydd, a gwnaeth ei oreu drwy ei oes i ladd pob teimladau annymunol felly. Rhoddai ddeheulaw cymdeithas i bawb a welai am wneud daioni i eneidiau pechaduriad, gan nad i ba enwadau y perthynent; a phregethai Iesu Grist wedi ei groeshoelio yn mhob addoldy y caffai efe ei ddrws yn agored i'w dderbyn.

Y mae rhai yn ei hystyried yn beth mawr a phwysig eu cael hwy, neu yr enwad y perthynant iddo, i gydnabod proffeswyr o enwadau eraill *yn broffeswyr;* fel pe byddai iachawdwriaeth eneidiau y cyfryw yn dibynu ar y meddyliau fyddo ganddynt hwy am danynt: ond y mae y cyfryw o yspryd gwahanol iawn i'r diweddar Mr. Williams o'r Wern. Dangosodd ef ei hun yn nghychwyniad ei weinidogaeth yn wr rhydd, caredig, o'r nifer hyny sydd yn tybied eu gilydd yn well na hwy eu hunain.

Pan ddaeth llwyrymattaliaeth i Gymru, bu ef yn gymedrol iawn yn

ei nodiadau. Yr oedd pob peth a ddywedai yn tueddu yn hytrach i ennill dynion at yr egwyddor nag i'w tarfu oddiwrthi. Yr oedd am i'r egwyddor lwyrymattaliol sefyll ar ei sylfaen ei hun, ac nid ei chymysgu â'r efengyl; nid oedd yn foddlon ei gwneuthur yn ammod derbyniad i'r eglwys, nac yn gymhwysder (*qualification*) i'r areithfa. Dywedai wrth gyfaill oddeutu mis cyn marw fel hyn:—"Nid oes genyf fawr o feddwl am y pregethwyr oeddynt yn eu swydd, ac yn meddwi, fod dirwest wedi rhoi *principle* newydd iddynt; ond dynion ag oeddynt yn feddwon, ac a aethant yn ddirwestwyr, ac a ddaethant yn broffeswyr, y mae genyf gymaint o feddwl am y cyfryw a neb."

5. *Yr oedd yn fawr mewn gostyngeiddrwydd.* Ni welid byth mo hono yn arfer un math o dwyll na hoced i geisio dyrchafu ei hun. Nid ei hunan oedd ganddo mewn golwg, ond gogoniant Duw a lles y pechadur. Yr oedd yn foddlon i ddwyn ei holl gofnodau goruchafiaeth (*trophies*) at droed y grees, i gysegru pob dawn a dylanwad a feddai at ogoniant ei feistr. Yr oedd yn hawdd ei drin. Y mae ambell hen bregethwr, na chyrhaeddodd erioed y fyrddiynfed ran o ragoriaethau na defnyddioldeb Mr. Williams, y byddai yn haws i chwi gael ymddyddan â'r Tywysog Albert nag ag ef. Y mae wedi ei chwythu i fyny â meddyliau mawr am dano ei hun; a bydd raid i bawb nesâu i'w wyddfod fel y bydd caethion yn myned o flaen eu gormeswyr; ond fel plant yn nesâu at eu tad y nesai pregethwyr ieuainc at Mr. Williams. Byddai fel un o honynt—pob gwahaniaeth wedi ei golli i raddau mawr, ac yntau yn gwneuthur ei hun yn hyfryd yn y gyfeillach. Nid oedd yr holl godiad a'r dyrchafiad oedd yn gael wedi effeithio arno er niwaid; ond yr oedd efe yn gydostyngedig â'r rhai iselradd.

Nid oedd neb mwy rhydd nag ef ychwaith oddiwrth goeg-ysgolheigiaeth (*pedantry*). Yr oedd efe yn fwy dysgedig o lawer nag y cymerodd arno fod erioed. Gallesid meddwl wrth edrych ar ei ddiofalwch gyda'r Gymraeg a'r Saesonaeg nad oedd ei wybodaeth yn hyn ond canolig; ond yr oedd y neb a dybiai hyny yn llafurio dan gamgymeriad. Nid arwyddion dyn annysgedig oedd ar ei bregethau: ei feddyliddrychau ef, mae yn wir, oedd fwyaf yn y golwg; ychydig a ymdrafferthai yn nghylch y dull o'u gosod allan, ond gwelid y dyn o athrylith (*genius*) a dysg yn mhob peth yr ymdriniai efe ag ef.

Y mae llawer, os byddant wedi cyrhaedd gradd o fedrusrwydd i osod geiriau wrth eu gilydd yn lled reolaidd ac ysgolheigaidd yn Gymraeg neu Saesoneg, yn meddwl fod y gwaith ar ben, pe byddai y darnau a gyfansoddant mor amddifad o athrylith ag yw copa y Wyddfa. Ond nid ymdrafferthai Mr. Williams gymaint gyda'r wisg; mynai ef egwyddor i'r golwg. Y mae yn wir y gallasai ef dacluso mwy ar amryw o'i ymadroddion; ond gwell oedd ganddo gloddio mwn i'w wrandawyr, er ei fod yn lled arw, weithiau, na cheisio eu difyru ag ymddangosiad o beth.

Nid ydoedd efe yn ymdrafferthu byth i gael gan y werin dybied ei fod yn dduwiolach nag oedd mewn gwirionedd; yr oedd yn berffaith rydd oddiwrth rodres (*affectation*) a hoced. Gwr dysyml ydoedd. Nid ymadawai ag un teulu, lle y dygwyddai letya, heb fod yn eu meddyliau ryw barch anarferol tuag ato. Ystyrid ef gan bawb yn ddyn didwyll, a'i ymgais am wneuthur llesâd. Yr oedd pwys yn ei gymeriad, pa le bynag y byddai, fel nad oedd angen arno am ryw ffug-ymddangosiadau.

6. *Yr oedd efe yn fawr mewn crefydd bersonol.* Drwy ei fod yn wr o dymherau siriol a rhydd, prin yr ystyrid ef yn dduwiol gan rai o wahanol farn iddo gynt: byddent yn dweyd ei fod yn pregethu yn rhy iach o ran ei ysbryd, ac mai dyn heb wybod dim am ddrwg pechod ydoedd; ond caffai wrandawiad mawr y pryd hwnw. Yr oedd y bobl graff hyny sydd yn gwybod mor sicr pwy sydd yn dduwiol, a phwy sydd heb fod, yn foddlawn iddo yntau gael *bod yn dduwiol* er's blynyddau bellach: boddlon neu beidio, nid oedd fawr o ddadl yn nghylch ei grefydd bersonol ef yn mhlith y rhai a'i hadwaenent oreu. Yr oedd ei gymeriad fel Cristion wedi ei sefydlu yn uchel drwy y wlad; ac y mae efe er ei farw yn llefaru etto. Cafodd lawer gair bach yn nghychwyniad ei weinidogaeth, a hyny heb un math o sail, ond ei fod ef yn barnu mai nid mewn ymddangosiad allanol y mae crefydd bersonol yn gynnwysedig. Cymerwyd llawer ffordd i geisio ei ddarostwng; ond yr Arglwydd a'i hamddiffynodd ac a'i harweiniodd. Bu ei elynion a'i ddrwg-ewyllyswyr yn ffyddlawn iawn yn ceisio ei osod allan fel prif gyfeiliornwr a heretic yr oes, heb ganddynt ddim mwy o sail i ddweyd hyny na'i fod ef yn pregethu fod pob da oddiwrth y Creawdwr, a phob drwg oddiwrth y creadur.

7. *Yr oedd yn fawr mewn gweddi.* Y mae llawer a wnant fwy o dwrf, a ddywedant fwy o eiriau, ac a arferant fwy o sel ymddangosiadol nag ef yn hyn, yn llai yn y peth. Yr oedd mor gyfarwydd â Duw nes yr oedd fel pe buasai yn ymddyddan ag ef wyneb yn wyneb. Gallesid tybio fod y nefoedd yn dyferu ei gwlith ar ei enaid ef a'i wrandawyr pan fyddai ar ei liniau. Yr oedd y fath hyder santaidd ganddo nes y byddai pawb yn cael eu gweithio i dymher ac yspryd gweddi wrth ei glywed. Llafuriodd lawer i gael yr yspryd hwn i'r eglwysi; byddai yn dywedyd bob amser, er's blynyddau, fod diwygiad i'w gael ond cael yr eglwys i ddeffro, ac i'w geisio mewn yspryd gweddi. Ffrwyth y pethau yr ymdrechai ef eu gwreiddio, a'u hamddiffyn, ar hyd ei oes yw y diwygiadau nerthol sydd yn y wlad yn awr, yn ddiammheuol. Bu ef yn ddiwyd ac yn ymdrechgar megys i ffurfio y peiriant, ond cafodd ei symud i wlad well cyn ei weled yn gweithio i'r graddau ag y mae; ond cafodd dystiolaethau, o wahanol barthau Cymru, ei fod yn ateb y dyben, ac fod cannoedd a miloedd yn cael eu hachub drwyddo.

8. *Yr oedd yn fawr mewn ffyddlondeb.* Ni dderbyniai wyneb; traddodai y genadwri yn ffyddlawn, gan adael y canlyniad i Dduw, pa un bynag a wnelai dynion ai gwrando ai peidio. Y mae tystiolaeth yn nghydwybodau cannoedd a miloedd drwy Gymru o'i onestrwydd; yr oedd ei ddwylaw yn lân oddiwrth waed ei wrandawyr.

9. *Yr oedd yn fawr mewn ymdrech.* Bu ei godiad yn foddion i roi ail fywyd yn achos yr Annibynwyr yn Ngogledd Cymru. Ychydig oedd yma cyn hyny o hen weinidogion, a llawer o honynt yn ddiymdrech am ledaenu yr egwyddorion; ac yr oedd yr achos yn isel mewn llawer ardal, ond bu ef yn foddion yn llaw Rhagluniaeth i gael cyfnod (*era*) newydd i'w plith. Planwyd eglwysi o'r newydd, ac adfywiwyd yr hen eglwysi oedd agos a diflanu. Bu yn fath o Luther yn ein gwlad. Teithiodd hi ar ei hyd a'i lled. Ni arbedodd na thraul na thrafferth i gael enw ac achos Iesu i fyny; a hyny yn wyneb digalondid mawr. Goddefodd yn dawel lawer gair bach oddiwrth amryw o'i hen frodyr, hyd nes o'r diwedd y gorchfygwyd hwy gan ei ymdrech ddi-ildio. Dyn o yspryd cyhoeddus ydoedd: ni adawodd ei gyffelyb ar ei ol; ac y mae yn debygol nad ydoedd Rhagluniaeth wedi ei fwriadu ef i fod yn yr un fan am ei oes, ond yr oedd ei ddawn i fod yn ddefnyddiol gyffredinol.

10. *Yr oedd yn fawr mewn defnyddioldeb.* O! y nifer y bu ef yn foddion yn llaw Duw i'w hargyhoeddi o bechod! Gynifer a fu ef yn eu harwain hyd at làn yr Iorddonen, drwy help ei weddïau a'i gynghorion! Gynifer o'r rhai y bu ef yn offeryn i'w hachub oedd yn barod i'w groesawu i fryniau gwynfyd ddydd ei ymddatodiad! a chynifer sydd ar y ddaear, yn awr, yn cael eu parotoi i'r wlad well o'i blant ysprydol ef! Ac y mae yn ddiammheu fod cannoedd o wrandawyr a saethau a daflwyd oddiar ei fwa ef yn eu cydwybodau hyd y dydd hwn, yn debyg fel y bydd y morfil, weithiau, yn dianc a'r saeth yn ei gorff; felly y diangodd cannoedd o dan ei bregethau yntau, a'r saeth yn y gydwybod, a hòno yn gwaedu hyd y dydd hwn. Y mae efe, er ei farw, yn llefaru etto. Bydd i'w weled yn fyw yn y genedl sydd yn codi; yr egwyddorion a blanodd yn parhau hyd ddyfodiad y Barnwr. Bydd yn rhy anhawdd i uffern ddileu yr athrawiaeth a bleidiodd ef o ardaloedd y Rhos a'r Wern, &c., oblegid cânt eu trosglwyddo o dad i fab, o genhedlaeth i genhedlaeth byth.

Y mae yn ddiammheuol nad oes neb yn fyw yn awr gydag un enwad o Gristionogion yn Nghymru a lafuriodd fwy nag ef i geisio codi yr angenrheidrwydd o grefydd deuluaidd i fyny. Nid darllen a gweddio yn unig yn y teulu wyf yn feddwl, er fod hyny yn angenrheidiol anhebgorol. Y mae cannoedd yn ymddangos yn ofalus iawn gyda hyn, ac etto heb ond ychydig iawn o grefydd yn y teulu wedi'r cwbl. Ond yr oedd ei ymdrech ef am blanu egwyddorion crefydd yn ei blant, a'u cael i fyw o dan ddylanwad crefydd o'r bru; ac ni bu ei lafur yn ofer: cafodd yr hyfrydwch o weled ei blant oll yn arddel Crist cyn iddo ymadael â'r byd hwn. Llawer a soniodd efe am fantais y fam gyda'i rhai bach, ac am fawredd ei dylanwad arnynt. Pe dilynid mwy ar ei gyfarwyddiadau, a phe'r arferid mwy o ddoethineb a threfn, ceid llai o ofid mewn llawer teulu.

11. *Gwr mawr yn Israel ydoedd.* Y mae llawer yn wŷr mawr mewn cyfoeth ac anrhydedd, yn seneddwyr, ïe, yn frenhinoedd ac yn ymerawdwyr, ond peth gwahanol yw bod yn wr mawr *yn Israel;* dyma anrhydedd a ddaw gyda dynion i fyd arall. Yr oedd ef, nid yn unig yn fawr yn ei gymydogaeth, ond yr oedd yn fawr *yn Israel.* Yr oedd yn fawr drwy y wlad o gŵr i gŵr. Teimlir y golled am dano yn agos

ac yn mhell. Ergyd i dywysogaeth oedd ei golli; bydd Seion oll yn ei galarwisgoedd, ac ni fyn ei chysuro am nad ydyw.

Fod y gwr mawr hwn wedi syrthio, nid dan gwmwl, nid dan draed gelynion, ond

1. *Syrthio yn angeu.* Angeu yw terfyn pawb. Gosodwyd i ddynion fawr unwaith. Pe caweem ef am ugain mlynedd yn hwy, buasai angeu i'w ddysgwyl wedi hyny: "Moses fy ngwas a fu fawr." Y proffwydi, a'r apostolion, a'r diwygwyr yn mhob oes a fuant feirw. Y mae angeu yn aros pawb, gan nad beth fyddo eu defnyddioldeb. Pe rhodiem fwy hyd fryniau yr Iorddonen i wrando ar swn ei llifeiriant yn golchi y glanau, nis ofnem gymaint ar yr amgylchiad. Peth dymunol fyddai bod mor barod ag oedd ef i wynebu y bwlch cyfyng hwnw. Yr oedd pob peth wedi ei orphen ganddo: ni frysiai, nid anesmwythai, ond dysgwyliai am y genad. Yr oedd yn anadlu mewn awyr uwchlaw y byd hwn, a'i feddwl wedi ei sugno oddiyma er's misoedd. Hiraethai am awr ei ymddatodiad. Dywedai—"Y mae wedi dyfod i le main iawn arnaf wedi y cwbl. Pechadur mawr! a Christ yn derbyn pechadur." Wedi yr holl chwilio, yr holl dreiddio, a'r holl ddarllen a myfyrio, yr holl fywyd santaidd, a'r holl *eloquence* a ysgydwai dywysogaeth, dyma lle y terfynodd y gwr mawr hwn ei yrfa, yn bechadur yn ymddiried mewn teilyngdod un arall! Ddarllenydd, pa beth sy genyt ti i bwyso arno erbyn yr awr olaf?

Wrth edrych ar y man y gorweddai, ddydd yr angladd, lle yr oedd y tafodd ffraeth barabl wedi tewi; y llygad oedd fel drych (*mirror*) gloyw wedi tywyllu; y llaw wedi fferu; y cwbl yn llonydd a diysgogiad, naturiol oedd gofyn, Ai dyma lle y gorwedda yr hwn a gynhyrfai y ddaear â'i hyawdledd, a wnai lygaid miloedd yn ffynhonau o ddagrau? yr hwn a fu yn offeryn i achub cynifer o bechaduriaid i fywyd tragwyddol! Mor llonydd yw pob peth o'i ddeutu! yr enaid wedi dianc; y babell yn barod i gael ei datod, a'i chymysgu â'r briddell oer. Y mae yn anrhydedd i'r llanerch lle y gorwedda gael cadw ei lwch. Ni fydd eisieu colofn goffadwriaethol uwchben ei orphwysfa; bydd ei enw yn perarogli drwy y dywysogaeth yn oed plant ein plant. Ei ymdrech dros achos y Cyfryngwr a fydd yn amgen cof-golofn iddo na phe yr adeiledid un o feini marmor.

2. *Syrthiodd yn nghanol ei ddefnyddioldeb.* Syrthiodd llawer yn angeu, ond yr oedd eu defnyddioldeb wedi darfod er's blynyddau. Y mae llawer a fu yn boblogaidd ac yn ddefnyddiol yn fyw yn bresenol, ond y mae eu defnyddioldeb wedi darfod. Pe cawsent farw flynyddau yn ol, buasai eu coffadwriaeth yn fendigedig; nid ydynt yn bresenol ond megys ar y ffordd, rhwystr ydynt i fynediad cerbyd yr iachawdwriaeth yn mlaen—y maent ar ol yr oes flynyddau; ond nid felly Mr. Williams, yr oedd ef yn canlyn, neu yn hytrach yn blaenu yr oes yn ei holl welliadau a'i chyfnewidiadau; ac ni fu erioed yn fwy defnyddiol nag ydoedd y dyddiau diweddaf a dreuliodd yn y byd. Yr oedd ei arfogaeth am dano. Ni fu cwmwl ar ei gymeriad erioed. Nid ydoedd ef yn agored i redeg o'r naill eithafnod (*extreme*) i'r llall mewn athrawiaeth na dim. Ni wnaeth aberth erioed o egwyddor i brynu ffafr neb, nag i ennill gwên ei uwchafiaid, ond safai at ei egwyddorion, a dilynai ei lwybr fel Ymneillduwr cydwybodol yn ddiwyrni hyd y diwedd. Ni fu ganddo fwy o ddylanwad yn ei oes nag oedd ganddo y blynyddau diweddaf hyn yn yr eglwys, ac yn mysg ei frodyr yn y weinidogaeth. Rhedem ato fel at oracl, parchem ef fel proffwyd, ac anrhydeddem ef fel gwas ffyddlawn i'r Duw goruchaf. Argraffai ei gynghorion ar ein meddyliau yn ddwys, ac ystyriem bob gair a ddywedai fel y peth nesaf i ysprydoliaeth ei hun.

3. *Syrthiodd a gafael y dywysogaeth lteb ei ollwng o hono.* Y mae llawer un defnyddiol ar y maes na fyddai y golled am dano ond lleol *(local)*. Teimlai ychydig gymydogion alar ar ei ol pe'r ymadawai; ond teimla Cymru oll ar ol ein cyfaill ymadawedig. Yr oedd ein gafael ynddo drwy y wlad mor fyw ag erioed, yn agos ac yn mhell. Efe oedd prif golofn ein cymanfaoedd am flynyddau: ystyrid y cyfarfodydd megys drosodd wedi y llefarai ef; ac os ceid ef yn bresenol, a gwên Duw gydag ef, gwneid y tro yn dda pe na buasai y cenadon eraill ond canolig o ran dawn a medrusrwydd. Tywysog ydoedd ar y maes. Y mae ffrwd ei hyawdledd mawr, bymtheg ac ugain mlynedd yn ol, heb ei anghofio etto mewn cannoedd o ardaloedd. Yr oedd efe, ac ystyried pob peth, yn dalach o'i ysgwyddau, nac un o'i frodyr. Nid ydoedd llawer o'r rhai a fynant eu cydnabod yn boblogaidd ond fel plantos wrtho ef. Yr oedd ei boblogrwydd ef o'r iawn ryw; oblegid yr oedd

felly yn nghyfrif prif wrandawyr yr efengyl yn Nghymru, sef y rhai mwyaf dysgedig a gwybodus o'r cynnulleidfaoedd; a pherchid ef gan y lleill hefyd, ac y mae ei goffadwriaeth yn anwyl gan bob graddau, a chan y rhan ddeallawl a mwyaf duwiol o bob enwad.

4. *Syrthiodd i gyfodi mewn gogoniant.* Y mae miloedd wedi syrthio i'r bedd a fyddant etto yn cyfodi i warth a dirmyg tragwyddol; ond bydd golwg wahanol arno ef fore yr adgyfodiad: ei holl waeledd a'i lygredd wedi colli; caiff ddyfod i fyny ar wedd ei briod. Bydd ei gorff yn ddigon nerthol y pryd hwnw i ddal tragwyddol bwys gogoniant. Bydd yr enaid wedi eangu yn rhyfedd erbyn hyny. Y mae efe eisoes wedi gwybod mwy nag a allodd draethu ar hyd ei oes am ogoniant trefniant achub. Y mae yn hyfryd ganddo gael eistedd gyda phatriarch a phroffwydi ar fryniau gwyrddlas yr ardal lonydd, lle nad yw yr haul yn machlud, ac nad oes drai na therfyn ar y dedwyddwch i adolygu taith yr anialwch: y mae yn gweled pob tro a'i cyfarfu, a phob awel groes wedi ateb y dyben i gydweithio er daioni. Y mae yn dysgwyl yn hiraethlon, yn awr, am ddydd prynedigaeth y corff, ac am yr ail undeb na bydd datod arno mwy; yna caiff gorff uwch cyrhaedd darfodedigaeth creulon i'w rwygo, nac unrhyw flinder na phoen. Y mae yr angylion santaidd yn gwylio ei lwch yn y bedd; cysga ei hûn yn dawel. Y mae ei enaid wedi dechreu mwynhau yr hyn a hiraethai am dano, sef gweled yr Iesu fel y mae; y mae cynnadledd na dderfydd wedi dechreu rhyngddo â duwiolwyr pob oes.

Cafodd weled Adda, tad pob dyn byw, ac Abel gyfiawn; y mae yn gydnabyddus â Noah, ac ag amgylchiadau yr arch; ac â Lot gyfiawn, Abraham, a Moses gwas Duw; caiff hanes yr ymgyrch ar ben Carmel, rhwng Elias a phroffwydi Baal; ac erlidigaeth Dafydd, gwr wrth fodd calon Duw. Y mae yn deall troadau olwynion Ezeciel, bellach, a dyfnderoedd tywyll ei broffwydoliaethau; hanes teimladau Daniel pan yn proffwydo am y deng wythnos a thriugain; y llanciau yn y ffwrn; ac ymddangosiad Ioan Fedyddiwr, a throedigaeth Paul, a llwyddiant ei weinidogaeth yn mysg y cenhedloedd. Y mae yn gydnabyddus â Luther enwog, a Chalfin; y Doctor Owen, John Howe, ac Edwards o'r America, a llu o ferthyron a gweinidogion santaidd y cysegr; a mwy na'r cwbl, y mae yn gweled yr Iesu ei hun, ac yn clywed darlithiau

ganddo ar y gweddnewidiad ar y mynydd, a hanes y gyfrinach fu rhyngddo â Moses ac Elias; ei deimladau wrth ddyfod tua Jerusalem, pan yr wylai dros y ddinas; hanes yr emyn a ganwyd cyn myned i'r ardd; y mynediad dros afon Cedron; yr ing a'r chwys gwaedlyd; llysoedd Herod a Philat; y dynesiad at Galfaria; y dyoddefaint dan hoelion; y tywyllwch mawr; prysurdeb yr angylion awr y croeshoeliad; ing ei enaid dan guddiadau wyneb ei Dad; y daeargryn; y creigiau yn hollti; llen y deml yn rhwygo; y gair "Gorphenwyd;" yr enaid yn myned i baradwys; yr adgyfodiad fore y trydydd dydd o fedd newydd Joseph; yr esgyniad gogoneddus; y llawen floedd trwy yr uchelderau pan oedd yn esgyn i'w orsedd fry; a phob peth oedd yn dywyll ac yn anhawdd ei amgyffred sydd yn awr yn oleu o'i flaen. "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau."

Yn wyneb yr hyn fu dan ein sylw gallwn weled—

1. *Mai cwbl wagedd yw y doethaf, y mwyaf defnyddiol, a'r gwrolaf o feibion dynion pan wyneba angeu urno*—"Pa fodd y mae y doeth yn marw? fel yr annoeth. Canys dygwydd meibion dynion a ddygwydd i'r anifeiliaid; yr un dygwydd sydd iddynt: fel y mae y naill yn marw, felly y bydd marw y llall; ïe, yr un chwythad sydd iddynt oll; fel nad oes rhagoriaeth i ddyn nag i anifail: canys gwagedd yw y cwbl. Y mae y cwbl yn myned i'r un lle: pob un sydd o'r pridd, a phob un a dry i'r pridd eilwaith. Diau mai cwbl wagedd yw pob dyn pan fyddo ar y goreu." Dyma ddiwedd gyrfa Mr. Williams o'r Wern, yr hwn oedd ei enw yn seinio o begwn y Gogledd i begwn y De. Mwyach ni chawn ei glywed yn dadleu â phechadur, nac yn cynnyg heddwch iddo drwy waed y groes; mwyach ni chawn ei glywed yn esbonio mawrion bethau Duw, nac yn cysuro Seion: "Llosgodd y fegin, gan dân y darfu'r plwm."

2. *Fod yr Arglwydd yn symud ymaith ei weision pan dderfydd eu gwaith.* Diwrnod prysur fu ei oes ef: math o Ioan Fedyddiwr ydoedd yn rhagredeg i barotoi ffordd yr Arglwydd. Y mae Cymru yn baradwys, yn brésenol, wrth y peth oedd pan y gwynebai ef arni gyntaf. Yr oedd efe wedi ei eni èrbyn amser penodol, ac i gyflawni gorchwyl penodol. Rhyfedd yw gweithredoedd rhagluniaeth, yn cyfodi offeryn

fel hyn yn Meirionydd greigiog, i ddiwreiddio chwyn, ac i aredig y dywysogaeth i dderbyn had yr efengyl. Cyn ei ddyddiau ef yr oedd y wlad a'i gwyneb ar Antinomiaeth; a buasai hyny o eglwysi oedd yn Nghymru y pryd hwnw wedi eu llenwi â'r gwreiddyn chwerwedd yma erbyn hyn yn ol pob ymddangosiad; ond fe'i codwyd ef gan Raglunaeth i ddeffro gwylwyr Seion, i godi yr eglwys at ei gwaith, ac i beri iddi ymddatod oddiwrth rwymau ei gwddf. Y mae golwg arall ar bethau yn awr; ac y mae yn ddiammheuol ei fod ef wedi gorphen ei waith: nid oedd un enaid yn rhagor i gael ei achub drwy ei lafur ef. Yr oedd efe yn debyg i Moses: cafodd hwnw fyned i olwg cyrau y wlad —Joshua a arweiniodd Israel drwy yr Iorddonen; cafodd yntau fyw i glywed am y diwygiadau nerthol yn dechreu esgor, ond ni chafodd fod gyda ni: dymunai yn fawr fod gyda ni, ond nid felly y rhyngodd bodd yn ngolwg ei Dad nefol. Sylwai ein cyfaill, "Fod y byd yma yn dweyd yn ei iaith, na welodd efe neb erioed yn gwneud ei ymddangosiad ynddo nad allai efe fod hebddo;" ac ychwanegai, "Haul yn codi, a haul yn machludo a welais i; tymhorau y flwyddyn yn dirwyn y naill ar ol y llall; ac felly y parhant pan fyddwyf fi yn llechu yn llonydd o dan y dywarchen werdd." Dywedai Mr. Roby yn ei bregeth angladdol i Spencer fel hyn:—"Gweinidogion yr efengyl, pa mor noddedig bynag y byddo eu talentau, a pha mor ddefnyddiol bynag y byddont yn nghyflawniad eu swydd, 'Ni oddefir iddynt barhau, o herwydd marwolaeth,' Heb vii. 23 (yn ol y Saes.) Y mae parhad eu gwasanaeth, a dull eu symudiad, yn gystal a chylch eu llafur, wedi ei benodi gan Dduw. Nid ydynt ond 'llestri pridd,' y rhai, er eu bod yn cynnwys trysor nefol Duw, ydynt yn agored, unrhyw foment, i gael eu tori yn chwilfriw gan ergyd Rhagluniaeth. Y mae efe yn ymostwng i'w defnyddio hwy yn ei wasanaeth, ac y maent yn *anfarwol* nes bo eu gwaith wedi ei orphen; ond, pan ddarfyddo hwn, y mae efe yn eu tynu ymaith o weithredfa (*scene*) eu llafur, ac yn defnyddio offerynau eraill."

3. *Trueni cyflwr y bobl sydd wedi dal yn wyneb gweinidogaeth ein brawd a'n cyfaill ymadawedig heb edifarhau.* "Efe ydoedd ganwyll yn llosgi." Y mae amryw yn fyw, yn bresenol, oeddynt wedi arfer a gwrando yr efengyl cyn iddo ef gychwyn i'w daith; y maent heb

edifarhau etto; treuliasant ei oes ef ymaith. Llawer a fu yn dystion o'i rybuddion ffyddlawn; ei gynghorion dwys; ei anogaethau taer; ei weddïau gafaelgar; a'i ddagrau heilltion, ydynt heb daflu y cleddyf i lawr etto. Pa fodd y deliwch yn wyneb y pethau hyn fore y farn? Os nad ellwch sefyll y pryd hwnw, goreu po gyntaf i chwi ddyfod i gymmod â Duw. Cofir pregethau miniog ein brawd ymadawedig ddydd y cyfrif yn llawer cyflawnach nag y gwneir yn awr. O! drueni gwrandawyr caled ac anedifeiriol!

4. *Fod yn gysur i Seion feddwl, yn wyneb symudiad gweision enwog a defnyddiol fod yr Iesu yn fyw; ac fod yn rhaid i'r gwaith mawr o achub eneidiau fyned yn mlaen.* Y mae efe yn alluog i alw y neb a ewyllysio, at ei wasanaeth. Gall beri i ddeuparth o yspryd yr Elias tanllyd hwn syrthio ar y neb a fyno. Er fod y diwyd Hughes, o'r Dinas; y bywiog Jones, o Foelfro; y ffyddlawn Jones, o Dreffynnon; y gwresog Roberts, o Ddinbych; a'r tyner Roberts, o Lanbrynmair, rhai fuont a'u hysgwyddau dan yr arch, ac megys yn arloesi ac yn digaregu y ffordd i'r tô ieuanc o weinidogion sy gyda yr achos yn bresenol, oll wedi meirw, y mae y gwaith heb sefyll. Y mae y pen bugail mawr wedi gofalu am ei eglwys, ac efe a ofala; ac er fod diwygiadau nerthol wedi tori allan mewn parthau o Ogledd Cymru, y mae tir lawer iawn etto i'w feddianu. Y mae yr Arglwydd o'n plaid; er y daroganid, gan ein gelynion, y buasai yr achos wedi ei gladdu mewn llawer cymydogaeth cyn hyn, etto yr Arglwydd a'n cofiodd, yr Arglwydd a'n llwyddodd; ac os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn? Y mae yr hyn a wnaed mewn llawer man fel adgyfodiad o feirw. Y mae pyrth merch Seion wedi eu llenwi â moliant. Cannoedd o bechaduriaid wedi derbyn trugaredd; gwaith na allasai neb ond Ysbryd Duw ei gyflawni wedi ei wneud; ac nid ydym yn ystyried y cwbl a wnaed ond fel ernes o rywbeth mwy.

Nid all edrych ar Ogledd Cymru, yn bresenol, lai na tharawo yr hen bobl â syndod. Nid oes ond ychydig iawn o hen weinidogion ar y maes; y maent hwy wedi gorphen eu llafur. Y mae y cedrwydd wedi cwympo. Y mae y rhai a gynhalient ein cymanfaoedd, ychydig flynyddoedd yn ol, wedi myned i orphwys. Gweision hollol newydd sydd yn gwneud eu hymddangosiad yn awr. Yr ydym wedi colli ein

harweinwyr cymanfaol cedyrn; y rhai ag yr oedd eu dylanwad yn cyrhaedd dros chwe' sir y Gogledd, a pharthau o'r Deheudir. Y mae yn debygol mai Mr. Williams oedd y diweddaf o'r rhai hyn. Y mae yr Arglwydd yn gofalu am weinidogion cymhwys i bob oes, ac i bob amgylchiad. Nid neb llai ei wroldeb a'i wresogfryd santaidd nag Elias a ddewisodd yr Arglwydd i gyfarfod â phroffwydi Baal ar ben Carmel; nid neb llai na Ioan Fedyddiwr a ddewiswyd yn rhagredegydd i Grist yr Iachawdwr; ac nid neb llai nag Williams o'r Wern a ddewiswyd i wynebu ar Ogledd Cymru pan oedd yr achos yn ei iselradd.

"Ystyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn; canys diwedd y gwr hwnw fydd tangnefedd."

DULL Y BYD HWN YN MYNED HEIBIO.

"*Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio.*"—1 Cor. vii. 31.

Y mae yn ymddangos, yn wyneb yr epistol hwn, fod eglwys Corinth wedi anfon llythyr at yr Apostol Paul, i ofyn ei farn ef yn nghylch amryw bethau yr oeddynt hwy mewn dyryswch o berthynas iddynt; ac yn mhlith pethau eraill, yn nghylch dyledswydd y rhai oedd wedi dychwelyd at Gristionogaeth, sef, pa un a ddylasent ymofyn rhyddhad o'r sefyllfa deuluol neu ddinasol yr oeddynt ynddi pan ymunasent â'r eglwys. Dichon fod gwr mewn teulu wedi cael adnabyddiaeth o'r gwirionedd, a'i wraig yn aros yn bagan, a'i fod ef yn gweled ei hun mewn cryn anfantais i fyw yn dduwiol wrth lynu gyda'i wraig, ac y buasai yn chwenych cael rhyddhad os oedd hyny yn ddichonadwy ar dir yr efengyl; neu, efallai, fod gwraig mewn teulu arall wedi ei dychwelyd i'r ffydd, a'r gwr yn aros yn bagan, a'i bod hithau yn chwenych cael ei rhyddhau, gan dybio y gogoneddasai hi Dduw yn llawer gwell wrth gael bod mewn sefyllfa unigol. Neu efallai fod ambell was

(caethwas), yn chwenych cael bod yn rhydd oddiwrth feistr annuwiol; ond y mae yr apostol yn rhoddi ar ddeall iddynt nad ydoedd crefydd yn creu annhrefn nac yn aflonyddu dim ar rwymedigaethau teuluol na gwladol, ac y mae yn eu cynghori i aros bob un yn yr alwedigaeth y galwyd ef. Nid i bob un aros yn ei alwedigaeth wreiddiol, os gallai ei newid am alwedigaeth arall er gwell, a thrwy hyny ddyfod yn fwy defnyddiol gydag achos yr efengyl; ond i bob un aros fel yr oedd o ran ei sefyllfa deuluol, pa un bynag ai gwr, ai gwraig, ai gwas oedd, a'i reswm dros hyny ydoedd, am fod yr amser yn fyr; y byddai iddo yn fuan lithro ymaith, a'i ofidiau gydag ef. Y dylai pob Cristion fod yn farw i'r byd a'i yspryd, ac na ddylai dim o'r pethau sydd yn myned heibio effeithio ar ei grefydd ef. Ni ddylasai y rhai oedd a gwragedd ganddynt eu caru yn ormodol ac ymlynu yn gymaint wrthynt fel nad allent eu gollwng os byddai ewyllys yr Arglwydd yn galw am danynt; ac y dylasai y rhai a wylent gadw tu fewn i derfynau gweddeidd-der a rheswm; a'r rhai a lawenhaent beidio myned i anghymedrolder yn eu llawenydd; a'r rhai oedd yn prynu feddwl nad oedd ganddynt ond amesr byr iawn i gadw meddiant yn yr hyn a brynent; a'r rhai arferent y byd i gael ymborth a dillad a chysur beidio a'i gam arfer, a gwneuthur Duw o hono, yn lle gwas: "Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio." Nid ydyw yn werth i neb ymflino llawer yn nghylch ei sefyllfa yn y byd hwn, canys fe fydd y cwbl drosodd yn union. Nid ydyw yr amser presenol prin yn ein meddiant. Gyda ein bod yn tybied ein bod yn ei afael, y mae yn diane. Yr ydym yn byw megys rhwng yr amser gorphenol a'r amser dyfodol, neu rhwng mwynhad a gobaith. Gobaith ydyw bywyd y byd. Un rhagoriaeth mawr sy rhwng y byd hwn ag uffern yw fod yma obaith. Eled dyn i'r sefyllfa bofedigaethus a fyno yma, os ceidw ei hun rhag crafangau cyfraith y tir, neu os ceidw ei gorff rhag cael ei ddryllio, a'i iechyd heb ei ddystrywio, y mae gobaith o'i flaen; ac y mae hwnw yn cynnal bywyd ac egni ynddo i fyned rhagddo yn wrol drwy rwystrau ac anhawsderau fyrdd; ond nid oes dim gobaith yn uffern. Y mae gobaith ar y ddaear yn debyg i fwa y cyfammod. Gallai dyn dybied wrth edrych ar hwnw ar y bryn draw, pe byddai efe wedi cyrhaedd pen y bryn y byddai wedi cael gafael arno; ond wedi

cyrhaedd pen y bryn, bydd i'w weled yn y pant islaw iddo; a phe yr elai yno, byddai y bwa wedi ymgilio cyn iddo gyrhaedd pen ei daith. Felly y mae gobaith yn denu dyn drwy y byd hwn. Y mae y bachgenyn yn addaw llawer o bethau iddo ei hun yn nghychwyniad ei daith. Wrth fyned a dyfod i'r ysgol, y mae yn hiraethu am yr amser y bydd dysgyblaeth hòno wedi ei bwrw ymaith; ac y mae efe yn addaw dedwyddwch iddo ei hun pan fyddo wedi myned yn egwyddorwas i ddysgu rhyw gelfyddyd neu i ddilyn rhyw broffes; ond ar ol bod dros ychydig dan gronglwyd dyeithriaid, a cholli swyn yr hen aelwyd y magwyd ef arni, a chlywed llais dyeithr yn anerch ei glustiau yn y bore yn lle llais ei dad, y mae efe yn dechreu hiraethu a dymuno gweled y dydd y bydd efe wedi ei ryddhau o'i gadwyni, ac y bydd yn ddyn iddo ei hun, yn lle bod yn llafurio i gyfoethogi eraill. Daw amser ei ymrwymiad i ben. Caiff weled yr olaf o'r saith mlynedd a dreuliodd yn nhŷ y caethiwed, ac yna dechreua edrych am le i osod ei babell i lawr drosto ei hun; ac yn y sefyllfa unigol yr erys am enyd, ond cyn treuliaw deuddeg lloer heibio, bydd yn dechreu anesmwytho, gan feddwl y byddai yn well iddo fyned i'r ystâd briodasol—mai peth anhyfryd iawn oedd byw ar aelwyd dyeithriaid heb neb i ofalu am dano yn neilldnol—fod sefyllfa briodasol yn ffynhonell dedwyddwch, ond cael cymhares bywyd o'r iawn argraff. Yna y mae efe yn newid ei sefyllfa; ac ar ol newid ei sefyllfa y mae yn dechreu chwenych myned yn deulu, gan ddywedyd, nad ydyw sefyllfa briodasol heb blant yn gysurus—nad ydyw pobl ddi-blant yn rhan o'r gymdeithas ddynol—eu bod yn amddifaid o'r profiadau mwyaf dymunol a all y ddynoliaeth gael; oblegid wrth fagu plant y mae holl oleuni a chysgodion y sefyllfa briodasol yn dyfod i'r amlwg yn y darlun—nad oes gan wŷr a gwragedd heb blant na theimlad, na serch, na phryder, na gofal, fel pobl eraill—nid ydynt erioed wedi profi caledi, na hyfrydwch, na chysur, fel y mae y tad a'r fam. Y mae efe yn dysgwyl pethau gwych i ddyfod yn y sefyllfa hòno, ac y bydd pen ar ei holl ofidiau i gyd; ond y mae yn cael ei siomi yn ddirfawr, canys yn awr y mae y gofalon yn mwyhau i raddau na ddychymygodd erioed am danynt. Y mae arno eisieu gweled ei blant yn cychwyn i'r byd; y mae arno eisieu gwybod pa sut y llwyddant yn y byd ar ol ymsefydlu. Y mae yn awyddus am

weled y mab hynaf yn gweithio ei ffordd, ac yn cael ymgeledd gymhwys; ac y mae yn arswydo rhag i'w ferch, sy fel canwyll ei lygad, gyfarfod â phrofedigaethau y mae cannoedd a miloedd o fenywod hawddgar yn myned yn ddryllian yn eu hwyneb. Y mae yn arswydo, nes y mae yn myned yn ddaeargryn drwy ei enaid, rhag iddi syrthio i grafangau rhyw fleiddgi di-deimlad, a bod yn ofid iddi ei hun ac yn ddolur llygad i'w rhieni hyd ddiwedd eu hoes. Y mae y tad erbyn hyn wedi myned yn hen ddyn; ond y mae efe heb gyrhaedd y dedwyddwch digymysg a addawodd efe iddo ei hun yn more ei oes gyda golwg ar bethau amserol. Yr oedd y rhan fwyaf o hono yn y rhagolygiad ac yn y dysgwyliad, a phur ychydig yn y mwynhad; costiodd iddo ef droi oddiar y ffordd i ymofyn dedwyddwch i le nad all y byd hwn na'i amgylchiadau ddyfod yn agos. Nid oes ganddo yn bresenol ond edrych yn ol ar oes wedi ei threulio agos oll allan. Y mae efe fel pe byddai yn byw uwchben y bedd. Nid oes dim wedi aros yn yr un man; y mae pob peth yn myned heibio, a dyn yn cael ei ddenu drwy y byd, ac yn cyrhaedd ei driugain oed cyn meddwl ei fod ef wedi byw fawr o ddyddiau: "Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio."

I. Y PETHAU SYDD YN MYNED HEIBIO.

1. *Agwedd y ddaear.* Nid ydyw hon am ddiwrnod nac awr heb gyfnewidiad: y mae yn llithro o dymhor i dymhor drwy weithrediadau olynol, fel fferyllfa (*laboratory*), neu weithfa fawr, a phob elfen mewn natur wrth ei gwasanaeth. Y goleuni a'r gwres; y gwlith a'r gwlaw; yr eira fel gwlan a'r rhew fel lludw; y gwynt ystormus a'r awel ddystaw fain; y mellt a'r taranau yn cyduno i weini iddi. Y mae yr olwg arni yn y gauaf fel wedi tynu ei thraed i'r gwely i farw; ei gwythi wedi fferu; ei chorff wedi ei orchuddio â'r amdo wen; ei llysiau a'i choedydd wedi gwywo; yr adar wedi tewi; dystawrwydd yn teyrnasu yn mhob cwm a mynydd, yn mhob dyffryn a chlogwyn. Rhychau angau yn ei gwynebpryd, heb un arwydd o ddeffroad nac o gynhyrfiad drwy yr holl ymerodraeth fawr i gyd. Dynion ac anifeiliaid yn ceisio ymlechu hyd nes yr elo y Rhagfyr byr tywyll a'r Ionawr ystormus heibio; ac wedi i Chwefror orphen tynu ei anadl oer difaol yn ol, gwawria y Mawrth, a cheir deffroad drwy holl anian. Y mae

yr adgyfodiad gerllaw. Y mae tad y dydd yn saethu ei belydron nes cynhesu ymy ..oedd y ddaear; gwraidd y coed yn cyffroi; y blagur yn ymddangos; y blodau amryliw yn dyfod i'r golwg hyd ochrau y cloddiau, ar lethrau y fron, yn mynwes yr ardd, ac yn gwenu ar yr edrychwr. Y goedwig oedd lwydaidd ei gwedd ychydig fisoedd yn ol, yn dodi ei mantell symudliw am dani; y ddol yn gwisgo ei harddwch gwyrddlas; yr adar mwyn yn perseinio ar lasiad y dydd; y gog hynaws, yr hon y mae anadl haf yn ei hundon esmwyth yn gogleisio y ddwy glust, nes y bydd y bugail yn ngodre y cwm yn cael ei swyno, a'r ysgolor wrth ddyfod tuag adref yn llamu gan lawenydd. Y mae yr ŵyn bach yn prancio ar lethr y fron, a'r defaid yn brefu, yr ychain yn dechreu gostwng eu blewyn garw, y gwenith toreithiog yn ymdòni o dan effaith yr awel, ac yn prysur ymlamu i gyfarfod a'i dynghed. Er mai trefn rhagluniaeth y Goruchaf yw i ddyn gael ei gynnal o'r ddaear, nid allwn lai na theimlo pan welom y pladurwr yn myned i'r maes y tro cyntaf, ac y clywom swn cras hogiad ei bladur,—yr ydym yn edrych arno fel yspeilydd yn myned i ladrata coron y flwyddyn; ac nid hir wedi i'r gwr a'r cryman drachefn estyn ei law y pery hi yn ei gogoniant. Dychwela i'w drych llwydaidd a diaddurn yn ol: "Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio."

2. *Y mae agwedd ddynol yn myned heibio.* Y mae dyn yn myned drwy lawer o orsafoedd yn ei daith o ddeng mlynedd a thriugain. Y mae efe yn ymddangos mewn llawer math o gymeriadau o'i fabandod i henaint. Nid oes dim llawer o amser er pan y mae yn cofio ei hun yn febyn yn myned yn llaw ei dad tua'r addoliad, a'r gwallt melyn-llaes modrwyog ar ei war. Yr oedd ei gnawd yn dyner y pryd hwnw, a ffurfiad ei wynebddull fel naddiad wyneb cerub, heb frycheuyn na chrychni yn ei wedd, nac ol nychdod na llesgedd ar ei gyfansoddiad, ond buan y collodd y tynerwch gwreiddiol oedd yn ei ffurf. Daeth yn mlaen i bedair ar ddeg oed, oddiyno i un ar hugain, oddiyno i ddeg ar hugain; ond yr oedd wedi cyfnewid yn fawr erbyn hyny, a phob cyfnewidiad a gymerodd le arno o orsaf i orsaf ac o radd i radd yn llefaru o hyd, "y mae dull y byd hwn yn myned heibio." Erbyn heddyw y mae efe wedi cyrhaedd ei driugain neu ei ddeg a thriugain oed, ac y mae yn barod i ddweyd nad oes ond megys eam rhyngddo ag angau. Y mae

yn gweled ei hun ar derfyn byd arall. Y mae yn troi ei lygaid oddiamgylch ac yn edrych; ond y mae yn ffaelu canfod nemawr un o'r bechgyn oedd yn cydgychwyn yr yrfa drafferthus ag ef: "Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio." Costiodd iddo ef adnewyddu ei gyfeillion lawer o weithiau yn ystod ei oes, ac onide buasai erbyn heddyw wedi ei adael ei hunan. Y mae yr hen frodyr wedi myned er's blynyddoedd, a rhai eraill nad oedd son am danynt pan ddechreuodd efe ei yrfa, wedi dringo i'r chwareu-fwrdd yn eu lle. Bydd yntau ei hunan wedi ymlithro i fro dystawrwydd cyn pen hir: "Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio."

3. *Arferion y byd.* Nid fel y gwelir ni heddyw y gwelid ein hynafiaid gant a hanner o flynyddau yn ol. Yr oedd arferion pechadurus mewn bri y pryd hyny; tori Sabbath yn ddefod, a dilyn gwrol gampau yn ddeddf. Nid ydoedd yfed i ormodedd ond difyrwch diniwaid yn marn y werin, ac yr oedd y wlad oll yn cyd-dynu yn gyflym tua dystryw a cholledigaeth. Erbyn heddyw y mae pethau yn wahanol. Crefydd sydd yn yr oruchafiaeth; yr Ysgol Sabbathol sy mewn bri; cyrchu yn finteioedd tuag yno y gwelir ieuenctyd ein gwlad, heb gywilydd arnynt arddel Cristionogaeth bur, yn y dyddiau hyn—

"Fe welir lluoedd o blant bach
Yn ddioethach na henafgwyr."

Y mae arferion llygredig yr oesau wedi gorfod ymguddio. Er i lawer ymdrech gael ei gwneud i ail-adeiladu Jericho, ni atebodd ddim dyben. Yr ydys wedi cael gafael yn meddwl y werin o'r bru, ac y mae gan y plant a fynant fod yn annuwiol lawer o rwystrau ar eu ffordd i gyflawni eu trachwantau halogedig. Y mae yr arfer wrthun a pheehadurus o gymeryd enw Duw yn ofer ar ben pob chwedl bron wedi gadael y wlad, ac y mae tyngwr mewn llawer ardal yn beth hollol ddyeithr. Os parheir i bregethu yr efengyl yn ffyddlawn heb attal dim o'r pethau buddiol, caiff lwyr fuddugoliaeth yn fuan ar bob halogedigaeth cnawd ac yspryd. Dyma yr unig foddion o drefniad Ysbryd Duw i wneud trefn ar galonau dynion. Nid ydyw pob dyfeisiau eraill ond fel gwnio dernyn o frethyn newydd ar ddilledyn hen. Rhyw ofn parhaus fydd rhag rhwyg a fyddo gwaeth.

4. *Gwybodaeth y byd.* Y mae cynnydd mawr wedi bod ar wybodaeth naturiol, celfyddydol, a chrefyddol yn ddiweddar. Y fath greulondeb fuasai ceisio gosod attalfa ar gynnydd gwybodaeth cyn dyddiau Columbus, Newton, ac eraill yn y byd astronomyddol; ynfydrwydd fuasai ceisio dodi rhwystr ar ffordd gwybodaeth resymegyddol cyn dyddiau Locke; neu osod rhwymau a llyffetheiriau ar lwybrau gwybodaeth ddiwinyddol cyn dyddiau Doctor Williams ac Andrew Fuller, Doctor Jenkins a Williams o'r Wern. Nid oedd yr hen bobl wedi edrych yn mhell, nac wedi edrych yn ddwfn ar athrawiaeth gras—yr oeddynt wedi cael eu dwyn i fyny tu fewn i gylch y pum' pwnc, ac ystyrient yn bechod anfaddeuadwy edrych dim dros y canllawiau. Yr oeddynt yn ofalus iawn am gysuro y praidd bychain, a dangosent y dyogelwch mawr yr oeddynt ynddo, gan roddi ar ddeall iddynt bob amser mai ychydig fyddai y rhai cadwedig. Ni wnelid fawr o ymdrech am oleuo y byd, ond yn hytrach ceisid digaloni y rhai a ryfygent feddwl am y fath beth. Pan gyfododd Carey mewn cyfarfod o weinidogion ag y soniodd am "ddyledswydd Cristionogion i ymgais am daenu yr efengyl yn mysg y paganiaid," derbyniodd Mr. Ryland y cynnygiad gyda syndod; a chan neidio ar ei draed, gwrthwynebodd y peth gyda sarugrwydd, gan ddywedyd, "Eisteddwch i lawr, ddyn ieuanc. Pan welo Duw yn dda ddychwelyd y paganiaid, fe wna hyny heb eich help chwi na minnau." Syndod! fod dyn o allu mor fawr, ac o wir ddiwioldeb, oedd yn pregethu bob dydd o'r llyfr sydd yn cynnwys y gorchymyn, "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur," mor gul ei farn; ond y mae pethau wedi newid yn ddirfawr erbyn heddyw. Y mae goleuni wedi ei dywallt ar drefn yr iachawdwriaeth ac ar natur llywodraeth y Jehofah, fel nad oes berygl i'r wlad gael ei thynu yn ol i'r golygiadau terfynol mwyach: "Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio."

5. *Mawredd y byd.* Nid ydyw hwn yn gynnwysedig ond mewn amgylchiadau. Nid oes dim gwir fawredd mewn cyfoeth, ac onide, atebai y dyben yn mhob sefyllfa y gallai dyn fyned iddi. Nid ydyw aur nac arian werth fawr ond lle byddo nwyddau i'w prynu. Nid ydyw y gwahaniaeth sy rhwng y gwr mawr â'r gwr bach ond ychydig wedi y cwbl. Dichon fod gan y pendefig well ymborth, well dillad, a

gwell tŷ i fyw—mwy o wasanaethyddion at ei alwad, mwy o anifeiliaid dan ei awdurdod, a mwy o erwau o bridd a cheryg ar ei helw; ond nid oes dim gwir fawredd yn y pethau hyny. Pan fydd y gwr mawr farw, ni fedd mwy na'r tlawd ond bedd yn dŷ iddo. Y mae yr holl olud a'r holl ogoniant yn cael ei adael ar ol: caiff ei ddiosg nes y bydd mor noeth â'r cardotyn wrth adael y ddaear. Y mae yr holl rodres a'r rhwysg, yr holl drahausder a'r taiogrwydd oedd yn y gormeswr at ei ddeiliaid, wedi darfod yn y bedd: yma y tlawd a'r cyfoethog a gydgyfarfyddant, "Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio."

Yn mha le y mae Babilon fawr a'i chaerau, ei gerddi, a'i thyrau? Y mae wedi myned heibio. Yn mha le y mae Ninifeh y ddinas fawr, a gymerai gynifer o ddyddiau i'r proffwyd i'w thramwy i gyhoeddi galarus ddinystr yn ei chlustiau? Y mae wedi myned heibio. Bu ei gweddillion adfeiliedig yn ymlechu dan y briddell am filoedd o flynyddau, ei neuaddau a'i phalasau o olwg pob dyn byw hyd yn ddiweddar, pan alwodd y Jehofah ar ei meirw o fro angof, ac o dir dystawrwydd, i ddyfod yn dystion dros wirioneddau ei air, er gyru gwynebau Anffyddwyr yn welw. Pa le y mae Jerusalem y ddinas santaidd, tegwch bro a llawenydd yr holl ddaear, gyda ei phalasau hardd, a'i themi ysplenydd; lle y trigai y gogoniant dwyfol; yr allorau a'r ebyrth; yr offeiriaid a gwaed y taenelliad; y meitr a'r ddalen aur; y ddwyfroneg a'r urim a'r thumim? Y mae wedi myned heibio; ac aradr Titus Vespasian wedi ei thynu ar draws ei sylfeini. Yn ofer y chwilir am dŵr Antonia; am y palmant llathrwyn; y blodau addurn; y noeau a'r cawgiau; y gafell wedi ei gwisgo ag aur pur; y cerubiaid; y mŵr tawdd a'r deuddeg o ychain; y colofnau a'r pomgranadau; yr ystolion a'r olwynion pres; y canwyllbrenau a'r llusernau; y gefeiliau a'r llwyau o aur coeth; y mae yr holl addurniadau a'r cerfiadau a'r allorau wedi myned heibio. A phwy a ŵyr na ddichon ogoniant Prydain Fawr, yr hon a gyfenwir yn feistres y moroedd, fyned heibio; ac nad all gael ei gwneuthur etto fel Tyrus a Sidon. Nid oes dim ond hyny o rinwedd sydd ynddi a'r defnyddioldeb mewn ystyr foesol yn debyg o'i chadw ar ei thraed; canys y mae oddifewn iddi ffieidd-dra anghyfaneddol, a gwaed lawer iawn, yr hwn sydd fel cymrwd yn dal ei

phalasau mawrion a theg wrth eu gilydd. Gweddiwn am i'r efengyl aros, ac na fyddo i'w chanwyllbren gael ei symud o'i le byth.

6. *Dynion y byd.* Gellid tybied wrth weled rhwysg annuwiolion eu bod hwy i fyw byth: ond ber yw einoes yr hynaf. Y mae ffrydlif amser yn ysgubo ymaith oes ar ol oes i'r byd tragwyddol. "Dygi hwynt ymaith megys â llifeiriant." Nid oes i ni yma ddinas barhaus. Y mae y ddaear wedi gweled llawer cenhedlaeth yn denantiaid iddi; ond pob un yn gadael yn llwyr: "Un genhedlaeth a ä ymaith, a chenhedlaeth arall a ddaw, ond y ddaear a saif byth." Y mae yr hen fynyddau cribog a'r clogwyni ysgythrog wedi canfod llawer oes yn chwareu tua'u godreu, ac wedi gweled eu symud ymaith i fro dystawrwydd; ond gallant hwy ddweyd wrth ben pob oes, "Wele yr ydym ni yma oll;" ac y maent yn debyg o aros hyd ddiwrnod marwnad anian. Canfyddant etto lawer bugail yn dringo hyd eu llethrau; a gwelant ddiadellau lawer yn pori ar y dyffrynoedd islaw, lle y mae yr afonydd tryloyw yn ymddirwyn fel seirff, gan alw heibio pob cilfach er rhoddi eu gwasanaeth rhad i breswylwyr yr iseldiroedd; ond y mae dynion fel cysgod, yr hwn sydd yn ymddangos dros ychydig, ac wedi hyny yn diflanu. Nid ydyw mawredd nac enwogrwydd, nac athrylith, na hyawdledd yn ddigon nerthol i gadw angau draw. Rhaid i bob un dalu y deyrnged olaf: "Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio."

Yn mha le y mae Moses gwas Duw, yr hwn a fu yn arwain Israel wrthnysig, ac a welodd ryfeddodau Ior yn mhläau yr Aifft—yn agoriad y Môr Coch—yn y bara angylion a'r dwfr o'r graig—yn y golofn a'r cwmwl? Y mae efe wedi myned heibio. Yn mha le y mae Dafydd, y brenhinol broffwyd, yr hwn a elai ar ol y defaid cyfebron tua maesydd Bethlehem; a arweiniai ei braidd i ael y bryn tua mạchlud haul; ac a gymerai ei delyn yn ei law, a chan ddyrchafu ei lygaid tua ffurfafen y nefoedd, a ddywedai—

"Datgan y nefoédd fawredd Duw,
Yr unrhyw gwna 'r ffurfafen;
Dydd i ddydd, a nos i nos
Sy'n dangos cwrs yr wybren?"

Y mae efe wedi myned heibio. Yn mha le y mae Samuel a'r proffwydi, apostolion a merthyron a seliasant eu tystiolaeth â'u gwaed?

Y maent wedi myned heibio. Yn mha le y mae Alexander Fawr a orchfygodd y byd, a Cesariaid Rhufain, rhag y rhai y crynai y ddaear? Y maent wedi myned heibio. Yn mha le y mae Napoleon o Gorsig, yr hwn a wnelai i deyrnwiail a gysegrasai oesau yn friwsion rhwng ei fys a'i fawd? Y mae efe wedi myned heibio Ni chafodd ei gelain ond llechu ar ol ei orchestion gwaedlyd i gyd yn mynwes oer craig St. Helena, heb ddim ond yr helygen i wylo uwchben ei fedd. Ond nid ydyw yn hoff genym dramwy llawer ar hyd maesydd celanedd a gwaed, maesydd ochain a chrïau lladdedigion a syrthiasant yn ysglyfaeth i gynddaredd ac uchelfryd gormeswyr, ond dychwelwn yn ol at goffadwriaeth y dynion bendigedig sydd er eu "marw yn llefaru etto." Yn mha le y mae Harries a Rowlands, Lewis Rees a Richard Tibbot, y rhai a danient y Dywysogaeth o gŵr i gŵr yn more y diwygiad yn Nghymru? Y maent wedi myned heibio. Yn mha le y mae seraph Clynog Fawr, a Michael ei nai, a'i lef ddystaw fain a dreiddiai hyd at wahaniad yr enaid a'r ysbryd, y cymalau a'r mer? Y mae efe wedi myned heibio. Yn mha le y mae Elias o Fon, yr hwn ag anadl ei hyawdledd mawr a wnelai i ddynion cryfion blygu o'i flaen fel y goedwig o flaen y gwynt nerthol yn rhuthro? Y mae efe wedi myned heibio. Yn mha le y mae Christmas Evans, yr hwn a'n cludai ar aden ei ddychymyg ysplenydd i fro y ser ac i ardal y planedau. Yr hwn a dynai ddarlun o ddyoddefaint y groes a gras y Ceidwad nes trydanu y galon gareg? Y mae efe wedi myned heibio. Yn mha le y mae Williams o'r Wern, yr hwn a'n swynai a'i hyawdledd i berlewyg santaidd—a wnai i ni feddwl fod gwadnau ein traed wedi dyrchafu oddiar y ddaear—a ddygai ardal lonydd yr aur delynau i'n hymyl —a'n gwnelai mor gydnabyddus â'r patricirch a phe buasent yn gymydogion i ni—yr hwn a bregethai gyflawnhad drwy ffydd a natur yr Iawn fel nad oedd dim modd i'r hen chwaer leiaf ei gwybodaeth beibio a'i ddeall? Y mae efe wedi myned heibio. Yn mha le y mae Hughes o'r Groes Wen, yr hwn â grym ei hyawdledd llifeiriol, nerth udgorn-floedd ei lais, a dysgleirdeb a chadernid ei syniadau, a dynai breswylyddion o bymtheg o blwyfydd i eistedd dan ei weinidogaeth—a barai i ardal y Groes Wen efelychu Llangeitho yn nghyrchiad ei phobloedd, ac yn nhwymder eu serchiadau? Y mae efe wedi myned

heibio, a'i lwch yn gorwedd yn dawel gerllaw i weddillion marwol yr enwog a'r gobeithiol Ieuan Gwynedd.

Dyddorawl lwyd ddaearen
A gâr y saint yw 'r Groes Wen.

Gofynir yn fuan am y llu mawr iawn o weinidogion santaidd y cysegr sydd ar y maes yn bresenol, ond byddant oll wedi dianc. Rhywrai eraill fydd yn yr eisteddleoedd, a rhywrai eraill fydd yn y pulpudau: "Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio."

7. *Y byd.* Bydd y byd wedi myned heibio yn union a'i ddull hefyd. Bydd yr haul yn tywyllu, y lloer yn pruddhau, y defnyddiau gan wir wres yn toddi, y mynwentydd yn agor, y moroedd yn berwi; y farn yn eistedd, y llyfrau yn agor, y byd yn cael ei farnu, y ddwy dorf yn cael eu gwahanu oddiwrth eu gilydd am dragwyddoldeb! Ar ba law i'r barnwr y byddwn ni?

II. GALLWN SYLWI AR DDULL Y BYD HWN YN MYNED HEIBIO.

1. *Y mae yn myned heibio yn gyflym.* Y mae fel y llifeiriant; y mae fel ehediad eryr at ei ysglyfaeth. Yr ydym yn nes i'r farn yn awr nag y buom erioed.

2. *Yn annirnadwy.* Nid oes nemawr yn meddwl nac yn ceisio ystyried y peth. Y mae llawer yn cyrhaedd pen eu taith heb feddwl fawr erioed eu bod wedi cychwyn. Y mae llithriad amser ymaith mor ddystaw a throad y ddaear ar ei hechel i wneud dydd a nos. Nid ydys yn gallu amgyffred na theimlo yr ysgogiad.

3. *Yn ddialw yn ol.*

"Mae rhediad amser fel y lli—
Ni erys fynyd wrthyf fi;
Yr awr a dreuliais yn rhy ffol
Nid allaf alw byth yn ol."

Y mae pob eiliad a phob mynyd, pob awr a phob diwrnod yn canu yn iach am byth. Ni welwn ddim o honynt mwyach. Ymdrechwn drwy gymhorth gras i wneud y defnydd goreu o honynt.

Er ein bod mewn byd sydd yn myned heibio, y mae ein gwyneb ar fyd nad ä heibio byth. Nid ä poenau y damnedigion heibio byth: pryf heb farw, tân heb ddiffodd sydd yn eu haros; a "bydd mwg eu poenedigaeth yn esgyn i fyny yn oes oesoedd." Nid ä dedwyddweh y saint heibio byth: "Duw a sych ymaith bob deigryn oddiwrth eu llygiad hwynt. Ni bydd nos yno. Ni ddywed y preswylydd, Claf ydwyf."

PETHAU MAWRION CYFRAITH DUW.

"*Mi a ysgrifenais iddo bethau mawrion fy nghyfraith, ac fel dyeithr-beth y cyfrifwyd.*"—HOSEA VIII. 12.

UN o'r celfyddydau rhyfeddaf yw ysgrifen: ac oni bai ein cynnefindod â'r peth, ni pheidiem a synu at y ddyfais. Y mae llafar yn beth a llawer o ddirgelwch yn perthyn iddo, a'r modd y dyfeisiwyd iaith, a'r gwahanol seiniau perthynol i'r llythyrenau mewn gwahanol ieithoedd. Dyn, nid yn unig yn gallu amlygu ei feddwl drwy dori geiriau, ond yn gallu dodi ei feddyliddrychau mewn llythyrenau, a'r rhai hyny yn cael eu darllen a'u deall fil o filldirau oddiwrtho. Pan oedd ar Williams y canadwr eisieu cûn neu ryw offeryn wrth adeiladu ei long, gofynai i un o'r brodorion oedd yn gweini iddo fyned i'w dŷ ef i ymofyn am dano; ond nid oedd modd dodi argraff ar feddwl y llanc pa beth oedd yr offeryn. O'r diwedd, ysgrifenodd Mr. Williams, ar ddarn o astell, enw yr offeryn, a pharodd iddo gymeryd hwnw gydag ef; ac felly, aeth ymaith, a chafodd yr offeryn, a dychwelodd dan neidio a rhyfeddu fod y pren yn gallu siarad, ac yntau ei hun yn ffaelu. Pe byddem ninnau yn fwy ystyriol, rhyfeddem at y gelfyddyd ardderchog hon. Y fath annhrefn fyddai ar y byd pe byddid am ddiwrnod heb ei harferu; oblegid y mae hi wedi cael ei threfnu, mewn rhan fawr, i wneud y golled a gawsom yn y cwymp i fyny. Nid oedd un llyfr yn Eden, ac ni fydd un llyfr yn y nefoedd; gan hyny, yr oedd y cyfan yn dibynu ar y cof cyn y cwymp; a bydd y cyfan yn dibynu ar y cof yn y nefoedd, ond y bydd y cof yno wedi ei berffeithio. Dyna fel y dywedir, y mae yn debyg, y bydd nefoedd pob dyn yn ol maint ei feddwl a'i ddeall ef ei hun; ac na fydd neb yn cael myned i lafur un arall yn ngwlad y goleuni.

Yr oedd amryw ffyrdd, er's llawer o oesau yn ol, gan ddynion i drosglwyddo eu meddyliau i'w gilydd; math o ysgrifen ddarluniadol oedd gan rai Indiaid a chenhedloedd anwaraidd eraill i amlygu yr

hyn a chwennych ei fynegu. Arwydd Lunian a arferid gan yr Aifftiaid. *Er engraifft*; yr oedd Llygad yn awydd lo Duw, yr hwn sydd yn gweled pob peth; eleddyf, gormeswr creulawn; Llygad a theyrnwialen, brenin; llew, gwrolder; byddinoedd, dwylaw ag offerynau rhyfel ynddynt. Y mae toeynau a llyfrau darluniadol yn cael eu harfer yn bresenol i ddifyru plant. Yr oedd argraff ar deml yn yr Aifft yn cynnwys y frawddeg hon,—"Chwychwi oll sydd yn dyfod i'r byd ac yn myned o hono, gwybyddwch hyn—fod y duwiau yn casâu digywilydd-dra;" yr oedd yn cael ei gosod allan drwy y lluniau canlynol—baban, hen wr, gwalch, pysgodyn, a chetiyl dwfr. Bernir mai o herwydd yr arferiad o dynu llun anifeiliaid gan ddynion i osod allan eu meddyliau y daeth yr Aifftiaid i addoli yr anifeiliaid eu hunain, megys y bu dwyn delwau i'r eglwysydd yn foddion i ddwyn y Pabyddion i'w haddoli.

Nid ydym yn cael yn y Beibl unrhyw grybwylliad am ddyfeisiad y gelfyddyd o ysgrifenu; ond y mae lle i feddwl fod y gelfyddyd yn adnabyddus i ddyn cyn y dylif. Yr ydym yn darllen yn Genesis xi. 19, fod yr Arglwydd wedi dyfod ag anifeiliaid y maes ac adar yr awyr at Adda i edrych pa fodd y galwai efe hwynt.* Y mae yn rhaid, pa fodd bynag, fod y gelfyddyd hon yn ddwyfol yn ei tharddiad cyntaf. Y mae yr Arglwydd, yn adnod y testyn, yn gosod ei hun allan fel ysgrifenydd. Dywed un mai y Jehofah oedd yr ysgrifenydd cyntaf; ac mai ar lan yr afon Nilus y cafodd yr ysgrifbin cyntaf: ac mai yn ynys Patmos y cafodd efe yr ysgrifbin diweddaf. Cawn alw sylw yn bresenol at ddau neu dri o bethau oddiwrth y testyn:—

I. Y FANTAIS O GAEL YSGRIFEN.

1. *Y mae ysgrifen yn cynnwys ystyriaeth.* Ni fydd dynion, yn gyffredin, yn dodi i lawr, ar papyr neu femrwn, ond ffrwyth ystyriaeth. Y mae cannoedd a miloedd o bethau yn cael eu llefaru na fynai y llefarwyr am y byd iddynt gael eu dodi gerbron mewn ysgrifen. Nid oes neb yn ysgrifenu, os na fydd dan ddylanwad nwydau, heb ystyried llawer.

2. *Drwy ysgrifen y ceir cywirdeb.* Nid oes un dyn coeth, o ran ei

* Moesau ac Arferion yr Iuddewon.

chwaeth, heb fod yn ysgrifenydd. Gall dyn fod yn llefarwr ffraeth, effeithiol, a grymus; ond nid mynych y gwelir y cyfryw yn un y gellir ymddiried iddo am gywirdeb ei farn a'i syniadau heb fod yn ysgrifenydd. Dynion heb arfer ag ysgrifenu a choethi eu meddyliau a'u brawddegau yw y rhai mwyaf chwanog o redeg i eithafion; ac nid ydyw hyny yn rhyfedd, canys nid oes genym gystal gafael ar y llefarwr ag sy genym ar yr ysgrifenydd. Y mae y geiriau a lefarir yn myned heibio, ond y mae geiriau yr ysgrifenydd ar gael; a gallwn sefyll wrth eu penau mewn gwaed oer i chwilio pa beth yw eu hystyr a'u cynnwysiad. Gan hyny, y mae yn naturiol i'r hwn sydd yn gollwng ffrwyth ei fyfyrdodau drwy y wasg fod yn fwy gofalus na'r llall; ac, os yn fwy gofalus, yn fwy coeth ei syniadau a'i iaith. Y mae yr ystyriaeth a'r cywirdeb penaf yn perthyn i air Duw. Y mae wedi dal beirniadaeth yr oesau.

3. *Y mae ysgrifen yn llefaru yr un peth wrth bawb.* Nid ydyw "yn ddaueiriog." Nid ydyw yn dweyd un peth, ac yn meddwl peth arall. Nid oes derbyn wyneb yn perthyn iddi. Y mae rhai dynion yn gallu cymhwyso eu geiriau a'u hymddygiadau at yr amgylchiadau y byddont danynt ar y pryd. Y maent yn gallu myned drwy y byd dan foddhau pawb. Y mae eu hymadroddion yn llyfnach nag ymenyn. Y maent o ran eu hymarweddiad yn ansafadwy fel dwfr, yn myned i'r un ffurf a phob llestr; ond nid ydyw ysgrifen felly: yr hyn a ysgrifenwyd a ysgrifenwyd a ellir ddweyd gyda golwg arni hi. Y mae yn dweyd wrth frenin mewn awdurdod, fel Harri viii., "Anrhydeddus yw priodas yn mhawb, a'r gwely dihalogedig; eithr puteinwyr a godinebwyr a farna Duw." Y mae yn dweyd yr un peth wrth y tlawd ar y plwyf. Nid oes dderbyn wyneb gyda Duw, ac nid ellir ystumio gwirionedd yr ysgrifen ddwyfol i ateb i amgylchiadau dynion.

4. *Y mae ysgrifen yn llefaru yr un peth bob amser.* Os ydyw yr ysgrythyr yn dweyd heddyw, "Oni ddychwel yr annuwiol, efe a hoga ei gleddyf," bydd yn llefaru yr un peth pan elo y dyn i farw. Os ydyw yn dweyd heddyw, "Am hyny, yr annuwiolion ni safant yn y farn," bydd yn llefaru yr un peth pan fyddo yr annuwiol yn marw. Na feddylied neb y colla yr ysgrifen ddwyfol ddim o'i min na'i hawdurdod, gan nad yn mha gyflwr y byddwn ni. Y mae yn dda i'r Cristion fod

ysgrifen yn llefaru yr un peth bob amser; oblegid os yw yr ysgrythyr yn dweyd heddyw, "Canys y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant; eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfammod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt," bydd yn dweyd yr un peth yn angeu, ac yn amser yr oddaith ddiweddaf. Os ydyw yn dweyd heddyw, "Megys dy ddyddiau y bydd dy nerth"—"Dy noddfa yw Duw tragwyddol, ac oddi tanodd y mae y breichiau tragwyddol; efe a wthia dy elyn o'th flaen," bydd yn dweyd yr un peth pan elir i ochr y dwfr, a phan rodir glyn cysgod angeu. Y mae mewn ysgrifen fath o anghyfnewidioldeb, ac y mae hyny yn perthyn yn neillduol i lyfr Duw.

II. Yr Ysgrifenydd—Duw ei hun.

1. *Y mae yn ysgrifenydd doeth.* Nid yw wedi mynegu dim nad oedd angen am ei fynegu, nac wedi gadael heb ei fynegu yr hyn a ddylasai fynegu. Y mae llawer o waith cyfnewid ar gyfansoddiadau y dynion goreu. Yr ydys bob amser naill ai yn dweyd gormod neu rhy fach. Os cyhoeddir llyfr yr ail waith, bydd, ond odid, "gyda diwygiadau ac ychwanegiadau" yn nglyn âg ef yn rhywle; ond nid oes dim wedi ei lefaru yn y gyfrol fendigedig y mae angen cyfnewid un iot arno. Y mae yn berffaith ynddo ei hun. Y mae yn cynnwys pob peth angenrheidiol i fyw ac i farw; ac y mae yn addas i amgylchiadau pob oes—o ddechreu y byd hyd ei ddiwedd. Y mae y gair santaidd yn cydredeg ochr yn ochr â dygwyddiadau a ymddangosant felly i ni o'r dechreu, a pharha felly byth! Y mae y naill yn egluro y llall. Nid oedd neb ond y Duw unig ddoeth a allasai wneuthur llyfr i ateb pob oes a phob amgylchiad.

Y mae wedi mynegu y cyfan ag oedd eisieu am etholedigaeth gras ac arfaethau Duw—y cyfan oedd eisieu am waith yr Ysbryd. Nid ydyw ein bod ni heb allu amgyffred pethau yn un prawf nad ydyw y pethau yn bod. Nid allwn fynegu pa beth yw tân a goleuni, ond yr ydym oll yn gwybod am eu heffeithiau. Pwy a all fynegu pa sut y mae rhwng y gronyn â'r pridd pan gyfarfyddant â'u gilydd dan y gwys? Pa un sydd yn gafael neu yn effeithio gyntaf? Cawn glywed gan fferyllwyr fod a wnelo *oxygen* a chochni y gwaed; ond nid oes neb a fynega pa sut y mae a wnelo. Yr ydym ninnau yn gweled yr eginyn yn fwy nag oedd

ar y cychwyniad; ond "modd nis gwyr ef." Dylem ni dewi lle y mae dwyfol ysprydoliaeth yn peidio llefaru. Ni ddemnir neb am ffaelu deall y pethau y mae Duw wedi gadw iddo ei hun; ond am beidio gwneuthur ewyllys ei Arglwydd yr hwn a wybu: "Hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd; a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni." Gallwn ni hyderu ar gyfarwyddyd y Beibl yn nghylch y ffordd i'r nefoedd, a gadael y dirgeledigaethau yn llonydd.

2. *Y mae yn ysgrifenydd gwreiddiol.* Yr ydym yn clywed llawer o son am feddyliau gwreiddiol yn mysg plant dynion; ond nid oes neb wedi eu dangos etto. Y mae rhai, wrth geisio bod yn wreiddiol, wedi myned yn ynfyd. Byw ar feddyliau eu gilydd y mae awdwyr pob oes gan mwyaf. Nid ydym yn ammheu nad oes ambell un yn gallu rhoi wyneb newydd, neu wisg newydd i feddyliau; ond yr anhawsder yw cael gafael yn yr hyn a ystyrir yn wreiddiol. Ni wyddom ni ddim am feddyliau gwreiddiol yn y byd duwinyddol, ond y rhai hyny sydd yn "tywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth," y rhai sydd yn ceisio gwneud y Beibl yn llyfr nad ellir ei ddeall. Y mae ammheu dwyfoldeb ambell un o lyfrau "canonaidd" y Beibl yn bur wreiddiol hefyd; heblaw hyny, ni wyddom ni ddim am lawer o wreiddiolder yn perthyn i neb sydd yn fyw yn bresenol, pa podd bynag. Ond am awdwr y llyfr santaidd, y mae efe yn wreiddiol. Efe oedd y meddyliwr cyntaf, a'r llefarydd cyntaf, a'r ysgrifenydd cyntaf. Y mae delw o wreiddiolder ar bob peth ddaeth o dan ei law. "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn," ebai gelynion Crist. Nid ydyw gwaith holl awdwyr gorchestol y greadigaeth ond dim yn ymyl hwn. Y mae efe o ran ei arucheledd yn ymddyrchafu fel yr Himalyas uwchben mynyddau y byd. Y mae yn taflu awduron pob oes i'r cysgodion am byth. Deuer a phrif orchestion dynion anysbrydoledig i ymyl llyfr Job, er profi eu harucheledd; nea i ymyl yr efengylwyr er profi eu symledd. Y mae delw y Duw anweledig yn argraffedig ar bob tu dalen o'r llyfr hwn. Y mae awdwyr penaf y greadigaeth yn ymddangos yn ddim, neu yn llai na dim yn ei ymyl.

3. *Y mae yn ysgrifenydd nad all neb ddynwared ei waith.* Cododd dynion rhwng Malachi a Ioan Fedyddiwr i geisio gwneud ysgrythyrau; ond y mae digon o ragor rhyngddynt âg ysgrythyrau y gwirionedd.

Gŵyr yr hen frawd anllythyrenog ragor rhwng y blas sydd ar y ddau. Y mae llyfrau yr Apocrypha yn fwy diflas na gwyn wy heb halen. Cynnygier pennod o lyfr Tobit, yn lle y bennod gyntaf o efengyl Ioan, i ryw hen chwaer, a hi a ŵyr y gwahaniaeth yn uniongyrchol. Nid oes dim tebygolrwydd rhyngddynt. Ac nid all neb ddynwared y gwaith y mae yr Arglwydd yn ei wneud ar galon pechadur ychwaith.

4. *Y mae yr awdwr yn fyw i amddiffyn ei waith.* Y mae awduron eraill yn meirw oll. Gall dyn gynnyg athrawiaeth yr oes hon, a gall hòno gael ei gwadu yr oes nesaf; ond ni fydd sylfaenydd yr athrawiaeth yn deall â pha dynghed y cyfarfyddodd ei syniadau. Ond y mae awdwr y gyfrol santaidd yn fyw i amddiffyn ei waith. Y mae efe wedi gweled gyda pha ystrywiau y mae gelynion crefydd wedi bod yn cymysgu eu gwenwyn er mwyn cael dynion oddiwrth y gwirionedd; ond y mae yn dal yn fyw, ac y mae ei awdwr yn fyw hefyd i'w amddiffyn. Y mae rhai wedi bod yn ymosod arno drwy haeriadau digywilydd nad ydyw y Beibl yn air Duw. Y mae eraill, cyfrwysach, wedi cymeryd arnynt ysgrifenu hanesion, a dodi gwythïen anffyddol i redeg drwy y gwaith, gan feddwl i'w gwenwyn gael ei lyncu yn haws. Y mae eraill wedi bod yn ymdrechu ennill dysgyblion drwy ddweyd nad oes rwymau arnom gredu dim ond a allwn gynnwys neu amgyffred; os felly, ni ddylem gredu mai dynion ydym, ac mai y galon sydd yn taflu y gwaed drwy y corff; oblegid nid oes neb o honom a all gynnwys hyny, neu ei amgyffred. Gwyddom oll, os na fydd i ddyn fwyta, na fydd byw; ond pa fodd y mae ymborth yn troi yn waed, a'r galon yn ergydio y gwaed hwnw drwy y corff, nid oes neb byw a ŵyr. Pwy a all fynegu pa fodd y mae y llygad yn gweled, y tafod yn chwaethu, y glust yn clywed, y ffroenau yn arogli, a'r llaw yn teimlo? Ni wyddom ni ddim ond y ffaith; ac os nad allwn amgyffred y pethau hyn, paham yr ydym yn eu credu? Y mae y gwirionedd yn dal yn gadarn fel y graig lwyd yn nghanol y môr. Y mae tònau fil wedi hollti ar draws eu dannedd, ac wedi cilio yn ol dan yswilio; ond nid ydyw yr hen graig yn ddim gwaeth. Y mae mynyddau y Wyddfa wedi gweled llawer cenhedlaeth ac oes yn ymdroelli oddeutu eu godreuon; a tho ar ol to o fugeiliaid yn oesi y naill ar ol y llall, ac yn cael eu cludo i fro dystawrwydd; ond y maent hwy heb syflyd. Y maent yn

dweyd yn eu hiaith, "Yr ydym ni yma oll, gan nad faint o gyffro y mae y pryf o ddyn, sydd yn meddwl y bydd fyw byth, yn ei beri oddeutu ein gwadnau." Felly y mae y gwirionedd wedi gweled oes ar ol oes o anffyddwyr yn disgyn i'r ffos, ac yntau yn fyw. Gwelodd ddodi careg ar fedd Voltaire, a chau safnau Gibbon a Hume. Gwel ddodi etto fân anffyddwyr y byd dan y dywarchen, a bydd yntau yn ymdaith yn ei gerbyd o begwn i begwn byd. Y mae Duw yn fyw i amddiffyn ei waith. Y mae efe, yn ddiweddar, wedi agor adfeilion Ninifeh fawr, a fuont yn nghudd am ganrifoedd lawer, y rhai ydynt yn dystion dystaw o du y gwirionedd, nes y mae anffyddwyr yn delwi yn eu gwyddfod.

Y mae yr Arglwydd wedi dyfod allan o'i fangre, yn y dyddiau diweddaf hyn, ac wedi rhoddi bywyd i feirw. Y mae gwaith wedi ei wneud yn 1859 sydd yn sicrhau bywyd crefydd am y canrif dyfodol o leiaf. Bydd effeithiau y gwaith a wnaethpwyd ar ein plant, ac ar eu plant hwythau. Mynegir i'r oes a ddel, i'r plant a enir, fawrion weithredoedd Duw yn Amerig, Iwerddon, Ysgotland, Lloegr, a Chymru, yn 1859. Y mae Duw yn fyw i amddiffyn ei waith.

III. Yr Ysgrifen.

1. *Ysgrifen o egwyddorion ydyw.* Nid oes un math o dwyll nac o ddichell yn perthyn iddi. Y mae yr Arglwydd wedi rhoddi ei feddwl i'w eglwys yn ei Air mewn modd y caiff allan ei gymeriad ef, a'r hyn y mae yn ddysgwyl oddiwrth ddynion: "Dangosodd ef it', ddyn, pa beth sy dda, a pha beth a gais yr Arglwydd genyt." Ond mewn trefn i ni wybod hyny, y mae yn rhaid i ni chwilio yr Ysgrythyrau. Y mae egwyddorion llywodraeth a chymeriad Duw yn rhedeg drwy y Gyfrol Santaidd, fel gwythïenau mawrion o drysorau yn rhedeg drwy galon y ddaear. Nid ydyw y mwnau wedi eu dodi ar y wyneb; ond y mae yn rhaid i ddyn arfer ei ddoethineb a'i fedr i gael allan y cyfoeth. Buasai holl fynyddau Cymru yn gorwedd yn llonydd, heb fwrw allan eu golud hyd ddydd y farn, heb i ddyn estyn ei law at y gwaith. "Diau fod gwythen i'r arian, a lle i'r aur, lle y coethant ef. Haiarn a dynir allan o'r pridd, ac o'r gareg y toddir pres. Efe (sef y mwnwr) sydd yn gosod terfyn ar dywyllwch, ac yn chwilio allan bob perffeithrwydd, hyd yn nod mewn tywyllwch a chysgod angeu." Y mae yn rhaid i ddyn

chwilio allan drysorau yr Ysgrythyrau, drwy gymhorth yr Ysbryd Glan, er cael rhyw amgyffred am drefniant achub. Nid ydyw pynciau y grefydd Gristionogol wedi eu gosod yn gadwyn y naill wrth y llall, fel credo. Y dyn ei hun sydd i gael allan y pethau sydd yn ol "cysondeb y ffydd;" ac, megys yn mhob llafur y mae elw, felly wrth chwilio yr Ysgrythyr, yr hon nis gellir ei thori, y mae cael gafael yn yr elw mawr.

2. *Ysgrifen eglur.* Nid ydyw y meddyliau wedi eu gwisgo mewn dyfnder iaith fel nad all y gwerinwr eu deall, er fod rhai pethau tywyll ynddynt yn gofyn eglurhad; etto, a chymeryd y llyfr ar y cyfan, gellir dweyd fod yr ysgrifen yn eglur, yn enwedig, yn y pethau hanfodol i iachawdwriaeth. Nid oes ynddynt eiriau celfyddydol, na dim wedi ei fwriadu i fod yn dywyll; megys y gwelir yn y celfyddydau. Pe yr elid i fasnachdy yr apothecari, nid ellid adnabod y dwfr glân ar ol iddo gael ei drosglwyddo i'w gostrelau ef. Ymddengys y dail a'r llysiau sydd yn tyfu yn ymyl y trothwy, wedi iddynt fyned dan ei law ef, yn estroniaid; ond yn y Gyfrol Santaidd, y mae pethau yr iachawdwriaeth yn cael eu gosod allan drwy y cymhariaethau mwyaf eglur a hawdd eu deall. Gweler y bregeth ar y mynydd a dammegion ein Hiachawdwr. Y mae cannoedd o draethodau wedi eu hysgrifenu i egluro y gwirionedd sydd yn dywyllach na'r gwirionedd ei hun! Ysgrifenodd Scott yr esboniwr nodau eglurhaol ar Daith y Pererin, a rhoddes gopi o'r gwaith i un o'i blwyfolion. Yn mhen ychydig, cyfarfu Scott â'r gwr, a gofynodd iddo pa fodd yr oedd efe yn hoffi yr argraffiad newydd o Daith y Pererin? Atebai yntau ei fod ef yn ei hoffi yn fawr, a'i fod yn deall y gwaith gwreiddiol yn dda; ond nad oedd efe yn gallu amgyffred y nodiadau eglurhaol! Gellir dweyd yr un peth am lawer pregeth a thraethawd a ysgrifenwyd i geisio egluro athrawiaeth yr efengyl, fod yr athrawiaeth yn haws ei deall hebddynt; oni buasai hyn, pa fodd y gallesid condemnio dynion am garu y tywyllwch yn fwy na'r goleuni?

3. *Y mae yn ysgrifen gyflawn.* Y mae yn cynnwys yr hyn a wna les yn y ddau fyd—i gorff ac enaid. Nid all pethau y bywyd presenol ond llesio y corff, ac y maent yn fynych yn niweidiol i'r corff; ond gwna dilyn cyfarwyddiadau y Beibl les i'r ddau. Nid oes angen ychwanegu ato na thynu oddiwrtho—Llyfr y llyfrau ydyw. Y mae ei

holl "addewidion ef yn ïe ac yn Amen." Y mae cyfreithiau a rheolau dynol yn cael eu newid yn barhaus. Y mae rhyw ddiffygion yn dyfod i'r golwg wrth eu defnyddio; ond "cyfraith yr Arglwydd sy berffaith, yn troi yr enaid." Rhoddes ef un gyfraith, a hôno yn ddigon am byth, heb angen newid un iota ynddi. Y mae mor anghyfnewidiol â'r ddeddf-roddwr ei hun. Y mae cyfreithiau gwahanol deyrnasoedd yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd yn ol fel y byddo amgylchiadau y gwledydd y perthynont iddynt; ond y mae cyfraith Duw yn ateb i amgylchiadau pob gwlad dan haul, heb eisieu ei newid byth. Ni fedd neb hawl i gynnyg gwelliant ar hon. Y mae wedi tarddu oddiwrth orsedd y Duwdod anfeidrol, gyda yr hwn "nid oes cyfnewidiad na chysgod troedigaeth." "Yr wyf yn gweled diwedd ar bob perffeithrwydd, ond dy gyfraith di sy dra eang," ebai un, i'r hwn yr oedd y gyfraith "yn felusach na dyferiad y diliau mel."

4. *Pethau personol sydd yn yr ysgrifen hon.* Dylid ocflo bob amser mai cenadwri oddiwrth yr orsedd uchaf at ddyn ydyw. Wrth ddarllen llythyr oddiwrth gâr neu gyfaill o wlad bell, byddir yn ystyried mai gwrando arno ef yn arllwys ei feddwl y byddis, fel pe byddai yn bresenol yn llefaru â'i dafod; felly yn yr un modd dylem gofio mai "lleferydd Duw ac nid dyn" yw yr Ysgrythyr, at bob un yn bersonol. Ni wnaethai llai na'r Beibl y tro, pe na buasai ond un pechadur i gael ei achub; ac y mae y Beibl yn ddigon i bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl; ac nid oes gan yr Arglwydd ddim i'w ddweyd wrth y naill nad ydyw yn ei ddweyd wrth y llall. Y tlawd a'r cyfoethog a gydgyfarfyddant ar dir y Beibl. Yr un Beibl sydd yn mhalas y frenhines ac sydd yn y tlotdy; ac y mae gan bob un hawl ynddo, a gall pob un ddweyd am dano, fy Meibl i. Pe buasai rhyw frenin neu ymerawdwr daearol wedi ysgrifenu at ryw dlawd-ddyn, buasai son am hyny yn agos ac yn mhell, a chadwasid yr erthygl yn ofalus i'r oes a ddel; a buasai yn cael ei drosglwyddo o dad i fab hyd fil o genhedlaethau; ond y mae mwy peth fyrdd o weithiau yn y mater yma na'r naill ddyn yn ysgrifenu at y llall. Y mae y Jehofah wedi ymostwng i ysgrifenu at y pechadur: "Mi a ysgrifenais iddo bethau mawrion fy nghyfraith." Y mae yr hwn sydd yn eistedd ar amgylchoedd y ddaear wedi ysgrifenu at bechadur. Rhyfeddwn ei ymostyngiad, a darllenwn ei waith.

5. *Ysgrifen yn cynnwys pethau mawrion ydyw.* Dyma lle mae y pethau mwyaf wedi eu cydgasglu am Dduw a dyn—am gwymp dyn a'i adferiad drwy ras—am Geidwad enaid, ei fywyd, a'i angau, ei adgyfodiad a'i esgyniad, a'i ail-ddyfodiad i farn. Pan fydd holl fawredd y greadigaeth wedi toddi gan wir wres, bydd mawredd pethau yr efengyl yn dal yn oes oesoedd.

IV. YMDDYGIAD PECHADUR AT Y PETHAU MAWRION.

1. *Gwadu hawl Duw i ysgrifenu.* Oni bai hyn gwelid mwy o ymostyngiad i'r gyfraith. Y mae gan lawer fwy o barch i gyfraith y tir nag sy ganddynt i gyfraith Duw. Nid ydynt fel pe byddent yn credu yn ei dwyfoldeb, nac mewn cyfrif ar ol hyn am ei throseddu.

2. *Gwadu perthynas y pethau.* Y mae llawer yn meddwl na chyfeiriwyd y pethau atynt. Y maent yn tybied mai rhywun arall a feddylir, yn debyg i ddyn yn gwrthod llythyr, gan feddwl mai at rywun arall y mae wedi ei gyfeirio. Fel peth dyeithr y mae dynion yn ystyried gofyniadau Duw iddynt; ond daw y pethau sydd yn ymddangos yn ddyeithr yn ddigon cynefin yn fuan, ac nid oes dim ond cydnabyddiaeth â'r pethau, a rhoddi derbyniad iddynt, a rydd ddedwyddwch yr ochr draw.

PENNOD VIII.

FFRAETH-EIRIAU CALEDFRYN.

GAN HWFA MÔN.

AWEN BARDD.—Yr ydoedd gan CALEDFRYN Awen o'r fath barotaf, yn neilldnol ar amserau. Cof genym fyned i'r Groes Wen, i bregethu am Sul, ar ein hymweliad cyntaf â'r Deheubarth. Bore Llun, pan yr oeddym yn eistedd gyda CHALEDFRYN yn y tŷ, clywem guro wrth y drws. Aeth CALEDFRYN at y drws i edrych pwy oedd yno. Erbyn agor, pwy oedd yn curo ond Risiard, Ty Hen; un o hen aelodau y Groes, ac un o'r hen gymeriadau mwyaf od yn y wlad. Gofynodd CALEDFRYN beth oedd arno eisieu; atebodd yntau, a dywedodd fod ganddo hwyaden i'r gwr dyeithr o'r North. "O, deuwch i'r tŷ Risiard," ebe CALEDFRYN, "ac eisteddwch am bum' mynyd, dim yn rhagor; canys y mae arnaf fi, a'r gwr o'r North, eisieu cael amser i ymddyddan a'n gilydd. Diolch i chwi am yr hwyaden; bore da."

Yn mhen tua blwyddyn, dygwyddasom fod yn y Groes, drachefn, yn pregethu ar noson o'r wythnos. Bore dranoeth, dyma Risiard, Ty Hen, at y drws, gan guro fel cynt. Gollyngwyd ef i mewn, a gofynodd CALEDFRYN iddo beth oedd ei neges. Dywedodd yntau, "Wel, Mr. Williams, mae genyf lonaid costrel o hufen, i wneud teisen i'r gwr dyeithr o'r North, a chwithau." Ar hyn, cyfododd CALEDFRYN o'i gadair, a rhoddodd dro ar hyd y llawr, gan ysmocio; a daeth at Risiard, a dywedodd yr Englyn hwn wrtho yn y fan:—

"I Hwfa daeth yr hufen,—a Rhisiard
A'i rhoes at wneud teisen;
Ond gynt, ar hynt, o'r Ty Hen,
Ehedodd bras hwyaden."

Dro arall, pan ddygwyddodd i CALEDFRYN a minnau, fod yn aros i ddysgwyl am y train, yn Station Bagillt, gofynais iddo wneud Englyn

i'r train, yr hwn oedd yn y golwg yn dyfod. A chyn bod y train wedi dyfod i'r Station, cyfansoddodd yr Englyn nerthol hwn :—

"Torf—a cherbydau'n tyrfu—heibio'n myn'd
Heb un march i'w tynu
Ager yn dod o gorn dn
Annwn megys yn mygu!"

Barfoniaeth.—Byddai Caledfryn yn arfer eillio ei farf yn llwyr; ond cyn diwedd ei oes, gadawodd iddi dyfu, a chredai mai hyny fyddai oreu i bawb. Mewn llythyr a dderbyniasom oddiwrtho, Ionawr 16, 1866, dywedai fel hyn :—"Yr wyf wedi bod yn astudio *barfoniaeth* yn ddiweddar, ac wedi dod i'r penderfyniad fod yn well i bob dyn adael i'w farf dyfu na'i thori, megys y mae yr arferiad. Cyfansoddais Englyn ar y pwnc, a dyma fo :—

"Llwyn o dwf llawn a difeth,—i wir fardd,
O farf wen, sy'n rhywbeth;
Yn lle gorfod bod yn beth
A gwyneb llwm fel geneth."

Dyma un arall :—

"Hir wrych oedd gan batriarch hen,—ac Aaron,
Ac eraill heb amgen;
I'r elthaf rhoi gwyr Athen
Barch i wrych hybarch yr ên."

Yna ai yn mlaen yn ei lythyr, a dywedai :—"Meddyliwch am hyn, a gadewch i'ch barf dyfu cyn y gwelwyf chwi etto. Edrychech yn ddiammheu yn llawer gwell, ac ni fyddech mor chwanog i gael anwyd."

Tal Beirniaid yn yr Eisteddfodau.—Diau na feirniadodd neb yn ystod ei oes, yn amlach mewn Eisteddfodau, na Chaledfryn; a diau na bu yr un beirniad yn eistedd ar y fainc feirniadol a roes fwy o foddlonrwydd i'r wlad nag ef. Ond clywsom ef yn cwyno lawer gwaith, na chafodd ef erioed ei dalu yn deilwng am ei lafur a'i goll amser. Wedi Eisteddfod Aberystwyth, yr hon a gynhelid yn y flwyddyn 1865, gwnaeth yr Englyn tuchan hwn :—

"Y brastor, a'r mêr, a'r mawredd,—a roir
I rai 'n canu gwagedd;
Rhan beirniaid, lygaid y wledd,
Yw'r eggyrn, wedi rhwygedd!"

GEIRIAU BRATHOG.—Yr oedd brath-eiriau CALEDFRYN fel cleddyfau dau-finiog, yn trywanu trwy enaid. Dygwyddodd iddo fod yn beirniadu mewn Eisteddfod yn Methesda, pan oedd yn aros yn Nghaernarfon; a dygwyddodd i'w feirniadaeth fod yn llem ar Englynion o eiddo Gwilym Bethesda. Crydd ydoedd Gwilym wrth ei grefft: a dyn byr, torsyth, hunanol, tafodrwg, seimlyd, a phardduog yr olwg. Wedi i CALEDFRYN ddyfod i'w lety, ar ol cyfarfod hwyrol yr Eisteddfod, daeth Gwilym ato i'w dafodi, ac i ddweyd nad oedd ei feirniadaeth yn iawn ar ei Englynion, &c. Wedi iddo dywallt ei druth, cyfododd CALEDFRYN, a throes olwg ystormllyd arno, a dywedodd, "Dos o'm golwg y PRY HIDDUGL!"

CYNGHOR I GYFANSODDWR IEUANC.—Ni bu neb yn ei oes yn barotach i ddysgu beirdd ieuainc na CHALEDFRYN. Gofynodd bardd ieuanc iddo un tro, am gyfarwyddiadau i gyfansoddi barddoniaeth; a chyda sir-ioldeb, a pharodrwydd mawr, rhoddodd iddo y cynghorion hyn:—1. Edrychwch ar eich testyn o bob cyfeiriad. 2. Mynwch wybod beth yw prif nôd angen eich testyn, a chofiwch ofalu am fod pob llinell yn eich cyfansoddiad yn cydweithio i osod y *nod* hwnw allan yn deg. 3. Byddwch yn ofalus i dynu eich cynllun yn naturiol, a chymhwys i'ch testyn. 4. Cofiwch am i'ch iaith fod yn seml, ac eglur; ond etto yn urddasol. 5. Bydded i'ch holl fesurau fod yn gywir, llithrig, a chyfaddas i'r testyn. Na roddwch fesur trwm i ddesgrifio llygad y dydd, ac un ysgafn i ddesgrifio y dderwen; ond rhoddwch yr ysgafn i'r blodeuyn, a'r trwm i'r dderwen. 6. Tywalltwch eich holl enaid i'ch gwaith, fel ag y byddo eich holl gyfansoddiad yn fyw trwyddo. 7. Ysgrifenwch eich gwaith drosodd, a throsodd drachefn; a phurwch ef yn burach burach, bob tro yr ysgrifenoch ef. Profwch yr iaith, y mesur, y ffugyrau, y sŷniadau, y perseiniedd, a'r cydweithiad allan; ïe, gloywch eich holl gyfansoddiad i'r fath raddau, fel na chaffo eich beirniad le i estyn bys at ei frychau.

Buasai yn hawdd i ni grybwyll am lawer o bethau cyffelyb, wrth adgofio am y diweddar BARCH. WILLIAM CALEDFRYN WILLIAMS; ond y mae hynyna yn ddigon, gan fod eraill, sydd yn fwy cymhwys na ni, yn ymgymeryd â'r gorchwyl.

GAN GWALCHMAI.

Tra yr oedd Caledfryn yn darlunio un cymeriad cyhoeddus iawn yn y Senedd, ac yn y wladwriaeth yn gyffredinol, wrth gyfaill unwaith, dywedai, "Dyn tebyg i hwn a hwn ydyw ef, onide?—yn dalent i gyd, ond fod rhyw surni ar bob dawn a fedd ef, wedi y cyfan, yn dyfetha pobpeth, yn y diwedd. Nid oes dim gwir anrhydedd yn perthyn i ddyn gorgyfrwys a dichellgar."

Wrth wrando ar un beirniad lled ymhongar unwaith, yn traddodi ei sylwadau ar bregethwyr a'u gwasanaeth, gyda chryn haerllugrwydd, gan ganmol un a darostwng y llall, i raddau lled annyoddefol, gofynodd Caledfryn iddo, "Pwy a glywsoch chwi yn dywedyd y sylwadau yna?" gan awgrymu na feddai efe yr un farn o'r eiddo ei hun i'w mynegu. Teimlai y cablwr fin y saeth yn fuan, yn cyrhaedd adref i'r byw.

Yr oedd cyfarfod pregethu cyhoeddus iawn, rai blynyddau yn ol, yn cael ei gynnal, mewn cymydogaeth o gryn sylw yn y byd; a gwyddid ei fod ef, a rhai gweinidogion eraill, yn dyfod tuag yno ar eu traed. Anfonwyd trol fechan i'w cyfarfod, er eu cludo yn mlaen. Pan y gwelodd y certweinydd hwy yn dyfod ar y ffordd fawr, adnabu hwy yn fuan, ac wedi eu cyfarfod, dywedodd, "Wel, yr wyf fi wedi dyfod yn fwriadol i'ch cyfarfod, i'ch cludo acw; ac y mae yn dda genyf feddwl y bydd genyf lwyth mor werthfawr." Ond atebodd Caledfryn ef yn barod a miniog: "Moch a gludir mewn trol, ond cerbyd priodol ddylid gael i bregethwyr a boneddigion. Ni ddeuaf fi yna: mi a gerddaf yr holl daith, hyd yn nod pe yr elai fy nhraed trwy yr esgidiau; gwneled y cyfeillion yma fel y mynont hwy. Dyna i chwi gymaint a hyny o wers erbyn y tro nesaf."

Pan yr oedd yr Annibynwyr yn dechreu pregethu yn Nghonwy, cynnaliasant gyfarfod cyhoeddus, yn yr awyr agored, o dan un o dyrod y castell; a thra yr oedd un brawd lled wledig yn pregethu, dringodd nifer o blant y dref i ben y mur, gan luchio pridd, megys yn ddystaw bach, ar ben y pregethwr. Trodd yntau atynt, a dywedodd, mewn dull lled ddigyffro, "Ah blant! yr ydych chwi yn tafiu!" Ac wrth

weled golwg lled ddiniwaid arno, parhasant i fwrw y pridd i lawr, yn awr ac eilwaith, hyd ddiwedd y bregeth. Ar ei ol, daeth CALEDFRYN i fyny, ac â gwyneb llewaidd, tremiodd drwyddynt, a dywedodd, "Pa beth! fe aeth y cythreuliaid i'r moch yn ngwlad y Gadareniaid gynt, ond yr wyf yn ofni eu bod wedi myned i'r plant yn Nghonwy!" Dychrynodd y cyfan, a buan y ffoisant ymaith mewn braw rhag ofn yr ysbrydion; ac felly y cafwyd perffaith dawelwch i fyned yn mlaen â'r gwaith hyd ddiwedd y cyfarfod.

GAN DEWI OGWEN.

YR oedd CALEDFRYN yn pregethu mewn capel yn sir ——, ar fore dydd gwaith; ar y diwedd, yr oedd dau deulu am ei gael ef, a dau weinidog eraill oeddynt yn bresenol, gyda hwy i giniaw. Gan fod un o'r ddau yn fwy cyfleus ar ei ffordd i'r man yr oedd i fyned i bregethu y noson hôno, yn gystal ag mai y teulu hwnw oedd yn cadw y mis i letya pregethwyr ar y pryd, gyda hwy yr aethpwyd. Llawer gwell fuasai gan CALEDFRYN fyned gyda'r teulu arall, o herwydd hen gydnabyddiaeth, ond ni fynai y lleill gael eu hymddifadu o'r fraint; felly rhyw led anewyllysgar oedd efe yn cychwyn. Ond, pan gyrhaeddwyd y tŷ, a chanfod yn fuan nad oedd yno un ddarpariaeth at giniaw, gan fod yr holl deulu wedi bod yn yr oedfa y boreu hwnw, gwelid yn fuan arwyddion o anfoddlonrwydd yn y bardd. Dygwyd ar y bwrdd fara, ymenyn, caws, a *phosel;* a gwahoddid y tri gweinidog i helpu eu hunain: gadawyd iddynt yn yr ystafell gyda'u gilydd i wneuthur felly. Gan fod un o'r ddau bregethwr arall yn arferol o fyned i'r ardal yn fynych, yn wir, yr oedd yr eglwys hôno dan ei ofal ef, dechreuai CALEDFRYN ei feio am beidio dysgu ei bobl yn well i groesawu dyeithriaid. "Eisieu ciniaw sydd arnaf fi yn awr," ebai. "Paham na fuasent yn parotoi rhyw gymaint o'r cig yna sydd yn crogi uwchben llawr y gegin? paham na fuasent yn gadael llonydd i mi fyned i le y cawswn giniaw? Dylasai y dyn ofyn i mi a fuaswn yn dyfod gydag ef i gael

brechdan a phosel, fel y gallaswn wrthod, a myned gyda'r teulu arall i gael ciniaw cysurus—amser ciniaw ydyw hwn: beth yr oedd y dyn yn dweyd mai gydag ef yr oeddwn i ddyfod i gael ciniaw, a rhoddi peth fel hyn i ddyn ar ol dyfod?" Ac â llawer o ymadroddion cyffelyb yr amlygai ei fawr siomedigaeth. Wedi myned ychydig oddiwrth y tŷ, ar y daith tua'r oedfa hwyrol, troes CALEDFRYN yn sydyn at y ddau frawd, a daeth allan y llinellau canlynol:—

"Ni cheir ar ol llafurio,
Rhyw lawer o arlwyo;
Nid oes i'w gael mewn ambell fan
Ond posel gwan yn pasio."

Ar ol hyn, daeth i'w siriol deb arferol. Teg ydyw dweyd ei fod wedi teithio rhai milldiroedd y boreu hwnw at yr oedfa, ac yn ddiammheu mewn archwaeth dda at giniaw da pe cawsid ef.

Y mae yn wybyddus fod tipyn o oerfelgarwch wedi bod rhyngddo ef â'r diweddar Dr. Arthur Jones; ond oerfelgarwch ydoedd, ac nid gelyniaeth. Clywais Dr. Arthur Jones yn dweyd fod llawer o bethau teilwng yn CALEDFRYN; a chlywais CALEDFRYN yn dweyd fod llawer o bethau dymunol iawn yn Arthur Jones. Wrth gyfeirio at dynerwch ei gydwybod, cofus genyf fod CALEDFRYN yn adrodd am un tro yr oeddynt ill dau yn myned at gyfarfod pregethu yn sir Fon. Yr oedd ceffyl wedi dyfod i'w cyfarfod at y Borth—un ceffyl rhwng y ddau. Yn y gauaf yr oedd hyn, a dygwyddai fod yn foreu rhewllyd. Aeth Dr. Arthur Jones i'r cyfrwy gyntaf; ac wedi marchogaeth am rhyw filldir, disgynodd i MR. WILLIAMS gymeryd ei le. Y mae yn ymddangos fod ei draed yn oer, a dechreuodd Arthur Jones *slerio* ar y rhew; ond wrth wneud hyny, torodd y *strap* oedd dan ei *garter*. Safodd, a dywedai yn ddifrifol wrth MR. WILLIAMS, "A welwch chwi, nid ydyw ein Tad nefol yn *leicio* i ni *slerio*, ai ydyw?"

Yr oedd yn cyd-gerdded â gweinidog arall, ar ddiwrnod lled wresog, a chariai y ddau eu cobau ar eu hysgwyddau. Crybwyllodd ei gydymaith wrtho ei fod yn cario ei gob yn dra afler, a dywedai, "Os na chariwch hi yn well na hynyna, y mae yn berygl i chwi ei cholli." Ar hyn, ebai CALEDFRYN, "Os nad ydwyf yn gallu ei chario wrth eich bodd chwi, cariwch chwi hi," gan ei thafiu iddo.

GAN AP VYCHAN.

Bum yn gydnabyddus â Chaledfryn am lawer o flynyddau. Y tro cyntaf y bum yn ei gwmni, gwnaeth sylw sydd yn fyw ar fy nghof. Yr oedd y tro hwnw yn fuan wedi marwolaeth y Parch. Richard Rowlands, o Henryd, swydd Gaernarfon. Dywedai Caledfryn, mai ychydig iawn a roddid i Mr. Rowlands gan amaethwyr ardal Henryd. "Y bobl anhawddaf gwneud dim o honynt," meddai, "o bawb yw yr amaethwyr. Yr oedd pobl Henryd yn dysgwyl i Rowlands ganu iddynt hwy drwy y dydd, a myned i'r goeden y nos i gysgu, fel yr aderyn, yn y diwedd."

Wedi gadael Llanrwst, a chyn iddo fyned i'r Groes Wen, bu yn byw yn Mangor am oddeutu blwyddyn, lle y cefais i lawer o'i gyfeillach. Y pryd hwnw anrhegodd yr eglwys yn Ebenezer fi â darlun o honof fy hunan. Noson y cyflwyniad a ddaeth. Yr oedd tyrfa wedi dyfod yn nghyd, ac yr oedd Mr. Roberts, yn bresenol o Wrexham, a Chaledfryn, yn y cyfarfod. Y cwbl a gyflwynwyd i mi oedd y darlun ar *ganvas*. Nid oedd *frame* am dano—dim ond y darlun noeth, fel y gwnaethid ef gan y medrus Ap Caledfryn; a gosodasid ef yn yr areithfa, lle y byddwn i bob Sabbath yn sefyll i bregethu. Y ddiweddar Mrs. Thomas a brynodd *frame* i'w rhoddi am dano, ar ol hyny. Tybiodd gwraig yn y dyrfa mai myfi fy hunan ydoedd, a dywedodd wrth un arall, "I beth y mae Mr. Thomas yn sefyll yn y pulpud o hyd, ac heb ddywedyd yr un gair?" Barnai Caledfryn, pan glywodd sylw y wraig, fod y fath ddywediad y prawf goreu a ellid byth gael o gywirdeb a pherffeithrwydd y darlun. Pan gyfododd ef i anerch y cyfarfod, rhoddodd sèn i'r Bangoriaid. Dywedodd: "Bangor fawr yn Ngwynedd! Pa beth mawr a ddaeth erioed allan o honi? Mae yma glochdy mawr, a chynffon fawr yn ei ganlyn; ond pa ddyn mawr a ddaeth o Fangor erioed?" Dywedwyd wrtho am Emrys; ond haerai ef mai yn Llandegai y magwyd Mr. Ambrose (ond yr oedd yn camgymeryd yn y mater hwnw). Aeth ef yn mlaen, a dywedodd: "Hen dwll ydyw Bangor—nythle dallhuanod ac ystlumod, sydd ag ofn ar eu calonau i belydr o oleuni yr haul ddisgyn arnynt." Tramgwyddodd amryw

wrtho, oblegid y cyfryw ddywediadau, a cheisiwyd ganddo wneud esgusawd dros ei ymadroddion mewn cyfarfod llenyddol trefol, a gynnaliwyd yn fuan wedi hyny. Yn awr, ni a gawn weled CALEDFRYN yn gwneud esgusawd, am unwaith yn ei oes. CALEDFRYN oedd y prif feirniad yn y cyfarfod llenyddol hwnw. Cyfododd i fyny i ddarllen beirniadaeth; ond cyn dechreu, dywedodd:—"Yr wyf yn deall fod amryw wedi cael eu dolurio, drwy ychydig o eiriau a ddywedwyd genyf fi mewn cyfarfod arall yn y dref hon, ychydig amser yn ol; ac y maent yn awyddus am i mi heno wneuthur esgusawd dros yr ymadroddion hyny. Ond dyma yr oll sydd genyf fi i'w ddywedyd ar y mater hwnw; sef, na fyddaf fi byth yn dywedyd pethau yn gyhoeddus, heb feddwl yn flaenorol am eu dywedyd; ac felly y cwbl sydd genyf i'w ddywedyd wrth y cyfeillion a ddoluriwyd ydyw, YR HYN A DDYWEDWYD, A DDYWEDWYD;" a chan estyn ei law allan, ryw ychydig, ac ysgwyd tipyn arni, yn ol ei arfer, gadawodd y mater yn y fan hòno.

Wedi gwrando pregeth gan wr doniol iawn, ond un oedd, yn hytrach, yn ddiffygiol yn ei chwaeth, sylwai CALEDFRYN:—"Pethau gwylltion sy gan G. i gyd. Mae pethau dofion a phethau gwylltion ar gyfer eu gilydd yn y byd: gwyddau dofion a gwyddau gwylltion, hwyaid dofion a hwyaid gwylltion, afalau dofion ac afalau gwylltion; ond y pethau gwylltion, yn unig, sy ganddo ef, heb ddim byd dof ar ei helw. Wrth ei wrando, byddaf yn ei weled fel un yn sefyll ar ben bryn gerllaw pentref, ac yn gwaeddi ar breswylwyr y lle i frysio ato ef i ben y bryn i gael gweled rhyfeddod fawr. Dyna y bobl yn dyfod, a'u hanadl yn eu dyrnau; ac yntau yn gwaeddi yn uwch uwch o hyd, Brysiwch! rhedwch! Wedi cyrhaeddyd pen y bryn, gofynai y dorf mewn syndod, Pa ryfeddod sydd yma i'w gweled wedi y cwbl? Ond y rhedynen yma, meddai y gwahoddwr, gan bwyntio ei fys at un o'r llysiau hyny oedd ger ei fron."

Sylwai ar bregeth a draddododd Dr. Rees o Gaer, mewn oedfa am ddeg o'r gloch yn nghymanfa Caernarfon, pan nad oedd y Dr. mor adnabyddus fel pregethwr ag ydyw er's llawer o flynyddoedd bellach. "Yr oedd dau wedi pregethu o'i flaen ef," meddai CALEDFRYN, "ac un o honynt yn Saesoneg, a'r gynnulleidfa yn farwaidd iawn. Yr oedd Christmas Evans yno, ac yr oedd wedi myned i gysgu yn y marweidd-

dra. Yr oedd yn ddeuddeg o'r gloch, a mynai Rees beidio a phregethu; ond ni chaniatâwn i hyny. Hanner awr o amser oedd ganddo. Aeth ati, ac ymaflodd ar unwaith yn yr ordd fawr; trodd hi o gwmpas ei ben, a tharawodd y gynnulleidfa yn union yn ei thalcen, nes ydoedd yn llesmeirio. Deffrôdd yr hen Gristmas: ac wrth weled dyn unllygeidiog, fel yntau, yn y pulpud, a mellten ar ol mellten yn dyfod allan o'i bregeth, dywedodd, 'Hene, y mae plwc yn hwn;' a diweddodd y cyfarfod yn y modd mwyaf dymunol. Gwnaeth y bregeth hòno argraff ddofn iawn ar y dref."

Gwrandawr go sychlyd, o ran ei ymddangosiad ydoedd, fel llawer o weinidogion yr oes ddiweddaf; ond mwynhai oedfa rymus yn fawr, pwy bynag fyddai y pregethwr. Clywais ef, amryw weithiau, yn son am bregeth odidog o eiddo Dr. Arthur Jones. Bu yn deisyf ar Mr. Jones ei thraddodi eilwaith yn ei glywedigaeth; ond yr ateb oedd, "Eboles wyllt oedd hi, ac nid oedd genyf finnau ffrwyn yn ei phen hi; taflodd fi i lawr, a diangodd i'r anialwch."

Cof genyf fod gydag ef, a Chromwell o Went, mewn cyfarfod yn Mhontypridd, pan oedd y Parch. Henry Oliver, B.A., yn gweinidogaethu yno. Wedi i ni wrando pregeth gan Cromwell, am ddeg yn y boreu, ac ar ol i ni ddyfod allan o'r capel, dywedai CALEDFRYN wrthyf, "Wel, dyna i chwi lefarwr prydferth—pob peth mor esmwyth a llyfn, a gallasai barhau i siarad drwy y dydd." Ond byddai gerwindeb yn aredig ei holl enaid. Ar ol gwrando pregethwr *garw* iawn, unwaith, dywedai wrthyf, "Wyddoch chwi am beth yr oeddwn i yn meddwl wrth wrando ar ——— heddyw?" Na wn i yn siwr, atebwn innau. "Am ddyn dall yn troi uwd gydag uwdffon gam; ac yntau heb weled dim, yn troi, a lympiau o hiddugl yn disgyn i'r uwd, a'r cyfan yn cael eu cymysgu ganddo i wneud swper i'r teulu," meddai yntau.

Dywedai pregethwr ryw dro yn ei glyw, mai cyfeirio at lwyddiant diwedd ei oes yr oedd Job, pan lefarai y geiriau—"Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw," &c.; ond sylwai CALEDFRYN, "Fod hyny yn debyg iawn i roddi pyst o aur i ddrws beudy."

Clywais ef yn pregethu ar ddiwedd cyfarfod blynyddol yn Ebenezer, Arfon, ar y gair hwnw, "Bod heb gablu neb." Dywedodd fod cymydogaethau chwarel Llanberis yn orlawn o gablwyr—eu bod yn cludo

sacheidiau o chwedlau i aelwydydd eu gilydd—yn byw ar grach a gwaeleddau dychymygol dynion eraill—yn trochi eu dwylaw yn ngwaed cymeriadau na buont hwy eu hunain erioed yn deilwng i ddatod careiau eu hesgidiau—ac mai math o gigfranod gwancus oeddynt, yn crawcian am gnawd a gwaed dynion. Wedi myned i'r tŷ, ar ol y moddion, dywedais wrtho yn chwareus, Wel, ni chlywais i erioed y fath ddernyn o gabledd ag a gawsom ni heno, ac ar destyn hefyd oedd yn dywedyd yn bendant wrthym "am beidio cablu neb." Atebodd CALEDFRYN, "Wel, y mae eisieu dywedyd pethau fel yna, a'u dweyd yn eglur a miniog hefyd, yn gystal a chyhoeddi rhad ras, a maddeuant pechodau; ac nid oes neb o honoch yn eu dywedyd yn y fath fodd fel y gwesgir hwy adref at feddyliau y bobl. Rhaid i rywun gymeryd y gyllell yn ei law i dynu gwaed afiach drwy grwyn tewion penglogiaid fel y bobl sydd yma. Pregethais i yr un pethau gartref nos Sabbath diweddaf."

Gallaswn gofnodi lluaws yn ychwaneg o'i sylwadau, pe buasai genyf amser i wneud hyny, a chan Gyhoeddwr ei Fywgraffiad ofod i'w rhoddi i mewn yn y gwaith; ond credwyf fod yr Adgofion hyn, yn nghyda'r rhai a gofnodwyd gan Hwfa Môn, Gwalchmai, a Mr. Roberts o Wrexham, yn ddigon i roddi i'r darllenydd syniad lled gywir am dano, fel sylwedydd craff ar y pethau a ddeuent dan ei sylw. Dymunol fuasai fod yn y *Cofiant* ddarluniad o hono, yn nghanol ei gyfeillion, ar ei aelwyd ei hunan, yn ei gartref; oblegid tywysog, mewn gwirionedd, oedd yn ei dŷ, yn gystal ag yn y capel. Nid oedd neb yn ei oes a wnai ddyn dyeithr yn fwy cartrefol, dan ei gronglwyd, nag efe; a byddai ef ei hun yn berffaith ddedwydd yn mysg ei gyfeillion, yn wastadol.

PENNOD IX.

BARDDONIAETH.

ENGLYNION AMRWIAETHOL.

BEDD Y BARDD.

Rhowch i'm fedd, anedd unig—un newydd,
Dan Ywen gaeadfrig;
Na ddoder maen naddedig,
O fawr draul, ar fy hir drig.

Yn y llawr, lle i orwedd—a garwn
O gyrhaedd eiddigedd;
Heb, hyd bryd bo'r adwedd,
I arf mwy agor fy medd.

Safle fy medd na syfler,—a'm llooches,
A'm llwch na chyffyrdder,
Hyd dreigliad, syrthiad y ser
Ar chwyldaith, o'r uchelder.

Y DARAN.

Taran yw'r twrf lle tora—y fellten
Yn follt o'r tanbeidia';
Wedi hyn, mewn eiliad ä
O'r golwg—ymddirgela.

Ceir anian oll yn crynu,—yr adar
Ehedant i lechu;
Ymyl dwfn y cwmwl du,
Am y wlad sy'n ymledu

IONAWR, 1869.

Trueni meistr Ionawr,—hyd eich oes
Eich bod chwi mor drystfawr;
Yn gyru braw drwy'n gorawr,
Goleu y mellt, a'r gwlaw mawr.

ANERCH Y "DYSGEDYDD," RHAGFYR 7, 1821.

Mor enwog yn Meirionydd,—y cododd
Ein cadarn *Ddysgedydd*:—
Drwyddo, amrywiol fröydd
Anial, a ddaw'n oleu ddydd.

Wel, henffych, henffych, o hyd,—it' gywraint,
Agoriad duwiolfryd;
Mynychawl draidd mewn iechyd:—
Cu wawria ar bob cŵr o'r byd.

Dewisgar yw'd ysgol—a'i goreuddysg,
I beb graddau dynol:
Daioni cyffredinol,
Dir iawn, ni ad'i ar ol.

Dysgeidiaeth helaeth, olau,—fo addurn
Dy fuddiol ddalenau:
Chwâl ddyfnion, ddirgelion gau
Tywyllwch, a'i fantellau.

WRTH GADEIRIO AP VYCHAN YN EISTEDDFOD RHYL, 1863.

Ei hennill, mewn ffordd union,—a ddarfu,
Drwy ddirfawr orchestion;
Ai'r gwr, a biai'r goron,
Gyda rhwysg, i'r gadair hon.

I DY MYNYDDOG.

O fro niwl ar Fron heulog—y mae'n bardd
Yma'n byw yn enwog;
Nid oes bardd glân, lle cân cog,
Mwyneiddiach na Mynyddog.

AR OL DARLLEN ENGLYNION IOLO MORGANWG YN Y "BYD CYMREIG," AM FAWRTH 26, 1863.

Nid rhedeg ar ol tri-duw—yr ydys,
Na chredu mewn dau-dduw,
Ond yn—a wada annuw,
Y teyrn Ion doeth—Tri'n un Duw.

Ein Duw a wad Undodwr—a Duw hwn
Yw Duw heb Gyfryngwr;
Duw'n maddau gwydiau* pob gwr *beiau.
Heb yr Iawn, ac heb Brynwr!

SIOMEDIGAETH AM YR WYDD, TACH. 20, 1860.

Yr oedd cyfaill i'r bardd wedi addaw anfon gwydd iddo, tua'r gwyliau diweddaf; ac aethpwyd, yn ol y cyfarwyddyd, i'r orsaf a enwyd i'w hymofyn; ond, gan na ddaeth, gwnaed yr Englyn canlynol:—

Am yr ŵydd yr ymroddwyd—i chwilio,
Ond i'w chael ni lwyddwyd;
Un wael, na gwych, ni welwyd,
Mewn gwisg las nac mewn gwisg lwyd.

Wedi ei chael dywedwyd:—

Gŵydd wen lawn, nid gŵydd hen lwyd—o rengau
Bodringyll anfonwyd;
Ond un o'r haid a dynwyd,
Un gron fawr ac arni fwyd.

BRUTUS.

Ei cel ef ni ddaliai ŵg—ni feddai
Fodd i fyw'n ddichellddrwg;
Yr oedd erioed er ei ddrwg
A'i galon yn y golwg.

Gwenwyn o dan deg wyneb—ni charai
Na chwerw ddigllondeb;
Nid allai—ni wnai, er neb,
Droi i wrando ar wiriondeb.

Llwybr cul a helbul o hyd—a gafodd
Yn gyfan o'i febyd;
Er y troi a'r gwrthdroi i gyd,
Ni chanfu fynych wynfyd.

GWR IEUANC.

Pan hunodd, impyn heini'—dyrysiant
Ddaeth drosoch a chyni,
I le uwch o'ch gafael chwi
Yr 'hedodd mewn mawrhydi.

Er wylo ar ei elor—er unwaith
Mor anhawdd ei hebgor,
I'w weled am ail dymhor,
Ni ddaw ef o wydd ei Ior.

Llawer iawn gwell er in' ei golli—yw
Ef yn ngwlad goleuni;
Ei ddilyn dan addoli
Ior y nef sydd oreu i ni.

Y GEORGE HOTEL, GER MENAI BRIDGE.

Y GWESTY hwn ar gost anian—a chelf,
A wnaed uwch y morlan;
Iach saif ef ar serchus fan,
Heb goll i'w bigo allan.

Ei ddodrefn, anhawdd adrodd,—am eu rhif,
Am yr aur a'u prynodd;
Heibio y mae, yn mhob modd,
I hen dai—fe'u handwyodd.

Ei erddi sydd yn wyrddion,—a'i goedydd
I gyd yn llawn swynion;
Gwinwydd a dyf yn geinion
Ar y tir uwch berw tòn.

Si y fain lwys Fenai lân—a glywir,
Gloyw yw fel arian;
Llestri mawr a llestri mân
Welir, a hithau'r wylan.

A'r ddwy bont a'r ddau bentir,—heb balldod
Yn y pellder welir;
Uwch y dòn fel braich o dir—
Rhwydd asio y mae'r ddwysir.

Oes hir a phob cysuron—er hybu
I Miss Roberts dirion;
Nawdd o werth yw'r anedd hon:
Hael ydyw wrth dylodion.

NIWL LLUNDAIN.

ANHWYLUS yw'n heolydd—i'w rhodio
Ar adeg niwlogydd:
Yn eu du maent ar dywydd,
O niwl dwl ar ganol dydd.

Gan y niwl, yn gaenen oer,—ni welwn
Ni olwg ar wenlloer;
A chuddia ei drwch addoer
Oleu llawn ser, haul, a lloer.

Gwelwn—ond mae'n rhaid gwylio,—liprynod
Fel prenau yn rhodio;
Ond cethin frenin y fro
Ydyw niwl du anolo.

RHAGFARN.

Du ragfarn ni fyn drigfod—mewn goleu,
Myn gael rhyw le dinod ;
Y man, fyth, lle myn hi fod,
Yw llenyrch dylluanod.

Y GOG.

Swn y dôn y sy'n dyner—i'n etto,
Mae'n ateb i'w hamser ;
Y bai—pe bai'n fai—rhy fer,
I'r rhin, yw'r daith, o'r hanner.

Ehed ymaith, fel damwain—o'n rhan ni,
Er hyn oll, ar adain ;
O'i hamser, y fêr, goes fain,
Ni chymera'i cham arwain.

Wedi i'r diwrnod penodol—wawrio,
Ni erys heb ddidol ;
Nid oes un peth dewisol,
O dan wybr a'i ceidw'n ol.

I LYFR Y PARCH. LEWIS POWELL.

Pwy yw Lewis Powell ?—er ei adwaen,
Ei lyfr " wed " yn uchel ;
Buchedd y gwr, heb ochel,
Yn ei waith, pob un a wêl.

Dywedir ei wendidau,— a phaentir
A phwyntell ei ddoniau ;
Canfyddir y gwir a'r gau
Yn gymysg—chwyn a gemmau.

Y CEILIOG.

Un o'i ryw ni fedd gân rwydd—medda gri,
Medd groes swn annedwydd ;
Tora ar brudd ddystawrwydd
Y nos hir—dyna'i swydd.

COLOFN GORONWY DDU.

Er i glai roi'i gloion—ar awenydd
Goronwy ben beirddion,
Parha'i gerddi pêr gwyrddion
Ef yn hwy na'r wyddfan hon.

CALEDFRYN YN DRUGAIN OED, CHWEF. 6, 1861.

Drwy ofal Duw a'i ryfedd—ddaioni,
I ddyn llawn o waeledd,
Yn mlaen ar drugain mlynedd,
Yr wyf yn byw, ar fin y bedd.

O, mor wych y mae'r iechyd—yn ei waith,
Ni wn am un clefyd;
Fy nerth, fu'n gydnerth i gyd,
I mi, braidd, hyd fy mywyd.

Y golwg nid yw'n gwaelu—rhyw lawer,
A'i liw nid yw'n gwaethygu;
E ddeil y clyw heb ddylu,
Heb boen deil y liaw'r pin du.

Y traed pan geisiant rodio,—a'm hanadl,
Ni 'mhoenant fawr etto;
Mae'n syn hefyd cy'd mae'r co',
A'r awen heb ddirywio.

Mae llafur, yn mhell hefyd,—o roi poen
I'r pen nag i'r ysbryd;
Dymunwn fod am enyd,
Etto'n byw'n helyntion byd.

Er hyny, gall mai ar unwaith—y daw
Y diwedd ar f'ymdaith;
Rhaid i mi rodio ymaith
I'r oer dŷ sy'n mhen draw'r daith.

Nid ydyw'r gwallt a'i odre gwyn,—a chwymp
A'r chwal ambell flewyn,
Onid galwad y gelyn,
Angau swrth,—er dangos hyn.

Meirw yn lluoedd mawrion—o rai fu
Drwy f'oes yn gyfeillion;
Ni pharchodd, pan archodd Ion,
Fywydau fy nghyfoedion.

A'r anwyl frodyr uniawn—sy'n aros
Yn wŷr eithaf ffyddlawn,
Yn Ngwynedd, er fy nghwyniawn,
Ni chaf wel'd yn fynych iawn.

Yma mae y lle i mi mwyach,—nid af
I dir newydd bellach;
P'le ceir dynion tirionach,
Mwy un, nag ardal mwy iach?

Crefydd dan belydr cryfion—sy'n y Groes
Yn ei grym a'i chalon;
Rhai saint, a deimlant wres hon,
Yn hen a'u penau'n wynion.

Mae'r ieuainc mewn mawr awydd—am ei chael,
Am ei chwilio beunydd;
Hwy'n fuan yn y fan fydd
Yn ein lle, ninnau'n llonydd.

Ar ol oes, dan farwol len—y gweryd,
O gyrhaedd cenfigen;
Ië, erchaf dywarchen,
O ryw sut yn y Groes Wen.

Ei lleidiog feini llwydion—a'i gweryd,
A gâr llnoedd mawrion;
Unigedd yr enwogion,*
Yn ein tir, yn mynwent hon.

Ar ol bod, er ei waeledd,—yn gweithio
Mwy nag wyth mewn dygnedd,
Yn gynnar Ieuan Gwynedd,
Droes i fewn—dacw'r drws i'w fedd.

A'i golofn fel y gweler—diwydrwydd
Yn dadrin anhawsder;
Un doeth fu, yn ei daith fer,
Edliwiad yw i lawer.

A Huws enwog oedd yn synu—y byd
A'i bob dull o draethu;
Dyna'i fedd—y dyn a fu
Yn seraff—Pa les haeru?

Nid af os na fyn Dofydd—o Groes Wen
I groes waeth rhag c'wilydd,
Gwell ganwaith filwaith a fydd
Hen groes na'r un groes newydd.

*Yn mynwent y Groes Wen y claddwyd y Parch. G. Hughes; Ieuan Gwynedd; Williams, Caerdydd; Moses Rees; ac amryw bregethwyr eraill.

EIRA YN NIWEDD MAWRTH, 1860, YN SIR FRYCHEINIOG.

Oddeutu'r mynydd etto—ar y foel
Eira fyn ymrithio,
Ond yr haul ddaw yn ei dro
I'w ladd neu'i gwilyddio.

EIRA YN IONAWR, 1868.

Y MAE eira am aros—ar y bryn,
Mae'r wybrenau'n dangos;
Drwy oerni hyd yr hirnos,
Rhewi'n rhwydd mae'r waun a'r rhos.

Y GWANWYN.

YR ardd, a'r wîg, a chwardda—y ton glas
Tan y gwlith adfywia,
Dan ledaeniad dillad ha'
Y gog unig a gana.

Mai, 1862.

EIRA YN MAWRTH, 1867.

DYMA yn lle hin dwymyn—eira'n Mawrth,
Oer yw yn mhob bwthyn;
Heddyw, braidd, mynydd a bryn,
Goryn ban, geir yn benwyn.

Daeth i fewn, o'i daith fawr,—a'i wyneb
Dan wên heb 'storm drystfawr;
Ond, yn ol, mae'n myn'd yn awr,
A'i wyneb fel ail Ionawr.

A fyn Duw sydd i fod—yn y tymhor;
Nid damwain anwybod
Drefna'r hin, neu drefn y rhod,
Onid ydyw'n llaw Duwdod?

Mae pob un, a'i lun, a'i le,—o flodau
Neu fydoedd goleune',
Yn hyfryd dramwy'r nwyfre,
Dan ei gyfarwyddyd E'.

Os damwain sy i dymhor,—yn mhob oes,
Heb ddim byd yn rhagor,
Pa sut, o'i gae, mae y môr
Heb gyrhaedd dros bob goror?

A'r gauaf yn haf hefyd—rai gweithiau,
Er gwaetha'r haul tanllyd;
Neu yr haf, yn haf o hyd,
Heb auaf, i ddwyn bywyd.

Ni sorodd yr un seren—yn ei hynt
Nes troi'n ol drwy'r wybren;
Ar ball, a'u teithiau ar ben,
Ni welwyd lloer na heulwen.

Ond i'r dim, nid ar dir damwain—y gwelir
Y goleu'n y plygain,
Mor ragorol, mor gywrain—
Llaw yr Ior sy'n llywio rhai'n.

Nid yw celf a'i nodau cyd*—er rhanu *joint.
Amser in' ond d'ryslyd;
'Nillant, neu gollant i gyd,
Yn mhen rhyw hanner mynyd.

Ond yr haul mud reolir—gan law Naf,
Gan lu nen fe'i gwylir;
Ni roes help drwy ei oes hir
I ddyn gyhoeddi anwir.

PRYDNAWN CLIR YN RHAGFYR, 1866, A'R LLOER YN Y GOLWG CYN MACHLUD HAUL.

A! LIW'R dydd er cliried yw,—y mae'r haul
Yn mron myn'd, on'd ydyw?
Rhydd ef yn gynnar heddyw,
Hithau y lloer wrth y llyw.

Denu hon wna dan wenu—i'r amlwg
Er ymlid y fagddu;
E fyn y lloer fan a'i llu
Ar y nos gael teyrnasu.

Nes elo'r nos i yswiliaw—a ffoi
I ffwrdd i ymguddiau,
A'r wawr ddod i oreuraw
Y wybren dros y bryn draw.

Cynanterth* y cawn yntau,—o'i gafell
Ymgyfyd yn forau;
Myn y sedd, tra'n min nesâu,
Ar filiwn o'r prif heuliau.

* Un o bedair rhan y dydd; ei ystyr ydyw heb darth; yr amser ar y dydd pan fyddo y tarth wedi cilio. Pedair rhan dydd: bore, anterth, nawn, echwydd.

YR AWEL, EBRILL 2, 1867.

Y MAE'R awel mor rywiog,—a'r wybr oll
Mor bur a glasliwiog,
Fel y gall gwenfol a gog—o'u cudd fan
Ddod yn fuan ar ddwy aden fywiog.

Ond gwyddant hwy agweddau,—a hanes
Yr hin a'r tymhorau,
Yn gywirach na'r gorau
O neb, a'r ffordd i'w mwynhau.

Y DYDD HWYAF, 1867.

Heddyw yw y dydd hwyaf,—hwyaf hyd
Y Mai haf hin nesaf;
Ar ei ol, fe ddaw yr haf,
I roi'i hael wên siriolaf.

A'i dau seiniad, wedi swyno—pob un,
Pawb oll fu'n ei gwrando,
Y mae'r gog frysiog o'r fro
O'r golwg bron ar gilio.

Ni ddalia—y mae'n ddolur—iddi hi
Odde' hôg y bladur;
A o'n parth, am wanwyn pur,
Mwyn etto,—mae ei natur.

Ond eilwaith daw i weled—y werdd wlad,
A rhydd lais can fwyned
A'r gyntaf, lonaf ar led,
A fu'n yr ardd* am fyned. *Eden.

GWRAIG.

Coron lle byddo cariad—ydyw gwraig,
Digaregu'r teithiad;
Y rhinweddol, er noddiad,
Edwyn werth yr ordinhad.

TAITH O DDINBYCH I BENTRE-LLYN-CYMER YN 1827.

O wlad isel y doisom,—a chyrhaedd
Ei choryn a gawsom;
A'r lleuad, mewn gwlad go lom,
A'i chyrn, yn edrych arnom.

Y GWLAW.

Y gwlaw yn ddafnau gloywon—iachusol
Achosodd bob ffynnon;
Ddiwalla ei ddysdyllion,
O'u bodd, raib y ddaear hon.

Y GYMALWST *(Gout)*.

Milain yw loes cymalwst—a'i gnöad
Egniol fel troedwst,
Anhawdd bod dan ewynwst
Bigiad trwm heb gadw trwst.

Y NADOLIG, 1866.

Wedi i niwl llwyd, anelwig,—ledu
Dros y wlad Brydeinig,
Aml y bydd, rhyw dywydd dig,
Yn dilyn y Nadolig.

LLYFRGELL DEWI HARAN.

Anfonaf i'r fan fyni—dy lythyr,
Dadlwytha'th logelli;
Ond mae rhaid i'w Mawrhydi
Gael y doll—neu, gwylia di.

TAITH I LUNDAIN, TACH. 23, 1867.

Dyma ni heb ddim damwain—hyd y dydd,
Wedi dod i Lundain;
Dan nawdd Ior, o'n goror gain,
Heb achos i neb ochain.

CWYMPIAD Y DAIL.

A! dystryw, dystryw y dail—sydd yn brudd,
Sydd yn brawf o'n hadfail;
O'u gwawr werdd y gwyr * irddail, *Verdant.
Mewn dim aent yn domen dail.

Lliw rhwd, neu liw fel lliw rhedyn,—gwywawl,
Yw'r lliw a geir arnyn',
Briwedig a brau ydyn';
Ail i'r dail y gwelir dyn.* **Un naws â dail einioes dyn*

Y dderwen gan gynddaredd—yr egr wynt
Rwygir heb drugaredd;
Ei dail sydd ar ddidoledd,
A thra gwyllt noethir ei gwedd.

Ymryson amryw oesau—hir a wnaeth;
Ond er noethi'i changau,
Ni rydd, er i'w gwedd bruddhau,
I gur y gwynt mo'r gorau.

I DDARLUN ISLWYN, GAN AB CALEDFRYN, AWST, 1858.

Ha! perchen awen iawn yw,—ar y llen,
Mae'r llun yn ddigyfryw,
Lân awdwr, Islwyn ydyw,
Sy lawn fardd—mae'n Islwyn fyw.

Y DYDD BYRAF, 1865.

Deuodd bore'r dydd byraf,—mae wedi,
Am adeg, droi'n auaf;
Ond e ddaw y dydd hwyaf,
Ar ei hynt i ddechreu haf.

Yr haul a fyn reoli,—gyr i ffwrdd
Gorff y iâ a'r oerni;
Daw ei wên a daioni
O'r newydd, newydd i ni.

Y rhew a'i gesair a geisiant,—yn hir
Ddal yn ol bob tyfiant;
Y blagur weithian, blygant,
Dan eu hawch lled wywo wnant.

Ond, eilwaith, ati daliant—o'u har gel
I'r golwg ymwthiant;
Y gerddi—eu gwyrddni gânt,
A blodau pawb a ledant.

Ymorwedd maent fel meirwon—yn bruddaidd,
Dan y briddell weithion;
Ond yr haul, o ddyfnder hon,
A eilw y marwolion.

Ei foddawl wêu feddalha—hin galed,
O'n golwg hi ffoa;
Awelon oerion, yra
Ar ei hol i wlad yr iâ.

E ddaw'r haul a'r ddaear hen—i'n golwg,
Pan giliant fel Eden;
Ceir hi etto'n gwisgo gwên,
A bywyd yn mhob awen.

Daw'r adar o'u direidi—i roi her
I wŷr had y gerddi;
Ond y pryfaid—o'u profi,
Yw eu nod—na wgwn ni.

Hwy ganant heb un gynhen—drwy y gân,
Gyda'r gog ar ganghen;
Nid yw yr alaw lawen,
Mewn dau nôd yn myn'd yn hen.

Wedi gwewyr dig auaf,—ar y gainc,
Ceir y gog fynychaf;
A'i dau nôd diniweidiaf—
Ei dau nôd sy'n denu haf.

SYMUDIAD HWFA MON I LUNDAIN.

Dilewyd bri Dolawen,—a thost yw
Bethesda dan niwlen;
Ar glywed ei rugl awen,
A dawn y bardd, dyna ben.

Trywaniad yw trwy Wynedd—o'i fyned
O'i fan yn y Gogledd,
Addawai hyd ei ddiwedd
Iddo saib—lle'r oedd ei sedd.

Os yw i fyw yn y ddinas fawr,—e fydd
Yn rhyfeddod ddirfawr;
Rhyw fach gell, rhy fach i gawr,
Yw ei gell fel rhyw gallawr.

Na foed dim i'w ofidio,—na dyfod
Yn edifar ganddo;
Iach, iach byth ac uwch, uwch bo,
Ior a'i nodd yn rhan iddo.

Y TYWYDD,

Gorphenaf 16, 1868, *pan oedd arwyddion gwlaw yn ymddangos, ac yn Awst wedi ei gael.*

Gwelid, a'r haul ar giliaw,—yn ael dydd,
Y niwl dwl yn chwyddaw;
Yr hyn, dan "glogyn y gwlaw,"
Ddysgwylid i ddwys geulaw.

Ond, gyda'r gwynt, hynt roes e',—er y bâr,* **calamity.*
Heb wyro at unlle;
Chwalu wnaeth, drwy'r uchel ne'—
Bro niwl droe'n wybren ole.

Yna a'i wên, yr haul noeth,—ar ei daith,
Yr un mor dwym dranoeth;
Uwch Albion,* aeth mor chwilboeth, **hen enw Prydain Fawr.*
Ar ein pan a haiarn poeth

Ond, O! fendith! gwlith a gwlaw—ireiddiol
A roddwyd i'w mwydaw*; **Awst* 13 *a'r* 22.
Duw anian, i'w dihunaw,
Yra'i lef—agorai'i law.

Ymarllwys a wnai'r murllwch—yn ddylif
Ar ddol ac anialwch;
A phob bryn noeth, tryboeth trwch,* **anffodus.*
A gweirddol wisgai harddwch.

Yn hawdd yr adnewyddwyd—y ddaear,—
Oedd wyw a gwyneblwyd,
A gwlaw'y dwr—gludeiriwyd
Yn mol llaith y cwmwl llwyd.

Bu hwn yn gwibio enyd,—ar y wybr,
A'i wedd yn gymysglyd;
Bygythiai, heriai, o hyd,
Y croen llwm fryniau crinllyd.

Ond yn ol—nid dan wylaw,—yr elai
Ar ol ein hir feiddiaw;
Nes cael, heb un naws ciliaw,
Doi y glyn, gan Dad y gwlaw.

A chodai'r ddaear sychedig—o'i gloes,
A'r glaswellt methedig;
A holl adar y wâr wîg
I gydwau drwy y goedwig.

I anifeiliaid, yn filoedd—y daeth
Bendithion Duw'r lluoedd;
O wel'd dwr ar ael tiroedd,
Yn ffrwd wyllt—cyffroad oedd.

Adnewyddiad adnoddau—olynol,
A'r gwlaw lanwai'r llynau*; *Salm lxxxiv. 6.
Pob ffrwd fach, o gilfach gau,
Yn rhuo drwy ein rhiwiau.

Dwys gynwr llawn—disgynai'r lli—cymhwys
Fel cwmwl yn hollti;
Treiddiodd y briddell trwyddi,
Gyrodd ddwr at ei gwraidd hi.

DADMERIAD.

Y DEHEUWYNT ni adawa—na lluwch,
Na llychyn o eira;
Rhydd chwal, a llwyr ddychwela
I li' dwfn y caled iâ.

"SWN ADDOLI,"

Gan y Parch. D. Richards, Llanelly, Brycheiniog.

HEN dônau a adwaenom,—o'u cwsgle,
Yw'r casgliad a gawsom;
Natur etto'n troi atom,
Lona y drist galon drom.

Trwyddo y saint a roddant—i Ior Nef,
Drwy iawn hwyl addoliant,
Tra melus—nid rhoi moliant
Ein Duw ni i'r cnawd a wnant.

Teimlad—nid teimlad at dôn,—yn unig,
Enyna serch Cristion;
Yr eneiniad, rhad yr Ion,
A'r goleu draidd i'r galon.

Eneiniad aydd yn nhônau—yr hen saint,
Y rhai'n sy fel diliau;
Ond rhai sychion, gwylltion, gau,
A eiliwyd ar eu holau.

Un gar rai gwylltion i gyd,—a'u mwynder
Yn ddim ond celfyddyd;
Yntau, yn ddeau a ddyd,
Trwy ofal, natur hefyd.

I rai gwŷr, nid yw'r geiriau,—ond esgus,
Gael dysgu gwneud lleisiau;
Ni edwyn eu heneidiau,
Ond sî y gwynt sy yn gwau.

Swn y dôn sy'n eu denu,—nid y gerdd,
Enaid gwir ddadganu;
Swn—a dim ond swn, a su,
Wna i enaid newynu.

Moel ganiad yw mawl genau,—nad yw'n dod
O dan dwym deimladau;
Os swn llais oer sy'n llesâu,
Ni waeth corn hwrdd na hwythau.

Swn geir a syna goryn,—heb eiriau,
Neu barabl, gan declyn *; **instrument.*
Nid all twrf, twrf, ond gwneud dyn
A pharabl, fel offeryn.

O! organwyr a genynt,—yn y Deml,
Nid am swn yr oeddynt;
Pa enaid, pwy o honynt,
A fu erioed fyw ar wynt?

Mae enaid yn emynau—a mawl gân
Y Deml gynt, a'r Salmau;
Ni chai'r offer* er cryfhau, **instruments.*
Le byth ond fel ail bethau.

Ond yn aml dodwn yma,—swn a llais
Yn y lle amlyca';
A sylwedd a'i duedd da,
Dan niwl gaiff fod yn ola'.

Os mawl i'r dull, os mawl i'r dôn,—yw'r mawl,
Rhoer mwy o rai gwylltion;
Ond os mawl iach, disyml Ion,
Rhai gwaraidd bia'r goron.

Rhai'n toddi ran eu tueddiad,—rhai'n dod
A'r hen dân i'r teimlad;
Rhai ddeil mewn gwir addoliad,—
Llai eu swn, ond mwy'u llesâd.

Mae genym rai meginau,—a allant
Ollwng cryfion leisiau;
Ein menywod nod, dan wau,
Leisiant fel angylesau.

Am iawn deimlad dymunwn,—gyda'r dull,
Gyda'r dôn a'r byrdwn;
Ar ol y fath swynol swn,
Trueni fydd troi i annwn.

"Y DYDD."

Y nos ni chaiff deyrnasu,—ar ol hyn,
Ar wlad hawddgar Cymru,
Os yn llawen, â gwên gu,
Daw y *Dydd* i'w dedwyddu.

Yn wir *Ddydd*, beunydd y bo,—i'n cymoedd,
Heb un cwmwl drosto;
A holl nerth ei gynllun o,
A'i lewyrch, am oleuo.

Na agored ei gaerau—i eirwon
Ddyhirwyr drwg-foesau;
Samwel, a'i deg resymau,
O du'r gwir, wrthodo'r gau.

O'i fodd, gyda'r fyddin—sy ar y maes,
Er mwyn y cyffredin,
Cydweithio byddo â'i bin,
I wir oleuo'r werin.

I DALHAIARN YN GWELLA.

Ei gyfansoddiad cadarn—na faedder,
Na fydded yn wasarn
O dant chwydd y *gout* na'i charn;
I'w lewyrch doed Talhaiarn.

Y PARCH. W. GRIFFITH, CAERGYBI,

Yn cyrhaedd ei 61 *mlwydd oed, pan yn y Groes Wen, Awst* 12, 1862.

Yn chwe'deg un, iach ydych,—heb arwydd
O berygl nac oernych;
Oedran ni wna i chwi edrych
Lawer gwaeth, barablwr gwych.

Y llais a'r dull sy ar y daith—yn dal
Yn y De mor berffaith,
Ag yn Mon—a'r egni maith,
A'r ddawn ni oerodd unwaith.

Ei ddilwgr dlws feddyliau—difraw,
Dyferant fel diliau;
Pob chwerwder, pob gwywder gau,
Ymlidiant o'r teimladau.

Y gawod wlith gydol yw—y doniau,
Er dwyn ffrwyth diledryw;
Hi all adfer y lledfyw,—
Llesia bawb o'r llysiau byw.

Ar ei hol, yn dra hwylus,—daw hinion,
Daw enaint aroglus,
O wyrth Ion, fel myrr a thus,
A pher awel gyffrous.

Nid tân gwyllt yn y gelltydd—i synu,
Na swn croch cornentydd,
Ond heddawl dân y toddydd
I wneud ei ol yn ein dydd.

Ban y del i ben ei daith—ei goffâu
Gaiff ef lawer canwaith;
Fe welir yn fyw eilwaith
Ei ol ef ar ol ei waith.

J. R.

I'n awdwr hir ei aden,—dewr ei bin,
Rhoi'r derbyniad llawen;
Caiff ef a'i gref ysgrifen
Groesaw hir yn y Groes Wen.

"GOHEBYDD," LLUNDAIN.

Gwibio y mae'r Gohebydd—"i'w chalon"
Er chwilio am newydd,
Nid oes ran, neu fan na fydd
I'w weled drwy'i heolydd.

YMADAWIAD Y PARCH. SAMUEL ROBERTS, M.A., LLANBRYNMAIR, MAI, 1857.

A! GYFAILL mwyn, hir gofi,—am dy wlad,
Am dy le'n y llwythi:—
Samwel na chaed ei siomi,
Yn ei serch at Tennessee.

O ganol serch ugeiniau,—o ganol
Mawr gwynion a dagrau,
A'n abell*—a gwynebau **far away.*
Praidd Ion i'w gwel'd yn pruddhau.

Bwlch o'i ol, ond balch o hyn,—nid yw neb,
Adawa'n hir wedy'n;
Am Brynmair, sai'r wlad yn syn,
Yn ei galar dan golyn.

Mil trymach, trymach fydd tramwy—Brynmair,
Bryn mel a phob arlwy:
Nid Brynmair fydd Brynmair mwy,
Am adeg, ond Bryn Meudwy.

JOHN PENRY, MABAN Y PARCH. HENRY OLIVER, B.A., PONTYPRIDD.

PA anrheg i John Penry—a delir,
Heblaw dal i erchi
Iddo ran, yn nawdd ei Ri,
A'i wir ras—a hir oesi?

I DAIR MERCH MR. EDWARD JONES, POST OFFICE, RHUTHIN.

IDD eu tad, heb afradu—ei eiddo,
Mewn heddwch anwylgu,
Mor wych yw gwel'd tair merch gu
Yn addas gydweinyddu.

ELIZA CATHERINE, MERCH Y PARCH. T. ROBERTS *(Scorpion)*, LLANRWST.

UN hardd o wedd a grudd iach—a luniwyd
Melynwallt prydferthach?
Na ddeued awyr dduach,
Na loes byth i Eliza bach.

ENGLYNION CYNNADLEDDAWL.

Os na roed in' gallineb—yr awen,
At bob rhyw anmhurdeb,
Etto, ni roed, rhaid ateb,
Y ddawn hon i'w chuddio i neb.

Nid yw pawb yn ei deall,—rhyw dalent
Yw'r deilwng rodd ddiball:
Deuwn feirdd, mewn modd diwall,
I gyd i'w marchnata'n gall.

Yn ein hoes, ymdrechwn i—wneud deunydd
Daionus o honi:
Nid mewn sèn mae 'i helfen hi,
Neu ryw gân o ddrygioni.

Chwiliwn, myfyriwn am fwy—o'r bythawl
Wir bethau safadwy;
Coleddwn, a hoffwn hwy,
Oludoedd anchwiliadwy.

Wiw feirdd, er dim byd a fo—na adawn
I'n doniau lychwino;
Nid iawn yw rhoddi dan do
Dalent, a ddaeth i'n dwylo.

Mae'r awen yn elfenawl—hynodol,
Mewn caniadau moesawl;
O! rhoddwn i'r Ior haeddawl,
Llyw nef wen, ein llawen fawl.

Tach. 15, 1821.

HERBERT CALEDFRYN WILLIAMS.

(WYR Y BARDD).

Herbert Caledfryn fo'n hirben,—fo'n dda,
Fo'n dduwiol yn fachgen;
Diwyd y bo—doed o'i ben,
Sain eos, a swyn awen.

A oes o'r hil ei siriolach,—mwy llawn,
Mwy lluniaidd, neu decach?
Ni welwyd, ei anwylach,
Yn y byd, o blentyn bach.

Yn addfed bo'i gynheddfau,—yn hygall,
Yn agor yn forau;
Doed yn ddyn, yn ddyn o'r ddau,
Mwy na'i dad—mwy na'i deidiau.

Mai 8, 1867.

I MISS SARAH ELIZABETH EVANS, MERCH Y PARCH. E. H. EVANS, SALEM, CAERNARFON.

A fu blodeuyn gwyn amgenach—o liw
Lili lân, neu decach?
Nodded, hyd fyd newyddach—
Hyd ail fyd, i'ch delw fach.

JOHN PENRY DAVIES ROWLANDS YN DRI MIS OED.

O weled y blodeuyn—llawenydd
A'ch llanwai bob mymryn;
Gwelir wrth bob argoelyn
Dan nawdd Ior y daw e'n ddyn.

A ANFONWYD AT GYFAILL.

Cewch ar fyr lythyr helaethach—na hwn,
A hanes amgenach;
Dyna bwt i Ioan bach,
I aros cael un hirach.

MR. WILLIAM PROTHERO.

Y mae dwylaw medelwr—gan William,
Gwna ei ol heb ddwndwr;
Heblaw hyn, a oes abl wr
A'i trecha fel pen tyrchwr?

E. JONES, YSW., BIRMINGHAM.

Y gwr sy'n glod i Gomer—heb lediaeth
Myn bleidio yr awen;
Y mae'n noddwr mwyn, addien,
Gymro gwych, i'r Gymraeg wen.

AR GYFLWYNIAD BEIBL

I Mr. B. Evans, Bute Road, Caerdydd, gan ei rieni Mr. a Mrs. Evans, Anchor House, pan yn 21 *mlwydd oed, Chwef.* 22, 1868.

Anrheg wir yn rhagori—ar bob rhai,
Ar bob rhodd rhieni
Ydyw hon—i'w mab rhoed hi
I'w arwain rhag camwri.

Rhoddant help, a help o hyd,—digonol,
At gynnydd ac iechyd;
Ond dyma rodd bena'r byd
I rai byw—gair y bywyd.

I MR. THOMAS THOMAS, BRON-Y-DYFFRYN, NANTGARW, MORGANWG, AR ENEDIGAETH EI FAB.

Yn ben beirdd bo'ch baban bach—neu ddoniol
Dduwinydd cryf holliach;
Na weler ei fanylach,
Yn ei oes, drwy'ch Dyffryn iach.

YMWELIAD A PHONT-Y-GOF, HYD. 20, 1866.

Davies a'i hyfryd Efa—gaffont hedd,
Gaffont hir esmwythdra;
Coron nad oes a'i cura
Yw gwraig ddoeth—ydyw gwraig dda.

Y DYN HUNANOL.

Un help, hunan-ddyn ni wnai—i undyn
Mewn gwendid, pe trengai;
Nid oes, fel y dewisai,
Ond ef ei hun—un di fai.

MISS SARAH, MERCH Y PARCH. R. THOMAS, HANOVER.

A luniwyd geneth lanach?—a anwyd
Un o wyneb tecach?
Naddo, nac un fwyneiddiach—
Oes hir fo i Sarah fach.

Hyd. 30, 1858.

CALEDFRYN I'W WYR.

Nawdd ei Ior yn ddieiriach—fo iddo'n
Etifeddiaeth bellach,
A'i ras—beth werthfawrusach?
A fo ar ben fy ŵyr bach.

Tach. 24, 1856.

ELEN MARY YN BUM' MLWYDD OED.

(WYRES Y BARDD).

Elen benfelen a fydd—os ca fyw'n
Wisgi ferch ysblenydd;
Bydded ei llef am grolydd,
Mawr ei dawn yn more'i dydd.

BABANOD MR. A MRS. JONES, GWERNLLWYN COTTAGE.

Hywel a Daniel dyner,—anwyliaid,
Na welont ddim blinder;
Yn llawen, dan aden Ner,
Eu Llyw, bo'u dyddiau'n llawer.

IFOR BOWEN, MEBYN Y PARCH. J. B. JONES, B.A., ABERHONDDU.

Newton, neu un hynotach—a fyddo,
Ac o fudd helaethach;
A diballiant rad bellach,
A fo ar ben Ifor bach.

Rhag. 17, 1863.

MISS ANNIE REES, MABWYSIEDIG GAN MR. A MRS. WILLIAMS, RUMNEY.

Noddfa yn llawn o hawddfyd—a gafodd,
A gofal mam hefyd;
Y mae Annie, bob mynyd—
Annie fach, yn cael gwyn fyd.

Mai 8, 1865.

YMWELIAD Y BARDD A MR. WILLIAMS, "CARW COCH," ABERDAR, RHAGFYR 11, 1861.

Da genyf wel'd dy gynnydd—mewn iechyd—
Mae'n achos llawenydd;
Mae'r aelod, yn dod bob dydd,
Gas niwaid, yn goes newydd.

ANERCH

David Francis, Ysw., Trebrithin, ger Abergwaun, yr hwn a gafodd waredigaeth ryfedd o berygl Hydref 21, 1864.

Diogel waredigaeth—a gafwyd
O gyfwng marwolaeth;
A chwbwl lwyr achubiaeth—
O law Duw'n amserol daeth.

Ni welir ar un aelod,—nag asgwrn,
Nag esgair, ol sigdod;
O berygl, drwy nawdd barod,
Yn iach ddyn, y cawsoch ddod.

LLEWELYN HUGHES, MAB R. HUGHES, YSW., CORRIS.

Athraw yn lle 'i ewythryd*—hylithr,
Fo Llewelyn lanbryd;
Tyfu mewn talent hefyd
Y bo'n ben—yn ben y byd.

Hyd. 14, 1856.

* Y diweddar Barchedigion Robert Roberts, Llanllyfni; John Roberts, Llangwm; a Michael Roberts.

ENGLYNION PRIODASOL.

PRIODAS ISLWYN.

Diliau mel oedd odlau mwyn—yr awen,
Cyn cael priod addfwyn;
Beth, bellach, ar lasach lwyn,
Fydd oslef ryfedd Islwyn?

I'w awen ni chân yn iach,—wedi myn'd
Y mae i fyd llonach;
I loni yn gyflawnach
Ael ein bardd, caed Islwyn bach.

PRIODAS MR. D. MORGAN, PANT DRAIN, GROES WEN, MORGANWG.

Dewi a Mair, am dymhor oes—hir iawn,
Cadwer hwy rhag drygloes?
Eu hanadl fo, drwy'u heinioes,
Er rhoi grym i godi'r groes.

PRIODAS Y PARCH. J. LL. JAMES, O'R EGLWYS NEWYDD, GER CAERDYDD.

Digon gadd y brawd Iago—ar aros
Mor hir heb ymieuo;
Wele'n awr ei eulun o,
A'i seren i'w gysuro.

PRIODAS D. LL. LLOYD, YSW., PLASMEINI, FFESTINIOG.

Dau ydynt wedi'u dodi—o dan iau,
Dau yn un i'w chodi;
Dau yn un, wrth ei dwyn hi,
I aros, b'ont heb oeri.

I'r ddau boed gwir ddyhewyd—y boed llwydd,
A byd llawn ac iechyd;
Doed iddyn' bob dedwyddyd—
Ior yn ben wrth drin y byd.

PRIODAS DERFEL MEIRION.

Derfel, ar hyd ei yrfa,—a wna wr
Mwyn iawn mi waranta';
Mewn byd dwl, fel mewn bydd a,
Gyda Gwen, fe gydgana.

PRIODAS ETIFEDD DYFFRYN FFRWD, MEH. 1, 1863.

Llawenu fel y llynedd—yr ydym—
Priodwyd etifedd
A benyw wych ei bonedd,
O urdd o waed o hardd wedd.

Os gwelir ein dysgwyliad—ni wrtho
Mewn nerthol weithrediad,
Ar redeg bydd ei rodiad
Ar hyd oes yn llwybrau'i dad.

Mewn tiriondeb heb wanhau—mewn haeledd,
Mewn hwylus gardodau;
Rhoi lle i serch er llesâu
Ei denantiaid wna yntau.

PRIODAS J. H. JONES, YSW., ABERDYFI, A MISS JONES, MACHYNLLETH.

Dau unwyd i gydweini—o dan iau,
Dyna yw priodi;
Bendith Ior, sy'n llywio'r lli',
I'w rhan fel eu rhïeni.

Nid rhyfedd fod ein trefi—yn llawen,
A'u llewyrch mor weisgi,
Mae'r ddau'n fraint, mae'r ddau yn fri,
O lân dwf, i lan Dyfi.

PRIODAS CAPT. JENNER, A MISS WILLIAMS, DYFFRYN FFRWD.

Dwy galon gyda'u gilydd,—yn awr
Sy'n un,—ac un beunydd
Trwy y daith, hyd hwyr eu dydd,
Y b'ont hwy, heb un tywydd.

O dwyn serth, ergydion sydd,—uwch
Clywch y twrf drwy'r broydd:
E gryna hen garenydd
Craig yr Allt fel careg rydd.

Celu llawenydd calon—ni ddylid,
Pan ddel heb hocedion;
Ei rhïaint* yw'r goreuon,
I dylawd, drwy'r ardal hon.

Yn rhwydd mae'i thad yn rhoddi—yn llawen
Lle byddo caledi;
Di stwr yw ei dosturi,
Ef, ran nawdd, yw'n Hifor ni.

* E. Williams, Ysw., a'i briod, Dyffryn Ffrwd, rhieni y briodasferch.

ENGLYNION MARWNADOL.

Y DIWEDDAR BARCH. CADWALADR JONES, DOLGELLAU.

Dyna Gristion daionus—wedi dal
Hyd y dydd yn drefnus;
Pregethwr oedd pur goethus
Glan ei rawd,* gelyn yr us. **rhodiad.*

Geiriau iachus heb eu gwrychu—a geid
Gydag ef i'n dysgu;
Nid oedd ef i'w nodweddu
Yn wr cul farn—oracl fu.

Am un mwy ei amynedd,—a'i synwyr,
Nid oes son drwy'r Gogledd;
Ni ddaeth cyffro i siglo sedd
Ei ddeall hyd ei ddiwedd.

Dysgawdwr drwy'r *Dysgedydd*—a fu ef,
Fel ei brif Olygydd;
Terfynai ddadl—dadl y dydd,
Heb wyrni'n deg fel barnydd.

Gweinidog i'w hynodi—am lewyrch,
Am lawer o deithi;
Ei ddawn ef roddai i ni,
Olynol, ryw oleuni.

Ni fyddai wrth roi feddwl—am esgyn,
Am wisgo rhyw gwmwl;
Drwy'i daith, gadawai i'r dwl
I nofio'n mro y nifwl.

Dilewyrch, ffol chwedleuon—ni fynai,
Neu fan ystorïon:
Na blodau gwyneb lwydion
I "wneud hwyl"—na chanu tôn.

Carai hwyl, os cai'i reoli—yn ddoeth,
Gan ddawn heb ddim ffwlbri;
Nid yr hwyl, os hwyl yw hi,
Yrr annoeth i wirioni.

Heb ing wynebai angau:—ei gred oedd
Yn gry' dan law Meichiau;
Yr oedd e'n cael ei ryddhau
Yn ara'n ei synhwyrau.

Newid gwedd, nid newid gwaith—fu iddo,
O'i fodd âi i'w ymdaith;
Newid lle, er deall iaith
Y wlad sydd yn ddilediaith.

Yn gwywo heb un gwewyr—i'w wel'd oedd,
Fel y dail yn Rhagfyr;
I'w enaid fyn'd i awyr
Heb ddiwedd byd, heb ddydd byr.

Y DIWEDDAR BARCH. MICHAEL JONES.

Colofn heb gynnyg cilio—o dan bwys,
Dan y baich oedd arno;
Gwr o ddysg, cywir oedd o,
Yn rhoi addysg wnai wreiddio.

Pur goeth oedd fel pregethwr—o iawn ddysg,
Heb ynddo ddim dwndwr;
Myfyriai, gweithiai fel gwr,
A thrwyadl fel athrawwr.

Gwyddonwr a ga'dd ei eni—i'w swydd
Yn sir Aberteifi;
Bu yn nerth i'n hybu ni,
Hyd Wynedd, er daioni.

Pan ydoedd penau awdwyr—yn berwi,
Mewn bâr at iach gredwyr,
Dygai ef, a 'chydig wŷr,
Yr oes o law y rhwysgwyr.

I weled y farwolaeth—ar y pren,
A'r prynu dynoliaeth;
A'i gwared o gred a aeth
I ymyl Antinomiaeth.

Daliai ef hyd ei elor—heb lwydo
O blaid gwir egwyddor;
Bywyd iawn, dreuliodd heb dor,
Mwy na mewn mur maen mynor.

Y PARCH. HUGH PUGH, MOSTYN.

Colli gwr call ei goryn—o allu,
Fu colli Pugh, Mostyn;
Bwlch mewn gwlad am gredadyn—
Colled oes yw colli dyn.

Rhai a geir, er rhagori,—na wyddir
Yn hawdd am eu colli;
Mwy na'r dwr ar wàr Eryri,
Neu ddafn o wlaw ar ddwfn li'.

Dyma fwlch diammheu fydd—yn aros
Yn hir heb ei eilydd;
Drwy anmharch a pharch—i'r ffydd
A'i phen bu'n amddiffynydd.

Bu ar y gwaith o bregethu—yn hir,
Pan oedd cryn gybyddu;
Ar lawer taith faith e fu—
A bydolion heb dalu.

Ar ei draed yr ydoedd,—hyd y rhiwiau,
A godreuon cymoedd;
Y nos hir, rai amseroedd,
Eiddil un yn ei ddal oedd.

Llawer o frasder y fro—ni chafodd,
Na chyfoeth i'w helpio;
Nid arian fu'i amcan o
Yn ei waith, na gweniaithio.

Am ei gred ca'dd aml drom groes—am nad ai
Mewn dim o blaid surdoes*; *yhagrith.
Tra honaid* fu trwy'i einioes, *amlwg.
Fel yn wr o flaen ei oes.

Du dwyll gwag draddodiadau,—a'u rhigwm,
A rwygai yn ddarnau;
Ni ddaliai gwŷr yddelw gau
Wasg ryfedd ei ysgrifau.

Nid son am gael gwneud senedd—o ddynion
Feddianent anrhydedd,
A dianc yn y diwedd
Yn wr clyd cyn tynu'r cledd.

Nid eiddo, ffafr, neu dyddyn,—yn ei oes,
Brynasai Pugh, Mostyn;
Ei iawnder, ni chai undyn,
Yn nydd prawf, yn eiddo pryn.

Diboen oedd ei gydwybod—heb un och,
Heb un achos trallodi;
Aeth i'w fedd, ond chwith ei fod
Yn y tŷ clai a'r tywod.

Erys ei egwyddorion,—ni byddant
Hwy mewn bedd dan gloion;
Rhei'ny sydd, drwy'r Ynys hon,
Yn cario dan eu coron.

Os am gael ymresymu—i raddau
Yr oedd wrth bregethu,
Gwresog a bywiog y bu
Drwy ei oes heb rodresu.

Ni bydd am arabeddu—ei amgen,
Nid ymgais, a ffaelu;
Bywyd iach cyfeillach fu,
A'i fwriad am ddifyru.

Nid rhyw araeth faith fethiant—heb un pwynt,
Heb un pen na threfniant,
Na chaddug tew na chwyddiant,
Roes e'n lle bara i sant.

Os nad oedd ran swn ei dant—yn gallu
Gollwng rhyw lifeiriant,
Nid oedd ran ei dueddiant
Am nychu sychu un sant.

Dyn craff heb wastraff heb ystryw—oedd ef
A'i ddawn yn ddiledryw;
Crynodeb cywrain ydyw
Ei waith ef—rhyw emwaith yw.

Nis ceir ond naws cywreinder—heb eithriad
Gan bob athraw sychder;
Gilboa gopa—gwyper—
O dan farn, yw eu dawn fer.

Ni thodda 'u hareithyddiaeth—un galon,
Goleu geir rhyw doraeth;
Ond goleu lloer, oer araeth,
Yn oes neb, pa les a wnaeth?

Y gwanwyn mae'n hin gynhes—daw y myrdd
Flodau mân o'u llooches,
Anian a rydd o'i mynwes
Oleu a grym, gwlaw a gwres.

[Bernir nad yw yr uchod yn orphenedig.]

Y PARCH. JAMES RICHARDS,

Gweinidog y Bedyddwyr, Pontypridd, yr hwn a fu farw Medi 22, 1867.

Duwinydd wedi ei eni—i fod
Yn fawr yn y llwythi;
Rhoddir parch, yn ei arch i
Dduwinydd wnaeth ddaioni.

Mêr o ddawn i' mryrddiynau—a roddes,
A'i wreiddiol syniadau;
A rhoi gwaith, drwy'i bregethau,
Byddai ef, heblaw'n boddhau.

Dyn i Dduw, a dyn i ddyn,—a rhy fawr
I fyw oedd mewn plisgyn;
Am ei hael ysbryd hydyn,* **tractable, hynaws.*
O'i ol ef, ei glod a lŷn.

Y culni digri', a'r dwyn,—adawai
I'r diwerth a'r anfwyn;
Y gwânwr sy'n llawn gwenwyn,
Na fedd ddim o fudd i'w ddwyn.

Nid dyn sect—nid dyn tan sel—ei enwad
Ei hunan mewn cornel,
Oedd—ond gwr hardd am arddel
Yr holl saint mewn rhyw well sêl.*

Ei araeth yn dyferu—fel y gwlith,
Fel y gwlaw wrth draethu,
Am loesion y Cyfion cu,
Trwy ing, ar groes yn trengu.

Dan wên Duw a'i eneiniad,—y pridwerth
Priodol, a'r taliad,
Amlwg ymddrylliai'i deimlad
Weth ddrws iachawdwriaeth rad.

Ac i eraill y gyrai—o rinwedd
Yr hyn a ddwys deimlai;
Yn fôr oll, yn foddfa'r ai,
A miloedd a ganmolai.

Mae rhai yn siarad mor rydd—a'r awel,
Ond rhew yw'r lleferydd;
Talpiau iâ ni phortha ffydd,
Ond eiddilant addolydd.

* Y mae dau ystyr i'r gair sel: un yw argraff â llythyrenau cerfiedig arno, ac a arferir er sicrhad; y llall, o *seal* gwresogfrydedd neu aidd.

At doddi'r oedd tueddiad—ei lais ef,
A'i lwys wych barabliad;
Ac anhawdd fydd cael cenad
I'w roi'n ei le'n marn y wlad.

Eonder a choeg gymendod—oedd ef
A'i ddawn yn ei wrthod;
Ni charai, lle byddai'n bod,
Wagder na choeg 'sgoleigdod.

Na gwag ddawn i goeg ddenu—amenau
Heb ddim yn eu tynu,
Ond gor lais—na dagrau lu
A'r enaid heb ddirgrynu.

Blwch enaint heb lychwino—a fu ef,
Pwy fwy hardd yn rhodio?
A'i arogl yn sawyrio,
Araf frawd, holl lwybrau'r fro.

Hiraeth fydd ar y werin—a hiraeth
Ar wŷr anghyffredin,
Am ei lais a melyswin,
A gwir faeth geiriau ei fin.

Ni roddwyd ond gwan glawr iddo,—rhy wan
I'r enaid oedd ynddo;
Ond, daw'n gryf, o'r tŷ'n y gro,
O'i lesgedd i'w ail wisgo.

Y PARCH. OWEN OWENS, RHESYCAE.

Ow! Owen, Owen, wywodd,—er ei barch,
I dŷ 'r bedd disgynodd;
A'r enaid, pan yr hunodd,
Aeth i'r farn—aeth o'i wir fodd.

Yr oedd ef er bore'i ddydd—o enaid,
A'i wyneb ar grefydd;
Rhyw fanwl ysgrifenydd
O du ffaith—o du y ffydd.

Y PARCH. MR. LEIGH, FICAR EGLWYSILAN.

Bugail oedd heb goleddu—nwyd rhagfarn,
Na drygfost, na chablu;
Troai bawb, drwy'r plwyf, tra bu,
O'n goror ni i'w garu.

Y DIWEDDAR BARCH. ISAAC MORGAN HARRIES, O'R MORFA, SIR FYNWY.

Pregethwr heb bur goethiad,—nac addurn
Er cuddio'i ddechreuad;
Ei eiriau a'i lefariad
Oedd o ryw les—boddiai'r wlad.

Hawdd i'w wel'd oedd gwreiddiolder—ei ddoniau
Dyddanol, a'i ffraethder;
Yr ydoedd, er ei wywder,
Yn dân byw, gyda'i dôn bêr.

Gwyneb ni feddai i gynnyg—esgyrn,
Drwy wisgo plu benthyg;
Un o brofiad heb ryfyg,
Yn ein plith—hollol un plyg.

Nid un wedi diwyno—a golchiad
O galch teneu drosto;
Ond rhuddin—yr un trwyddo,
Wirion frawd, coron y fro.

Y PARCH. JOHN BREESE.

Enwog weinidog Ion ydoedd—at Grist
A'i groes dygai filoedd;
Ei Iawn Ef ei destyn oedd,
A'r lle i'w fawr alluoedd.

Y PARCH. DANIEL JONES O'R TON GWYRDDLAS, GER CAERDYDD, A FU FARW YN 75 MLWYDD OED.

I fy llon gyfaill anwyl—diniwaid,
Y caed newydd breswyl;
Daear wisg, cyn myn'd i'r wyl,
Ddiosgodd heb hir ddisgwyl.

Un oedd o anian farddonol—yn llawn,
Lluniodd gerddi swynol;
Ni adodd ddim niweidiol,
Na dim rhwd yma ar ol.

TEGAI.

Un gwyneb oedd yn ei ganu—a dim
Ond un pan fai'n traethu;
Os yn llawen, â gwên gu,
Un gonest oedd yn gwênu.

Nid gwên dynwared gwanwyn—yn Ionawr,
Gaem yn ein bardd dillyn,
Na gwên deg—'nol gwanu dyn—
Gwyneb i guddio gwenwyn.

Gonest heb genfigenu—wrth eraill,
Wrth wŷr fyddai'n ffynu,
Rhoddi i bob bardd—i bawb bu
Y gair oedd yn gwir weddu.

Nid mawl er cael mawl mulod—roddai ef,
Heb radd o deilyngdod;
Gadawai glecai gau glod
I wehilion diwaelod.

I anal y dyn hwnw,—aml ei bwff,
Genmyl bawb am elw;
Nid ai'n bardd—na'r dyn â'i "bw!"
Isela bawb o sylw.

Addysg i gyfansoddi—a roes ef
I res hir aneiri';
A thrin iaith a'i rhanau hi,
A'i bêr ddawn a'i barddoni.

Rhoes addysg heb droseddu—ar iawnder
Undyn wrth bregethu;
Trwy wan fost wirion, ni fu,
Ar y maes yn gormesu.

Mynegai, mewn mwyn agwedd,—yr hyn oedd
Ei farn am wirionedd;
Casai'r pigog, guchiog wedd,
A chul ddyn a childdanedd.

Gwr oedd a'i serch yn gwreiddio—a chyfaill
Na chafwyd hollt ynddo;
Dyn trwm na welwyd un tro
Un sail fod eisiau'i wylio.

GLAN ALUN.

Yn nheilwng waith Glan Alun—ceir yni,
Ceir enaid ei destun;
A rhyw berl oedd bob arlun,
Dd'ai o'i law, o'i ddelw'i hun.

Dynwared dawn, neu eiriau—goreurog,
Gwŷr ereill, a'u blodau,
Ni allodd—mae'i linellau
Yn bur oll, ac i barhau.

Diwael wir deimlad awen—oreudeg,
Sy'n rhedeg yn elfen,
Yn ei waith fel gwlith y nen
Ar aeliau blodau'r heulwen.

Canai a holl acenion—ei fydriaith
Fedrai'r ffordd i'r galon;
Ac ar ruddiau llanciau llon,
Yn ei glyw, ddafnau gloywon.

Ar ei wal, yr awelon—a'u sawyr
Fo'n suo'u halawon,
Ni ddaw yno, i friwio'i fron,
Fwy o ol trwm ofalon.

ALAW GOCH.

Wele arwyddion galar—a gyrchwyd:
Mae gorchudd anhawddgar,
O dew gwmwl digymhar,
A braw dwfn dros Aberdar.

Wyla ei wraig o alaeth,—na welodd
Un o'i ail, ran hiraeth;
Ei blant a wylant o aeth,
O weled ei farwolaeth.

Wylo am un o'r haelion—a welir,
Wylo wna y tlodion;
Deau law yr ardal hon,
O'i fawredd aeth at feirwon.

Wyla yr awen ddilon,—am Alaw,
A mil o gerddorion;
Ar ei ol ef, a'i fydr lon,
Dde law'r bardd, wyla'r beirddion.

Pa wr, ïe, pwy eroch,—yn ei oes,
A wnaeth gymaint drosoch?
Ar ei ol, wedi'r eloch,
Wylo geir am Alaw Goch.

EBEN FARDD.

Dyna Eben wedi nabod—augau,
Heb ing na dychryndod;
Iach yr aeth, goruwch y rhôd,
I ardal gwir fyfyrdod.

Yma, edrych fel mydrydd—yr ydoedd,
Ar aden darfelydd;
Ond yno mewn dywenydd—
Wedi'i daith ca'dd wlad y dydd.

I weled anfarwolion—yn fil myrdd,
Fel y maent yn union,
Yn ngwyliau yr angylion
Uwch yr haint sy yr ochr hon.

Ei awen ef sy'n nofio—mewn awyr
Mwy newydd heb flino;
Dyna fraint awen y fro—
Cân yr Oen cenir yno.

Yr oedd iaith er bore ei ddydd,—a'r wisg,
Yn rhwystr iddo beunydd;
Ond yno rhoi aden rydd
Wna'n awyr y gân newydd.

GOLYDDAN.

Nid marw ydyw myredd—Golyddan—
Fe gladdwyd ei lesgedd;
Mae e'n morio, mewn mawredd,
Uwchlaw'r byd a chloiai'r bedd.

Rhy wan i'r mawr awenydd—oedd y wisg
Ddiosgai mor ufydd;
Aeth adref, a doeth edrydd
Hynt ei daith wrth blant y dydd.

Golyddan a'i gwel heddyw—oll yn iawn,
Mae'n llawn nwyf diledryw;
Dyn yn adwaen Ion ydyw—
Un o feirdd bro tangnef yw.

Awdwr rhy danllyd ydoedd—i fod ar
Rhyw fyd is na'r nefoedd;
A brawd i'w phrif ysbrydoedd,
Ar eu ffurf—rhyw seraff oedd.

Nid coron wedi curo—llu o feirdd,
Llai o faint, mae'n wisgo;
Ond un uwch a edwyn o,
A haeddodd Iesu iddo.

Yn y llwch, ei lwch a lecho—is ael
Y graig serth sydd wrtho;
Hyd y farn, gwarcheidwaid fo,
Na welir, yn ei wylio.

MEURIG EBRILL.

Nid marw ydyw Meurig,—wedi myn'd
Y mae er's ychydig,
A gado'r corff gwywedig
Ar ei dranc, yn lle'i hir drig.

Mae ei enaid mewn mwyniant—yn lleisio
Yn llys y gogoniant:
Uwch y rhod y chwery'i dant
A'i delyn aur heb doliant.

Gwna ei awen gân newydd—o uwch urdd
A chwaeth nag fel prydydd;
Enaid ei fawl ganiad fydd
Ei goronog arweinydd.

Un o bęn Annibyniaid—y dydd fu,
Pan nad oedd fawr ddeiliaid;
Efe'n gefn ëofn a gaid
I gynnal brodyr gweiniaid.

Nid hawdd iawn oedd tueddu—rhai i roi
Fawr o'u rhad* pryd hynu; *favour.
O drachwant, dan ymdrechu,
Troai cnawd at wŷr y cnu.

Ei egwyddor gyhoeddai,—gwirionedd
Yn gryno a bleidiai;
Dyrnod ar bechod a bai,
I'w wraidd, drwy'i oes a roddai.

Tyllai grys rhawn y twyllwyr,—â'i fflangell,
Craff flingai rhagrithwyr;
Dygai i warth daiog wŷr,
Trwm ysai frwnt ormeswyr.

IORWERTH GLAN ALED.

Mae Iorwerth gyda'r meirw,—yr oedd ef
O wir ddawn a sylw;
Yn mhlith beirdd—dewrfeirdd o dw'
Sai' ei hanes a'i enw.

Wyla rhai am ei weled,—a wylir
O'i ol am ei glywed;
Bydd lluoedd, luoedd ar led,
Yn wylo am Lan Aled.

Ei araeth oedd ddifyrus—a'i lwythog
Ddarlithiau'n fawleddus,
A'i fawr waith heb fawr o us—
Gwaddod, na chwaeth dramgwyddus.

Ei fywiog gân oedd fwya'—dianglod,
A'i englyn oedd gloffa;
Ond o'i holl ganeuon da,
Ei bryddest oedd bereiddia.

Cynharol aeth cyn oeri—ran ei ddull,
Ran ei ddawn barddoni;
Ei awen ef a'i swyn hi
Ni chawn byth mwy'n gwreichioni.

Sai' enw i Lansanan—o herwydd
Y toraeth droes allan
O wir feirdd—nid rhai rhy fân;
Rhai dynwyd o gryd anian.

Si yr Aled siriolai—y dynion
I'w denu fel llatai
At yr awen, nes troai
Dau'n feirdd llawn, ond dau'n feirdd llai.

A duwinydd gaed yno—ar ei min,
Sydd yn wr mawr drwyddo;
Pa sut, mewn pump oes etto,
Wŷr o fraint, a ddaw o'r fro?

Ac yma'r gwyll Cymreig a aeth—ar gil,
I'r Gair gael uwchafiaeth
Ar bob coelion—coelion caeth,
Yn awyr hyll annuwiaeth.*

* Yr enwogion y cyfeiriwyd atynt yw Hiraethog, Iorwerth, R. Jones, R. Dafydd, Henry Rees, a William Salsbri.

SION WYN O EIFION.

Trwy wywder aeth y trydydd—o feirddion
Cyfarddal Eifionydd,
I aros y pedwerydd,
Wr o ddawn, sy'n hwyr ei ddydd.

Ond er i'w dŷ daearol—ymollwng,
Mae'i well mewn bro nefol;
Ei rydd awen wir dduwiol,
Yn ei waith Ef wnaeth ei hol.

Ei ganau a ddatgenir,—y mwynion
Emynau a berchir;
Yn oes haul ni iselir
Dim a wnaeth—mae'n dwym yn wir.

Os na chafodd ef foddion—er esgyn
Gyda rhwysg prif feirddion,
I ddwyn serch, yr oedd yn Sion
Ar gawri, rai rhagorion.

Ni ddaeth hud golud i'w gell,—ond ni bu
Dan boen a chorff musgrell,
Heb wybod, yn ei babell,
Am wel'd gwawr, am olud gwell.

Gall huno yn ei gell lonydd—o gyrhaedd
Pob garw flin dywydd;
O'i boenau—ar obenydd
Y bedd oer—aeth heibio'i ddydd.

PUM' BARDD EIFIONYDD.

Gwr y Betws, a'r Gaerwen—sy'n huno,
A Sion Wyn, ac Eben;
Adwyth byd! a daeth i ben
Dlws wëad Elis Owen.

COFFADWRIAETH

Am y diweddar Mr. John Jones, Argraffydd, Llanrwst, (Pyll Glan Conwy), yr hwn a fu farw Mawrth 29, 1865, *yn* 79 *mlwydd oed.*

A! Conwy,* un o'r ceinion— a gollaist, **afon Conwy.*
Aeth i gell y meirwon;
Ni rodia, tra tyrfa tòn,
Er dy fwyn, ar dy finion.

Dy lanau, ddwfr dolenog,—dy fronydd,
Dy fryniau clogwynog,
Dramwyai:—canai fel cŏg,
Ar y ddol, gerdd ddihalog.

Fe aned ar dy finion,—niferi
Fu'n fawr fel llenorion;
Cryf yw y serch, lanerch lon,
Sy ynwyf at dy swynion

Yna gorwedd un a gerais,*—a brawd†
O'r un bru a gleddais;
Yna gwr dihunan gais,
O'r callaf, yn awr, collais.

*Gwraig gyntaf yr awdwr. †Ei frawd o Ddinbych.

1 achos y Goruchaf—bu'n noddwr
Beunyddiol i'r eithaf;
Ei wraig ef a hir gofiaf,
Un o'i gwell, pwy yna gaf.

Ei onestrwydd heb un ystryw,—cofir
Fel cyfaill diledryw;
Ei haeddiant, ar ol heddyw,
Er yn ei fedd geir yn fyw.

Cyfaill oedd ef yn cofio—yn haelwych,
Os gwnelid dim erddo;
Nid ei hun oedd ei nod o,
Ond eraill pan f'ai'n daro.

Delw yr anwadalion,—ni wisgai,
Sy'n esgus cyfeillion;
Nid oedd, gan ei dueddion,
Le i frad, dan ei syml fron.

Ei arabedd diarhebol,—ei swyn,
Ei synwyr naturiol,
Hynaws wr—ei wên siriol,
A'i fawr werth, gofir o'i ol.

Ni welwyd am fanylu—ar reol,
Ar awen beirdd Cymru,
Yr un gwell o ran gallu,
Gwr o iawn farn, G'ronwy fu.

Nid gau rigyman gwamal,—diyni,
Dienaid, digymal,
Na swn cynghaneddion sâl,
A oddefai'n ddiofal.

Ond meini hardd, dymunol,—a hoffodd,
O braffwaith gorchestol,
Yn fur, yn ngrym anfarwol,
Pena'r iaith, heb bin ar ol.

Yr hyn a wnaeth, cywrain yw,—nid anglef,* *tworf.
Ond englyn diledryw;
Lluniadol gynllun ydyw;
Yr oedd yn fardd awen fyw.

Cael ambell linell o'i law—ro'i elwch,
Siriolai ddyn trwyddaw;
Gair o'i gell dywell nis daw,
Mwy i'n hanerch,—mae'n hunaw.

Och! archoll, fy holl gyfeillion—henaf
Sy'n hunaw'n mhlith meirwon;
Nifer fach, o henafion,
Etto sydd,—waeth tewi a son.

I'r fynwent yr af finnau—i orwedd,
Fel eraill o'm tadau:
Oer ddillad y priddellau
Fydd y wisg, rhaid ufuddhau.

LEWIS LLOYD, YSW., RHYL,

Yr hwn a fu farw Gerphenaf 6, 1861, *yn* 65 *mlwydd oed.*

Lloyd anwyl, ei wel'd unwaith—garaswn,
Y gwresog gydymaith,
Cyn tramwy, cyn troi ymaith
O Ryl deg, i'r ola' daith.

O wir wythieni ffraethineb,—Lloyd
Oedd lawn hyd ddiareb;
Nid un yn dwyn dau wyneb
Allan oedd—ni thwyllai neb.

Yn awyddus bu'n noddi—yr achos
Goruchaf mewn cyni;
Hwn i fraint, bydd iddo'n fri,
Dygai Lloyd o galedi.

Lluon o weision Iesu—yn ei oes
Fu e'n eu croesawu,
A'i briod fwyn, brid a fu
Yn ei anog dan wenu.

MRS. GRIFFITH, CHWAER S. R. A J. R., A MAM "GOHEBYDD," LLUNDAIN.

Mam anwyl heb ddim ymhôniad—oedd hi,
O ddeall a phrofiad;
Un wedd, a thuedd, a'i thad,
Yr oedd 'run ymarweddiad.

Tŷ llawn—croesaw llawn a llonydd—a geid
Gyda Mrs. Gruffydd;
Di boen y ffrydiai beunydd,
Yn ei wres, o galon rydd.

Mam dda, hoff am amddiffyn—yr achos
Goruchaf i'w therfyn;
Gwel pawb o werth sy'n perthyn,
Adwy o'i hol wedi hyn.

Ar ei haelwyd rheolai—â maindant
Ei mwynder gorchfygai;
Ar ei hynt, yn mhob lle'r âi,
Dylanwad a'i dilynai.

Y DIWEDDAR EVAN EVANS, YSW., CAERFFILI.

Yn Morganwg mawr gwynion—a glywir,
Mae'n gla' am ei meibion,
Dyma un o'i phlant mwynion—
Mawrhawr beirdd—Cymro o'r bôn.

Gwladwr oedd, ei glod a red—drwy y wlad,
Oer loes oedd ei fyned;
Ni fu gwr oedd fwy o ged,
Na'i gallach—Ow! maen golled.

Mae'n eisiau fel cymwynaswr—ei oes,
Pwy'n ail fel heddychwr?
Nid aml iawn cawn mewn un cwr
Ei fath fel hynafiaethwr.

Iddo pob man, Llan, a llys,—a'r bonedd,
Arbenig oedd hysbys;
A chroniel achau'r Ynys
Fel yn fyw, ar flaen ei fys.

Nid yw golud ond gwaeledd—wrth enw,
Wrth ennill anrhydedd;
Ni ddaeth e' i lawr o'i fawredd,
Er yn fud, mawr yw yn ei fedd.

PLANT MR. T. GRIFFITHS, KING'S HEAD, CAERNARFON.

Gyda ei bod gwedi byw—i nabod
Wynebau ei chydryw,
At Waredwr—tŵr ydyw,
Mary aeth—nid marw yw.

O ochr y dwr, ei chwaer dirion—welai
Olwg ar fryn Seion,
A'i henaid aeth yn union
I wlad well uwchlaw y dôn.

MR. W. GRIFFITH.

Bu farw Awst 25, 1847, *yn* 47 *mlwydd oed.*

Gwr hoff oedd William Gruffydd,—er hyny
Cai ei rân o dywydd;
Etto, ai dano, bob dydd,
Yn gryfach yn ei grefydd.

PLANT MR. MORRIS GRIFFITHS.

Siom ydoedd y symudiad—i'w rhïaint,
Mawr waew i'w teimlad;
Ond ar ben mae dirboeniad
Y ddwy lwys, mewn newydd wlad.

Eu gweled gyda'u gilydd—ryw fore
Geir, ar fyr, o'r newydd;
Pynciant, chwareuant yn rhydd
Delynau'r ardal lonydd.

ENGLYNION

Ar farwolaeth Mrs. Anne Thomas, priod Mr. Evan Thomas, Nantgarw, ail ferch Mr. a Mrs. Thomas, Dyffryn isaf.

Anne hynaws, gwna ei henwi—yru brwd
Ddagrau bras i golli;
Anfynych mae dan feini
Un i'w chael o'i mwynach hi.

Y ddau faban gwan bu'n gweini—iddynt,
A'u tad oedd ddoe hebddi;
Hwy basient—y ddau bwysi,
Heb eu mam, heibio i mi.

Hi 'n y bedd, ni wybyddodd—eu hynt hwy,
Mae'r helyntion drosodd;
A'r gofid hir a gafodd,
O'i chorff hi, a'i chur a ffodd.

Ardal lân aur delynau—oedd y fan
Iddi fy [illegible];
H[illegible]
At Grist—mae [illegible] trugar[illegible]

MR. JOHN ANWYL, LAWNT, DINBYCH.

Yn awyr ei ganeuon—dyferai
Difyrwch i ddynion;
Ni wnaeth, fel rhai annoethion,
A bâr friw, i'r bura' fron.

Er ei fod o naws rhy ŵyl—i wneuthur
Awen-waith fel gorchwyl,
Awen oedd, yn ei llawn hwyl,
Yn enaid Ioan Anwyl.

MR. WILLIAM THOMAS, O'R GELLI, GER Y GROES WEN.

Bu farw Medi 6, 1864, *yn* 25 *mlwydd oed.*

Ow! William, mwy ni welir,—aeth i bant
Noeth y bedd a'r cleidir;
Ei dŷ—man lle'i gadewir,
Gwisga nos—fe gysga'n hir.

Ni chyrhaedd llais, na cherdd llu—yr adar
Ehedant o'i ddeutu;
Na chân saint glân—y gân gu,
Hyd wybren, i'w ddadebru.*

Ni wêl ei fam yn wylo—wrth ei fedd,
Wrth y fan mae'n huno;
Ei hochenaid uwch hôno,
Na'i huchel lef, ni chlyw o.

Ochenaid ry drom i'w chynnwys—a fu
Wrth y fan lle gorphwys,
Gan ei dad, drwy egni dwys,
Am ei gall William gollwys.

I'w chwiorydd bu'n chwerw,—a'i frodyr,
Fe red dagrau gloyw,
O herwydd iddo farw;
Ei ôl wnaeth eu deigrli' nhw.

* Y mae ei fedd wrth dalcen capel y Groes Wen.

BABAN MR. T. THOMAS, BRON DYFFRYN.

Bu farw Mawrth 1, 1859, *yn* 12 *mis oed, ac a gladdwyd yn mynwent y Groes Wen.*

Mygys, pan wrth ymagor,—y gwywa
Blodyn gwan cyn tymhor,
Gwywodd ef—ond dygodd Ior
Ef i araul nef oror.

Uwch yr haul y chwery ef—ei delyn
Yn ardaloedd tangnef;
Mor ganaidd yw'n mro gwiwnef;
Angel yw'n awr yn ngwyl nef.

Ei dyner lwch dan oer len—sy'n agos
I enwogion trylen;
Dyddorawl lwyd ddaearen
A gâr y saint yw'r Groes Wen.

ELIZABETH ELEN, MERCH Y PARCH. D. JONES, B.A. CAERDYDD (ABERTAWE YN BRESENOL).

Ow! golli un oedd can galled,—a'i myn'd
O'i mwynder can gynted;
Dagrau pa ruddiau na red,
O ol un can anwyled?

Hir siomiant am ei rhesymau—heb rif,
A brofwch flynyddau;
Para i ddod, er eich pruddhau,
Iö'n hir, wna'i mwyn eiriau.

Am egwyl gwnewch ddychymygu—ei bod
Yn byw ac yn traethu
Ei chwedl fach, hyawdl, a fu
Adferawl i'ch difyru.

Wedi hyny dadhunwch—o freuddwyd,
Fu i radd yn elwch;* *joy.
Wrth gofio'r lle—lle y llwch,
Ei dwyll i gyd deallwch.

Nid oes un man dewisol—i'r meddwl
Er maeddu poen ysol,
Ond coffa na ddaw hi'n ol
I ing, o le diangol.

MR. DAVID THOMAS, COACH & HORSES, BETHESDA, A FU FARW MEDI 19, 1862, YN 60 MLWYDD OED.

Dafydd o ganol d'ofid—diengaist
O dy ing a'th wendid;
Y mae dy ran, mae dy wrid
Dan wywo wedi newid.

Y gwyneb welais ganwaith—ni welaf,
Yn ol ni ddaw unwaith,
Ni chlywaf, o cheisiaf, chwaith
Ei sylw na'i lais eilwaith.

Cristion heb ddim naws croesder—oedd Dafydd,
A'i dwf yn ffrwythlonder;
Addfedodd ef a'i hyder
Ar iach sail goruwch y ser.

Ow! gyfaill serchog ufudd—parod iawn
Bob pryd oedd dros grefydd;
Trallod am ddarfod ei ddydd
A oddefaf am Ddafydd.

MRS. OWEN, SOAR.

Er dwyn eich priod anwyl—drwy angau,
Dringodd i'r nef breswyl;
Uwch heuliau mewn uchelwyl
Mae'n awr, a'i thelyn mewn hwyl.

Cenfydd Waredydd rhadol—fel y mae,
Mae'n fil mwy dymunol;
Ni ddeuai, fenyw dduwiol,
Am un awr, yma yn ol.

O Soar i fynydd Seion—'hedodd,
Mae gyda'i chyfeillion;
Yn addoliad y wlad lon
Ni welir annuwiolion.

Pawb yn un—pob un anwir—aflonydd,
O'r nef lân a gedwir;
Ni fyn Ion ond gweision gwir,
Na chwiorydd na cherir.

MERCH MR. WM. COSLETT, *(Gwilym Elian)*, GROES WEN.

Bu farw yn flwydd ac un mis ar ddeg oed.

William, ni ddaw'ch anwylyd—yn ei hol,
Na wylwch o'i phlegyd;
Cerub yw, uwch cur bywyd,
A'i wên a'i boen—gwyn ei byd.

Wele un o'r miliynau—o'i chyfoed
Ddyrchafodd at seintiau;
O'i farwol lwch, rhyw forau,
Daw ei chorff, wedi'i iachâu.

Ai hi yno ei hunan—a adewch?
Ai nid yw ei glwysgan
Ar roi awydd goroian* **listening.*
Ynoch chwi?—mae'n fwyn ei chân.

Cân addas roes cyn heddyw—am y gwaed,
Am Geidwad rhag dystryw;
Yn nhŷ ei Dad,* nid ydyw
Alaw'n faich† ar delyn fyw.

*Yn nhy fy nhad y mae llawer o drigfanau, Ioan xiv. 2. † The flowing of harmony.

MRS. JANE MATHEWS.

Daearwyd menyw dirion—hygar oedd
I'w gwr ac i'w meibion;
Ufuddhau i grefydd Ion
A'i choledd wnai o'i chalon.

MR. JOHN DAVIES, VICTORIA STREET, MERTHYR, YR HWN A FU FARW MEDI 26, 1861.

Ioan Davis, o'i lawn dyfiant—dorwyd
I'r bedd heb fawr seibiant,
Hwylus dôn ar felus dant,
A gana mewn gogoniant.

Yr oedd yn cryf arwyddo—byw yn hir,
Heb un ol nych arno;
Ond angau llwm, trwm y tro,
Chwith ornydd chwythai arno.

Halogrwydd oedd heb ei lygru—mal mae
Mil myrdd o blant Cymru;
Ffyddlon ofalon a fu,
I'w fanwl ddwyn i fynu.

A welwyd ei siriolach—o anian,
Neu un o'i ffyddlonach?
O'i ol pwy geir fanylach,
Etto byth, gyda'r plant bach?

HANNAH STEPHEN,

Merch y diweddar Barch. D. Stephen, Rhyd Felen, ger Pontypridd, yr hon a fu farw Mai 20, 1859, *yn dair blwydd a chwe' mis oed.*

O, wir ofid! nid rhyfedd—yw gweled
Galar yn eich annedd,
A'ch Hannah bach yn y bedd,
Dan gareg lwyd yn gorwedd.

ER COF AM ELEN,

Merch y Parch. Owen Jones, Manchester, a fu farw Mawrth, 1, 1857.

Elen fwyn y lân fenyw,—er ein cur,
O'n cyrhaedd sydd heddyw;
Ond, o'i hol, ei pharch nid yw
Lai ei nod—cyflawn ydyw.

MR. JOHN EVANS, CAERNARFON,

Diacon am flynyddau yn eglwys Pendref a Salem, a blaenor y gân.

Dihoced fel diacon—y bu ef,
Heb un yn fwy ffyddlon;
Hiraeth, sydd yma'r awrhon,
Am ei lais yn nheml ei Ion.

Awst, 1868.

MAB Y PARCH. E. C. JENKINS, SALEM, A FU FARW YN RHYFEL AMERIG.

Er mai ar dir Amerig—yr hunodd
Y rhan oedd lygredig,
Ei enaid aeth uwch ofn dig
Y mud farch coch ffromedig.

Nid udgyrn a nad adgas—rhyfelwyr
O filain alanas
Heddyw glyw, na thrin cledd glas,
Neu gwymp rhai'n friw o'i gwmpas.

Trueni i wr tirionol—a hanodd
O rïeni duwiol
Roi y nerth na cheir yn ol
I'r fyddin—mae'n rhyfeddol.

Y mae'n ergyd y mae'n oergur—a nych
Anochel i'w natur,
Yr hyn a'u gwân—pery'n gur
A ddeil o hyd yn ddolur.

Wrth ei gu ganu'n ddigynwr—a'i gael
Yn goeth fel orefyddwr,
Ni thybid y gwelid gwr
O'i alwad yn medd milwr.

Ond os oedd y dewis wr—i feirwon
Fu farw'n Waredwr
Iddo'n deyrn, iddo yn dŵr,
Moliant rydd nid fel milwr.

JOHN JONES, YSW.,

58 *Gibson Square, Llundain, yr hwn a fu farw Chwef.* 15, 1868, *yn* 74 *mlwydd oed.*

Mewn oes, fel cymwynasydd—ni fu un
O'i fwynach drwy'r gwledydd;
Llaw a chalon radlon, rydd,
I'w gweled gyda'u gilydd.

O'i eiddo rhoi heb haeddiant—yn dirion,
Nid er cael gogoniant,
At bob peth da heb fethiant;
Rhoi o serch fel cywir sant.

O ochr heddwch a rhyddyd—yr oedd ef
Yn gwir ddal drwy'i fywyd;
A'i ddyfal gais oedd hefyd
I yru bost cledd o'r byd.

MRS. SARAH PROTHERO,

Priod Mr. William Prothero, Groes Wen, bu farw Meh. 2, 1868.

Sarah fwyn sydd is oer feini,—wir chwaer,
Er mor chwith bod hebddi;
Uweh y llaid mae'i henaid hi,
Glaniodd yn mrò'r goleuni.

Ei thalent yn ei theulu—oedd ddyfal,
Oedd i'w hefelychu;
Gyda'i chrefydd, beunydd, bu
Heb roi achos i'w nychu.

Digio wrth ei chym'dogion,—nid allai
Un o'i dull mwyneiddlon,
Cafodd, am hyn mae cofion,
Amryw wledd drwy'i thymhor lon.

Yn ei hanhwyl o'i hwyneb—un dwthwn
Nid aeth ei sirioldeb;
Ei hofn ydoedd, fyw nodeb,* **characteristic.*
Pan yn wan, rhag poeni neb.

Rhyw niwl ar seren olau—a chaddug
Gorchuddiol yw angau;
Chwelir y dwl gwmwl gau,
I feirwon byd ryw forau.

Daw hithau gyda y doethion,*—o'r llweh **Dan. xii. 3, 4.*
A'r llaid dan ei choron;
Ddaear—bydd hawddgar i hon,
Hyd adferiad dy feirwon.

Dyma'r ail Sarah siriol*—a guddiwyd
O'n gŵydd gan fedd marwol;
Ni adawent, rai duwiol
Er gwall hir, eu gwell o'u hol.

A welant hwy eu gilydd—yn y ne',
Yn yr ardal lonydd,
Ynte'u croew sylw sydd
Ar wyneb yr Arweinydd?

Hunwch nes deffry anian—a'i miloedd,
Eich melus hûn allan;
Gofal eich gwŷr fydd gyfan
Etto mwy am y plant mân.

* Mrs. Thomas, Ty'nywern. Dwy gyfeilles serchus yn eu hieuenctyd.

MRS. S. THOMAS,

Anwyl briod Mr. Thomas Thomas, Ty'nywern, ger Pontypridd.

Mam anwyl, am ei mwynach—ni holwn,
Ni welir ei challach;
Ni ddychwel—mae'n fyrdd iachach—
Yma'n ol—mae mewn man iach.

Bu beunydd ei babanod—yn destyn
Ei dystaw fyfyrdod;
Parhaodd hi, fel priod,
Heb un nam, hyd ben y nôd.

Yn ol mae rhai anwyliaid—ac eraill,
Uwch cur, yn nef ddeiliaid;
Thomas bach* yn iach a wnaid,
Ac felly y gefeilliaid.†

Er mor laith, ac er mor lwyd,—yw oer barth
Tŷ'r bedd, nes creu arswyd,
Etto gwawr ar y tŷ gwyd—
Gwawr hael drwy'r Gwr a hoeliwyd.

I fyny yn gyflawnion—y dringant,
Rhwng torf o angylion;
Uwchlaw'r ser ni chlywir son
Am alar na dim olion.

Ar alwad y Penrheolydd—ei Duw,
Gadawai'r blin dywydd;
Heddyw'n Nghanaan rhodia'n rhydd,
Hyd lânau'r ardal lonydd.

*Ei mab cyntafanedig, a gladdwyd o'i blaen hi. †Y gefeilliaid, a gladdwyd ar ei hol.

ANNE JENKINS,

Merch Mr. Thomas Jenkins, Taff's Well Station, bu farw Ion. 13, 1861, *yn* 14 *mlwydd oed.*

Dan y gŵys mae blodyn gwan—yn llechu
Yn y llwch a'r graian;
Wedi'r rhew, cwyd yr huan,
O'i farw lwch, ef i'r lan.

Blodyn heb gwbl ledu—ydoedd Anne,
Diwedd oes gyfarfu;
Rhoed hon, yn y beddrod du,
A'i gwanwyn yn min gwenu.

Ond daw o eigion tywod—ar ol hyn,
Ei marw lwch isod,
Fel y lloer wen fel lliw'r od:—
Addurnir ef ryw ddiwrnod.

Rhy anhawdd idd' ei rhïeni—beidio
Bod yn brudd am dani;
Naturiol iawn yw tori
I wylo ar ei hol hi.

THOMAS WILLIAMS, WAUN GLEDR.

Blaguryn heb gwbl agoryd—wywodd
Awel angau nychlyd;
O'i fawr boen aeth ef o'r byd,
Diweddai mewn dedwyddyd.

Heb weled fawr helbulon—neu ofid
I anafu'i galon,
Ei enaid ar amnaid Ion
Ai i gyrhaedd y goron.

COLLI PLENTYN.

(Cyf.)

A ydyw'r nef yn gwel'd y dagrau hyn
Dywallta'r fam uwch ben ei phlentyn gwyn?
Ydyw y mae, o'r nef disgynai'r saeth,
A'r nef a all wellhau yr archoll wnaeth.

ENGLYNION

I'r Parch. Henry Oliver, B.A., Casnewydd, a'i Briod, ar farwolaeth eu baban Sarah Anne, yn 15 *mis oed.*

Un naws oedd ei heinioes wan—â blodyn
Heb ledu fawr allan;
Bywyd ga'dd derfyn buan,
Is y rhod, yn Sarah Ann.

Ond yn awr i fan dynerach—mudodd,
Ni ymedy bellach;
Mae weithian yn esmwythach,
Heb ôl loes—y mae'n gwbl iach.

Yn ngwyliau yr angylion—emyna
Ei mwynaf bennillion;
Rhydd foliant, ar dant, ar dôn,
I'r Gwr a wisga'r goron.

Heddyw mae'i chorff mewn llonyddwch—nad all
Un dim dori'r heddwch;
Nef wylwyr, na ofelwch,
Wylia'i llaith wely a'i llwch.

Yr oll gewch chwi'n eich trallod—yw wylo
Ar sel ei hoer feddrod;
Ac â deigr, rif rif yr ôd,
Eneinio y fan hynod.

Ond na adewch i dònau dwys—a'u llwyth,
Eich llethu'n ddiorphwys,
A Sarah Anne, ar làn lwys,
Yn rhodio yn mharadwys.

Y DIWEDDAR O. O. ROBERTS, YSWAIN.

Meddyg oedd yn deall moddion—gwelliant,
Pwy gallach yn Arfon?
Ië, pwy, o Fynwy i Fon,
Ragorai ar y gwron?

Ymlyniad y wlad lydan—oedd o werth,
Oedd wrtho drwy bobman;
Clefyd, afiechyd, i'w fan
Olrheiniai—chwiliwr anian.

Natur oedd—a dyn trwyddo—ddeallai
Wir ddull rhai ai ato;
A'i gynghor dieisor o
Yn werth ymlynu wrtho.

I dlawd gwan, aml ran a roes,—rhoi gynghor
Rhag ing a phob gwaewloes;
Fe wnaeth les gwir, drwy hir oes,
Beunydd at achub einioes.

Ei eiriau oedd ddiareb,—ei dymher
Oedd dwym llawn sirioldeb;
Diweniaith a dau wyneb;—
Lles a wnai—nis llysai neb.

Trwy Wyndud, ran tiriondeb—diysgog,
A dysg, a gwroldeb,
Ni fu'n ol—yn ol i neb
O ddynion ddoi i'w wyneb.

Yr un peth o ran eu parch—y gwelai
Y gwych a'r gwael gwiwbarch,* **worthy of respect.*
Ac ef a fyddai'n cyfarch
Gwr a mul fel gwr a march.

Dyngarwr o'r dawn goreu—i chwilied
I chwalu llochesau,
Er oes hir, a fu'n brasâu
Twyllwyr sy'n hoffi tyllau.

Rhagrith a'i felldith a'i falldod,—ei dwyll
A'i deg wyneb gosod,
A fu'n hir iddo fe'n nôd,—
Gwelai drwy dwyll i'r gwaelod.

Fflangell ar ewingraff flingwyr,—ffrewyll
Gyffröus fu ar dwyllwyr;
Dychryndod,—wermod i wŷr,
Drwy y wlad, o erlidwyr.

Nid ydoedd heb ei wendidau,—nac oedd;
Nac heb ei rinweddau;
Hael un oedd, am flynyddau,
Carai'r gwir, ond curai'r gau.

Ow! gyfaill, mae ei gofio—yn gweini
I gannoedd, dan deimlo,
Ac i rai sydd yn y gro
O nheulu 'n ei anwylo.

Ar ael ei fedd yr wylir,—a chwynion
Och enaid a glywir,
Gan bob Cymro—Cymro gwir,
Drwy Wynedd, ond yr anwir.

Ar ol ei lafur helaeth—i noethi
Nythod llygredigaeth,
A gweini meddyginiaeth,
Er budd i'w oes—i'r bedd aeth.

ENGLYNION BEDDARGRAFFIADOL.

BEDDARGRAFF.

Dyfod wna pawb i'r dufedd—o ganol
Gogoniant a mawredd;
Prudd fan ydyw y pridd fedd,
Mor dywyll y mae'r diwedd.

BEDDARGRAFF GWR O GYMRU, A FU FARW YN YR AMERIG DRWY DDAMWAIN.

Yn Arfon cychwynai'i yrfa,—lle mae
Llu mawr yn ei goffa;
Wedi ei ddod i'r wlad dda,
Trwy ddamwain y trodd yma.

BEDDARGRAFF DYN IEUANC.

Rhy anhawdd oedd i'w rieni—beidio
A bod yn ei hoffi;
Eu hiraeth nid yw'n oeri,
Ar ei ol er dagrau ri'.

MR. PETER EVANS, ARGRAFFYDD, CAERNARFON.

Gwel fedd un am gelfydd-waith—awenydd
Na fu'r un mwy perffaith;
Gwladwr heb hug o lediaith,
Cywir oedd, yn caru'i iaith.

BEDDARGRAFF MRS. MARY GRIFFITH.

Duw oedd ei grym, cododd y groes,—o'r byd
A'i fawr boen aeth eisoes;
Un hynod fu'n ei heinioes,
Y mawr waith wnai'n moro'i hoes.

Y BEDD.

Wedi huno, daw enyd,—i godi
A gado'r bedd priddlyd;
Gwŷs geir, o gŵys y gweryd,
Ddydd barn, ar ddiwedd y byd.

Diweddiad annedwyddwch—yw y bedd
I bawb gadd wir heddwch;
Lle o nawdd a llonyddwch,
Tawel yw—llety i'w llwch.

BEDDARGRAFF MAM Y PARCH. D. RICHARDS, CAERFFILI.

Chwaer ydoedd pur ei chredo,—a'i bywyd,
Tra bu, yn ei wirio;
Un o brif seintiau ein bro,
Mewn anedd oer mae'n huno.

Daw eilwaith, ddydd didoliad,—o dŷ'r bedd,
Drwy barch at ei Cheidwad;
Daw, fore yr adferiad,
O dŷ'r glyn i dir ei gwlad.

BEDDARGRAFF MR. EVAN LLOYD, TIMBER MERCHANT, DOLGELLAU.

A oes wr, fel coed-fesurydd,—ail hwn,
Ysgolhaig tra chelfydd?
Na, mwy'r un, yn Meirionydd,
Braidd, o'i fath, i'w briddo fydd.

BEDDARGRAFF MR. JOHN EVANS, CAERNARFON.

Yn hir y bu'n blaenori—yn y gân,
A'i gylch gai ei lenwi;
Yr eglwys oll, o'i golli,
Am ei lais, hir deimlai hi.

BEDDARGRAFF

I'r diweddar Mr. William Edwards, Ty'nypark, Eglwys Ilan, tad Mr. Edward Edwards, Agent Bodryngallt Colliery.

Bu yn aelod heb un niwlen—ar ei barch,
Tra bu, er yn fachgen;
O ymgais, ni fu ei amgen,
Er ys oes, yn y Groes Wen.

BEDDARGRAFF MRS. THOMAS, CAERNARFON.

Ceir o dan y gareg hon,—yn huno,
Un onest a ffyddlon;
Un heb rith o dan ei bron,
O deulu y duwiolion.

BEDDARGRAFF

Mab Mr. Edward Williams, Glan y Bad, yr hwn a ymadawodd a'r fuchedd hon yn wr ieuanc tra gobeithiol.

Dan y tôn blodeuyn tyner—guddiwyd,
Un gadd bob cymhwysder;
Hynaws fu'n ei einioes fer;
Hunai'n rhy chwai* o'r hanner. *yn rhy fuan.

BEDDARGRAFF TEGAI.

Bardd da—athraw da, diwyd,—oedd efe,
Rhydd ei farn a hyfryd,
A chyfaill mor wych, hefyd,
A neb o'i ol sy'n y byd.

BEDDARGRAFF DWY EFEILLES.

Bu un farw yn ſiwydd oed, a'r llall yn ſiwydd a diwrnod.

Ddwy chwaer deg eyd-ddechreu y daith—i'r byd
Drwy boen a gaent unwaith;
Caent wedi, wedi byr waith,
O fewn dim gyd-fyn'd ymaith.

Y wisg o gnawd ddiosgynt,— a dringo
Gyda'r engyl wnelynt;
Bodau ail cerubiaid ynt,
Ai nid angylion ydynt?

BEDDARGRAFF BARDD YSGEIFIOG.

I roi'r gerdd, mewn llithrig iaith,—parod oedd,
Prydyddai ar unwaith;
Ei anian oedd awenwaith,
Natur oedd yn ben trwy'i waith.

BEDDARGRAFF MRS. THOMAS, TY'NYWERN, A'I PHLANT.

Os mewn hedd, is y maen hyn,—y llecha
Llwch mam a'i thri phlentyn,
Daw eilwaith—a'r tri'n dilyn,
I uwch gwlad, na llwch y glyn.

PARCH. T. PIERCE O LE'RPWL.

I ystryw 'r oedd yn estron—i gyfaill
Pwy gafwyd mwy ffyddlon?
Bardd o werth—ar braidd ei Ion,
Bugeilio bu o galon.

BEDDARGRAFF GWRAIG.

Yn ol i blith ei hanwyl blant,—a'i gwr,
Garai mor ddiffuant,
Ni ddaw o'r bedd, dduoer bant,
Er o'i hol yr hir wylant.

BARDD.

Os rhyw estron llon fu'n llunio—anedd
I'r bardd enwog huno;
Er coffa'i lên awen o,
Maen addas roes Môn iddo.

Y CYMRO GWYN.

Os ei oes ai heibio'n syn,—a'i loniant
Ddiflanai fel rhosyn;
A! nid am un mynydyn,
Marw o gôf wna'r Cymro Gwyn.

CAPTAIN ROBERTS, ALA LAS, CAERNARFON.

Drwy beryglon bron heb ri',—yr hwyliais
Ar ael y dwfn weilgi;
Angau, er i'm angori,
Wedi aeth â mywyd i.

AR FEDD MERCH IEUANC A FU FARW O'R FRECH WEN.

Ei dydd byr, deuodd i ben,—fe 'hedodd
I fyd uwchlaw angen,
Dygwyd oes y deg dwysen
Orwech, hardd, gan y frech wen.

ARALL.

Yn gynar, 'rol egnio—o'r ddaear
I ddiwael flodeuo,
Gauaf a ddaeth i'm gwywo,
A dwyn y gwrid yn y gro.

AR FEDD BABAN.

Ar lawn cu Iesu, gorphwysodd,—a'i waed
Dwyfol Ef a'i golchodd,
A Duw Iago a'i dygodd
I fyd fydd byth wrth ei fodd.

ARALL.

Er aros, amserau hirion,—o'i gorff
Gyda gwael farwolion,
Fe naid, ar amnaid yr Ion,
I fyny i blith cyfiawnion!

AR FEDD MAM A'I PHLANT.

Ar fy ol i'r duoer fedd—difwyniant,
D'ai f'anwyl epiledd;
Wele ni, mewn cyflawn hedd,
Yn daearawl gydorwedd.

CANEUON RHYDDION.

YMWELIAD A BEDD IEUAN GWYNEDD, EBRILL 3, 1853.

Llwyd yw'r niwl ar wàr y dyffryn,
Gorchudd dros y clogwyn sydd,
Godre'i wisg a leinw'r dolydd,
Mae ar anian olwg brudd;
Grnddiau'r haul sy'n awr yn glafaidd,
Metha saethu'i belydr glân,
Prudd-der heddyw sy'n teyrnasu
Ar wynebpryd blodau mân.

Ond daw'r awel i deneuo
Caddug tywyll niwl y fro,
Chwelir ymaith yr holl orchudd,
Cliria'r wybren ar fyr dro;
Ni fydd ol y cwmwl gwelw
Ar un clogwyn, ar un ddol,
Ac ni ddaw y cwmwl eilwaith
Ar ymweliad byth yn ol.

Tebyg ydoedd bywyd Ieuan—
Yn ymddangos am fyr dro;
Heibio'r aeth heb wybod ini—
Gyrai angau ef ar ffo:
Llwyr ymguddia dan dew leni
Daear werdd a'i thywyrch oer,
Cyrhaedd drwyddynt i'w goleuo
Nis gall pelydr haul na lloer.

Mae y creigiau byth yn aros,
Cryf yw'r clogwyn, gwerdd yw'r ddol,
Ond ein Ieuan deithiai'r dyffryn
Byth ni ddaw o'i daith yn ol;
Ol ei draed ni welir eilwaith,
Swn ei lais ni chlywir mwy,
O'r holl deithiau hir dramwyodd
Mae'r daith yma'n llawer hwy.

Pe bai i gyfaill alw heibio
Fu'n mwynhau ei gwmni gynt,
Nid yw'n gwybod dim am dano
I'w groesawu ar ei hynt;
Mae dystawrwydd yn teyrnasu
Drwy holl fro y fynwent werdd,
Nid all heddyw dalu sylw
I ganiadau merched cerdd.

Llygad Ieuan a fuasai
Heddyw'n chwareu yn ei ben,
Wrth gyfarfod un o'r Gogledd
Yma'n ardal y Groes Wen;
Ond rhaid troi heb olwg arno
Gan ei adael yn y bedd,
Hyd y diwrnod y daw eilwaith
Wedi'i ddwyn ar newydd wedd.

YR ANGLADD.

Rhyw fenyw lân dirion oedd harddwch y fro,
Oedd dawel yn nyfnder ei chystudd;
Daeth angau ar asgell yr awel ryw dro,
I'w galw heb roddi ail rybudd.

Ei henaid ddihangodd drwy'r wybren at Dduw,
Ca'dd olwg ar orsedd 'anfeidrol;
Ei chorff a adawai ar ol yma'n wyw,
I'w ddychwel i'w elfen gynhwynol.

Cryn gyrchiad o ddynion trwsiadus a gaed
I dalu'r gymwynas brudd olaf;
A dilyn yr elor wnaent oll ar eu traed,
Drwy groesffyrdd ar hyd y lle garwaf.

Nid oedd ganddynt gerbyd, na milyn ychwaith,
I gludo'r gweddillion llygredig;
Ond dynion gwyllysgar a gaed at y gwaith
I'w cludo i'r fynwent, le unig.

Y gwlaw oedd yn disgyn, y wybren a'i gwedd
Yn bruddaidd, a'r niwl ar y bryniau;
Galarwyr a safent o amgylch y bedd,
A thristwch i'w wel'd ar eu gruddiau.

Y bedd-dorwr, yntau, a safai gerllaw,
Yn barod i roi ei wasanaeth;
Yr hwn allodd dori â'i gaib ac â'i raw,
Drwy esgyrn ei hen gydnabyddiaeth.

Wrth godi yr esgyrn o waelod y bedd
Gall dd'wedyd pwy fu yn eu gwisgo;
Fel dyn yn ei orchwyl, hawdd gwel'd ar ei wedd,
Y daeth ef i'r angladd i weithio.

Y pridd oedd yn lleidiog, a'r lle yn ddibarch,
Nes creu drwy y byw ryw ddirgryniad;
Y cludwyr ddatodent gortynau yr arch,
Yn frysiog, heb arwydd o deimlad.

Y fam oedd mewn tristwch—hi roes bwys ei phen
Yn gyfan ar fynwes ei phriod;
Er gollwng y dagrau oedd gudd dan y llen,
Yr ydoedd ei galar yn ormod.

Pan ydoedd yr arch i'r bedd oer yn myn'd
Fe glywid rhyw lais main yn treiddio,
"Ow! dacw hi'n myn'd! Ow! dacw hi'n myn'd!
Ow! f'anwyl chwaer bach gaiff ei phriddo."

Y weddi ddyrchafwyd, a chauwyd y bedd,
A'r dynion a droisant eu cefnau;
Gadawyd hi'n unig—yn unig ei gwedd,
Yn mynwes y duon briddellau.

O ganol y ffurfiau a'r galar i gyd
Aeth pob un i ddilyn ei orchwyl,
Heb feddwl am fynyd, ar hyny o bryd,
Mai angau oedd pob un i'w ddysgwyl.

Yr ydoedd yr angladd bron cyn yr ail ddydd,
Fel rhywbeth a fu er's blynyddau;
Yr ieuanc heb ddeigryn yn gwlychu ei rudd,
A'i galon yn ddibris yn chwareu.

Darparwr yr ysgrin a'r alar-wisg ddu
A'n galar i gyd o'r tu allan,
Yn edrych mor siriol ar ol y peth fu
Ag oeddynt wrth dderbyn yr arian.

Ond effaith y brathiad a roes angau trwm
A erys mewn rhai o'r mynwesau;
Mae'r fam heb anghofio ei d'rawiad fel plwm,
Heb waedu ni fydd ei doluriau.

Mae'r tad, yntau'n dysgwyl cael gweled y ferch
Yn dod tua thre' fel arferol;
Nid all y priddellau byth oeri ei serch,
Mae hwnw'n parhau yn angherddol.

Er prawf o hynyma, dowch tua'r Groes Wen,
Ar fore rhyw Sabbath o'r flwyddyn,
Cewch wel'd yr anwyl-fam yn athrist uwchben
Y beddrod lle mae'i thyner blentyn.

Ni fyn ei chysuro byth, byth, am nad yw,
I'w ganfod yn chwareu o'i chwmpas;
Ei dagrau tryloywon a dreiglant yn fyw,
Yn gymysg â blodau'r tir gwyrddlas.

Ni chlyw ei hyfryd-lais, oedd mor lawn o swyn,
Ni wel ef y wên na'r siriol-bryd;
Nid all ef byth brofi y cusan wnai ddwyn
Ei loesau oll ymaith mewn mynyd.

Y weddw a welir, yn brudd mewn gwisg ddu,
Yn myn'd tua'r bedd yn ben isel;
Ei thrymion och'neidion tra dwysion y sy,
Yn cael eu cymysgu â'r awel.

Ei chamrau yn ysgeifn mewn gwylder a rydd
Ar frigau'r gwyrdd wellt sy'n orchuddlen,
Ni fyn aflonyddu ar gwsg yr hwn sydd
Yn gorphwys islaw y dywarchen.

Y fam orfu ollwng ei gafael yn llwyr
O'i maban oedd ddwyflwydd o oedran;
Ni chaiff hi ofalu na bore na hwyr,
Pa beth ddaw o hono o hyn allan.

Mae'r wraig dyner-galon yn cysgu mor drwm,
Fel na wyr ddim byd am ei phriod;
Mae'r llygaid mor farw, mor oer ag yw'r plwm,
Heb arwydd daw dim byth i'w ddatod.

Rhyw garchar ofnadwy fuasai y bedd,
Heb obaith cael dod byth o hono;
Ei arswyd fuasai yn gwywo pob gwedd,
Mewn iechyd cyn meddwl myn'd iddo.

Pwy rifa y bronau yn oerion y sydd,
Dan dyweirch gwyrddleision y fynwent?
Y rhai, wrth ryw newydd, f'ai lawen neu brudd,
Bob amser mewn egni ddychlament.

Ond heddyw mae'r fynwes yn oer fel yr iâ,
A'r tafod oedd chwim.yn gloedi;
Nid all unrhyw hanes, boed ddrwg neu boed dda,
Byth gyrhaedd drwy borth y tŷ unig.

Mae'n llanw, mae'n llanw, mae'n llanw o hyd,
Ond etto nid yw byth yn llawnach;
Bydd lle i'r genhedlaeth ddaw'n olaf i'r byd,
Yn mynwes y bedd digyfeillach.

Yn ymyl bedd newydd—oedd newydd ei wneud,
Y safai 'r bedd-dorwr yn llonydd,
A'i bwys ar y rhaw-bal, dechreuodd a dweyd,
Beth welsai'n y fro fel preswylydd.

Ei wyneb oedd rychog, a'i wallt oedd yn wŷn,
Fel ewyn, neu eira yn Salmon;
Ond cryf oedd ei freichiau, fe safai'n ddigryn,
Heb wendid mewn pen nac mewn calon.

Nid ydoedd trin esgyrn a siolau'i gyd ryw
I hwn, ond fel trin y dywarchen;
Fe gara fro'r meirw. fel tir y rhai byw,
Ac yma y mae yn ei elfen.

Symudodd o'r diwedd, ac aeth tua'r porth
I wel'd oedd yr angladd yn dyfod;
O'i screpan fe dynodd ryw gilcyn o dorth,
Ac eistedd a wnaeth ar ryw feddrod.

A d'wedai, " 'Rwy'n derbyn, 'rwy'n derbyn pawb ddaw,
Boed fam, neu boed dad, neu boed blentyn;
Yr wyf am ddefnyddio fy nghaib a fy rhaw—
Erioed ni wrthodais i undyn.

'Rwy'n derbyn llaweroedd, ond etto fy hun,
Yn unig yr ydwyf yn aros;
Nid oes o fy neiliaid i gymaint ag un
A faidd ddod i'r golwg i ymddangos."

Daw yntau, y cerfiwr, yn mlaen at ei waith,
I osod y meini mawr, trymion;
Heb deimlo un gofid, na dim yn ei iaith
Yn arwydd fod pwys ar ei galon.

Mae hithau, ŷr Ywen, yn edrych yn brudd,
Gan ledu ei thywyll ganghenau;
Ei phrudd-der arosol, bob nos a phob dydd,
Nid yw yn dal fawr ar dymhorau.

Mae'r fynwent yn llanerch sy'n sobri pob dyn,
Ond cerfwyr a thorwyr y beddau;
Ond gweled yr Ywen yn sefyll ei hun
Wna'r sobrwydd yn fwy o gryn raddau.

Oblegid mae'n unig, mae'n dywyll ei gwedd,
Mae'n aros mor anghyfnewidiol;
Mae'n gymhwys arwyddlun o'r hyn yw y bedd,
Cadwrfa'r gweddillion sy farwol.

Gostyngwyd per leisiau a swyn merched cerdd
Fel adar y coed yn y gauaf;
Ond daw etto'n wanwyn, daw'r goedwig yn werdd,
A phynciant y tônau melusaf.

Daw'r cyfiawn o'r beddrod—tŷ'r amdo, tŷ'r arch,
Gan ado o'i ol ei holl wendid;
Fe'i codir i fywyd, drwy air Ion a'i arch,
I gyflwr na raid byth ei newid.

Nid oes dim arswydus, o gwmpas y bedd,
I'r hwn sydd a'i ffydd mewn Gwaredwr;
Gorphwysle pererin—lle'r huna mewn hedd,
Yw'r beddrod, nid carchar troseddwr.

TEIMLAD YR AWDWR PAN YN CLYWED AM YMADAWIAD EI GYFEILLION.

(Tebygol mai hwn yw y darn diweddaf o farddoniaeth a gyfansoddodd).

Colli'r ydwyf fy nghyfeillion
A'm perth'nasau yn mhob man;
Newydd trwm am farwolaethau
Sydd yn dod o hyd i'm rhan:
Fy nghyfoedion fu'n cydchwareu,
Ac yn 'rysgol gyda mi,
Myn'd y maent ar aden gyflym—
Anhawdd heddyw ddweyd eu rhi'.

Rhwygo wnaeth fy nghylch teuluol
Amryw weithiau ar fy nhaith,
Rhwygwyd amryw gylchoedd eraill—
Parodd lawer llygad llaith;
Ydwyf fel aderyn unig—
Unig iawn ar ben y tŷ;
Fy nghyfoedion wedi ngadael—
Hunant yn y ddaear ddu.

Collais rif o gydaddolwyr
Yn y Gogledd, yn y De,
A phe'r awn i chwilio am danynt,
Ni chawn weled ond eu lle;
Swn addoli wedi darfod—
Dystaw ydyw tir y glyn,
Dan y tywyrch yr ymlechant,
Byth ni ddont i'r ochr hyn.

Collais luaws o bregethwyr,
A llu mawr o feirdd yr oes;
Mae'u talentau wedi'u claddu—
Son am danynt mwy nid oes:
Rhai o'r gwir bregethwyr hyny
A oddeithient Gymru'n lân,
Y mae eraill wedi codi
Na ront Gymru byth ar dân.

Son y maent am egwyddorion,
Heb eu rhoddi byth ar waith,
Sychu i fyny yr eneidiau—
Prin y gwelir llygad llaith,
Nac un arwydd o wir deimlad
Yn cynhyrfu dan y fron—
Dim ond rhedeg drwyddi'n sychlyd
Mae athronwyr yr oes hon.

Gwir bregethwr mawr yn Nghymru
Dynai bobloedd ar ei ol,
Meddai ddoniau o'r radd uchaf—
Diystyrai bethau ffol;
Yr oedd miloedd y gymanfa
Wrth ei wefys ddillyn ef,
Ei hyawdledd a'i ddylanwad
Oedd yn llawn eneiniad nef.

Ei wrandawyr oll mewn dagrau,
Crynai'r ddaear dan eu traed,
Pan gyhoeddai waredigaeth
Drwy rinweddau mawr y gwaed!
Gwelid Sinai a Chalfaria
Yno'n eglur, heb un llen,
A'r Cyfryngwr mawr yn trengu
Dan felldithion ar y pren.

Pan y delai i gym'dogaeth
Attal wnelai dwrf y dre',
Pawb yn taflu'i orchwyl heibio—
Cauid gweithdai yn mhob lle;
Cloriau ddodid ar ffenestri,
Cauid drysau'r masnach dai,
Pawb am wrando y pregethwr—
Duwiol, ac annuwiol rai.

Pan y codai mewn cynnadledd,
Genau pawb a gloid yn fud;
Ni leferid pan ddystawai—
Pawb yn edrych fel y mud:
Gwrando'i gynghor wneid drwy'r ardal,
Pob un blygai i'w farn ef;
Edrych arno wneid yn mhobman
Fel rhyw oracl mawr o'r nef.

Fe ysgydwai bob cyn'lleidfa,
Rhoddi pobman wnai ar dân;
Dygai'r mudan i lefaru,
Ac i seinio nefol gân;

Plygai'r cedrwydd cryfion nerthol
Fel y pabwyr wrth ei arch,
Llenwid calon pob gwrandawr
A chlod iddo, ac â pharch.

Teithid llawer o filldirau
Ar ei ol, drwy'r gwynt a'r gwlaw,
Dros fynyddoedd a thrwy gymoedd,
Ac afonydd heb ddim braw;
Cipio tamaid yn y llogell,
Yfed dwr o gwr y ffos,
Dychwel adref yn y t'wllwch
Yn llawn bywyd hanner nos.

Son am dano hyd yr wythnos
Glywid drwy y dref i gyd,
Rhifo'r rhai ddychwelid drwyddo,
A'r fath les oedd ef i'r byd:
Magu'r plant mewn gwir barch iddo
Fel cenadwr dros ei Dduw,
Adrodd darnau o'i bregethau—
Gyru'r pentref yn dân byw.

Testyn siarad y gyfeillach
Oedd ei eiriau grymus ef,
Dweyd y cysur gafwyd drwyddo
Nes eu codi'i entrych nef;
Ei ddylanwad fyddai'n maethu,
Fel gwna'r haul yr egin grawn;
Pawb o'r lleiaf hyd y mwyaf
Yn cael drwyddo'u llestri'n llawn.

Dysgwyl wed'yn yn hiraethus
Am ymweliad cyn bo hir,
Son am dano am wythnosau
Drwy holl gyrau pella'r tir;
Trefnu pwy ai i'w gyfarfod
I'w gysuro ar ei daith,
Son yn gynhes am yr achos,
A'u calonau yn y gwaith.

Byw yr ydoedd yn nghalonau
A serchiadau yr holl wlad,
Hwy edrychent arno'n ddyfal
Fel arweinydd mawr y gâd;
Crynai satan rhag dylanwad
Nerth ei ddoniau a'i fawr rym,
Ei ymadrodd yn dra miniog—
Treiddiai'i eiriau fel cledd llym.

Ond fe ddaeth yn bryd rhoi heibio—
  Gorfu iddo ado'r maes
I rai ereill i'w lafurio—
  Nid hir wed'yn y parhaes;
Gwendid ydoedd yn ymdaenu
  Dros ei natur y pryd hyn.
Pob rhyw arwydd fod e'n nesu
  I gyffiniau tir y glyn.

Bu'r athrawiaeth gyhoeddasai
  Iddo'n gymhorth ar ael bedd,
Crist yn bobpeth oedd i'w enaid—
  Ymhyfrydai yn ei wedd;
Ca'dd ollyngdod fel Simeon,
  Adre'r aeth yr enaid mawr,
Ac fe roed ei gorff lluddedig
  I orphwyso'n mhridd y llawr.

Dydd yr angladd ymgyfarfu
  Tyrfa fawr o bymtheg plwy',
I gael dilyn ei weddillion,
  Er na chlywent ef byth mwy;
Cyd-eneinio pridd y fynwent
  Yr oedd dagrau heilltion fyrdd,
Ac ni chlywid ond och'neidiau
  Wrth droi'n ol yn llanw'r ffyrdd.

Daw ugeiniau o filldirau
  I gael golwg ar ei fedd,
Taenant flodau ar y briddell—
  Yntau'n huno mewn llawu hedd;
Teimlant iasau'n cerdded drwyddynt
  Pan yn cofio'i hyfryd lais,
Ond ni ddaw i fyny atynt
  Er mor ddifrif yw eu cais.

YR OLYGFA YN YR HEOL.

[Cyhoeddir y gân hon ar ddymuniad amryw gyfeillion i'r awdwr,]

Eistedd wnaethum yn hamddenol,
  Edrych ar yr heol fyw,
Fath lu cymysg o wynebau
  Welai'm llygaid o'r ddau ryw;
Rhai'n ddifrifol, rhai'n bryderus,
  Rhai'n feddylgar, rhai'n wag iawn;
Rhai yn hen, a rhai yn ieuanc,
  Dan bob math o deimlad gawn.

Mae'r gwrthddrychau'n para i symud,
Heibio'r ânt o 'mlaen i gyd;
Gwhaniaethant, cyfnewidiant,
Dygant newydd wedd o hyd;
Fath ddangoseg syn ofnadwy
Dd'ai i'r golwg o bob coll,
Pe bai 'r wyneb yn dadguddio
Gweithrediadau 'r meddwl oll.

Y mae rhai mewn siomedigaeth,
Eraill feddant obaith cryf;
Rhai yn wylaidd, rhai yn ofnus,
Eraill sydd yn eithaf hyf;
Y llythyrdy ddygodd doraeth
O newyddion i'r rhai hyn—
Newydd da wnaeth rai yn siriol,
Newydd drwg wnaeth rai yn syn.

Dichon fod yn mhlith y dyrfa
Welai 'n pasio draw o hyd,
Rhai am dwyllo, rhai am yspail,
Rhai am godi i sylw 'r byd:
Ambell fenyw wedi 'i siomi,
Calon hon ar fyn'd yn ddwy;
Gwyryf arall mewn gobeithion,
Fel yr ewig yn llawn nwy'.

Yntau 'r cybydd sydd yn pasio,
Am ysglyfaeth mae ei fryd;
A'i gydwybod fel maen melin—
Calon hwn sy'n llawn o'r byd;
Yn eu plith, mae ambell wladwr,
Calon hael ac esmwyth fron;
Sychwr dagrau yr amddifaid,
Gwr wna 'r fynwes drist yn llon.

Mae 'r cribddeiliwr yn y dyrfa,
Gwr a gydia faes wrth faes;
Cuddio 'r twyll sydd yn ei galon
Wna, dan orchudd gwyneb llaes:
Caria ffug yn lle gwirionedd,
Ceisia dwyllo Duw a dyn;
Ond dangosir yr anghenfil,
Etto, yn ei liw ei hun.

Mae 'r ffug gyfaill yna 'n rhywle,
Fratha fron yr hwn sy'n frawd,
Gan wneud aberth o bob rhinwedd,
A throi pob peth oll yn wawd;

Gwertha hwn y cyfaill goreu,
Er mwyn codiad iddo 'i hun;
Ni adnabu gyfeillgarwch—
Caru 'i huuan y mae 'r dyn.

Mae y gwr a dwng i'w niwaid
Acw yn y dyrfa fawr;
Hwn wna aberth o'i gysuron,
Er gwneud lles i ddyn ar lawr;
Nid yw ef yn chwit chwat meddal—
Deil yr un mewn dwr a thân:
Mae 'n ei feddiant drysor gwerthfawr—
Calon a chydwybod lân.

Mae 'r dialgar wedi pasio,
Sydd yn gwynu yn ei wawr,
Pan y rhwyga 'i rith dduwioldeb,
Ar ol procio 'i falchder mawr;
Mae ei syched fel dywalgi,
Dim ond gwaed a ddofa 'i lid;
Mae ei fron yn ddu fel uffern,
Dan ei wên a'i fwyndra i gyd.

Yntau 'r epa cenfigenllyd
Sydd yn methu myn'd yn fawr,
Er ymgodi ar stryd fachau,
Ar ei drwyn sy'n syrthio i lawr;
Er ymgripio ar ysgwyddau
Rhai sy'n fwy nag ef ei hun,
Côryn ydyw ar y Wyddfa—
Trefna natur le pob un.

Mae y bychan yn anfoddlon
Am nad ydyw 'n llawer hwy;
Ond waeth iddo ymfoddloni,
Bychan fydd—nid ä 'n ddim mwy;
Mae y beirniad hungrëedig,
Sydd yn dringo i'r orsedd fawr,
Heb i neb ei alw iddi,
Newydd basio mewn rhwysg cawr.

Meddwl mae gwastadu 'r bryniau,
Ond rhy galed mae 'n eu cael;
Gomedd plygu ar ei archiad
Mae y Wyddfa wedi 'r draul;
Deil ei phen uwchlaw 'r cymylau,
Llwch a dail a droella 'r gwynt;
Metha gael y wlad i gredu
Mai meddyliau uchel ynt.

Mae 'r eiddigus yn y dyrfa
Sydd yn digio wrth y byd,
Am na welant bethau ynddo
Sydd o'i gyrhaedd oll i gyd;
Sut y gall awyren esgyn
Heb ddim ager yn ei chod?
Sut y gall y wadd ehedeg,
Heb ddim esgyll ganddo 'n bod?

Yntau 'r cyfaill ffals dau wyneb,
Cyfaill y diwedda' o hyd;
Cyfaill pawb—ond nid gwir gyfaill,
Ni fedd gyfaill yn y byd;
Canmol pob un yn ei wyneb,
A lladd arno yn ei gefn;
Dyna wna 'r hwn nad yw 'n gyfaill:
Byth ni chân wel'd neb drachefn.

Mae 'r ymgeisiwr uchelfrydig
Am holl barch a chlod y byd,
Fu'n gwneud grisiau o'i gyfeillion,
Gan eu canmol am ryw hyd;
Ond anghofiwyd ganddo'n hollol,
Wedi iddo gael ei nôd,
Acw'n mhlith y dorf yn rhywle
Yn pysgota parch a chlod.

Mae'r ymyrwr yn y fintai
Fyn gael hanes pob dyn byw,
Sy drwy'i oes yn ngerddi eraill:
Iddo'i hun dyeithryn yw;
A'r enllibiwr cul ei fynwes,
Sydd yn gwledda ar bob bai;
Dawn na rhinwedd ni chydnebydd,
Ond er ceisio'u gwneud yn llai.

Dacw yntau y didalent
Sydd yn chwenych bod yn fawr,
Rhaid yw dal hwn yma i fyny,
Onide fel gwympa i lawr;
Pwff rhai eraill a'i cyfododd
Fel barcutan uwchlaw'r byd,
A phan beidiant hwy a phwffian,
Daw i'w safle yn ei bryd.

Mae y glwth a'r meddw yntau,
Dau sy'n gwneuthur duw o'u bol;
Dau syn myn'd drwy'r byd yn ddiles,
Dau sy'n llawn o wynt a brol,

Gyda'u gilydd yn y fintai,
Nid oes neb a'u penau'n uwch;
Pan yn son am feiau eraill,
Maent hwy'u hunain fel y lluwch.

Dacw drem y rhith bregethwr,
A fu unwaith yn wr mawr,
Ond ei falchder a'i melldithiodd,
Gan ei dynu'n llwyr i lawr:
Gwaedodd calon llawer Cristion,
Pan y collodd ef ei draed;
Ond efe sy'n wyneb galed,
Er yn gorwedd yn ei waed.

Mae fel alltud yn ei ardal—
Yn ei wlad a'i dŷ ei hun;
Mae'n ddyeithryn yn ei gartref—
Nid oes neb wrth hwn a lun;
Pan y rhega—cofio'i weddi
Y bydd rhywun yn y fan;
Pan y meddwa—cofio'i gynghor
Bydd rhyw frawd neu hen chwaer wan.

Mae yr hen wrthgiliwr yntau
Draw yn myn'd yn wegil syth;
Adde'i fai erioed pwy'i clywodd,
Na phwy etto a'i clyw byth?
Rhywrai eraill ddarfu bechu,
Mae efe o hyd yn lân,
Er ei fod bob cam mae'n gerdded
Yn gwynebu tua'r tân.

Tyn i lawr ei holl gynghorion,
D'wed mai celwydd oedd ei ffydd;
Tynga'n awr yn lle gweddïo,
Er mwyn selio'i ddiwedd prudd;
Golcha ymaith bob argraffiad
Oedd ar feddwl ei blant bach,
Yn nghylch crefydd a phob rhinwedd;
Crefydd eilw'n freuddwyd gwrach.

Dacw'r cyfrwys, fwyn gyfreithiwr,
Nad oes diwedd ar ei wanc,
Sydd yn denu'r gwan i'w faglau,
Ac yn cydio fel y cranc;
Cri amddifaid sy'n ei glustiau,
Dagrau gweddwon olchai'i lawr;
Gwaed trueiniaid ar ei lwybrau
Welir fore y farn fawr.

Mae'r coeg feddyg na cha'dd addysg—
Meddyg fu yn "treio'i law,"
Ar gyrff dynion gwir ddiniwaid,
Dan ei gyllill oedd mewn braw,
Yn myn'd heibio yn fawreddog,
Fel y penaf yn y plwy';
Ac yn pwffio ei gyffuriau,
Er ymddangos beth yn fwy.

Dacw'r gwr dau fath o bwysau,
I'w wel'd yn y dyrfa draw:
Gwr sy ganddo gryn ddylanwad
Ar ei glorian gyda 'i law;
Gwr sy'n gwerthu gwael ysbwrial,
A llwch aflan yn lle blawd;
Gwr sy'n fwyn a theg yr olwg,
Pan yn twyllo 'r dyn tylawd.

Mae 'r celwyddwr dau wynebog
Yn y fintai fawr gerllaw;
Lluniwr celwydd caboledig—
Ddywed gelwydd heb ddim braw;
Yntau 'r pwffiwr digydwybod
Sy'n ad-dalu am ei barch,
Drwy frol wag yn nghylch rhinweddau
Rhai a'i codent ar ei farch.

Nid yw 'n prisio beth a dd'wedo,
Tra bo 'n derbyn rhyw lesâd;
Gall hwn droi ei bin a'i dafod
Fel y myno, am fawrhad;
Hunan elw, hunan enw,
Hunan barch, a hunan glod;
Er pob parch a roir i eraill,
Dyna 'r marc, a dyna 'r nôd.

Mae 'r amaethwr calon galed,
Anwybodus am bob peth,
Ond am "drin a throi," a gwasgu—
Talu rhent a thalu treth,
Yn y dori, a'i feddwl bychan,
Caled wrth ei weithwyr yw;
Gwell y gŵyr am gaib a thrasol
Nag am deimlad dynol ryw.

Dacw 'r rhith offeiriad gwagsaw
Sydd yn orthrwm, sydd yn dreth;
Fyn rai lawr o ffrwyth y ddaear
Ond ni ddywed byth am beth;

Haera 'i fod yn fab i Aaron,
Ac y gall ail eni plant;
Prawf ni roes o ffydd na rhinwedd,
Os nad ffydd yw porthi chwant.

Gwelaf fab i hen broffeswr,
Oedd yn dduwiol yn ei ddydd,
Wedi 'i lusgo gan ei chwantau,
Y mae'r olwg arno'n brudd;
Mae yr addysg gafodd gartref
Wedi 'i throi i wawd i gyd;
Dagrau 'r fam a gweddi 'i phriod
A'u gofalon ar bob pryd.

Dacw'r Pharisead cyfiawn,
Sydd yn lân o'i ben i'w draed;
Gwr rhy santaidd i gael crefydd,
Ac i'w olchi yn y gwaed;
Ond mae un sy'n well na llawer,
Wedi 'i droi o'r fyddin hon;
Gwr heb ddichell yn ei yspryd,
Heb euogrwydd dan ei fron.

Y MILWR CRISTIONOGOL.

(AR YSTYR BAYLEY).

O BOB cam dyb gam impiwyd ar Air Duw,
Rhoi lladdwr dyn yn sant yw'r hyllaf oll;
Fe archa'r Gair ini weithredu'n fwyn
Heb friwio neb, na pheri niwaid chwaith;
I ffoi rhag llid, casineb brwnt a gwaed,
Gweddïo dros, gofalu am ein brawd,
A pheidio dwyn ei fywyd anwyl ef.
Swydd milwr hyf, os Cristion yw, yw lladd,
A rhwygo'n hyll, a darnio yn mhob modd
Wrthddrychau ei weddïau ddydd a nos;
Cysondeb byth ni ddichon fod yn hyn,
Os delir ef a'i weddi'n nrych Gair Ion,
Gorchymyn Duw yw iddo garu pawb,
Y mae e'n gwneud, os cariad a serch yw
I'r milwr ffrom i dori'r rhain a'i gledd;
Er gwneuthur fel yr ewyllysia gael,
O'i fagnel chwyth hwynt oll i ddystryw erch.
Ei fendith ef i'w wrthwynebwyr a gasâ,
Yw crogi'r rhai'n o ran difyrwch oll!
Wrthuned yw y pethau ffugia ddyn!
Y fath gamdrefn a amddiffyna ef,
I ddofi'i nwyd, neu bleidio'r hyn a gâr.

Y MILWR.

(AR YSTYR W. STOKES).

Mi a'i gwelais ef yn blentyn,
Pan yn chwareu ar y tôn,
Ni fu impyn mwy gobeithiol
Nag oedd ef drwy'r ardal hon;
Mi a'i gwelais ef yn tyfu—
Tyfu'n dalach braidd nag un;
Yr oedd mawredd i'w wel'd drwyddo,
Pob peth dd'wedai—daw yn ddyn.

Mi a'i gwelais wedi tyfu—
Ac ardderchog oedd ei wedd,
Fe'i golygid ef y dewraf—
Ond ni thriniai ddryll na chledd;
Mi a'i gwelais wedi'i hudo—
Dyna'r pryd yr aeth o'i bwyll;
'Chydig dybiodd fod y geiriau
Teg a'i denodd y fath dwyll.

Mi a'i gwelais mewn ysgarlad,
Ysnodenau gwag a phlu;
Eiste'r oedd ar farch porthianus,
Llygaid tanllyd a mwng du:
Mi a'i gwelais wedi'r frwydr
Yn druenus dan fawr loes,
Yn melldithio'r dydd y clywodd
Swn yr offer hyd a'i troes.

Mi a'i gwelais yn doredig
Lipryn tlawd yn hel ei fwyd,
Wedi'i yru maes o'r gwersyll,
Mewn gwisg lom a'i rudd yn llwyd;
Mi a welais ei fwth olaf,
Gwelais garpiau'r adyn pwl;
Clywais ef yn dweyd wrth farw,
"Y mae'r milwr yn ben ffwl."

GWEDDW Y MILWR.

(AR YSTYR W. STOKES).

Hi wylodd, hi wylodd, a'r dagrau oedd hallt
A dreiglent dros ruddiau gwywedig;
Gweniadau ffoent ymaith, a llwydodd y gwallt,
A'u lle gym'rodd gwedd drallodedig.

Ac nid ydoedd yno un llaw cyfaill mwyn
I sychu y dagrau hyn ymaith;
Yr oedd hi yn unig, heb le i ddweyd ei chŵyn,
Heb gysur mewn all-wlad yn ymdaith.

Yr oedd ei bachgenyn, hardd wedd a hardd lun,
Ei thrysor, mewn trallod, a'i balchder,
Yn awr wedi tyfu, a dod yn gryn ddyn,
Wrth ochyr y weddw a'i blinder.

Yr unwedd â'r eiddew am dderwen yn troi
Oedd yntau yn troi am ei chalon;
Ond fe ddaeth yr adeg i'w mab fyn'd a rhoi
Ei hunan i laddwyr plant dynion.

Aeth pob peth o'i deutu'n anialwch i gyd,
Ei thrigfan yn noeth ac anolo;
Byw ydyw y bachgen, mewn breuddwyd o hyd,—
Och! dyna'r hyn wêl hi o hono.

"Gwae! gwae! y diwarnod," hi lefai yn ddwys,
"Gwae'r diwrnod galarus y ciliodd,
Gan ado'i anwylfam heb le i roi'i phwys,
Pan mewn ffrae estronol ymunodd.

Ar draethfan, lle gwelir ffwlturiaid yn haid,
Gwaed calon ei dad dywalltasant;
Yr hwn a ennillodd fy nghalon o'i blaid
Yn ieuanc—ar faes gwaed fathrasant.

Nid oedd un wraig anwyl i gynnal ei ben,
Na rhanu'i ofidiau angeuol;
O, dynghed echrydus! ei hun heb ei Wen,
Y treigodd ar faes y brath marwol.

Nid allodd hir dreigliad blynyddau ddileu
Y poen hwn o nghalon a brofais;
Ac etto'n fy machgen y tad yn ddiau,
O ddiwrnod i ddiwrnod ganfyddais.

Ac megys y tyfai y carwn gael son
Am un oedd a'i enw ef arno;
Ac yntau ofynai mewn iach, syml dôn,
A'i ni ddaw fy nhad yma etto?

Ond etto, byth etto, ni chaf wel'd un waith
Y tad yn y bachgen a welwn,
Ran ei ffurf, ran ei wedd, na'i enw ychwaith,
Na'i wyneb hoff serchus a garwn.

A! ryfel cynddeiriog, wyt elyn i ddyn
Ac anal yr ellyll creulona',
Ein gwae yw'th hyfrydwch, dy hoffder a'th wŷn,
A'th glod, a'th ogoniant, yw'n lladdfa.

A! dedwydd yw'r rhei'ny sy'n meddu ar nerth
I rwygo'th ffug wyneb yn llarpiau;
I ddangos dy darddiad o uffern, le certh,
Mai'r gwirion a'r gwan yw'th aberthau.

Boed melldith y weddw am byth ar dy ben,
Tydi y drygionus ei elfen:
Oblegid ti suddaist o dan farw len
Wr menyw ddiniwaid a'i bachgen."

Fe dawodd y weddw, a daeth dros ei phryd
Rhyw olwg ddychrynllyd a gwelw;
Edrychais yr eiltro, a chrynais i gyd,
Yr ydoedd y wraig wedi marw!

RHYFEL.

Banerau rhyfelawg yn awr sydd yn hofran,
Bidogau tryloywon sydd ar hyd y morlan:
Mae'r llestri'n y cefnfor yn siglo fel meddwon,
Bidogau ddysgleiriant un wedd a chlir afon;
Pentrefwyr a ffoant rhag rhyfel a'i arswyd,
A'u praidd i'r mynyddau gan ryfel ddychrynwyd;
Mae'r gwinwydd a'r gerddi, a harddwyd drwy lafur,
Yn awr yn fathredig dan draed storm o filwyr;
Yr eglwys lle talent bob dydd eu gwarogaeth,
Apelia'i phinaclau i'r nef rhag y driniaeth;
Ond ofer ymhwedd, mae chwa rhyfel yno,
A chroch anadl lladdfa yn llanw'r lle drwyddo.
Ymrolia'r gyflafan heb drai yn ei thònau
Yn nghanol yr hafog yr anrhaith a'r gwaeau.
Gwel acw mae'r rhestrau oll oll yn terfysgu,
Fe ga'dd y canolbwnc ei ddryllio a'i chwalu;
A'r cleddyf fel mellten drwy'r tewfwg brwmstanllyd,
Ddysgleiria ar dynghed y rhai sy'n diengyd.
Fe giliodd gwrth'nebiad, o faes y gelanedd,
Ni rydd nwydau gwallgof i undyn drugaredd.
Mae'r march a'i wddf anwar, oedd falch fel rhyfelydd,
Yn neidio o'i ymdrech, ond heb ei farchogydd.
Colofnau a ddrylliwyd, gostyngwyd banerau,
Rhai chwythent yr udgyrn sy'n sych eu gwefusau.
Mae rhai mewn dwfn ymdrech o dan eu dwfn glwyfau,
A'r march yn ymdrechu am anadl i'w ffroenau.

O na bai holl gerddorion byd
Yn gwrando dy lais mwynber,
I glywed natur ar ei hyd
Yn gwneud peth nad all offer.

Mae meinder coeth dy gathlau mwyn
Yn rhedeg drwy'n gewynau,
Mae nerth, mae chwaeth, mae gras, mae swyn,
Yn llanw dy holl nodau.

Ond dyna yw ordeiniad Ner,
I ti roi'th odlau allan,
Heb olau haul, ond llewyrch ser,
Rhag bod un pall ar anian.

Mae haul y dydd yn dweyd fod Duw,
A'r lloer pan fo'n absenol,
A hwythau'r ser belenau byw
Yn canmol Duw tragwyddol.

Un gadwyn fawr o fawl i'r Ion
Yw gwaith y greadigaeth,
Nid ydyw byth yn cynnyg son
Ond am ei hunig benaeth.

Mae'r adar mân ar hyd y dydd
Yn cyd ddadganu'i foliant,
A'r eos yn y t'wllwch prudd
Yn dweyd am ei ogoniant.

Mae'n syn fod dyn yn ammheu'r peth
Yn nghanol y fath dystion,
Mae'n rhaid ei fod yn myn'd ar feth
Ran cof, ran pen, ran calon.

ERFYNIAD AM ARWEINIAD.

(Cyf).

O! arwain di fi'n mlaen,
A chadw di fy nhroed;
Nid wyf yn gofyn gwel'd,
'Rhyn na ches wel'd erioed:
Y mae un cam yn ddigon im'
Ar yr un waith—na âd fi ddim.

Nid oeddwn felly erioed,
Ni cheisiais genyt chwaith
Ofalu am fy nhroed
Nes dod i ben y daith:
Fy ffordd fy hun a hoffwn gael,
'Nawr arwain di fi, Arglwydd hael.

YR ENLLIBIWR.

(AR YSTYR W. STOKES).

Fro ymaith ddyhiryn, gad gyrchle plant dynion,
Ymguddia yn d'ogof o wydd rhesymolion;
A chymer dy gartref mewn anial le diffaeth,
Lle chwyth seirff, lle uda y teigrod am 'sglyfaeth.

Cydwleddwyr tra chymhwys i ti a geir yno,
Cei wel'd golygfaoedd o hyd wna dy foddio!
Dos yno, ac una'n eu gwleddoedd tra chreulon,
Bydd gyfaill bwystfilod a'u gwaedlyd arferion.

Cei yno weithredoedd cydunol â'th natur,
Can's yno y gwaedir y gwirion greadur;
Cei yno dy ddysgu i daraw yr ergyd
A ddwg ei rinweddau oddiarno mewn mynyd.

Y sarff a dy ddysga, drwy lechu o'r golwg,
I wneud dy weithredoedd yn eigion tywyllwg;
Dysg hon i ti chwareu dy dwyll a'th ffalsineb,
A'r modd i drywanu â gwên ar dy wyneb.

Fe ddysga'r ffordd oreu it' iro dy golyn
A geiriau mwyn hyfryd cyn gollwng dy wenwyn;
Fe'th ddysga'n rhagorol y ffordd i wenieithio
Tra byddi ar dywallt ei waed a'i lurgunio.

Gwna'r teiger dy ddysgu—cei ef yn gyfeillgar,
Y ffordd iti rwygo'r diniwaid a'i watwar;
Pa fodd i ddirgelu dy waedlyd gynlluniau,
Pan fyddi ar ddystryw yn rhoi dy fwriadau.

Ac wedi dy ddysgu, dos di i waradwyddo
Dy gyfaill ag anmharch—tu cefn a'i bardduo;
Mewn sisial llyfn, meddal, llychwina'i ddysgleirdeb,
Ond byth na fyn weled y dyn yn ei wyneb.

Na foed iddo ganfod y llaw fo'n ei daro,
Na foed iddo deimlo y dant fo'n ei rwygo,
Na foed iddo ddeall fod anadl gyfeillgar
Yn cario'r fath wenwyn a dystryw drwy'r ddaear.

Gwna di dy orchwylion yn gyson fel yma,
Lle mae seirff gwenwynig, a'r teigrod yn gwledda,
Ond cadw dy hunan yn nghanol dy ogo',
Na ddychwel i gyrchle plant dynion byth etto.

Y CYFRYNGWR.

Nid dynoliaeth heb ei Dduwdod,
Chwaith na'i Dduwdod heb y dyn,
A allasai achub enaid—
Ond yr Iesu mawr ei hun;
Heb ei ddyndod, ni allasai
Ar y ddaear roddi Iawn,
Heb ei Dduwdod i'w rinweddu,
Byth ni wnaethai aberth llawn.

Ond dwy natur mewn un person
Wnaeth yr aberth, roes yr Iawn,
Drwy'i aberthu Ef ei hunan
Cafwyd ynddo daliad llawn;
Rhaid ei gael i bob pechadur—
Crist yn ddyn a Christ yn Dduw,
Cyn y gwelir o fedd pechod
Neb yn dod i fyny'n fyw.

TYWYSOG CYMRU YN GADEIRYDD YN NGHYFARFOD YR YSGOL RAD GYMREIG, MAWRTH 1, 1867.

Hir oes i'n T'wysog ni
I rodio mewn mawr fri,
Tra byddo byw;
Yn ffyrdd ei anwyl dad,
A'i fam rinweddol fad,
Sy'n teimlo dros y wlad,
Ac yn ofn Duw.

Bendithion hael y nen
Ddisgyno ar ei ben,
A'i gywir fron;
Ei briod ef a'i hil
Fo dan fendithion fil,
Nad eled byth ar gil
Y llinach hon.

Boed iddo D'wysog mad,
Gylymu'r pedair gwlad
Mewn cwlwm hedd;
Boed Cymro, Scot, a Sais,
Mewn heddwch o un llais,
A'r Gwyddel a'i holl gais
O du y sedd.

ARWYDDION HENAINT.

Y CAM yn fyr, a'r troed yn drwm,
Ysgwyddau'n fain, a'r cefn yn grwm,
A phantiau mawr lle bu y foch,
Oedd gynt yn gwisgo'r rhosyn coch;
Ffenestri'r tŷ sy'n t'w'llu'n awr,
Nid all celfyddyd helpu fawr;
Y genau'n drigle'r dannedd fu
Sy'n awr yn wag fel ogof ddu;
Y farf yn gwynu ar yr ên,—
Dyna arwyddion myn'd yn hen.

Y pen yn hurt, y clyw yn drwm,
Y gwallt yn gado'r coryn llwm;
Y llaw'n grynedig ac yn wyw,
Yn ffaelu symud yn ei byw;
Y cwsg yn ysgafn iawn yn awr,
Yn effro mae ar ben pob awr;
Yr anadl yn ddiffygiol sydd,
A pheswch blin bob nos, bob dydd;
Y trwyn yn nesu at yr ên,—
Dyna arwyddion myn'd yn hen.

Y côf ni ddeil ond pethau gynt,
Ffy'r pethau newydd gyda'r gwynt;
Tywyllu mae y deall cry',
Y serch a'r chwant yn marw sy';
Nid ellir dringo'r adeg hon—
Mae'n dda cael cerdded gyda'r ffon,
Neu eistedd wrth y bwrdd yn awr
I droi dalenau'r Beibl mawr;
Y dwr a dreigla ar hyd yr ên,—
Dyna arwyddion myn'd yn hen.

Y ceiliog rhedyn sydd yn faich,
Mor dda cael help gan ryw gref fraich;
Nid oes dim blas ar bethau tlws,
Nid eir fawr ffordd oddiwrth y drws;
Y babell ddaliodd lawer gwynt,
Y corff aeth drwy beryglon gynt,
Sydd yn adfeilio'n gyflym iawn,
Er pob cymhwysder, er pob dawn;
'Does dim a all gynhyrfu gwên,—
Dyna arwyddion myn'd yn hen.

COF-GOLOFN DANIEL ROWLANDS, LLANGEITHO.

Mae cof-golofn Daniel Rowlands
Yn mhob teulu drwy'r holl wlad;
Nid rhaid iddo wrth faen mynor
Er ei gadw mewn coffâd;
Tra bo Beibl gan y Cymry,
Tra bo pulpud Cymru'n fyw,
Saif ei enw mewn anrhydedd
Am ei ymdrech dros ei Dduw.

Ti Langeitho, ce'st ddyrchafiad,
Wrth gael hwn i roi ei droed
Ar dy lwybrau, pan yr oeddit
Heb dy nabod prin erioed;
Rhoddi bywyd yn dy enw
Ddarfu Rowlands drwy'r holl wlad,
Mae'n gwefreiddio calon Cymro,
Mae ei seinio yn fwynhad.

Cefaist lwch i lechu ynot
Nad oes genyt fawr o'i ail—
Llwch gwr enwog y daeth drwyddo
O fendithion rif y dail;
Taena'th gwrlid gwyrddlas drosto
Nes diweddo'i felus hûn;
Nes y gelwir e i ymddangos
O flaen gorsedd Mab y dyn.

Y FRIALLEN YN IONAWR, 1868.

Friallen deg, beth geisi yma,
A ddaethost di i gladdu'r gaua'?
Ofni'r ydwyf nad yw hwnw
Na'i gynddaredd wedi marw.

Nid yw'r awel yn dymherus;
Llwm yw'r coedydd ac anghenus;
Y mae'r glaswellt yn blaengochi,
Pam 'rwyt ti yn adgyfodi?

Dod a wnest i'n llawenychu,
Pan maent hwy yn wyw o'th ddeutu;
I roi gobaith fod gollyngdod,
Fod y gwanwyn mwyn ar ddyfod.

Rhagredegydd wyt i'r gwanwyn,
Ac i wres yr haul melynwyn;
Daw gwyrddlesni etto'n fuan,
Ail ymddengys gwisgoedd anian.

Bu yn farw dros ychydig,
A'i gogoniant yn gladdedig;
Myn hi ddod i'r golwg etto,
I'n llawenu a'n hadfywio.

Aros di os cei lonyddwch,
Er holl lid y rhew a'i egrwch;
Na thro'n ol yn ngwyneb rhwystrau,
Llecha'n nghysgod y twmpathau.

Fe gei eraill yn gwmnïaeth
Cyn bo hir drwy'r holl gym'dogaeth;
Ochrau'r ffyrdd a gânt eu harddu,
A thlws flodau y briallu.

Tebyg ydynt i lancesau
Sydd yn cychwyn yn eu blodau;
Ond daw blinder a gofalon—
Gwywo wnant fel chwithau'n union.

Tymhor byr yw tymhor ie'nctyd,
Er ei fod yn amser hyfryd;
Tra bo'r tymhor heb eich gado,
Gwnewch yn fawr, yn fawr o hono.

YR AIL RAN.

Dadebraist, wyt mewn ieuanc oed,
A daethost i ail fywyd;
Pwy dd'wedai i ti farw erioed,
Wrth weled dy wynebpryd?

Newyddion da, o'r ddaear gudd,
Oddiwrth rai lechant yno,
Y cânt hwythau ddod yn rhydd,
A ddygaist i'n cysuro.

Drwy'r maesydd oll, ail fywyd sydd,
Yn taer ymwthio allan;
I'r amlwg, llygaid bach y dydd
Anturiant o'u dwfn guddfan.

Ni chymer dim ei ddal yn ol,
Er maint yw llid y gauaf,
Pan egyr daear fwyn ei chôl,
Dont allan am y cyntaf.

Derbynfa yw y ddaear hen
Sy'n rhoi iddynt le i orphwyso;
Ond gwres yr haul a'i hawddgar wên,
A'u dena'n ol oddiyno.

Ni dd'wedai neb mai pridd y llawr,
A'r lludw fu'n eu magu,
Oblegid mae eu gwedd a'u gwawr
Mor ddysglaer wrth ddadebru.

Nid allant aros dan y gŵys,
A'r haul yn gweini iddynt,
Ond dont i'r lan a'u bochau'n lwys
Heb ol y briddell arnynt.

Ond gwywo wnant, a myn'd dan gudd,
Cyn hir wrth edrych arnom;
Ond yn eu hadgyfodiad ddydd,
Hwy ddeuant etto atom.

Ein derbyn ninnau wna ein mam
I'w mynwes, a'n cofleidio;
Ni chawn yno unrhyw gam,
Daw'r dydd ar frys i'n deffro.

Ni welir dim o ôl y bedd,
Na'r pridd ar neb o honom,
Ond down i'r lan ar hyfryd wedd
Y Gwr fu farw drosom.

Y FRIALLEN GYNTAF, CHWEF. 20, 1867.

Friallen deg, drwy'r oerni mawr,
Cyfodaist o dy fedd;
O! mor swynol yw dy wawr,
Dy ffurf, a'th newydd wedd.

Da genym wel'd dy wyneb glân,—
Blaen arwydd wyt di siom,
Fod tyrfa'n dod o flodau mân,
O groth y ddaear lom.

Dy holl chwiorydd o dan gudd
Ar d'ol adewaist di;
Na thor dy galon, rhei'ny sydd,
I ddod i 'mwel'd a ni.

A hwythau, llygaid tlws y dydd,
Addurnant glawdd yr ardd,
Eu golwg ar yr haul a fydd,
Ac yntau arnynt chwardd.

YR AIL RAN.

I gladdu'r gauaf daethost di,—
Daw lluoedd i'r orymdaith,
Heb neb i'w wel'd a'i ddagrau'n lli'
Wrth golli'r fath gydymaith

Fe'i bwrir dan dywarchen werdd,
Heb anadl ac heb fywyd;
A'r adar mân a eiliant gerdd
Am iddo gael ei symud.

Fe fydd y goedwig yn ei gwyrdd,
A'r ardd yn frith o flodau;
A'r ŵyn a'r defaid yn fil myrdd
Yn prancio ar hyd y bryniau.

Y wenfol hed o fro i fryn,
A'r gog a ddaw i'n swyno;
Yntau yn farw y pryd hyn,
Heb neb yn ofni rhagddo.

PENNILLION

A draddodwyd gan yr Awdwr yn Ninbych ar ol Darlith ar Addysg, Gwener y Groglith, 1868.

Mae gelyn yr hen-iaith yn crynu
Rhag ofn iddo fyned dan warth,
Wrth weled y wlad yn cyduno
I'w phleidio a'i chodi'n mhob parth;
Er maint a tygythiwyd gan gannoedd
Ei gyru o blith dynolryw,
Mae'r hen-iaith yn gadarn a hoew—
Mae'n resyn ei chladdu hi'n fyw.

Byw ydyw hi heddyw yn Ninbych,
A'i golwg mor iach ag erioed—
Mae'n heini, mae'n wisgi fel ewig,
Yn sioncach ni fu ar ei throed;
Mae'r mawrion yn rhoddi eu nodded,
Mae'r delyn mor fyw ag y bu,
Pwy feiddia wneud cais i'w disodli
Yn ngwydd a cherbron y fath lu?

Mae'r pulpud a'r wasg heb eu rhwymo,
Mae tafod pob Cymro yn rhydd,
Yn siarad ei geiriau yn groew,
Heb g'wilydd na gwarth ar ei rudd:

Y rhai'n c'wilyddio ei harddel
Yw meibion a wadent eu mam;
Mae eraill a gymer ei gofal
Rhag unrhyw drawsineb na cham.

Os yw y bradychwyr yn barod
I uno i ddechreu y gwaith,
Pa ffordd a gymerir i'w difa?
Beth roddir yn lle yr hen iaith?
Pwy lunia y tunnel o dani?
Pwy gyrcha y pylor i'w le?
Pwy ddyry y tân ar y fflamdorch—
A'i rhywun o'r Gogledd neu'r De?

Daeth llawer i Gymru dan feddwl
Ei gyru i'r Werydd o'u blaen,
Neu'n toddi ni'n Saeson bob copa,
Heb brisio am danom un draen;
Ond toddi eu hunain a wnaethant,
A dyfod yn Gymry difrad;
Mae enwau estronol i'w clywed
Ar gannoedd yn Ninbych a'r wlad.

Ceid Story, a Bassett, a Melling,
A Mellish, a Dolben, a Bland;
Ceid Shackfield, a Twiston, a Cumming,
A Ffena fu'n byw yn y Swan;
Ceid Minshull, a Dryhurst, a Mason,
A Milton, a Hilditch fu'n bod,
A Batten, a Carter, a Bartley,
Yn Gymry glân gloyw o nôd.

Bu Cochryn, a Chambers, a Simner,
A Dainty, a Bitley, a Thorn,
A Sturgess, a Renshaw, a Kelly,
A Harker, ac Ivy, a Horn;
Ceid Turner, ac Ogden, a Walters,
A Walker, a Roden, a Vaughan,
A Jeffreys, a Smedley, ac Andrew,
I'w nabod fel Cymry ran tôn.

'Roedd Roderick, a Patrick, a Gittins,
A Miller, a Gillard, a Gee,
A Robins, a Hoskins, a Howard,
Yn union 'run iaith ag ym ni;
'Roedd Cotton, Hooks, Dun, Clough, a Humphreys,
Burns, Lunt, Luke, Gains, Games, Knowles, a Green,
A'r cwbl yn siarad iaith Cymry,
Heb lediaith na bloesgni i'w min.

LLINELLAU AR FARWOLAETH

Dau blentyn i Mr. John a Mary Smith, Wallace Newydd, ger Gwaenvoe, Caerdydd.

Yma'ch gadael wnawn i orphwys,
Yn mhriddellau'r beddrod du;
Ni ddaw i chwi unrhyw niwaid,
Er mor unig yw eich tŷ;
Y mae llygad Iesu arnoch,
Yn eich gwylio nos a dydd;
Daw i'ch galw'n ddigon bore,
Fore'r adgyfodiad fydd.

Ni fydd eisieu i'ch rhïeni
Fod mewn pryder,—ni chewch gam;
Mae y gofal sydd am danoch
Heibio i ofal tad a mam;
Fe gânt hwy, pan ar ymweliad,—
Chwithau'n huno mewn llawn hedd,
Wel'd y blodau ar eich mynwes,
Wylo deigryn ar eich bedd.

Yn ddau ieuanc, ymadawsoch,—
Felly iddynt hwy mae'ch gwedd;
Dwyn eich delw o'u meddyliau,
Nid all amser chwaith na'r bedd;
Ond ieuenctyd y tro nesaf,
Gewch i beidio gwywo mwy;
Ni fydd henaint yn ei ddilyn,
Nac un gofid, loes na chlwy'.

Cysgwch, cysgwch! eich hûn allan,
Fe fu'r Iesu yn y bedd;
Cewch gyfodi mewn gogoniant,
Yn anfarwol ar ei wedd;
Wrth gael myn'd i'r man bu'ch Arglwydd,
Mawr yw'ch gwynfyd, mawr yw'ch braint:
Gwnaeth e'r bedd yn lle o ymddiried,
Nes y delo i gyrchu'i saint.

THE DESERT FLOWER.

"Full many a flower is born to blush unseen,
And waste its sweetnes on the desert air."

CYFIEITHIAD.

Mae llawer blodeuyn a enir
I wrido o olwg y byd,
Gwastraffa ei holl berarogledd
Yn awyr yr anial i gyd.

MYFYRDOD YR AWDWR AM DANO EI HUN.

Ar y Mesur a elwir Diniweidrwydd.

[O'r "Grawn Awen," a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1826.]

Rhyfedd ydyw holl weithredoedd
Ior y lluoedd ar y llawr,
Heblaw'r rhyfeddodau addien
Welir drwy'r ffurfafen fawr;
Pe bai ynof iawn syniadau
Am fawr wyrthiau Duw, fy Rhi,
Gwelwn ol ei hardd fanylwaith,
Hynod fawrwaith arnaf fi.

Gwnaeth im' gorff o bridd y ddaear,
Dyma brawf o'i ddoethgar ddawn,
A rhoes ynddo'n ddirgeledig,
Enaid anweledig iawn:
Tuag ataf, ei nawdd ddirfawr,
A fu 'n fawr, holl ddyddiau f'oes,
Ac mewn llawer blin amgylchiad
Ei warediad imi roes.

Fe allasai 'm llunio 'n adyn
O wallgofddyn eithaf câs,
Nes buaswn bob rhyw adeg
Fel yn rheg gan bawb o 'nhras,
Neu roi arnaf farn dymhorol
O glwyf ysol heb ei fath,
Nes fy nifa'n hollol ddiddim
Gan fawr rym ei ffyrnig frath.

Fe allasai'm troi'n un gwrthun,
Hyll, noethlymyn a thylawd,
Nes buaswn gan fawr oernych,
I bob un fel gwrthddrych gwawd,
O ddrws i ddrws, heb nemawr gymhorth,
Ond hel f'ymborth ddyddiau f'oes;
Ac o'r diwedd drengu'n 'sgeler
O dan lawer, lawer loes.

Fe allasai'm gwneud yn ddinerth,
Llwyr anmhrydferth, anferth un,
Nes buaswn, herwydd gwendid,
Yn fawr ofid i'm fy hun;
Ac yn methu, gan fy ngwaeledd,
Er ymdrechu, cerdded cam,
Ac o'r herwydd dori calon
Hawddgar, mwynlon dad a mam.

Ond er imi haeddu hyny,
Gallaf ddweyd, nid felly fu,
Ond mwynheais rad ymgeledd
Hyfryd, ei drugaredd gu:
Pa beth dalaf i'm Creawdydd
Am roi, beunydd, yn ddi baid,
Brawf o'i helaeth ofal odiaeth,
A'i feithriniaeth i'm wrth raid?

Ond er imi gael, yn ddiddig,
O'i arbenig nawdd bob awr,
Nid wyf ond gwyfyn a ddarfydda,
Gwn, na fyddaf yma, fawr;
Fe gaf brofi dwys ergydiau,
Archoll angau erchyll, llym,
Ac yn wyneb y loes ola',
Fy nghorff gwael ni ddalia ddim.

Dyna'r pryd pan y'm datodir,
Ac y'm bwrir i lawr bedd,
Man lle caiff fy nghorff orphwyso,
A llwyr huno mewn llawn hedd;
Ataf ni bydd neb yn tramwy
Yno, mwy, ond pryfed mân;
Rhai'n ar hyd-ddwyf wnant ymlwybro
Nes malurio 'ngherff yn lân.

Yno byth nid allaf wneuthur
Nôd na llythyr â fy llaw,
Bydd y bysedd wedi ffêru,
Arnynt gwawr go ddu a ddaw:
Hoil weithrediad clyw a theimlad
Ac arogliad â'n ddi rym,
Derfydd synied, derfydd gweled,
Tafod chwaith ni ddywed ddim.

Anwyl, heddyw, ydyw'r hynod,
Wanaf aelod, genyf fi,
Nid yw, weithian, y bys bychan
Heb ei ran o barch a bri;
Er bod rhwng f' aelodau, 'n wastad,
Anwyl gariad llwyr, di goll,
Yn y bedd gwna hwn ddiflanu;
Cânt eu chwalu'n fân lwch oll!

Pe doi yno gyfaill tyner,
Wedi teithio o bellder byd,
Gan chwenychu cael, heb wrtheb,
Gwel'd fy wyneb am ryw hyd;

Dyma'r ateb roddid iddo—
Minnau'n huno'n fud mewn hedd,
" Nid oes fodd it' gael cyfeillach
Gwilym fach, gwel yma'i fedd."

Pe bai i wych beroriaeth angel
Seinio'n uchel, dros y nen,
Nes y gwnai yr adlais llafar
Siglo parthau'n daear den,
Hunо wnawn hyd y boreuddydd
Cwyd pawb sy'n llonydd yn y llawr:
Gwneud fy mhabell yn derfysglyd
Ni wnai dim am fynyd awr.

Er fy rhoddi fi yn y gweryd—
Gwely oerllyd gwael ei lun,
Yn eu trefniad, troellau natur
Am lawer oes a bery'r un;
Fe ddirwynia holl amserau
Y tymhorau fel y maen',
Haf a gaua'n ol eu gilydd
Ddaw, heb ludd, fel 'r oedd o'r blaen.

Egyr dorau gwawr y dwyrain:—
Hefyd, clywir adsain clych,*
Yn cyhoeddi'n hynod uchel
Am rai'n dod i'r isel rych;
Hau a phlanu, adeiladu,
Pob beth bery yn y byd,
Minnau'n lân oddiwrth drafferthion,
Gyda'r meirwon yn dra mud.

Seinia 'r adar, bynewyr llafar,
Dônau cerddgar yn y coed;
A phelydra'r awen serchog
Byth, mor enwog ag erioed;
Hi fydd mewn addurnau celfydd,
Euraidd wisg o newydd wedd;
Efallai chwery rhyw ail Filton
Ei thànnau mwynion uwch fy medd!

Pe gwnai pethau natur f' ysgog,
A'm cyffroi â'u gwresog rym,
Ceinciau'r awen a'i phereidd-dra,
Ddo'i hyd ata' i 'n anad dim,

* Cyfeiria hyn at giuliad y clychau pan y byddo rhywrai meirw.

Ond yn nghanol bedd daearol,
Diau, 'n farwol byddaf fi,
Draw o gyrhaedd gwych bereiddsain
Awen gain na'i hadsain hi.

Ni ddaw neb, pe gwnawn chwenychu,
I'm hysbysu i dŷ'r bedd,
A fydd milwyr gwaedlyd, rhwysgfawr,
Mewn dull clodfawr, yn trin cledd;
Gall y byd derfysgu 'n orwyllt,
Mewn cyffröwyllt, anferth ffrwst,
Fi ni chlywaf am drafferthion,
Amryw droion hwn na'i drwst!

Os caf nabod Duw, mewn cymod,
Do'f o'r beddrod drwy fawr barch,
Pan fydd beddau'r byd, mewn cyffro,
Yn ymrwygo ar ei arch;
A cheir myned i'w fendithiaw
Draw uwchlaw pob haint a chlwy';
A'i fwynhau yn ngwlad goleuni,
Gan addoli, moli mwy.

PENNILLION AR Y BEDD.

Nid dyma'r tir y byddai'n hir yn byw,
Daw angau ar frys, un llym, arswydus yw,
Fy mhabell frau a'i seiliau, diau, dŷr,
Rhoir hi mewn hedd ar lawr oer fedd, ar fŷr.

O fewn i'r bedd pob siriol wedd a syrth,
'Does tegwch gwiw yn bod o fewn i'w byrth;
Ond pryfed mân sy'n llwybro yma'n llu,
Heb unrhyw wawr ond dirfawr d'w'llwch du!

Cyn i mi i'r bedd, yn rhyfedd, gael fy rhoi,
Tra byddwyf byw, gwnaed Duw fy mharotoi;
Nid yw ond hûn i bob credadyn bach,
O'i oeraidd gôl daw'n nerthol wiwddyn iach.

Adgodiad gwych, llon, harddwych mewn llawn hedd,
Gaiff plant Duw Ion, er bod yn eigion bedd,
Ar wedd dra llon eu tirion Briod hwy,
Heb ofni'r bedd, na chledd, na haint, na chlwy'.

PRYF Y BEDD.

[Cyhoeddir y gân hon a'r un ddilynol o'r "Caniadau" ar gais cyfeillion.]

Pryf y beddrod wyf sy'n llechu
O dan orchudd daear werdd;
Dyma 'nghartref, lle dystawa
Holl beroriaeth merched cerdd;
Imi rhoddwyd agoriadau
Llygredigaeth y fro lawn;
Rhag dod ataf, plygai'r balchaf
Ar ei liniau'n isel iawn;
Hawlio'r wyf bob un ddaw'n agos
I 'nherfynau ar fy nhaith;
Byw yr wyf fel ymerawdwr,
Ar fy ngorsedd oer a llaith.

Trigo'r wyf mewn rhwysg unigol
Yn y dystaw feddrod du;
Nid oes eisieu un deyrnwialen,
Llurig ddur, na chostfawr blu;
Galarwisgoedd mewn angladdau,
Addurniadau tŷ y bedd,
Sydd i mi, fel blodau beunydd,
Yn parhau heb newid gwedd:
Tegwch ieuanc a ddaeth yma
Ataf fi, er's oesau maith;
Byw yr wyf fel ymerawdwr,
Ar fy ngorsedd oer a llaith.

Y tywysog a'r cardotyn
Sydd i mi yn ddau'r un fath;
Rhyddhau'r caethwas o'i gadwyni
Wnaf pan ddel i'w dŷ dwy lath;
Nid wy'n prisio yn mha leoedd,
Ar y môr ai ar y tir,
Ai o wely neu esmwythfainc,
Yr â dynion i'r daith hir:
Cydnabyddir fy nheyrnwialen
Ddu gan feirwon o bob iaith;
Byw yr wyf fel ymerawdwr,
Ar fy ngorsedd oer a llaith.

Fy nghusanau oer a wesgir
Ar deg rudd y wyryf lon;
A fy mhen a ro'f i orphwys
Ar ei hesmwyth glaerwen fron;
Dygant hi mewn priodaswisg
Wen fel eira ataf fi,

Bloddest wnaf yn ddidosturi,
Hyd nes blinaf arni hi;
Gan na ddengys oerfelgarwch
I 'nghynygion a fy ngwaith,
Yn y man lle'r wyf yn frenin,
Ar fy ngorsedd oer a llaith.

Gwledda wnaf ar y gwefusau
A lefarent gynt mor rydd;
Yfed wnaf yr oer wlith hwnw
Adawodd angau ar ei grudd;
Mae yr hyf, y gwan, a'r gwrol,
I fy ngallu'n plygu'n awr;
Nid oes yn y pentwr tywyll
Neb yn fach na neb yn fawr:
I fy mhalas arwain angau
Holl deuluoedd daear faith;
Byw yr ydwyf fi fel brenin,
Ar fy ngorsedd oer a llaith.

Gwrando bryfyn, sy'n ymffrostio
Yn dy rwysg ac yn dy waith,
Gelli fod yn rhy hyderus
Ar dy orsedd oer a llaith;
Mae rhyw ddiwrnod bron a gwawrio
Pan agorir pyrth y bedd,
Dyna'r pryd mewn goruchafiaeth,
Bwrir dithau i lawr o'th sedd:
Dadsylfaenir dy lywodraeth,
Chwelir d'ymerodraeth fawr,
Iesu'n unig fydd yn frenin
Drwy y nef a'r ddaear lawr.

Y BEDD.

Fel y gwywa dail y goedwig,
Gan lem awel gauaf du,
Y diflana blodau einioes,
Nerth ac egni ymaith ffy;
Y wreichionen fywiol heda,
Gad y babell fywiol hon,
At Dduw'r barnwr y cyfeiria
I ymddangos ger ei fron.

Y mae'r corff, yn awr, yn barod
I'w roi i orwedd yn y bedd,
Yno syrth mor oer â'r ddaear
Lynca i fyny 'i bryd a'i wedd;

Byth ni thala neb ymweliad
I mi yn fy naear gell,
Ond y pryfaid sy'n ymlwybro
Drwy ororau'r ardal bell.

Er i glir belydrau'r haulwen
Gael eu saethu dros y byd,
A'r goleuni gael ymdywallt
Ar y ddaear fawr i gyd,
Ni thrywanat drwy gysgodion
Trymllyd angau yn y bedd;
Ond tywyllwch sy'n teyrnasu
Yno byth heb newid gwedd.

Yno colla'r llaw wywedig
Ei medrusrwydd a'i holl rym,
I reoli yr ysgrifell,
Ni wna air, na nod, na dim;
Pob gohebiaeth a ddarfydda
Gyda dyffryn galar mwy;
Pob amcanion a droir heibio,
Gorphwys wnaf yn iach heb glwy'.

Pe bai i elyn creulawn gwaedlyd
Ddod i sathru ar fy medd,
Gyda chalon lawn eiddigedd,
A golygon melltiawg wedd,
Cysgu'n dawel a gorphwyso,
Wnawn yn mynwes daear glyd,
Er holl rym ei gynddeiriogrwydd,
A'i ddichellion ef i gyd.

Nid bloeddiadau lluoedd daear
Wedi'r brwydrau mwya'i gyd,
Na chorn angel allai dreiddio
Drwy y nef o fyd i fyd,
Na dirgrynfa y pegynau,
Sigla'r byd o ddarn i ddarn,
Allai 'neffro yn y beddrod;
Cysgu wnaf hyd fore'r farn.

Ond ni chaiff fy ymadawiad
Unrhyw effaith ar y byd;
Haul a lleuad byth ni phallant
A gweinyddu iddo o hyd;
Y ser tanbaid, yn eu cylchoedd,
Ymsymudant fry uwchben,
Fel hardd berlau ymddysgleiriant,
Dawnsio wnant yn entrych nen.

Y rhaiadrau gwyllt ewynawg,
Ruant wrth ymfwrw i'r aig;
Rhuthrant allan mewn cynddaredd,
Golchant ddannedd garw'r graig;
Yr afonydd a furmurant,
Ac a lithrant hyd y ddol,
I eigionau glasfor hwriant,
Eu holl ddyfroedd yn ei ol.

Mynwes dyfnfor a ymchwydda
A'r clogwyni ylch y dôn;
Mellt ymwibiant, rhua'r stormydd,
Sigla t'ranau'r ddaear gron;
Y llafurwr drinia'r cwysau,
Meda'i ffrwythydd yn ei bryd;
Ei gynlluniau dŷn y pensaer,
O'i wych adeiladau drud.

Llenwi'r goedwig ddeiliog acw
A wna'r adar gyda'u cân;
Dyrchu moliant eu Creawdydd,
A'i glodfori oll yn lân;
Minnau'n llechu dan yr Ywen,
O dan gwrlid daear werdd,
Heb fy symud gan un gallu,
Na mwynhau perseiniol gerdd.

EMYNAU.

"*Yn y byd gorthrymder a gewch.*"—Ioan xvi. 33.

Os cefais fy nghyfran o boenau
Wrth deithio ffyrdd geirwon y byd,
Pe gallwn fyn'd drwyddynt hwy etto,
Cael llai ni ddymunwn un pryd;
Pe gallwn i gyrhaedd porth angau,
Sy'n dywyll, hyd lwybr, heb ddraen,
Mor dlawd, ac mor isel y gallwn,
Gyfarfod y byd sydd o 'mlaen.

Mae grasau fel tân cynheuedig,
A lysg mewn oer awyr yn llym,
Yr hwn o dan belydr haul dysglaer
Ddiflana, a dderfydd yn ddim;
Nid ydwyf yn caru gofidiau,
Pwy garai fawr boen calon friw?
Pwy etto faidd wrthod y cwpan
Fesurodd doethineb fy Nuw?

Daeth yr awr.

Yr awr a benodwyd yn foreu,
Cyn seilio mynyddau y llawr,
Na gosod y môr yn ei wely,
Na threfnu ei threigle i'r wawr,
Na gosod proffwydi i gyhoeddi
Y genid Tywysog y nen,
Ar fynydd Golgotha ryw ddiwrnod,
Ddirwynodd yn gywir i ben.

Awr rhoddi i'r ddeddf ei hanrhydedd,
A rhoi i gyfiawnder fawrhad;
Awr talu'r hyn oedd yn ddyledus
Er rhoddi i'r euog ryddhad;
Cyfarfu y ddeddf a'r Efengyl
Ar gopa Calfaria yn nghyd;
Er dangos i'r byd mai canolbwnc
Oedd Iesu, Iachawdwr y byd.

Fe gafodd y gyfraith lân ynddo
Foddloni'i gofynion i gyd;
Fe ddaeth drwy'r Efengyl am dano
Fendithion ar gyfer y byd;
Fe edrych y gyfraith heb lidio,
Yn wyneb pechadur yn awr;
Fe dywallt Efengyl falm nefol
Er gwella troseddwr ar lawr.

Yr ail ran.

Rhoed gwisg yr offeiriad o'r neilldu,
Pan drengodd yr Iesu ar bren;
Mae'r gwaedu, y blingo, a'r llosgi,
Drwy'i aberth rhinweddol ar ben;

Caiff ŵyn bach a hyrddod lonyddwch,
Ni roir y diniwaid dan loes;
Fe lyncodd y sylwedd bob cysgod—
Bu farw'r Cyfryngwr ar groes.

Ennynodd y tân yn angherddol,
Gan ddifa holl ebyrth y byd,
Nes cyffwrdd ag aberth Calfaria—
Diffoddodd pryd hwnw i gyd;
Ar ol rhoddi Iawn a boddlonrwydd,
Gogwyddodd yr Iesu ei ben;
Y beddau a'r creigiau gynhyrfwyd,
Dilewyd a rhwygwyd y llen.

Yr Eiriolwr—Iesu Grist y Cyfiawn.

Y GWR y mae ei ysgwydd
O dan lywodraeth Ior;
Sydd yn rheoli'r corwynt,
Sy'n ffrwyno tônau'r môr;
Sy'n gyru'r mellt i hedeg,
Sy'n siglo creigiau'r byd;
Sy'n dal colofnau'r nefoedd,
Sy'n eiriol ar bob pryd.

Ni rydd ei swydd i arall,
Na f'achos gwan o'i law;
Ond deil i eiriol droswyf
Nes myn'd i'r ochr draw;
Caf yno wel'd ei degwch,
A'i ganmol heb un llen;
Dirif goronau lawer
A roddir ar ei ben.

Hyder yn Nghrist.

PAM yr ofna f'enaid mwyach,
Gan fod Iesu etto'n fyw?
Beth yw gorthrymderau fyrddiwn
Os caf gymhorth gras fy Nuw?
Af drwy foroedd o ofidiau,
Croesaf yr Iorddonen ddofn;
Presenoldeb Iesu tirion
Fydd yn angau i'm holl ofn.

Rhydd ei freichiau odditanaf,
Deil fy mhen yn uwch na'r dôn,
Gwell y gŵyr na neb am ddyfnder,
Ac am rwysg yr afon hon;
Drwyddi'r aeth yr Iesu'i hunan,
Wedi'i adael gan ei Dduw;
Ond ni ad ef un pechadur
Yn ei thônau—Iesu yw.

Rhyfeddod Trefn Gras.

Syned daear, synedd nefoedd,
At olygfa o'r fath hon,
Gwel'd Creawdwr yr angylion
Yma'n faban ger eu bron;
Taenu'r gogledd ar y gwagle,
Rhwymo Orion a wnaeth Ef,
Crogodd ser yr uchelderau,
Rhoddodd fod i haul y nef.

Mae'r anialwch maith a'r creigiau
Ger ei fron yn crynu i gyd;
Mellt ni hedant heb ei genad,
Hyd derfynau eitha'r byd;
Gallu'r t'wllwch, uffern obry,
A'r cythreuliaid sy'n ei law;
Pan lefara, crea ddychryn
Drwy ororau'r byd a ddaw.

Etto teithiodd heibio i fydoedd
O ardaloedd gwynfyd pell,
I ddyfnderoedd tlodi dynion,
Er eu dwyn i gyflwr gwell;
Aeth i'r draul i gyd ei hunan,
A dyoddefodd angau loes;
Y cysgodau oll a gilient
Pan fu farw ar y groes.

Cydnabyddiaeth Pechadur.

Yr ydwyf wedi haeddu
Bod dan ddigofaint Duw,
Yn gwaeo am fy mhechod
A'm llygredd o bob rhyw;

Ond grym eiriolaeth Iesu
Droes y dialedd draw;
Mae bywyd pob pechadur
Yn hollol yn ei law.

Mae'r gwaed, yr ing, a'r dagrau,
Sy'n uchel yn y nef,
Ac ol y drain a'r hoelion,
A'i angau poenus ef,
Yn para yn eu rhinwedd
I droi'r llidiawgrwydd draw:
Mae trefn yr ymerodraeth
Yn gwbl yn ei law.

Buddugoliaeth Crist.

Gorchfygai'r Iesu'n llwyr,
Elynion dyn a Duw,
Rhai oedd fel bleiddiau'r hwyr,
Am ddifa dynol ryw;
Fe fathrodd ddreigiau ar y groes,
Wrth oddef ing a marwol loes.

Galluoedd uffern ddu
Oedd yn amgylchu'r bryn;
Tywyllai'r heulwen fry.
Mawr oedd y ddaear gryn;
Y creigiau holltai'n chwilfriw mân,
Pan y dyoddefai'r Iesu glân.

Effeithiau marwolaeth Crist.

Fe roddes Iawn i Dduw,
Gael ffordd i brynu dyn;
Mae'r T'wysog heddyw'n fyw,
A'r nef a ninnau'n un;
Trwy'i waed dylifa môr o hedd,
I'n dwyn yn gwbl ar ei wedd.

Yn nghoncwest Iesu glân
Mae mywyd a fy ngrym;
Nid ofnaf uffern dân,
Na cholyn angau llym;
Yn mlaen, yn mlaen, daw Seion wan,
O'r tònau i gyd hi ddring i'r lan.

Marwolaeth Crist.

Gwel Iesu wedi'i gur,
Yn gorwedd yn ei waed;
Ac ol yr hoelion dur
Drwy'i ddwylaw glân a'i draed;
Y llaw gyfodai'r marw'n fyw,
O fewn y bedd, mor farw yw!

Ond fore'r trydydd dydd,
Cyfodai'r Ceidwad mawr;
A thegwch ar ei rudd,
Mil harddach na'r deg wawr;
Yspeiliai agoriadau'r bedd,
Arswydai uffern rhag ei wedd.

Y Saint yn y Nef.

Mor ddedwydd ydyw'r dyrfa lân
Sy'n awr a'u traed yn rhydd,
Uwchlaw pob gofid, ing, a phoen,
Oll wedi cario'r dydd.

Rhai gweiniaid oeddynt ar y llawr,
Bron colli'r dydd yn lân;
Yn trydar fel colomen lesg,
A thristwch yn ei chân.

Ond heddyw, cân fuddugol mwy,
A genir yn y nef;
Maent wedi cyrhaedd uwch pob ofn,
Drwy rym ei haeddiant Ef.

PENNOD X.

PREGETH ANGLADDOL.

GAN GWALCHMAI.

A DRADDODWYD YN NGHYFARFOD CHWARTEROL LLANRUG, ARFON, MAWRTH, 1869.

"*Canys wele yr Arglwydd, Arglwydd y lluoedd, a dynn ymaith o Jerusalem ac o Judah, y cynnaliaeth a'r ffon, holl gynnaliaeth bara, a holl gynnaliaeth dwfr, Y cadarn, a'r rhyfelwr, y brawdwr, a'r proffwyd, y synhwyrol a'r henwr, Y tywysog deg a deugain, a'r anrhydeddus, a'r cynghorwr, a'r crefftwr celfydd, a'r areithiwr hyawdl.*"—ESAIAH III. 1—3.

RHAGFYNEGIAD yw y bennod hon, hyd yr adnodau cyntaf o'r bennod ddilynol, am y trueni a gyfarfyddai y genedl yn nghaethiwed Babilon; cymaint trueni, ag y gwrthodai un anrhydedd brenhinol er mwyn ei osgoi. Pe cytunai brawdoliaeth i ddywedyd wrth un,—"Y mae dillad a chyfoeth genyt ti, bydd yn dywysog i ni:" yntau a dyngai, "Na fyddaf fi; ni byddaf iachâwr i chwi: pa gysur all fod i ni yn wyneb y tywydd hwn? y mae ein prif gynnorthwy wedi ei gymeryd oddiarnom ni yn awr."

Llygredigaeth ac enogrwydd y genedl a dynodd arni y cerydd a'i goddiweddodd ar y pryd. Yr oedd ei harweinwyr yn cael eu cymeryd oddiarni, a'r llywodraeth yn cael ei chyflwyno i ddynion nad oeddynt yn ddim amgen na phlant. Yr oedd wedi cael aml rybudd i ddychwelyd at ei Duw, ond heb wrando, hyd nes ydoedd yn rhy ddiweddar.

Y mae cewri yn y weinidogaeth yn cael eu cymeryd oddiarnom ninnau yn y dyddiau hyn—y Methodistiaid a'r Annibynwyr, yn neillduol. Y cyntaf wedi colli John Jones, o Dalysarn; a'i frawd David Jones, Treborth; John Phillips, o Bangor; a Henry Rees, o Liverpool. Ac y mae yr Annibynwyr wedi colli Huw Puw, o Mostyn; ac yn ddiweddaf oll, ein hen gyfaill CALEDFRYN.

Nid ydym yn meddwl y dylem adael i amgylchiad fel hwn fyned heibio, heb wneud rhyw nodiad arbenig arno. Nid yw y Cristion i fod yn ddisylw o symudiadau olwynion rhagluniaeth y nef, onide, byddai raid i ni fyned allan o'r byd. fel y dywed yr apostol. Nid yw y cymeriad Cristionogol yn cael ei adeiladu ar adfeiliau y ddynoliaeth, yn y brawd, y cymydog, y gwladgarwr, y gwleidyddwr, na'r athronydd, mwy na'u gilydd, ond yn rhagoriaethau naturiaethol a moesol pob un.

Yr oedd MR. WILLIAMS yn un o brif ddynion y genedl hon, os nid yr uwchaf yn yr areithfa, ac ar yr esgynlawr; a chymeryd i ystyriaeth ei orsaf fel gweinidog, fel llenor, ac fel gwleidyddwr: yr wyf yn meddwl na fyddai neb yn anfoddlon i gytuno i'w osod ar ben pinacl anrhydedd cenedl y Cymry.

Y mae llinellau egluraf ei gymeriad yn cael eu gosod allan yn fanwl yn y testyn. Nid ydym yn gweled cysylltiad neillduol rhyngddo â'r cyfan o'r rhagoriaethau a grybwyllir yma, etto yr oedd yn agosach i ddyfod i fyny â hwynt oll, na nemawr un o'i gydoeswyr. Cymerwn fenthyg rhai o honynt, i gyfeirio ato, heb lynu wrth y cyd-ddilyniad llythyrenol o honynt yn mhob peth.

Dau sylw a gynnygir oddiwrth y geiriau, sef,—

I. Y GOLLED A GAWSOM, PAN Y CYMERWYD ODDIARNOM, "YR AREITHIWR HYAWDL."

II. A'R ALWAD SYDD YMA I GYDNABOD YR ORUCHWYLIAETH, DAN LYWODRAETH RHAGLUNIAETH Y NEF—YN DYFOD ODDIWRTH "ARGLWYDD Y LLUOEDD."

Y darluniad o hono yn y geiriau fel *proffwyd*. Nid rhagfynegi pethau dyfodol yn unig oedd ei waith ef; ond addysgu ac arwain y bobl hefyd; ac fel y cyfryw yr oedd yn ateb yn neillduol iawn i'r darluniadau canlynol:—

Y cadarn. Yr oedd y mwyaf diysgog a diymod o neb. Y peth yr

argyhoeddid ef o hono yn drwyadl, yr oedd yn benderfynol o'i ddilyn. Meddai hyder am y canlyniadau. Os barnai y byddai ar lwybr dyledswydd, ni phetrusai am y dyfodol: mynai adael hyny yn llaw y llywodraethwr mawr, yr hwn a wyddai oreu am bob peth.

Y rhyfelwr. Nid oedd arno byth ofn cyfarfod ei wrthwynebwr, mewn achos cyhoeddus; ond y rhyfel y rhyfelai ef fwyaf yn ei erbyn ydoedd rhyfel y cleddyf dur. Amddiffynodd egwyddorion heddwch cenedlaethol, hyd yr eithaf, ar dir ysgrythyrol.

Y brawdwr. Efe oedd yr ynad a'r beirniad. Ni dderbyniai wyneb, ac ni wyrai farn. Yr oedd y parotaf i gymmod o bawb, ond yr oedd y mwyaf anhyblyg o neb, hyd nes y delai telerau pob dadl i'w cymeryd ar egwyddorion teg.

Y synhwyrol a'r henwr. Y mae i'w wahaniaethu, i raddau oddiwrth y doeth; yr hwn y mae ei ddybenion yn dda, ac a arfera y moddion mwyaf priodol i gario ei gynlluniau allan i ymarferiad. Golyga un na fradycha synwyr cyffredin ar unrhyw amgylchiad. Un a fedr gadw ffolineb draw. Cablwyd llawer arno am ei wrthwynebiad i eithafion; ond nid oedd neb a'i hadwaenai, na addefai, hyd yn nod pan yr elai ar y mwyaf twymfrydig, ei fod yn gydwybodol. "Myfi doethineb wyf yn trigo gyda challineb; yr ydwyf yn cael allan wybodaeth cynghor."

Fel arweinydd cyhoeddus, yr oedd yn *dywysog ar ddeg a deugain.* Yr oedd yn dra blaenllaw gyda holl bynciau pwysig y dydd, ar bob amgylchiad.

Gellid cyfeirio at *Wleidyddiaeth.* Daeth i sylw y cyhoedd fel gwleidyddwr, yn y nodiadau a gyhoeddodd ar lythyr a ysgrifenasai y Parch. John Elias, mewn cerydd lled lym ar yr Anghydffurfwyr, oedd yn dechreu ymwrthod ag Eglwysyddiaeth Wladol. Dichon mai efe, yn Llanrwst, a fu yn cynnal cyfarfod dros Ddadgysylltiad gyntaf o neb yn Nghymru na Lloegr. Yr oedd ei sylwadau yn finiog iawn ar y pryd, pan oedd y dadleuon ar y pwnc yn ddyeithrach nag ydynt ar hyn o bryd yn mhob man.

Deddfau yr Yd. Dichon mai efe a fu fwyaf llafurus ar y pwnc hwn o neb yn ein gwlad ni. Galwodd gynnadledd gyhoeddus o weinidogion pob enwad, yn Nghaernarfon, i ddadlu y pwnc. Dynoethodd yn

ddiarbed y waedd mai dan farn Duw yr oeddym, ar fiwyddyn o brinder neillduol, pan y mynai ef mai o dan farn dynion yr oeddym. Yr oedd digon o ŷd yn y wlad, ond yr oedd yr amaethwyr yn ei gadw allan o'r farchnad, er mwyn codi ei bris; ond yr oedd ef yn eu rhybuddio yn groew rhag pla y llygod, oedd yn dechreu ysu y teisi ŷd ar yr adeg hòno.

Y Gynnrychiolaeth. Safodd yn wrol dros iawnderau gwladol, a dadleuai bob amser fod yn rhaid dechreu y diwygiad gyda y gynnrychiolaeth, ac felly y profwyd mewn amser, cyn hir wedi hyny.

Ei dalent gyhoeddus yn gyffredinol:—*Yr anrhydeddus, y cynghorwr, y creftwr celfydd, a'r areithiwr hyawdl.* Yr oedd yn gelfyddgar o ran ei syniadau, ac o chwaeth ddillyn mewn llawer ffordd. Mewn fferyllìaeth amaethyddol, yr oedd yn lled wybodus, fel y gwelir wrth ei erthyglau yn yr *Amaethwr*, y cyfnodolyn a gyhoeddid yn Nghaernarfon. Talodd gryn sylw i adeiladaeth capeli, a'r modd i'w cynllunio oreu, er mwyn seinyddiaeth, ac arbed trymder i'r llefarwr, ac i'r gwrandawr; a bu yn ymdrechgar iawn yn y dosparth hwn gartref.

Yr ydym yn awr yn dyfod at un o'i brif ragoriaethau, sef yr *areithiwr hyawdl.* Y mae llawer ffordd i osod allan y meddwl yn eglur ac effeithiol, megys areithyddiaeth, barddoniaeth, cerddoriaeth, darluniaeth, chwareuyddiaeth, cerfiadaeth, &c.; ond yn y ddwy ganghen gyntaf yr oedd efe ar ben y pinacl. Nid oedd yn hynod yn yr un o'r rhagoriaethau eraill, ond am y rhai hyn, a dodi pob peth at eu gilydd, nid oedd yn ol i neb.

Yr oedd pob peth ynddo wedi cael ei dori allan gan natur, i'w wneud yn areithiwr. Dywedodd Dr. Campbell, am dri dyn yn yr oes hon, fod lluniad eu gwyneb yn wahanol i bawb eraill; sef Napoleon Buonapart, Dr. Chalmers, a Henry Ward Beecher; nad oeddynt yr un fath a dynion eraill: fod croen eu gwyneb yn debycach i farmor nac i gnawd; nad oedd agoriad eu llygaid, ysgogiad eu gwefus, na symudiad eu llaw, yr un fath â neb. Pe gwybuasai am CALEDFRYN, gallasai yn hawdd ychwanegu un at ei drioedd. Yr oedd ffurf ei ben, a drych ei wyneb yntau yn lleferydd byw, ynddynt eu hunain.

Yr ydym yn cofio yr olwg gyntaf erioed a gawsom arno, er's o ddeugain mlynedd i hanner canrif, o'r oriel, yn y pulpud, yn ddyn

ieuanc, dengar ei ymddangosiad, yn llwyd a theneu, a gwallt mawr rhydd, goleu melynlliw ganddo. Wedi dechreu ei bregeth, yr oedd â bysedd ei law ddehau yn troi ei wallt, oedd yn dyfod ar draws ei lygad beunydd, draw yn ol, a hyny mor aml, nes yr oedd yn codi tipyn o ragfarn ynom ato; ond fel yr elai yn mlaen, a thwymno gyda ei bwnc, mewn ffrwd o hyawdledd llithrig, a phob gair yn goethedig, a phob brawddeg fel pe buasai wedi ei mesur a'i phwyso, gweithiodd drwy bob rhagfarn, nes ennill ein serch yn lân; teimlad ag na chollwyd mo hono yn llwyr hyd y dydd hwn.

Yr oedd yn nodedig am *burdeb ei iaith*. Yr oedd yn hoff iawn o arddull y Beibl Cymraeg. Yr oedd ei holl gyfoeth at ei alwad bob amser. Yr oedd ei ddawn-ymadrodd yn arabaidd, esmwyth, a naturiol. Yr oedd o'r braidd yn eithriad i sylw yr apostol Iago—"Os oes neb heb lithro ar air, gwr perffaith yw hwnw, yn gallu ffrwyno yr holl gorff." Yr oedd pob gair a phob brawddeg wedi eu caboli i berffeithrwydd ganddo, a hyny heb un arwydd o ymgais nac egni.

Yr oedd yn dra effeithiol yn ei *draddodiad*. Siaradai â threm ei lygaid, ysgogiad ei law, a derchafiad ei fraich. Yr oedd nerth ei apeliadau, a diffuantrwydd ei amcan yn coroni y cyfan. Gallem gyfeirio at ddau amgylchiad fel eguriadau. Ei bregeth mewn cyfarfod yn Nghonwy ar "Bethau mawrion y gyfraith." Yr oedd ei hyawdledd y tro hwn, o ran prydferthwch traddodiad, yn fwy er creu syndod, nac er toddi y teimlad. Yr oedd pob wyneb yn y dorf, yn ymddangos fel delw, ac weithiau fel wedi eu taro â syndod, nes eu syfrdanu. Nid ydym yn gwybod am unrhyw effeithiau neillduol wedi aros mewn canlyniad i'r bregeth hon. Rhywbeth fel hyn oedd yr ymddyddan rhwng pawb:—"Wel mewn difrif, a glywsoch chwi erioed y fath beth! y mae o tu draw i bawb." Dywedai un hen ddiacon yno—"Y mae Williams wedi cael mwy o ddylanwad na neb ar Gonwy, byth er yr amser y bu ef yn pregethu ar y cei yna, ac y gofynai i'r plant drwg oedd yn lluchio pridd i lawr, o ben y mur, a oedd' cythreuliaid moch Gadarenia wedi myned iddynt, nes dychryn y plant i lonyddwch ar unwaith."

Mewn cyfarfod yn Llansantffraid, pan yn pregethu ar yr Adgyfodiad. Tra yr oedd yn siarad yn bwyllys, cyn dyfod i wres angherddol ei

ddawn, yr oedd wedi meddianu holl deimladau y dorf yn lân. Ni welsom gymaint o ddagrau distaw mewn odid dorf erioed. Yr oedd pawb yn wylo: nid oedd yr un wyneb yn y lle heb fod wedi ei guddio mewn ffunen llogell; a phawb ar ei egni yn ceisio ymattal. Yr oedd yno rai gwragedd a adwaenem, wedi colli eu plant, ychydig cyn hyny, yn methu ag ymgynnal yn lân, wrth geisio ymattal rhag tori allan i waeddi, mewn wylofain dwys. Yr oedd yn nghanol ei boblogrwydd a'i nerth y pryd hwn.

Fel duwinydd yr oedd yn gymhedrol. Yr oedd yn dra hoff o Eiriadur Mr. Charles, a gwnai ddefnydd mawr o hono, a chymhellai ef i sylw pregethwyr ieuainc yn gyffredin.

Ei Farddoniaeth. Addefa pawb mai prif orchest ei oes oedd ei Awdl Gadeiriol, sef "Drylliad y Rothsay Castle." Yr oedd ei feistrolaeth ar y gynghanedd, yn dangos y gall pob dyn, wedi ei hyfforddi ei hun yn y mesurau Cymreig, ddywedyd ei feddwl yn ddirwystr ynddynt. Gofynai ef yn gyffredin am bryddest mor effeithiol a'r awdl. Nid oedd efe wedi enwogi ei hun yn gymaint yn y mesur rhydd. Yr oedd yn rhedeg i eithafion yn ei hoffdér o waith Edmund Prys.

Fel Beirniad, yr oedd yn sefyll yn uwch o'i ysgwyddau i fyny na neb o'r frawdoliaeth. Creodd fwy o lenorion yn ei ddydd, ond odid na neb. Dichon fod eraill wedi creu mwy o gyfeillion; ond efe a fu yn foddion i buro chwaeth. Nid ydym yn awgrymu iddo fod yn ddoeth bob amser, yn y dosparth hwn; ond yr ydym yn cyfeirio at ei nodiadau ar y cyfan. Yr oedd ei duchan weithiau yn anoddefol, ond yr oedd yn addysgiadol yn y man gwaethaf. Yn y naill ddosparth a'r llall, ei brif hynodrwydd oedd ei onestrwydd a'i gywirdeb. Yr oedd yn wastadol yn ymateb cydwybod ddirwystr gerbron Duw a dynion. Bydd y cyhoedd, yr ydym yn credu, yn barod iawn i roddi sel ar y dystiolaeth hon. Fel pregethwr a gweinidog, yr oedd yn sefyll yn y dosparth uchaf. Yr oedd yn gymhedrol am ei olygiadau duwinyddol. Haerai nad oedd dynion yn wreiddiol, ac na cheid gwreiddioldeb yn unman ond yn y Beibl. Yr oedd yn finiog yn ei sarhad ar syniadau tywyll, ac yn lled wawdiol ar ddynion y "*depth of thought.*" Defnyddioldeb a fynai fod yn amcan mawr pob dyn.

II. YR ALWAD UCHEL SYDD YN Y TESTYN ER EIN DWYN I GYDNABOD LLYWODRAETH YR ARGLWYDD—"ARGLWYDD Y LLUOEDD," AR Y CYFAN.

Yr oedd yr enw hwn ar y Goruchaf yn fynych dan yr Hen Oruchwyliaeth. Ceir ef ddim llai na phedair gwaith ar ddeg mewn un bennod yn mhroffwydoliaeth Zechariah. Arglwydd y *lluoedd*—y byddinoedd —y milwyr—y sawdwyr, &c.; ond "Duw yr heddwch" ydyw yn awr. "Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymerodd ymaith." Nid yw talent na dylanwad yn estyn oes neb. Rhaid i ni addef i ni gael ein siomi yn ein dysgwyliad am hyn. Pedwar mis yn ol gwelsom ef, ac yn ol yr olwg a gawsom arno y pryd hwnw, dysgwyliem iddo ddeng mlynedd o ddefnyddioldeb yn hwy yn y weinidogaeth. "Nid ein meddyliau ni yw meddyliau yr Arglwydd." Yr oedd ei ddiwrnod gwaith drosodd. Cafodd ei gymeryd adref heb ymddiosg, canys llyncwyd yr hyn oedd farwol gan fywyd.

Y mae yma addysg i ni oll am y priodoldeb o ymbarotoi. Y mae gan yr Annibynwyr gryn nifer o weinidogion o gylch yr un oedran, ac y mae hyn fel awgrymiad nad yw yr adeg yn mhell. Nid oes eisieu i ni ddysgwyl un math o ymsyniad er parotoi. Y mae y gwirionedd yn ein dysgu i gyfrif felly ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb. Cafodd Fletcher freuddwyd i ragflaenu ei farwolaeth; a gorchymynodd i'r cerfiwr dori ei fedd. Ysgrifenodd Mozart *Requiem* ei hun, gyda golwg ar ei farwolaeth. Tynodd Hogarth ei ddarlun "*Finis*" yn yr un golygiad. Mewn llythyr a dderbyniais oddiwrth ei fab, ddydd Sadwrn diweddaf, dywedai am dano—"Hunodd yn dawel nos Fawrth, tua naw o'r gloch. Yr oedd er's tro yn gwanychu, fel pren ag ambell ddeilen yn cwympo, yn arwydd fod gwywder yn dechreu; ond pan ddaeth y terfyn, hynod mor annysgwyliadwy oedd i'n teimladau. Dyna ffordd yr holl ddaear."

Nid oes a wnelom ni gymaint â cholliadau cyfeillion. Nid ydym heb allu rhedeg dros amryw amgylchiadau, ag nad ellid eu cymeradwyo; a phwy sydd heb ei ddiffygion? Os claddwyd hwy trwy faddeuant, y maent yn sicr o fyned i anghof. Y mae a wnelom ni fwy â rhagoriaethau nac â cholliadau dynion da. Os oedd eu rhinweddau yn gorbwyso, y mae yn hawdd iawn taflu mantell cariad drostynt.

Nid oes genym ond ffarwelio â'n hen gyfaill hyd fore mawr yr

adgyfodiad, ag y canodd ac y pregethodd mor effeithiol am dano. Wedi cyd-deithio ag ef fwy na neb arall—cyd-bregethu mwy, a chyd-ohebu mwy ag ef nac â neb arall, nid allwn lai na theimlo i'r byw ar yr amgylchiad; ond nid ydym yn tristâu fel rhai heb obaith ei weled mwy ar fryniau anfarwoldeb. Cafodd ei ran o drallodion byd, a phrofedigaethau ar y daith; ond cafodd ei gynnal mewn tawelwch. Llafuriodd lawer, ac anturiodd lawer fel golygydd ac awdwr; ac fel Joseph Harries, ar ei golled gyda *Seren Gomer*, gwnaeth yntau lawer aberth bydol wrth wasanaethu ei genhedlaeth, a digaregu y ffordd i eraill gael ad-daliad am lafur cyffelyb ar ei ol. Gofalodd rhagluniaeth ei Dad nefol am dano, er ei ddwyn dan dywyniadau haul llwyddiant a dedwyddwch, yn gystal a defnyddioldeb yn y Groes Wen a'r manau cysylltiedig.

Nid oes genym mwyach ond cyflwyno ei berthynasau yn ein gweddïau "i'r Arglwydd, ac i Air ei ras ef, yr hwn a all adeiladu ychwaneg, a rhoddi i ni etifeddiaeth yn mhlith yr holl rai a sant-eiddiwyd."

BALA: ARGRAFFWYD GAN H. EVANS.